

CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

Gwaith Dafydd y Coed
a beirdd eraill o Lyfr Coch Hergest

CANOLFAN UWCHEFRYDIAU
CYMREIG A CHELTAIDD
PRIFYSGOL CYMRU

CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

Cyfarwyddwr

Yr Athro Geraint H. Jenkins, BA, PHD, DLITT

Golygydd y Gyfres

Ann Parry Owen, BA, PHD

Cymrodyr Ymchwil

M. Paul Bryant-Quinn, STB, BA, MPhil

R. Iestyn Daniel, BA, PHD

Rhiannon Ifans, BA, PHD

Barry James Lewis, MA, MPhil

Owen Thomas, BA, LLB, MSt

Golygydd Ymgynghorol

Yr Athro Emeritws R. Geraint Gruffydd, BA, DPhil, DLITT, FBA

Bwrdd Golygyddol

Gareth A. Bevan, MA

Yr Athro Dafydd Johnston, BA, PHD

A. Cynfael Lake, MA, PHD

Peredur Lynch, BA, PHD

GWAITH DAFYDD Y COED
A BEIRDD ERAILL O LYFR
COCH HERGEST

golygwyd gan

R. IESTYN DANIEL



ABERYSTWYTH
CANOLFAN UWCHEFRYDIAU CYMREIG A CHELTAIDD
PRIFYSGOL CYMRU
2002

© Prifysgol Cymru ©, 2002.

Adargraffiad PDF gyda mân gywiriadau, 2023.

Cyhoeddir y gwaith hwn dan drwydded [CC BY-NC-SA 4.0](https://creativecommons.org/licenses/by-nc-sa/4.0/).



Am ymholiadau ynglŷn â hawliau atgynhyrchu eraill, cysyllter â'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HH.

Y mae cofnod catalogio'r llyfr hwn ar gael gan y Llyfrgell Brydeinig.

ISBN 0 947531 71 8

Cysodwyd gan staff Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru.

Cydnabyddir yn ddiolchgar gefnogaeth ariannol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant tuag at baratoi'r adargraffiad digidol hwn. Am wybodaeth bellach cysyllter ag Ann Parry Owen, apo@cymru.ac.uk.

Dull y golygu

Golygwyd gwaith Dafydd y Coed a'r beirdd eraill y ceir eu gwaith yn y gyfrol hon am y tro cyntaf gan G.C. Ballinger yn 'Astudiaeth o waith Casnodyn, Dafydd y Coed ac eraill yng nghyd-destun barddoniaeth y 14ddeg ganrif' (Ph.D. Cymru [Aberystwyth], 1991), lle y ceir cyfieithiad Saesneg o'r cerddi. Er fy mod yn cyflwyno golygiad newydd o'r cerddi yn y gyfrol hon, hoffwn gydnabod fy nyled i waith Dr Ballinger, a chyfeirir yn gyson at y gwaith hwnnw yn y nodiadau.

Testun Llyfr Coch Hergest (J 111) yw prif ffynhonnell yr holl gerddi ac y mae'r holl gopïau diweddarach ohonynt yn tarddu o'r llawysgrif hon, ac felly ni ddangosir darlenniadau amrywiol ohonynt. Os diwygir darlenniad yn y Llyfr Coch, dangosir y darlenniad gwreiddiol ar waelod y testun.

Cyflwynir y testun mewn orgraff Cymraeg Diweddar ac wedi ei briflythrennu a'i atalnodi. Diweddarwyd orgraff a sain geiriau, oni bai fod y gynghanedd yn gofyn am sain Gymraeg Canol (gw. GDG³ xlvii); er enghraifft, diweddarwyd *-aw-*, *-aw* yn *o* pan oedd angen (oni bai fod yr odl yn hawlio cadw'r *aw*) ac *-ei-*, *-ei* yn *ai*. Ond ni ddiweddarwyd ffurfiau Cymraeg Canol dilys megis *fal*, *no(g)*, *uddun* (sef 'iddynt'), *gwedy*, *ymy*, *yty* (sef 'imi', 'iti'), *wyd* (sef 'wyt'), *carud*, *cery*, &c.

Yn y Mynegeion ar ddiwedd gwaith pob bardd rhestrir pob gair a drafodir yn y nodiadau (nodir hynny ag 'n'); rhestrir hefyd rai geiriau dieithr, yn enwedig os nad ydynt yn ymddangos yn y *Geiriadur Mawr*, a hefyd eiriau arwyddocaol a rhai sy'n digwydd mewn ystyr wahanol i'r ystyr a roddir ar eu cyfer yno. Rhoddir llythyren fechan i bob enw cyffredin, er bod rhai enwau â phriflythyren yn y testun pan gyfeiriant at Dduw, Crist neu'r Drindod.

Diolchiadau

Cydnabyddir yn ddiolchgar gymorth y canlynol: Golygyddion a staff Geiriadur Prifysgol Cymru; staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth; y Bwrdd Golygyddol; Dr Ann Parry Owen, Golygydd y gyfres hon a'r Athro Emeritws R. Geraint Gruffudd, y Golygydd Ymgynghorol; Dr Marged Haycock, Mrs Glenys Howells, Mr Daniel Huws, Dr Hywel Wyn Owen, Yr Athro Emeritws Glanville Price a'r Athro Emeritws J. Beverley Smith.

Cynnwys

DULL Y GOLYGU	v
DIOLCHIADAU	vi
BYRFODDAU	
Llyfryddol	xi
Termau a Geiriau	xviii
GWAITH DAFYDD Y COED	
RHAGYMADRODD	3
TESTUN AC ARALLEIRIAD	
1. Moliant Rhydderch ab Ieuan Llwyd o Lyn Aeron	9
2. Moliant Gruffudd ap Llywelyn ab Ieuan o Forfa Bychan	13
3. Moliant Hopgyn ap Tomas o Ynysforgan	19
4. Awdl i'r Drindod	30
5. Awdl i Dduw	34
6. Englynion i Grist	40
7. Dychan i Ddafydd ap Rhys ab Ieuan	42
8. Dychan i Raeadr Gwy	45
9. Dychan i Siac ap Twm ap Cedi	47
10. Dychan i leidr	49
11. Dychan i dref Llanymddyfri ac i Gadwgan	51
NODIADAU	53
MYNEGAI	91
Enwau personau	100
Enwau lleoedd	101
GWAITH IEUAN LLWYD AB Y GARGAM	
RHAGYMADRODD	105
TESTUN AC ARALLEIRIAD	
12. Moliant Hopgyn ap Tomas o Ynysforgan	107
NODIADAU	113
MYNEGAI	117
Enwau personau	119
Enwau lleoedd	119

GWAITH MEURIG AB IORWERTH

RHAGYMADRODD.....	123
TESTUN AC ARALLEIRIAD	
13. Moliant Hopgyn ap Tomas o Ynysforgan.....	125
NODIADAU.....	131
MYNEGAI.....	135
Enwau personau.....	137
Enwau lleoedd.....	137

GWAITH Y PROLL

RHAGYMADRODD.....	141
TESTUN AC ARALLEIRIAD	
14. Moliant Tomas ap Hopgyn o Ynysforgan.....	145
NODIADAU.....	149
MYNEGAI.....	153
Enwau personau.....	155

GWAITH Y MAB CRYG

RHAGYMADRODD.....	159
TESTUN AC ARALLEIRIAD	
15. Dychan i leidr.....	163
16. Dychan i Riffri.....	166
17. Dychan i Ddafydd, ŵyr Meurig, a Maredudd.....	170
NODIADAU.....	173
MYNEGAI.....	183
Enwau personau.....	186
Enwau lleoedd.....	186

GWAITH TUDUR AP GWYN HAGR

RHAGYMADRODD.....	189
TESTUN AC ARALLEIRIAD	
18. Cwyn yn erbyn pla.....	191
19. Cwyn yn erbyn ymborth gwael.....	193
NODIADAU.....	195
MYNEGAI.....	197
Enw person.....	197

GWAITH TUDUR DDALL	
RHAGYMDRODD.....	201
TESTUN AC ARALLEIRIAD	
20. Dychan i neuadd Hywel	203
NODIADAU.....	205
MYNEGAI.....	207
Enw person.....	207
LLAWYSGRIFAU	209
MYNEGAI I'R LLINELLAU CYNTAF	211
MYNEGAI I'R NODDWYR A'R GWRTHRYCHAU	213

Byrfoddau

Llyfryddol

- ACDC G.C. Ballinger, 'Astudiaeth o waith Casnodyn, Dafydd y Coed ac eraill yng nghyd-destun barddoniaeth y 14ddeg ganrif' (Ph.D. Cymru [Aberystwyth], 1991)
- B *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd, 1921–93*
- P.C. Bartrum: WG1 P.C. Bartrum, *Welsh Genealogies AD 300–1400* (Cardiff, 1974)
- P.C. Bartrum: WG2 P.C. Bartrum, *Welsh Genealogies AD 1400–1500* (Aberystwyth, 1983)
- BL Add Llawysgrif Ychwanegol yng nghasgliad y Llyfrgell Brydeinig, Llundain
- BI BGCC *Blodeugerdd Barddas o Ganu Crefyddol Cynnar*, gol. Marged Haycock (Llandybie, 1994)
- BI B XIV *Blodeugerdd Barddas o'r Bedwaredd Ganrif ar Ddeg*, gol. Dafydd Johnston (Llandybie, 1989)
- BRh *Breudwyt Ronabwy*, gol. Melville Richards (Caerdydd, 1948)
- BT (RB) *Brut y Tywysogyon ... Red Book of Hergest Version*, ed. Thomas Jones (Cardiff, 1955)
- ByCy *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain, 1953)
- CA *Canu Aneirin*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1938)
- CAMBM *Catalogue of Additions to the Manuscripts in the British Museum*
- Card Llawysgrif yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd
- CLC² *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*, gol. Meic Stephens (ail arg., Caerdydd, 1997)

- CLIH *Canu Llywarch Hen*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1935)
- CO *Culhwch ac Olwen*, gol. Rachel Bromwich a D. Simon Evans (Caerdydd, 1988)
- CO³ *Culhwch ac Olwen*, gol. Rachel Bromwich a D. Simon Evans gyda chymorth D.H. Evans (Caerdydd, 1997)
- Cy *Y Cymmrodor, The Magazine of the Honourable Society of Cymmrodorion*, 1877–1951
- Cylchg LIGC *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 1939–
- ChO *Chwedlau Odo*, gol. Ifor Williams (Wrecsam, 1926)
- D *Dictionarium Duplex*, ed. John Davies (Londinium, 1632)
- Dat ‘Datguddiad Sant Ioan’ yn y Testament Newydd
- DGA *Selections from the Dafydd ap Gwilym Apocrypha*, ed. H. Fulton (Llandysul, 1996),
- DGIA H.M. Edwards, *Dafydd ap Gwilym: Influences and Analogues* (Oxford, 1996)
- D (Diar) ‘Y Diarhebion Cymraeg’ yn D.
- DN *The Poetical Works of Dafydd Nanmor*, ed. Thomas Roberts and Ifor Williams (Cardiff and London, 1923)
- L. Dwinn: HV *Heraldic Visitations of Wales*, gol. S.R. Meyrick (Llandovery, 1846)
- EANC R.J. Thomas, *Enwau Afonydd a Nentydd Cymru* (Caerdydd, 1938)
- EEW T.H. Parry-Williams, *The English Element in Welsh* (London, 1923)
- EWGT *Early Welsh Genealogical Tracts*, ed. P.C. Barturum (Cardiff, 1966)
- G *Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg*, gol. J. Lloyd-Jones (Caerdydd, 1931–63)

- GBDd *Gwaith Bleddyn Ddu*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 1994)
- GBF *Gwaith Bleddyn Fardd a Beirdd Eraill Ail Hanner y Drydedd Ganrif ar Ddeg*, gol. Rhian M. Andrews *et al.* (Caerdydd, 1996)
- GC *Gwaith Casnodyn*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 1999)
- GCBM i *Gwaith Cynddelw Brydydd Mawr*, i, gol. Nerys Ann Jones ac Ann Parry Owen (Caerdydd, 1991)
- GCBM ii *Gwaith Cynddelw Brydydd Mawr*, ii, gol. Nerys Ann Jones ac Ann Parry Owen (Caerdydd, 1995)
- GDB *Gwaith Dafydd Benfras ac Eraill o Feirdd Hanner Cyntaf y Drydedd Ganrif ar Ddeg*, gol. N.G. Costigan (Bosco) *et al.* (Caerdydd, 1995)
- GDG³ *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, gol. Thomas Parry (trydydd arg., Caerdydd, 1979)
- GDID *Gwaith Deio ab Ieuan Du a Gwilym ab Ieuan Hen*, gol. A. Eleri Davies (Caerdydd, 1992)
- GDLI *Gwaith Dafydd Llwyd o Fathafarn*, gol. W. Leslie Richards (Caerdydd, 1964)
- GGDT *Gwaith Gruffudd ap Dafydd ap Tudur, Gwilym Ddu o Arfon, Trahaearn Brydydd Mawr ac Iorwerth Beli*, gol. N.G. Costigan (Bosco) *et al.* (Aberystwyth, 1995)
- GGI² *Gwaith Guto'r Glyn*, gol. J. Llywelyn Williams ac Ifor Williams (ail arg., Caerdydd, 1961)
- GIG *Gwaith Iolo Goch*, gol. D.R. Johnston (Caerdydd, 1988)
- GGLI *Gwaith Gruffudd Llwyd a'r Llygliwiaid Eraill*, gol. Rhiannon Ifans (Aberystwyth, 2000)
- GHS *Gwaith Hywel Swrdwal a'i deulu*, gol. Dylan Foster Evans (Aberystwyth, 2000)
- GLGC *Gwaith Lewys Glyn Cothi*, gol. D.R. Johnston (Caerdydd, 1995)

- GLIBH *Gwaith Llywelyn Brydydd Hoddnant, Dafydd ap Gwilym, Hillyn ac eraill*, gol. Ann Parry Owen a Dylan Foster Evans (Aberystwyth, 1996)
- GLIF *Gwaith Llywelyn Fardd I ac Eraill o Feirdd y Ddeuddegfed Ganrif*, gol. Kathleen Anne Bramley *et al.* (Caerdydd, 1994)
- GLIG *Gwaith Llywelyn Goch ap Meurig Hen*, gol. Dafydd Johnston (Aberystwyth, 1998)
- GLILI *Gwaith Llywarch ap Llywelyn 'Prydydd y Moch'*, gol. Elin M. Jones (Caerdydd, 1989)
- GMB *Gwaith Meilyr Brydydd a'i Ddisgynyddion*, gol. J.E. Caerwyn Williams *et al.* (Caerdydd, 1994)
- GMW D. Simon Evans, *A Grammar of Middle Welsh* (Dublin, 1964)
- GO *L'oeuvre poétique de Gutun Owain*, ed. E. Bachellery (Paris, 1950–1)
- GPB *Gwaith Prydydd Breuan, Rhys ap Dafydd ab Einion, Hywel Ystorm, a cherddi dychan dienw o Lyfr Coch Hergest*, gol. Huw Meirion Edwards (Aberystwyth, 2000)
- GPC *Geiriadur Prifysgol Cymru* (Caerdydd, 1950–)
- GPHe *Gwaith Syr Phylib Emlyn, Syr Lewys Meudwy a Mastr Harri ap Hywel*, gol. M. Paul Bryant-Quinn (Aberystwyth, 2001)
- R.A. Griffiths: PW i Ralph A. Griffiths, *The Principality of Wales in the Later Middle Ages: i. South Wales 1277–1536* (Cardiff, 1972)
- GSCyf *Gwaith Dafydd Bach ap Madog Wladaidd 'Sypyn Cyfeiliog' a Llywelyn ab y Moel*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 1998)
- GSRh *Gwaith Sefnyn, Rhisierdyn, Gruffudd Fychan ap Gruffudd ab Edmyfed a Llywarch Bentwrch*, gol. Nerys Ann Jones ac Erwain Haf Rheinallt (Aberystwyth, 1995)
- GTP *Gwaith Tudur Penllyn ac Ieuan ap Tudur Penllyn*, gol. Thomas Roberts (Caerdydd, 1958)

- HG Cref *Hen Gerddi Crefyddol*, gol. H. Lewis (Caerdydd, 1931)
- HGK *Historia Gruffud vab Kenan*, gol. D. Simon Evans (Caerdydd, 1977)
- HMNLW *Handlist of Manuscripts in the National Library of Wales* (Aberystwyth, 1943–)
- IGE² *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill*, gol. Henry Lewis, Thomas Roberts ac Ifor Williams (ail arg., Caerdydd, 1937)
- J Llawysgrif yng nghasgliad Coleg Iesu, Rhydychen
- KAA² *Kedymdeithyas Amlyn ac Amic*, gol. P. Williams (Caerdydd, 1982)
- LBS S. Baring-Gould and J. Fisher, *The Lives of the British Saints* (4 vols., London, 1907–13)
- LIA *Llyvyr Agkyr Llandewivrevi, A.D. 1346*, ed. J. Morris-Jones and John Rhŷs (Oxford, 1894)
- LICy *Llên Cymru*, 1950–
- LIDC *Llyfr Du Caerfyrddin*, gol. A.O.H. Jarman (Caerdydd, 1982)
- LIGC Llawysgrif yng nghasgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- J.E. Lloyd: HW³ J.E. Lloyd, *A History of Wales* (third ed., London, 1939)
- Llst Llawysgrif yng nghasgliad Llanstephan, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- MA² *The Myvyrian Archaiology of Wales* (second ed., Denbigh, 1870)
- MCF Mynegai Cyfrifiadurol i Farddoniaeth, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth (rhoddir y dyddiad y codwyd yr wybodaeth)
- MED *Middle English Dictionary* (Ann Arbor, Michigan, 1954–)
- J. Morris-Jones: CD John Morris-Jones, *Cerdd Dafod* (Rhydychen, 1925)

- J. Morris-Jones: WS John Morris-Jones, *Welsh Syntax* (Cardiff, 1931)
- MWRL Catherine A. McKenna, *The Medieval Welsh Religious Lyric* (Belmont, Massachusetts, 1991).
- OBWV *The Oxford Book of Welsh Verse*, ed. Thomas Parry (Oxford, 1976)
- OCD³ *The Oxford Classical Dictionary*, ed. Simon Hornblower and Anthony Spawforth (third ed., Oxford, 1996)
- ODCC³ *The Oxford Dictionary of the Christian Church*, ed. F.L. Cross and E.A. Livingstone (third ed., London, 1997)
- OED² *The Oxford English Dictionary* (second ed., Oxford, 1989)
- Pen Llawysgrif yng nghasgliad Peniarth, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- P Tal *The Poems of Taliesin*, ed. Ifor Williams, English version by J.E. Caerwyn Williams (Dublin, 1968)
- R *The Poetry in the Red Book of Hergest*, ed. J. Gwenogvryn Evans (Llanbedrog, 1911)
- RB *The Text of the Bruts from the Red Book of Hergest*, ed. John Rhŷs and J. Gwenogvryn Evans (Oxford, 1890)
- RWM *Report on Manuscripts in the Welsh Language*, ed. J. Gwenogvryn Evans (London, 1898–1910); fe'i defnyddir hefyd i ddynodi rhif llawysgrif yng nghatalog J.G.E.
- TCHSDd *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych*, 1952–
- THSC *The Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*, 1892/3–
- TLIM G.J. Williams, *Traddodiad Llenyddol Morgannwg* (Caerdydd, 1948)
- TR *Antiquae Linguae Britannicae Thesaurus ... Welsh-English Dictionary*, ed. Thomas Richards (Bristol, 1753)

- Treigladau T.J. Morgan, *Y Treigladau a'u Cystrawen* (Caerdydd, 1952)
- TYP² *Trioedd Ynys Prydein*, ed. Rachel Bromwich (second ed., Cardiff, 1978)
- WATU Melville Richards, *Welsh Administrative and Territorial Units* (Cardiff, 1969)
- WCD P.C. Bartrum, *A Welsh Classical Dictionary: People in History and Legend up to about A.D. 1000* (Aberystwyth, 1993)
- WG J. Morris Jones, *A Welsh Grammar* (Oxford, 1913)
- YE *Ymborth yr Enaid*, gol. R. Iestyn Daniel (Caerdydd, 1995)
- YSG *Ystoryaeu Seint Greal*, gol. Thomas Jones (Caerdydd, 1992)
- ZCP *Zeitschrift für celtische Philologie*, 1896–

Termau a geiriau

a.	ansoddair, -eiriol	<i>fl.</i>	<i>floruit</i>
adf.	adferf	ff.	ffolios
amhff.	amherffaith	Ffr.	Ffrangeg
amhrs.	amhersonol	g.	(c.) canrif
anh.	anhysbys	g.	gwrywaidd
ardd.	arddodiad, -iaid	gn.	geiryng
arg.	argraffiad	gol.	golygydd gan
<i>art.cit.</i>	<i>articulo citato</i>	grch.	gorchymynnol
b.	benywaidd	grff.	gorffennol
ba.	berf anghyflawn	gthg.	gwrthgyferbynier, -iol
be.	berfenw	gw.	gweler
bf. (f.)	berf, -au	Gwydd.	Gwyddeleg
bg.	berf gyflawn	H.	Hen
bg.a.	berf gyflawn ac anghyflawn	<i>ib.</i>	<i>ibidem</i>
		<i>id.</i>	<i>idem</i>
c.	<i>circa</i>	<i>l.c.</i>	<i>loco citato</i>
c. (g.)	canrif	ll.	lluosog; llinell
c.	cyffredin	Llad.	Lladin
C.	Canol	llau.	llinellau
cf.	cymharer	llsgr.	llawysgrif
cfrt.	gradd gyfartal	llsgrau.	llawysgrifau
Clt.	Celteg, Celtaidd	m.	mewnol
cmhr.	cymharol	myn.	mynegol
cpl.	cyplad	n.	nodyn
Cym.	Cymraeg	neg.	negydd, -ol
cys.	cysylltair, cysylltiad	<i>ob.</i>	<i>obiit</i>
d.g.	dan y gair	<i>op.cit.</i>	<i>opere citato</i>
dib.	dibynnol	pres.	presennol
Diw.	Diweddar	prff.	perffaith
dyf.	dyfodol	prs.	person, -ol
e.	enw	pth.	perthynol
eb.	enw benywaidd	r	<i>recto</i>
ebd.	ebychiad	rh.	rhagenw, -ol
ed.	<i>edited by, edition</i>	S.	Saesneg
e.e.	er enghraifft	<i>s.n.</i>	<i>sub nomine</i>
eg.	enw gwrywaidd	td.	tudalen
eith.	eithaf	tt.	tudalennau
e.p.	enw priod	un.	unigol
<i>et al.</i>	<i>et alii</i>	v	<i>verso</i>
<i>ex inf.</i>	<i>ex informatione</i>	vols.	volumes
f.	ffolio		

GWAITH DAFYDD Y COED

Rhagymadrodd

Bywyd y Bardd

Yn llawysgrif LIGC Gorfod 7, xix, dan achau 'Edwin Prince of Tegengle' 8 (L 1810), nodir gŵr o'r enw *David y Coed* yn un o frodyr Margred, gwraig Dafydd Llwyd ap Llywelyn ap Gruffudd, sef 'Dafydd Llwyd o Fathafarn'.¹ Ni sonnir amdano yng ngwaith Bartrum,² ond p'un a oedd gan Fargred frawd o'r enw ai peidio, rhy ddiweddar ydyw i'w uniaethu â'r bardd.³ Cyfeiria Dafydd y Coed ato'i hun fel [*p*]rydydd rhwydd ... o hil Arawdr (4.12), a dehonglir *arawdr* yma gan Lloyd-Jones yn enw cyffredin yn golygu 'areithiwr'.⁴ Fodd bynnag, ceir y ffurfiau *arawdr* / *arawd* / *arod*⁵ fel enw personol hefyd, a gellir dadlau, felly, mai cyfeiriad achyddol, yn hytrach, sydd yma. Dyna, yn wir, sydd hawsaf ei gredu gan mai peth cyffredin yng nghanu'r cyfnod yw cael enw personol yn dilyn y gair *hil*, tra mai eithriadol yw sôn am fardd fel un o hil 'areithiwr', a dyma'r unig enghraifft o'r gair yn yr ystyr honno a nodir gan Lloyd-Jones a Geiriadur Prifysgol Cymru.⁶ Ymysg hen lwythau Gwynedd a'r Mars enwir Arawdr, tad Rhiwallon a chyndaidd i Ririd Flaidd o lwyth Penllyn,⁷ ond gan fod cerddi Dafydd y Coed yn gysylltiedig â phobl a lleoedd yng Nghanolbarth a De Cymru, y mae'n haws credu nad disgynnydd i'r Arawdr hwn ydoedd. Ceir Arod ab Owain ap Rhydderch Ddu o lwyth Rhydderch Ddu, sir Gaerfyrddin, a oedd â gorwyr o'r enw Dafydd a berthynai i'r nawfed genhedlaeth, a anwyd yn ôl Bartrum tua 1300.⁸ O ran lleoliad, y mae'r Dafydd hwn yn taro'n dda, ac o ystwytho ychydig ar ffrâm amseryddol fras Bartrum, gellid ei ddwyn yn ddigon pell i mewn i'r bedwaredd ganrif ar ddeg i'w uniaethu â Dafydd y Coed. Ceir hefyd Arod ab Owain ap Gruffudd o'r bedwaredd genhedlaeth (ganwyd c. 1130) a'i wŷr, Arod ab Owain, o'r chweched genhedlaeth (ganwyd c. 1200), ill dau o lwyth Rhys ap Tewdwr, Brenin Deheubarth,⁹ ond ni nodir unrhyw ddisgynnydd iddynt o'r enw

¹ Ceir achau Margred yn P.C. Bartrum: WG2 'Llowdden' 4(B). Ar achau Dafydd Llwyd, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Seisyll' 3; L. Dwnn: HV i, 296.

² Sef P.C. Bartrum: WG2 'Llowdden' 4(B).

³ Dywedir, *l.c.*, fod Margred yn perthyn i'r drydedd genhedlaeth ar ddeg a anwyd, yn ôl Bartrum, tua 1430.

⁴ G 35.

⁵ Ar yr amrywiol ffurfiau, gw. GPC d.g. *arawd*.

⁶ GPC 177. Tybed na ddylid ei deall i gynrychioli *arawdr* 'araith, gweddi', &c. (h.y., fel e.prs.)?

⁷ EWGT 119.

⁸ P.C. Bartrum: WG1 'Rhydderch Ddu' 1.

⁹ *Ib.* 'Rhys ap Tewdwr' 2.

Dafydd. Yn olaf, dylid nodi bod cyfeiriad at *wr o'r enw Ieuan dv ap dd. y koet*, un o denantiaid *grange* Hafodwen a berthynai i fynachlog Ystrad Fflur, yn un o'r ysgriflechi a ddarganfuwyd yn adfeilion y fynachlog. Yng ngeiriau E.D. Jones, a gredai fod yr ysgriflech yn perthyn i'r cyfnod 1470–80,¹⁰ 'Y mae enw Ieuan Du ap Dafydd y Coed yn ein hatgoffa am y Gogynfardd, ond yr oedd mwy nag un Coed, ac ofnaf fod y bwlech rhwng y llech hon a'r bedwaredd ganrif ar ddeg yn ormod i un genhedlaeth ei lanw.'¹¹ Eto i gyd, y mae'r cyfeiriad yn ddi-ddorol gan fod awdl y bardd i Rydderch ab Ieuan Llwyd (cerdd 1) yn tystio i'r bardd ganu i *wr a drigai yn yn ardal honno yng Ngheredigion*.¹²

Yr hyn y gellir ei gasglu oddi wrth y dystiolaeth uchod yw fod Dafydd y Coed efallai i'w uniaethu â Dafydd, gorwyr Arod ab Owain ap Rhydderch Ddu o lwyth Rhydderch Ddu, sir Gaerfyrddin, a boed a fo am hynny, ei bod yn deg tybio, ar sail ei gerddi, ei fod yn hanu o rywle yng nghanolbarth neu dde Cymru.

Dysgw'n rywffaint am symudiadau Dafydd y Coed o'i gerddi. Canodd gerddi mawl i Rydderch ab Ieuan Llwyd o Lyn Aeron (cerdd 1), Gruffudd ap Llywelyn ab Ieuan o Forfa Bychan (cerdd 2), a Hopgyn ap Tomas o Ynysforgan (cerdd 3), a cherddi dychan i Raeadr Gwy (cerdd 8) ac i Llanymddyfri a rhyw Gadwgan (cerdd 11).

Yn ei gerddi dychan ceir golwg ar rai o droeon ei fywyd. Yn ei gerdd ddychan i Ddafydd ap Rhys ab Ieuan (cerdd 7) cais roi melltith farwol ar offeiriad a oedd yn grintach tuag at feirdd; wrth ddychanu Rhaeadr Gwy (cerdd 8) dymuna ddinistr i'r dref am i rai o'r trigolion geisio ei ladd; yn ei gerdd ddychan i Siac ap Twm ap Cedi (cerdd 9) cwyna am gollod ariannol a ddiodefodd gan usuriwr; yn ei ddychan i leidr (cerdd 10) cawn ef yn dymuno'r crocbren i rywun a oedd wedi dwyn rhai o'i wartheg; ac yn ei ddychan i dref Llanymddyfri ac i Gadwgan¹³ (cerdd 11), anoga'r bardd ei hun i ffoi o'r dref honno a ddisgrifir ganddo fel *brithle brwnt* (11.3), ac â ati i ddilorni rhyw *wr o'r enw Cadwgan* a oedd, gellir tybio, yn gydnabod iddo.

O ran pennu dyddiadau'r bardd, sylwer yn gyntaf fod ei holl gerddi i'w cael yn Llyfr Coch Hergest, a ddyddir tua 1400, ac o'r herwydd ni all yr un ohonynt fod wedi ei chyfansoddi yn ddiweddarach na hynny. Anodd, fodd bynnag, yw dweud dim mwy pendant na hyn. Dichon iddo ganu ei awdl i Ruffudd ap Llywelyn ab Ieuan o Forfa Bychan (cerdd 2) rywbyrd wedi canol y bedwaredd ganrif ar ddeg a'i gerdd i Rydderch ab Ieuan Llwyd

¹⁰ E.D. Jones, 'Ysgriflechi Cymraeg Ystrad Fflur', *LICy* i (1950–1), 4.

¹¹ *Ib.* 3.

¹² Yn ôl P.C. Bartrum: WG1 'Rhydderch Ddu' i, enw mab Dafydd, gorwyr Arod ab Owain ap Rhydderch Ddu (gw. uchod) oedd Llywelyn Fongam.

¹³ Ar gwestiwn unoliaeth y gerdd hon, gw. y sylwadau rhagarweiniol arni isod.

(cerdd 1) ryw bryd rhwng 1382 a c. 1398.¹⁴ Gellir doddi cyfnod ei flodau yn hyderus, felly, yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar ddeg.¹⁵

Ynglŷn ag arwyddocâd y geiriau 'y Coed' sy'n dilyn enw'r bardd, dichon ei fod yn dynodi rhyw goedlan neu goedwig neilltuol lle y trigai.¹⁶ Cymharer, er enghraifft, yr enw Guto'r Glyn.

Ni welwyd unrhyw gyfeiriadau at y bardd ac eithrio yn ei gerddi.

Ei waith

Y mae ar gadw un ar ddeg o gerddi y credir eu bod yn waith dilys Dafydd y Coed: tair awdl foliant (cerddi 1–3), dwy awdl grefyddol (cerddi 4–5), cyfres o englynion crefyddol (cerdd 6) a phum cyfres o englynion dychan (cerddi 7–10, 11). Cynhwysant gyfanswm o 492 o linellau.

Ar sail y ffaith nad oes ond awdlau ac englynion o'i waith wedi goroesi, y mae'n gyfleus meddwl am Ddafydd y Coed fel bardd traddodiadol yn ei hanfod ac un o'r Gogynfeirdd olaf. Serch hynny, y mae ei gerddi at ei gilydd yn llai cymhleth a thrymaidd na chynnyrch rhai o'i gyfoeswyr o blith y Gogynfeirdd diweddar, megis Casnodyn, a hawdd y gellid credu bod a fynno hyn ryw beth â dylanwad y cywydd,¹⁷ y greadigaeth newydd honno a gydredai â'r awdl nes ei disodli fel prif gyfrwng mynegiant barddonol. Y mae Dafydd y Coed hefyd, fel y dywed Dr Geoffrey Ballinger wrth sôn am ei awdlau, yn 'llawer mwy plwyfol ond, i raddau ... hefyd yn fwy personol ... fel petai safle'r bardd yn y gymdeithas yn fwy diogel nag yn y dyddiau gynt ac ni wêl ... reswm dros bledio achos y beirdd traddodiadol nac ychwaith ladd ar y "glêr ofer" er mwyn honni rhyw gredo farddol'.¹⁸ Y mae ei grefft yn gwbl sicr a'i arddull yn fywiog heb iddi unrhyw gelfyddydrydd sych. Dyma fardd diddorol, amrywiol ei ganu ac uchel ei safon.

O'r tair awdl foliant y mae'r un i Hopgyn ap Tomas o Ynysforgan (cerdd 3) yn bur nodedig o ran ei hyd a'i brwdfrydedd. Nodir ynddi mewn modd cofiadwy y llyfrau a oedd ganddo yn ei lys, sef ... y *Lusidarius*, / *A'r Greal a'r Yniales*, / *A grym pob cyfraith a'i gras* (3.94–6).¹⁹ Trawiadol hefyd yw moliant y bardd i Rydderch ab Ieuan Llwyd (cerdd 1) gyda mesur trwm ac anamrywiol y gyhydedd naw ban yn cyfleu hoffter a pharch dwfn at y gwrthrych.

¹⁴ Gw. sylwadau rhagarweiniol y ddwy gerdd.

¹⁵ Rhoddir iddo'r dyddiad '1380' yn yr adran ar awduron Brytaneg a'u dyddiadau tua diwedd D. Yn WG xx dywedir ei fod yn canu tua 1330, ac yn GMW xxviii tua 1380.

¹⁶ Sylwyd hefyd ar un Hywel y Coed ap Llywelyn o lwyth Bledwyn ap Maenyrch ac o'r unfed genhedlaeth ar ddeg (g. c. 1370), gw. P.C. Bartrum: WG1 'Bledwyn ap Maenyrch' 19.

¹⁷ Cf. yr hyn a ddywed D.R. Johnson am waith Llywelyn Goch ap Meurig Hen yn 'Awdl Llywelyn Goch i Rydderch a Llywelyn Fychan', B xxxv (1988), 20–8.

¹⁸ ACDC 55.

¹⁹ Gw. hefyd 3.94–6n.

O'r tair cerdd grefyddol, braidd yn gonfensiynol a dieneiniad yw'r awdl i'r Drindod (cerdd 4) a pherthyn mwy o hynodrwydd ac ysbryd defosiwn i'r awdl i Dduw (cerdd 5). Syml ac ystrydebol ddigon yw'r gyfres englynion i Grist (cerdd 6) lle y gresynir at anniolgarwch dynion tuag at Grist am eu gwaredu.

Amrywiol a chofiadwy yw'r cerddi dychan a rhoddant inni gipolwg ar agweddau mwy diarffordd, ond nid llai real, bywyd y cyfnod. Camau a gawsai'r bardd gan rywrai a ysgogodd eu canu a cheir cerddi tebyg iddynt yng ngweddill corff cerddi dychan y bedwaredd ganrif ar ddeg a'r bymthegfed ganrif. Y mae llinell gyntaf y gerdd i'r offeiriad crintachlyd Dafydd ap Rhys ab Ieuan, *Gwnaf drwy nod anghlod â'm englyn—yn farw* (7.1), yn dwyn ar gof y stori adnabyddus am effaith dychangerdd Dafydd ap Gwilym i Rys Meigen, a thrawiadol yw ei ddisgrifiad byw o'r *rhaeadr*, sef ffynnon yn nhref Rhaeadr Gwy, fel *Rhaeadr oergri cadr ar grwcedau—bach, / Bychin geiniog werthau* (8.1–2).

O ran crefft, defnyddia Dafydd y Coed y mesurau canlynol yn y cerddi a gadwyd: cyhydedd naw ban, cyhydedd hir, rhupunt, englyn unodl union, ac englyn proest o bedair neu chwe llinell. Y mae'r englyn proest chwe llinell yn un o nodweddion mydryddol mwy amlwg ei waith. O'r cynganeddion, y gynghanedd sain sydd fwyaf niferus, a honno'n aml yn gyfoethog gyda'r ddau draean olaf yn cytseinio'n llawn, megis yn achos gwaith y Gogynfeirdd diweddar yn gyffredinol; ceir ambell gynghanedd bengoll, a gwneir cryn ddefnydd o gymeriad llythrennol a chynganeddol.

Nodwedd anghyffredin ar grefft Dafydd y Coed, o'i chymharu â gwaith y Gogynfeirdd yn gyffredinol, yw'r ffordd y bydd weithiau'n amrywio cynghanedd yn annisgwyl, os nad yn swta. Yn ei gerdd foliant i Rydderch ab Ieuan Llwyd o Lyn Aeron (cerdd 1), er enghraifft, ceir yn gyntaf 32 llinell o gynghanedd sain ac yna wyth o gynganeddion cytsain hyd y diwedd. Ym 'Moliant Gruffudd ap Llywelyn ab Ieuan o Forfa Bychan' (cerdd 2) dilynir englyn proest sy'n cynnwys tair cynghanedd groes ac un lusg (2.15–18) gan englyn proest arall sy'n cynnwys pedair cynghanedd draws fantach (2.19–22). Ac yn ei 'Awdl i Dduw' (cerdd 5), ar ôl 29 llinell yn cynnwys cynganeddion sain, traws, a chroes, ceir 14 llinell o gynghanedd gytsain (traws yn bennaf oll).

Ceir digon o arwyddion fod Dafydd y Coed, fel Casnodyn o'i flaen,²⁰ yn prisio Cymreictod dilychwin a'i fod yn wrth-Seisnig. Felly y mae Gruffudd ap Llywelyn ab Ieuan o Forfa Bychan yn *Drafn diddig di-Seisnig doeth* (2.38), yn *garw diestrrawn* sy'n gyfarwydd â *distryw Eingl* (2.50), yn *Dewr, cain, gwell no thrugeinSais* (2.17) ac yn *Un cymurth Lloegrblaid* (2.60), a gweithredodd *Er anfodd Eingl Llundain* (2.40). Disgrifir Hopgyn ap Tomas, yntau, fel *Dwys oesenw agwrdd, di-Saesnegaidd* (3.134).

²⁰ Gw. GC 6, 1.20n.

Y llawysgrifau

Ceir y cwbl o waith dilys Dafydd y Coed sydd ar gadw yn J 111, ‘Llyfr Coch Hergest’, llawysgrif a ysgrifennwyd c. 1400.²¹ Digwydd y cerddi yng ngholofnau 1303–5 (llaw Hywel Fychan), 1330 (llaw ‘Pen 32’), 1359–61b (llaw ‘Pen 32’²²) a 1375–9 (llaw ‘Pen 32’). Testun y llawysgrif hon yw ffynhonnell uniongyrchol neu anuniongyrchol yr holl destunau diweddarach o’r cerddi.

*Dilysrwydd y cerddi**Ar chwech ar hugain iach wydd, mawl trechaf*²³

Y mae’r englyn hwn i’r brenin Edward III yn rhan o gyfres hir o englynion unodl union a briodolir i amrywiol awduron ac yn coffáu coroni pob brenin a brenhines yn Lloegr rhwng y blynyddoedd 1067 a 1558. Fe’i priodolir yn y chwe llawysgrif sy’n ei gynnwys i Ddafydd Bach ap Madog Wladaidd ‘Sypyn Cyfeiliog’, bardd a uniaethir weithiau â Dafydd y Coed, ond y mae’n amlwg i’r gadwyn gael ei chyfansoddi yn 1558 neu’n fuan wedi hynny.²⁴

*Clywais aran a lefai ym mhorth*²⁵

Y mae’r englyn tair llinell hwn yn ddiennw yn Pen 119 (c. 1700), ond mewn llawysgrif ddiweddarach, sef BL Add 15001 (cyn 1792), daw yn union ar ôl y pennill *Ffo a wna’r Bedo oer Badell / ddrewson* (gw. isod), sy’n dilyn yn ei dro rai o gerddi dychan Dafydd y Coed. Fodd bynnag, pur anghelfydd ac annodweddiadol o waith Dafydd yw’r englyn a’r pennill fel ei gilydd.

*Ffo a wna’r Bedo oer Badell / ddrewson*²⁶

Fel y gerdd *Clywais aran* ... (uchod), y mae’r pennill chwe llinell hwn yn ddiennw yn Pen 119 ond yn dilyn rhai o gerddi dychan Dafydd y Coed yn BL Add 15001 a LIGC 21876. Ymddengys mai yn fath o englyn chwe llinell y’i bwriadwyd ond y mae’r odlau a hyd y llinellau yn afreolaidd. Dichon mai oherwydd bod ynddo ychydig adleisiau geiriol o gerddi dychan Dafydd y’i cynhwyswyd gyda’i gerddi dilys.

²¹ G. Charles-Edwards, *art.cit.* 246–56.

²² Yn ôl G. Charles-Edwards, ‘The Scribes of the Red Book of Hergest’, Cylchg LIGC xxi (1979–80), 56, y mae 1358.26–1361 yn llawiau ‘Pen 32’ a Hywel Fychan a 1361.7–14 yn sicr yn llaw ‘Pen 32’. Dilynir, er hynny, farn Daniel Huws mai’r un llaw, sef llaw ‘Pen 32’, piau’r colofnau hyn (gwybodaeth bersonol).

²³ Dyfynnir o BL Add 14979, 207’.

²⁴ Gw. hefyd GBDd 11.

²⁵ Dyfynnir o Pen 119, 99.

²⁶ Dyfynnir o Pen 119, 100.

*Gbynt tan awyr llŷr llaŷr daearva mŷn*²⁷

Ceir yr englyn hwn ar frig colofn 1330 o Lyfr Coch Hergest ar ôl bwlech helaeth yn y golofn flaenorol sy'n cynnwys gwaith gan Ruffudd ap Maredudd, ac yn nifyg unrhyw dystiolaeth i'r gwrthwyneb fe'i cyfrifir yn waith y bardd hwnnw. Fodd bynnag, mewn dwy lawysgrif, sef LIGC 168C, 154, a LIGC 6967B, 206, fe'i priodolir i Ddafydd y Coed gan ei gysylltu, bid sicr, â'r pedwar englyn gan Ddafydd y Coed sy'n ei ddilyn yn y Llyfr Coch (gw. isod ar ddilysrwydd *Rhy fychan*, *Grist loywlan Lyw*).

*Pymtheg pedwar teg myn Tydain (vwch cant)*²⁸

Englyn i'r brenin Harri II ac aelod arall o'r gadwyn englynion y cyfeiriwyd ati uchod (*Ar chwech ar hugain ...*).

Rhy fychan, *Grist loywlan Lyw* (cerdd 6)

Ceir y pedwar englyn hyn yng ngholofn 1330 o Lyfr Coch Hergest ac fe'u rhagflaenir gan briodoliad i Ddafydd y Coed mewn llythrennau braidd yn fân na sylwodd Gwenogvryn Evans arnynt yn R.²⁹ Dilynant englyn gan Ruffudd ap Maredudd sy'n dechrau *Gbynt tan awyr llŷr llaŷr daearva mŷn*. Mewn llawysgrifau diweddarach cyplyswyd y ddwy gerdd hyn gan eu gadael yn ddiennw neu eu priodoli i Ruffudd ap Maredudd.³⁰ Priodolir y cyfan gan Gwenogvryn Evans i Ddafydd y Coed,³¹ ond nid yw'n eglur paham. Efallai fod a fynno'i farn rywbeth â'r ffaith bod englyn Gruffudd ap Maredudd, mewn dwy lawysgrif (gw. uchod), yn cael ei briodoli i Ddafydd y Coed a bod yr englyn olaf yn digwydd hefyd gan Ddafydd yn 5.49–52.³² (Trafodir hyn ymhellach yn sylwadau rhagarweiniol cerddi 5 a 6.)

²⁷ R 1330.1–18.

²⁸ Dyfynnir o BL Add 14979, 206^v.

²⁹ Digwyddant ar l. 4 o'r golofn a dilynant eiriau olaf, sydd ar yr un ll., y gerdd flaenorol Ymddengys mai bwriad y copiwr oedd ysgrifennu'r priodoliad eto, mewn llythrennau mwy o faint, yn y bwlech rhwng diwedd y gerdd honno a dechrau cerdd Dafydd y Coed ond iddo, am ryw reswm, beidio â gwneud hynny.

³⁰ Yn llsg. Ll 145, 41^v [= rhif 120] croeswyd allan y pennill olaf ynghyd â'r priodoliad i Ruffudd ap Maredudd sy'n ei ddilyn.

³¹ RWM ii, 22; fe'i dilynir gan ACDC 546.

³² Yn OBWV 52–3 (cerdd 39) printiwyd y ddwy gerdd fel gwaith Gruffudd ap Maredudd eithr gan hepgor yr englyn hwn.

Moliant Rhydderch ab Ieuan Llwyd o Lyn Aeron

- Mab Ieuan Llwyd, eirian llew dewredd,
 Yng ngwinllys o'i emys ni omedd;
 Bryd uthrddrud, em golud, amgeledd,
 4 Baedd brwydrchwant, balch fwyniant beilch fonedd,
 Braisg hirlaif, bron hynaif brenhinedd,
 Rhull Garwy rhaid gofwy rhad gyfedd,
 Rhwyll Arthur, rhwydd lwysfur, rhodd lasfedd,
 8 Hail fyrddged, hawl gwared hwyl gwiredd,
 Hardd gariad, Cai oesgad, Caw osgedd,
 Hil Einiawn, glud uniawn, glod annedd,
 Fab Gwallter, ni fylcher ei falchedd!
 12 Croyw Rydderch, pab geirserch pob gorsedd,
 Cryf Selyf gwiw hoywdyf gyhydedd,
 Crair geirgall da ddyall diddyedd
 C'redigion, ail Meirion, elw mawredd,
 16 Enw clodfawr, un aesawr ynysedd,
 Dilaestof da lwysgof dilesgedd,
 Drud ddyrnawd, mael dignawd, mawl dognedd,
 Drafn amlblaid, mawr enaid marannedd,
 20 Draws gynghrair, anghablair yng nghwbledd,
 Durfriw fron, annhirion yn nhaerredd,
 Dull Bedwyr, deg eryr digaredd,
 Dwf Rholant, enw mwyniant anmynedd,
 24 Dewr gynnwrf, cad aml-lwrf, ced amledd,
 Diruthrdarf, mur durarf, mawr diredd,
 Udd gampau, iôn rhadau enrhydedd,
 Annwyd Lŷr, anghysyr yng nghasedd,
 28 Gwawr faelwr, gwir filwr, gorfoledd,
 Glân eryr, aur clerwyr, ŵr claerwedd,
 Glyn Aeron da ddragon diddrygedd.
 Gŵyr Rhydderch eneitserch anwytsedd
 32 Ein heuraw a'n hurddaw, enw harddedd,
 A'n dysgu (nid ysgyg o'i drosedd),
 A'n puro a'n breisgo i'n brwysgedd,
 Aig eurbarch, ac arbed pob salwedd
 36 O'i giried, ac euro trychanwledd
 Ac eiriach rhy garu dim serthedd

40 O'i gyrbwyll, ac erbyn clêr Wynedd,
 Ac arail y geirau cymrodedd,
 Ac aros mal Geraint yng ngwnedd,
 A gorfod ag aerfin fflamddurgledd.

Ffynonellau

A—BL Add 15001, 227^r B—Card 4.140, 642 C—J 111, 1305 D—LIGC 4973B, 325^v E—Llst 147, 193 F—Pen 118, 229

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif C, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl llawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 209–10)

Darlleniadau'r llawysgrif

7 lóysuud. 18 di gna6t. 19 maraned. 21 Dur vri6. 24 yml6ryt. 27 ann6ytlyr. 33 ysgyt.

Moliant Rhydderch ab Ieuan Llwyd o Lyn Aeron

- Mab Ieuan Llwyd, gwron disglair [mewn] dewrder,
 Mewn llys llawn gwin nid yw'n gwahardd ei feirch;
 Natur aruthr wrol, trysor golud[og], ymgeledd,
 4 Baedd chwannog i ymladd, lles gwyh [o] dras gwŷr urddasol,
 [Un â] gwaywffon hir braff, [a] chalon hynafiaid brenhinoedd,
 Hael yw[’r un fel] Garwy [y mae’n] rhaid ymweld â[’i] wledd
 raslon,
 Arthur [mewn] maelwisg, amddiffynnwr hardd [a] hael, medd
 ffres [ei] rodd,
 8 Gwasanaeth[wr] saig, myn gynnal hynt cywirdeb,
 Hardd [ei] gariad, [ymladdwr] brwydr faith [megis] Cai, [â]
 golwg Caw,
 [O] hil Einion, dyfal [ac] uniawn, [preswlydd] trigfan glodfawr,
 Fab Gwallter, na foed i’w ogoniant gael ei leihau!
 12 Rhydderch disglair, pennaeth serchus ei air pob brawdle,
 Selyf cryf [sy’n dangos] tegwch [barn] hardd ei ffyniant [a]
 gwiw,
 Trysor doeth ei air, da [ei] ddeall [a] heddychlon
 Ceredigion, tebyg i Feirion, [a’i] fudd [yn] odidowgrwydd,
 16 Enw clodfawr, tarian digyffelyb [yr] ynysoedd,
 Un eofn [a chanddo] feddwl hardd [a] da heb lesgedd,
 [Un sy’n rhoi] ergyd arw, arglwydd ffyrnig, mawl yw [ei]
 gyflawnder,
 Arglwydd niferus ei fintai, enaid mawr [a chanddo] oludoedd,
 20 Cadarn [ei] gytundeb, di-fai mewn perffeithrwydd,
 [Â] chalon [sy’n peri] archoll [â] dur, anfwyn yn angerdd [y gad],
 [Â] dull Bedwyr, eryr hardd [a] di-nam,
 [Â] chynnydd Rholant, [ac iddo] enw [am] arfer amynedd,
 24 Cyffro dewr, aml ei lwybr [mewn] brwydr, [gŵr â]
 helaethrwydd o roddion,
 Un nad atelir ei ruthr, amddiffynnwr [a chanddo] arf ddur,
 [perchen] tiroedd eang,
 [A chanddo] rinweddau pennaeth, arglwydd rhoddion
 anrhydedd,
 Anian Llŷr, di-ofn mewn ffyrnigrwydd,
 28 Pennaeth o arglwydd, gwir filwr, [testun] gorfoledd,
 Eryr teg, [rhoddwr] aur [i] feirdd, gŵr gwyh,
 Gwron da [a] di-fai Glyn Aeron.
 Cyfarwydd yw Rhydderch serchus ei enaid [â] sedd deilwng o’i
 anianawd
 32 Â’n cyfoethogi ag aur a’n hanrhydeddu, [gŵr o] harddwch [sy’n
 destun] clod,

A'n dysgu (nid yw'n syflyd o'i ragoriaeth),
A'n puro a'n cryfhau yn ein bywiogrwydd,
Torf ragorol ei hanrhydedd, ac osgoi pob nychdod
36 Trwy ei haelioni, ac anrhydeddu tri chan gwledd
Ac osgoi caru'n ormodol unrhyw serthedd
Trwy grybwyll hynny, a chroesawu beirdd Gwynedd,
A meithrin y geiriau cymodlon,
40 A sefyll fel Geraint mewn brwydr,
A gorchfygu â chledd fflamlyd ei lafn [a] llym mewn rhyfel.

Moliant Gruffudd ap Llywelyn ab Ieuan o Forfa Bychan

- 4 Ceredigion walch balch bylchron,
Cryfdrafn clotgar rhwysg barwn
Yw llathr Ruffudd, law Nudd lân,
Llew olwg, fab Llywelyn;
Llawchlu eryr llewychlin,
Llwyddiant holl wyrion Llawdden.
- 8 Wyrion Llawdden ben, beunydd—y dyry
Yn dirion, ail Mechydd,
Aur i'r glêr ger merwerydd
A medd gwledd gloyw, fy hoyw hydd.
- 12 Teŷrniaidd, lluniaidd, llonydd—a gloywdeg
Yw gwledig Mefenydd,
Trech no'i gas, fawr ei ras fydd,
Trychdrin ddiodwin ddedwydd.
- 16 Dedwydd, dieiddil, dilaes,
Dynion gynnydd, dawn gynnwys,
Dewr, cain, gwell no thrugeinSais,
Diwg yw fydd deg ei foes.
- 20 Ei foes yw rhoi i bawb ei fudd,
Ei feirdd, cânt ei win a'i fedd,
Ei fawl yng Nghymru a fydd,
Ei fyd a gaiff wrth ei fodd.
- 24 Modd pablaf, medd y pobloedd
(Mil a'i gŵyr), mawl a gyrraedd,
Mur iawnrym mywn mireinrwydd,
Mynog llaw eurog llariaidd.
- 28 Llarieiddfab arab eirian—llawolud
Llywelyn fab Ieuan,
Llurygog caloniog glân,
Llew trawsteg unllid Trystan.

- 32 Llid Trystan, dewrder nêr nerth,
Yw Gruffudd, Nudd naf diswrth,
Dihyball, myn Duw, hoywborth
A da hebog Deheubarth!
- 36 Deheubarth feddbarth, fuddbarch gyfoeth—beirdd
Byrddau brwysglawn beunoeth,
Dioer, yw Gruffudd, lyw loywgoeth,
Drafn diddig di-Seisnig doeth.
- 40 Doeth ail Uthr gawruthr yn gywrain—iawnfalch
Er anfodd Eingl Llundain
I'r Morfa, coeth wrda cain,
Eryrol walch arwyrain.
- 44 Arwyrain mirain, Morudd—un urddas,
Wyn arddwrn plymlwydludd,
Eurgarw clotbell, nawell Nudd,
Aergyrf oreuffyrf Ruffudd.
- 48 Gruffudd Nudd udd air, grym llym llafn disglair,
Gwyn grair hael, myn Mair, am y gwin grawn.
Gyrfa mawrdda maith, gyrfrwydr dewrgrwydr daith,
Gŵyr distryw Eingl gaith garw diestravn.
52 Gwawl hawl mawl milcant, gwych llych llawch anant,
Gwarant glud ffyniant, eurglod ffyniawn.
Harddffrwst wst aestalch, hydrdaer ar gaer galch,
Hÿn Llywelyn walch, iôr coethfalch iawn
O werin linlwys glod byw gwlad Bowys,
56 Hael ynad gleifddwys o hil Einiawn.
Emyr ail, hail heirdd, amlha da digeirdd,
Emyn Curig beirdd yw, myn Carawn!
Achel ferth nerth naid, Uwch Aeron rhôn rhaid,
60 Un cymurth Lloegrblaid yw iôn camawn.
Elw sâl, ail Selyf, arf maeldarf mawldyf,
Eryraidd aergyrf a rydd eurgrawn.
Ei fardd, ryhardd ryw, wyf tra fythwyf fyw,
64 Fy llyw cymen yw, nid cam a wnawn.
Arfaeth maeth maith nêr, aerflaidd raidd ruddner,
Aur oleued clêr ar ael eigiawn.
Draig trin lynwin law, dragon calon Caw,
68 Drylliwr caer aelaw, dreillaer creulawn.
Bugail cad mad mawr, baedd gwneidd gwedd gwawr,
Bryd Uthr cadruthr cawr, byrddlawr beirddlawr.

- 72 Brëyr gwŷr mŷr medd, brenin gwin gwensedd,
 Bryd byd hyd, hydrgledd, mawredd Meirawn.
 Balch gwalch, gweilch loywnen, barchus glod berchen,
 Buddffrwyth llwyth Llawdden, ddoethben, ei ddawn.
- 76 Braisg waisg wysg brwydrdwrdd, brys emys ymwrdd,
 Bwrdd ciried agwrdd Ceredigiawn.

Ceredigion walch, &c.

Ffynonellau

A—BL Add 15001, 255^v B—Card 4.140, 670 C—J 111 [= RWM 1], 1377
 D—LIGC 4973B, 365^r E—LIGC 5474A [= Aberdâr 1], 187 F—LIGC
 21287B [= Iolo Aneurin Williams 1], 65^v G—Llst 133, 299^r [rhif 872] H—
 Llst 145, 25^r [rhif 55] I—Pen 118, 265

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif B, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl llawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 209–10.)

Darlleniadau'r llawysgrif

3 ia6nud. 19 [i]. 35 ved barth vud barch. 39 ia6n valch. 45 naw well. 53 garr. 55 lin l6ys; bywys. 57 amylba da da digeirdd. 61 El6sal; oryf maeldoryf ma6ldyf. 71 gwen sed.

Teitl

Dauy y coet ae cant y ruffud uab llywelyn.

Moliant Gruffudd ap Llywelyn ab Ieuan o Forfa Bychan

- 4 Gwron gwych bylchog ei waywffon Ceredigion,
Arglwydd nerthol clodfawr [a chanddo] urddas pendefig
Yw Gruffudd ardderchog, [a chanddo] haelioni Nudd sanctaidd,
Mab Llywelyn [ac iddo] olwg llew;
Eryr ysblennydd ei linach sy'n rhoi nawdd i lu,
Ffyniant holl ddisgynyddion Llawdden.
- 8 Pennaeth disgynyddion Llawdden, rhydd bob dydd
Yn garedig, un tebyg i Fechydd,
Aur i'r beirdd ger ymchwydd y môr
A medd gloyw [mewn] gwledd, fy hydd hardd.
- 12 Brenhinaidd, golygus, cwrtais a disglair deg
Yw pennaeth Mefenydd,
Yn drech na'i elyn, yn fawr ei ras fydd [ef],
Un dedwydd sy'n taro mewn brwydr [ac] yn yfed gwin.
- 16 Dedwydd, diysgog, eofn,
Ffyniant dynion, croeso gras[usol],
Dewr, gwych, gwell na thrugain Sais,
Hynaws yw[r un a] fydd yn hardd ei arfer.
- 20 Ei arfer yw rhoi i bawb ei lesâd,
Ei feirdd, cânt ei win a'i fedd,
Bydd ei fawl [yn para] yng Nghymru,
Bydd yn cymryd ei fyd yn llawen.
- 24 [Yn y] modd mwyaf bywiog, medd y bobloedd
(Gŵyr mil hynny), y mae'n ennill clod,
Amddiffynnwr gwir rymus mewn gwychder,
Pendefig [ac iddo] law hael [a] thyner.
- 28 Mab hynaws [a] thirion [a] disglair [a] goludog ei law
Llywelyn fab Ieuan,
Rhyfelwr llurugog [a] glew [a] glandeg,
Llew grymus o hardd o'r un ffyrnigrwydd â Thrystan.
- 32 [Un â] ffyrnigrwydd Trystan, dewrder arglwydd llu,
Yw Gruffudd, Nudd o arglwydd egnïol,
Cynhaliaeth wych ddi-feth, myn Duw,
Ac arwr da Deheubarth!
Aelwyd fedd Deheubarth, cyfoeth clodfawr ei ddawn beirdd

- 36 [Wrth] fyrddau bywiog a llawn bob nos,
Yn ddiamau, yw Gruffudd, arglwydd disglair goeth,
Pennaeth diddig anseisnigaidd doeth.
- Daeth [yr] un tebyg i Uthr [ac] aruthr mewn brwydr yn fedrus
[ac] urddasol iawn
- 40 Er anfodd [i] Saeson Llundain
I'r Morfa, [yr] arglwydd coeth [a] gwych,
Gwron gwych [sy'n wrthrych] clod.
- [Gwrthrych] clod mirain, [o'r] un urddas â Morudd,
44 [Un ag] arddwrn rhagorol [sy'n] atalfa mewn brwydr,
Carw ardderchog pell ei glod, naw gwaith gwell na Nudd,
Gruffudd cadarn a gorau ymysg cynhalwyr mewn rhyfel.
- Gruffudd [sydd fel] Nudd urddasol [ei] barabl, [a chanddo]
gadernid llym llafn disglair,
- 48 Un annwyl rhagorol [a] hael, myn Mair, am y gwin [o'r]
grawnwin.
Gyrfa wych [a] maith [yw'r eiddo], brwydr sy'n gyrru ar ffo [ar]
daith [o] wasgar dewr,
Cyfarwydd yw[r] un gerwin brodorol â difa taeogion o Saeson.
[Ac yntau â] hawl ddisglair [i] foliant milcant, yn ardderchog y
llochesa[r] amddiffynnwr feirdd,
- 52 Gwarant ffyniant sicr, [gwrthrych] ffynnon o glod rhagorol.
Un gwych a chyflym [wrth drin] tarian [mewn] brwydr, nerthol
a thaer [wrth ymosod] ar gaer galchog,
[Yn disgyn o] gyndeidiau Llywelyn [y] gwron, arglwydd
uchelfawr [ac] uniawn
O linach hardd [a] byw ei chlod pobl gwlad Powys,
56 Ynad bonheddig [a] llym ei waywffon o hil Einion.
Un cyffelyb i Emyr, [rhoddwr] gwledd [i wŷr] hardd, amlha
ddaioni [i wŷr] rhagorol,
Emyn Curig beirdd yw, myn Caron!
[Un â] llam nerth[ol] Achel wych, gwaywffon brwydr [o] Uwch
Aeron,
- 60 Poen ddihafal [i'r] Saeson yw arglwydd cad.
[Un sy'n rhoi] tâl [sy'n] lles, un cyffelyb i Selyf, arf [sy'n]
gwasgaru budd [ac yn] cynyddu mewn mawl,
Un urddasol [a] chryf mewn rhyfel sy'n rhoi trysor.
Ei fardd, hardd iawn [ei] fath, ydwyf tra bwyf byw,
64 Fy arglwydd doeth ydyw, ni wnawn gam [ag ef].

- Pennaeth [a chanddo] fwriad [i roi] cynhaliaeth helaeth [ydyw],
 pennaeth gwaedlyd [â] gwaywffon gwron mewn brwydr,
 Rhodd ddisglair [ac] ardderchog beirdd wrth ymyl eigion.
 Draig mewn brwydr [a chanddo] law [sy'n rhoi] diod win,
 gwron [a chanddo] ddewrder Caw,
 68 Drylliwr caer gyfoethog, [mewn] treigl-frwydr greulon.
 Arweinydd da [a] mawreddog byddin, ymladdwr dewr [mewn]
 brwydr [a chanddo] wedd arglwydd,
 Natur Uthr [a chanddo] ruthr cawr mewn brwydr, llawr bwrdd
 llawn beirdd.
 Arglwydd rhyfelwyr [a chanddo] foroedd o fedd, brenin [a
 chanddo] win [a] gorsedd ragorol,
 72 [Un â] natur [sy'n] cwmpasu byd, cledd nerthol, [un o] fawredd
 Meirion.
 Gwych yw[ʹr] gwron, arglwydd disglair gwroniaid, perchen clod
 anrhydeddus,
 Lles llwyth Llawdden, blaenor doeth, ei rodd odidog.
 Llwybr disglair [a] nerthol [mewn] godwrdd ymladd, un buan
 [adeg] ymdaro meirch,
 76 Bwrdd haelioni cadarn Ceredigion.

Moliant Hopgyn ap Tomas o Ynysforgan

- Arglwyddiaidd, traidd trwydded—beirdd Cymry,
 Bwrdd cymrwysg gwin yfed,
 4 Yw Hopgyn, hoyw loyw lawged,
 Fab Tomas, crair urddas Cred.
- Cred a wŷr yn llwyr ym mhob llun—ar ddawn,
 Aur ddinag lorf cyfun,
 8 Gŵr yng Nghymry, hy hoywgun,
 Gof nawd aur, ag ef nad un.
- Nid un llew modd glew (medd glas—a hepgyr)
 Â Hopgyn fab Tomas,
 Dawn eurddull, nid un urddas,
 12 Nid un rym ac nid un ras.
- Gras yw mab Tomas mewn tymyr,—ei ddawn
 Ys o ddyr yng Ngŵyr,
 16 A’u harf ym mrwydr a’u heryr,
 A’u henw a’u parch, ai hwn Pŷr?
- Hwn Pŷr gwŷr Gŵyr, gwayw blaenaf—yng nghad,
 Yng nghywiwdwrn dewraf;
 20 Lŷr o nerth, loyw orau naf,
 Lary gwrol a lwyr garaf.
- Llwyr garaf naf nawcan punt,
 Llew cyrchiad ar Einglgad bont,
 24 Llyw gwŷr gwell no gwŷr Gwent,
 Llawn orflwch fflwch ffloyw eurbrint,
 Llathrben (cun ei ddamuniant),
 A llath blawdd hollwyth Bleddynt.
- Llwyth Bleddyn winllyn wynllyw,—iôn eillgad
 28 Enillgerdd, Hopgyn yw;
 Lŷr harddrym ail, llyry heirddryw,
 Llary Gymro, hir y bo byw!

- 32 Nid byw llyw beilchryw bylchron—dihepgor
 Mal da Hopgyn ddragon;
 Ef yw ystor cerddorion
 O fôr Morgannwg hyd Fôn.
- 36 Ef yw'r naf mwyaf a fag maon—byd,
 Awdur y Brythion,
 Aur feistr mynog serchog sôn,
 Iôr dethol ar y doethion.
- 40 Annwyd Nudd, pryd udd, prydyddion—a faeth
 Ar faith heiliau trymion,
 Un adlam â Thalamon,
 Eneidlyw teg, difreg don.
- 44 Ar awduriaid blaid, blodau cofion—mydr,
 Meidrol Gymry gyson,
 O farn byd, iawn leindyd iôn,
 Fur gwaywrudd, ef yw'r goron.
- 48 Coron yw Hopgyn, cywiw wryd—Cai,
 Caw fab Erbin unbryd,
 Rheol gwindai rhwyl Gwyndyd,
 Rhylawn barch, ar haelion byd.
- 52 Byd ddoethder arfer eurfad—mawr ewybr,
 Mi a rown fy llygad,
 Mawl aur enw, mal yr ynad
 Os dywaid un is Duw Dad.
- 56 Is Duw Dad yn rhad, iôn rhwy—aml gylchlyn,
 'N ei galchlys ger Tawy,
 O win ac aur, enw Garwy,
 Ni roes neb, fael wyneb, fwy.
- 60 Mwy a rydd, cynnydd cynneddf gwawr—trwyhadl,
 No'r Trihael i gerddawr,
 Walch trahydr cludfydr clodfawr,
 Wayw ennyn aer, yn un awr.
- 64 Yn un awr, hyfawr ddihafarch—hoymbost,
 Deheubarth ben, cyfarch,
 Ynad llewych, pôr gwych parch,
 Nid llaw-wag un nawd Llywarch.

68 Nawd Llywarch clutbarch clotbell,—cledd naddgad,
 Coeth geimiad caith gymell,
 Nen cedyrn, anian Cadell,
 Naf balch, ni wn walch ei well.

72 Gwell ymhell, diell dëyrn llawchbobl—rhwydd,
 Hyd yn nhref Gostinobl,
 Ail Elffin gwayw lliw sinobl,
 Yw no neb am win a nobl.

76 Y noblau yn fau, fyw ddfri—facwy,
 A'i fwcwrn a'i sendri,
 A'i gariad, orau gwiwri,
 O'i ras mawr a roes imi.

80 Mi a glodforaf feistr llys mwyeilch—hael
 (Gwnâi helmau yn fedeilch!)
 Dros barch rhagorawl gwawl gweilch,
 Harddfur â'i wisgoedd heirddfeilch.

84 Ei heirddfeilch wisgioedd (harddfoes—yw'r gwaladr,
 Gwelwyf iddaw hiroes,
 Ffyrf iawn yw mewn ffurf einioes)
 A phob da a'i ra a roes.

88 Rhoes ym, lyw hylm, lew helmawg,—rhuthrdarw,
 Llary rhygarw llurygawg,
 Ei fedd a'i win, ffulltrin Ffawg,
 A'i fwnai, Hopgyn fynawg.

92 Mynawg Hopgyn, lyn loywglos,
 Mur heilddwbl cetgwbl catgis,
 Mwnai law, mae yn ei lys,
 Eurddar, y Lusidarius,
 A'r Greal a'r Yniales,
 A grym pob cyfraith a'i gras.

100 Ei gras a gafas y gŵr,
 A chlod teilyngbrif Ifor,
 Gwyndodig fonheddig fur,
 Gwinau ddidwyll feistr pwyll pêr,
 Gwiw ail Gwalchmai fab Gwyar,
 A gwayw a tharian Gŵyr.

104 Gŵyr warant, ffyniant Ffin,
 Ei gerdd tra fwyf fyw y'i gwn,
 Gwawr mawr mad, bedeirgad ben,
 Gwaladr cadr coeth y doethion,
 108 Gwalch a gâr arglwydd a gwan,
 Gwyrdd a hepgyr gwrdd Hopgyn.

Gwrdd Hopgyn loyw-wyn, lewaidd,—lary gleindyd,
 Gŵr arfog yng ngyrd 'n y byd nyw baidd,
 112 Fab Tomas falchras, fylchraidd—yng nghamawn,
 Fab Einiawn fyrddlawn, drin greulawn draidd.
 Tŵr tir Tawy, rhwy rhaidd—rhugl didarf,
 Taer yw â'i ddurarf, tyrau ddiwraidd.
 116 Tarian holl Wyr mewn anturiaidd—grwydr
 Wrth aros ym mrwydr, ŵr Arthuraidd.
 Caing hiraer orfod, cynghoraidd—nen gwŷr,
 Cywirair eryr mygr carwriaidd.
 120 Cawr aesawr, gwawr mawr mireiniaidd—beilchryw,
 Carw hwyrfarw hirfyw, eurllyw iarllaidd.
 Helffelt lorf gwaywddellt, gweddaidd—annwyd Gaw,
 Hawl caerau ddiriau, hael cerddwriaidd.
 124 Hwyl deiliwng, brisgflwng, breisgflaidd—yn aergrwybr,
 Hylwybr uthr ewybr, rhi athroaidd.
 Gwir wyneb Cymru, gwerinaidd—fyrddau,
 Yw gwawr y Deau, a gwrdaidd.
 128 Da lyfr y gyfraith, dilyfraidd—yng nghad,
 A dwy fil ynad difileiniaidd.
 Diweddw olud mawr, diwyddelaidd—iawn,
 Da wedd aelaw, dawn dieiddilaidd.
 132 Doniog galon hael, dienciliaidd—blaid,
 Digrin arf yn rhaid, digrynŵraidd.
 Diwyw aesawr hydr 'n y dewisiaidd—ddwrdd,
 Dwys oesenw agwrdd, di-Saesnegiaidd.
 136 Difreg Hopgyn deg, didaeogaidd—ŵr,
 Dawiw ywchelwr diachulaidd;
 A dlyedog iawn a diwladaidd—lyw,
 A dywynnig yw a dewiniaidd.
 140 Briw aerau â'i rôn, bryyraidd—ei radd,
 Byrddwin ei neuadd, barddoniaidd.
 Bron hynaif beilchlin, brenhinaidd—erfai,
 Buan ddwygamp Cai, boneddigaidd.
 144 Pôr, iôr, gwineuddor, Gwyneddiaidd,—eglor,
 Pur, mur, praff awdur, ferw proffwydaidd.

- Pâr brwydrdaer, mael aer, milwriaidd—waladr,
 Pân difwglw cadr, pendefigaiidd.
 Prydferth certh taernerth, teyrnaidd—digabl,
 148 Pwyntuswalch doethbabl, parabl peraiidd.
 Parotaf llewnaf, lluniaidd—helm durgaen,
 Perydd rhagorflaen, gwawlchwaen gwalthaiidd.
 Enwog naf ffyrfaf, ffurfaidd,—llwyth Bleddyn,
 152 Yn ei lys winllyn ef ni fyn faidd.
 Eurgadr yw'n gwaladr, engylaiidd—difradw,
 Iôn mwyn eiddun cadw, enmynyddaiidd.
 Eryrawl Hopgyn, arwraidd—diofn,
 156 Iôr gloywddu eofn arglwyddiaidd.

Arglwyddiaidd traidd, mal yn y dechrau.

Ffynonellau

A—BL Add 15001, 253^v B—Card 4.140, 642 C—J 111 [= RWM 1], 1375
 D—LIGC 4973B, 362^r E—LIGC 21287B [= Iolo Aneurin Williams 1], 60^v
 F—Llist 133, 299^v [rhif 874] G—Pen 118, 262

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif C, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl llawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 209–10.)

Darlleniadau'r llawysgrif

17 Wn. 22 eigyl gat bont. 43 blett. 46 gwaerud. 48 erbi. 50 ry la6n. 56 ny6 galchlys. 61 clut vydyr. 63 hoe6 bost. 67 clot bell. 76 v6c | k6rn. 82 heird veilch. 83 heird veilch; hard uoes. 110 ny. 111 valch ras. 120 h6yr | uar6 hir vy6 eur llyw. 121 g6ae6 dellt; ann6ytag6. 123 brisc vl6ng | breisc vleid. 133 Di wy6. 134 oes en6. 142 d6y gamp. 146 pann; div6gyl. 148 doeth babyl. 151–2 *a ll. drwyddynt ac eithrio pedair llythyren olaf* bledyn. 152 y6 lys. 153 Eur | gadyr.

Teitl

dd' y coet ae cant y hopkyn vab thomas.

Moliant Hopgyn ap Tomas o Ynysforgan

Arglwyddaid, [gwrthrych] ymweliad â chynhaliaeth beirdd
Cymru,

[Darparwr] bwrdd bywiog [lle y mae] yfed gwin,
Yw Hopgyn, [un ag] anrheg ddisglair a hardd,
4 Fab Tomas, un annwyl [ac] urddas Byd Cred.

Gŵyr Byd Cred yn llwyr ym mhob math o rodd,
Cynheiliad cytûn nad yw'n gwrthod aur,
8 Nad oes gŵr yng Nghymru, pennaeth hardd [ac] eofn,
[Un â] bryd rhagorol [ei] natur, tebyg iddo ef.

Nid oes llew dewr [ei] ddull yn debyg (y mae'n rhannu medd
ffres)
I Hopgyn fab Tomas,
[Un â] dawn dull rhagorol, nid o'r un urddas,
12 Nid o'r un awdurdod ac nid o'r un fendith.

Graslonrwydd yw mab Tomas mewn teyrnas, y mae
Ei rinwedd o [eiddo] dyn [sy'n trigo] yng Ngŵyr,
A'u harf mewn brwydr a'u heryr,
16 A'u henwogrwydd a'u hanrhydedd, ai Pŷr yw hwn?

Pŷr milwyr Gŵyr yw hwn, [y] waywffon flaenaf mewn brwydr,
[Y] dewraf mewn ymladd gwiw;
Llŷr o ran nerth, arglwydd gorau a disgleiriaf,
20 Un hael a gwrol a garaf yn llwyr.

Llwyr garaf arglwydd [sy'n rhoi] nawcan punt,
Llew cyrch ar bont [ac arni] fyddin o Saeson,
Arweinydd milwyr gwell na milwyr Gwent,
24 [Un â] gorflwch llawn [a] hael [ac arno] brint aur gloyw,
Arweinydd clodfawr (mintai yw ei ddymuniad),
A gwaywffon ddychrynllyd holl lwyth Bleddyn.

Arglwydd rhagorol sy'n yfed gwin [ar] lwyth Bleddyn, pennaeth
byddin o daeogion
28 [Ac sy'n] teilyngu cerdd, Hopgyn ydyw;
Un cyffelyb i Llŷr hardd ei nerth, [un â] moesau hardd eu natur,
Hael Gymro, yn hir y bydded [iddo] fyw!

- Nid oes yn fyw arweinydd o dras gwŷr urddasol [a] bylchog ei
 waywffon [ac] anhepgor
 32 Fel Hopgyn da [y] gwron;
 Ef yw trysor gwŷr wrth gerdd
 O fôr Morgannwg hyd Fôn.
- 36 Ef yw'r arglwydd mwyaf sy'n meithrin lluoedd byd,
 Arweinydd y Brythoniaid,
 Meistr rhagorol [a] phendefigaidd [a] sôn serchog [amdano],
 Pennaeth coeth ar y gwŷr doeth.
- 40 [Yn un o] natur Nudd, [o] brydferthwch pendefig, ymgeleddodd
 brydyddion
 Ar wleddau maith sylweddol,
 [Un a chando] noddfa debyg i [eiddo] Talamon,
 Arweinydd sy'n ysbrydoli, [un] difrycheulyd ei groen.
- 44 Ar liaws o arweinwyr, [gwrthrych] rhagoraf meddyliau mydr,
 Un cytûn â Chymry [a] grymus,
 Ym marn pawb, arglwydd [o] wychder priodol,
 Amddiffynnwr coch ei waywffon, [—ar liaws o arweinwyr] ef
 yw'r goron.
- 48 Coron yw Hopgyn, [un o] faintioli ardderchog Cai,
 [O] brydferthwch tebyg i [eiddo] Caw fab Erbin,
 Dull tai gwin yw [eiddo'r] llys [sy'n croesawu] gwŷr Gwynedd,
 [Un o] anrhydedd mawr iawn, [—coron ydyw] ar foneddigion
 byd.
- 52 Doethineb [yn ei] fywyd yw arfer [yr] un campus [a] mawr [a]
 pharod,
 Rhoddwn fy llygad,
 [Dyma] foliant [i] enw ardderchog, os traetha unrhyw un islaw
 Duw Dad
 Fel yr ynad [hwn].
- 56 Islaw Duw Dad yn rhadlon, arglwydd llawer diod a rennir
 rhwng cwmni mewn gwledd,
 Yn ei lys calch[og] ger [Afon] Tawe,
 O win ac aur, [yr un o] enwogrwydd Garwy,
 Ni roddodd neb, [un ag] anrhydedd arglwydd, fwy.

60 Mwy y mae'n ei roi, [trwy] ffyniant arfer arglwydd medrus,
Na'r Tri Hael i wŷr wrth gerdd,
Gwron tra chryf [ac iddo] gyfoeth o farddoniaeth glodfawr,
[Un â] gwaywffon [sy'n] cyffroi brwydr, [—mwy y mae'n ei
roi] mewn un awr.

64 Mewn un awr, cynheiliad grymus [a] glew [ac] arbennig,
Pennaeth Deheubarth, [gwneuthurwr] deisyfiad,
Ynad disglair, arglwydd gwyh anrhydedd[us],
[—Mewn un awr] nid yw[r un] o'r un natur â Llywarch yn
waglaw.

68 [Un o] natur Llywarch moliannus [a] phell ei glod, cledd
[mewn] byddin sy'n trychu,
Ceimiad gwyh [sy'n] ysbarduno caethion,
Arglwydd gwŷr cadarn, [a chanddo] anian Cadell,
Pennaeth urddasol, nid adwaen wron gwell nag ef.

72 Gwell ydyw o bell ffordd, [y] brenin rhagorol sy'n rhoi nawdd i
bobl [ac sy'n] hael,
Hyd dref Constantinobl,
Un cyffelyb i Elffin [a chanddo] waywffon liw coch,
[—Gwell] yw na neb am win a nobl.

76 Y noblau yn eiddof, [y] llanc angerddol [a] bywiog,
A'i fwcram a'i sendri,
A'i gariad, [yr] arglwydd aruchel rhagoraf,
Trwy ei raslonrwydd mawr a roddodd i mi.

80 Clodforaf feistr hael [sy'n byw mewn] llys mwyeilch
(Gwnâi helmau'n fadarch!)
Yn gyfnewid am anrhydedd ardderchog [un sy'n] ysblander
gwroniaid,
Amddiffynnwr hardd gyda'i wisgoedd hardd ac urddasol.

84 Ei wisgoedd hardd ac urddasol (hardd ei arfer yw'r arglwydd,
Boed imi weld hir oes iddo,
Praff iawn ydyw yn null ei fyw)
A phob da yn ogystal â'i ffwr a roddodd.

88 Rhoddodd imi, [yr] arweinydd awchus, llew helmog, tarw mewn
rhuthr,
Gŵr hael tra gerwin yn gwisgo llurig,

Ei fedd a'i win, [yr un ag] ymladd egniol [megis eiddo] Ffwg,
A'i arian, Hoptyn bonheddig.

92 Hoptyn bonheddig, [a chanddo] lys disglair [llawn] diod,
Amddiffynnwr [sydd] yn dyblu ei wallofiad [ac sy'n] drwyadl
 haelionus [ac sy'n] ergydio mewn brwydr,
[Un â] llaw [llawn] arian, mae yn ei lys,
[Yr] arweinydd dethol, y Lusidarius,
A'r Greal a'r Yniales,
96 Ac awdurdod pob cyfraith a'i bendith.

Cafodd y gŵr ei bendith,
A chlod teilwng ac ardderchog Ifor,
[Yr] amddiffynnwr bonheddig a bendithiol,
100 Pennaeth didwyll [a] gwinau [a] hyfryd ei natur,
Un gwych cyffelyb i Walchmai fab Gwyar,
A gwaywffon a tharian Gŵyr.

Sicrwydd Gŵyr, [un o] ffyniant Ffin,
104 Cyfarwydd fyddaf â chân iddo tra bwyf byw,
Arglwydd mawr daionus, pennaeth pedair mintai,
Pen hardd [a] choeth y gwŷr doeth,
Gwron sy'n caru arglwydd a gwan,
108 Y mae Hoptyn cadarn yn rhannu dillad gwyrdd.

Hoptyn gwrol [a] disglair ac ardderchog, un llewaidd, un hael
 [llawn] gwychder,
Nid oes gŵr arfog mewn brwydr yn y byd a'i heria,
Fab Tomas urddasol ei raslonrwydd, bylchog ei waywffon
 mewn ymladd,
112 Fab Einion a'i fwrdd yn llawn, gwan[wr mewn] brwydr greulon.
Amddiffynnwr tir Tawy, arglwydd urddasol [a] chwim [a]
 diysgog,
Angerddol yw â'i arf ddur, dymchwelwr tyrau.
Tarian holl Wŷr mewn gwasgariad anturus
116 Wrth wrthsefyll mewn brwydr, gŵr fel Arthur.
[Un] yn trechu gwaywffon [mewn] ymladdfa hir, pennaeth
 doeth gwŷr,
Eryr cywir ei air ysblennydd [a] serchog.
Cawr [a chanddo] darian, arglwydd mawr golygus o dras gwŷr
 urddasol,
120 Carw hwyr ei farw [a] hir ei fyw, arweinydd rhagorol [a]
 phendefigaidd.

- Amddiffynnwr melltennog ei helm [a chanddo] waywffon wedi
ei hollti, un gwych [o] anian Caw,
Hawlia wasgu ar gaerau, [yr] un hael [a] chelfyddgar.
Un teilwng [ei] yrfa, milain ei lwybr, blaidd nerthol ym
mwrllwch brwydr,
- 124 Hyfedr [ac] aruthr [a] chwim, brenin dysgedig.
Gwir anrhydedd Cymru, [un a] byrddau ar gyfer torf,
Yw arglwydd y De, a phendefigaidd.
Awdurdod da [ar] y gyfraith, eofn mewn cad,
- 128 Ac ynad addfwyn [ar] ddwy fil.
[Un â] golud diddiffyg [a] mawr, [un] moesgar iawn,
[Un â] gwedd hardd [a] rhwydd, rhodd gadarn.
[Un â] chalon hael [a] bonheddig, amddiffyn digilio,
- 132 [Triniwr] arf gadarn mewn brwydr, un bonheddig.
Tarian cryf [a] nerthol yn y dadwrdd dewisol,
Un gwych [o] enwogrwydd maith [a] sylweddol, un heb
Saesneg.
Di-fai yw Hopgyn deg, gŵr bonheddig,
- 136 Uchelwr da a disglair [a] nerthol;
Ac arweinydd urddasol iawn a chwrtais,
A disglair a dewiniol ydyw.
[Achoswr] clwyf[au mewn] brwydrau â'i waywffon, un
arglwyddaidd ei radd,
- 140 [Ei] neuadd â gwin ar fwrdd, un barddonol.
[Un â] chalon hynafiaid urddasol eu llinach, un brenhinaidd [a]
rhagorol,
[A chanddo] gamp chwim Cai ddwy[waith], un boneddigaidd.
Pennaeth, arglwydd, amddiffynnwr gwinau [ei wallt],
Gwyneddaidd [ei foes], disglair,
- 144 Un pur, amddiffynnwr, arweinydd praff, [un llawn] bwrlwm
proffwydol.
[Triniwr] gwaywffon dygn mewn ymladd, arglwydd brwydr,
pennaeth rhyfelgar,
Paun eofn [a] phraff, un pendefigaidd.
- 148 Hardd [a] chywir [a] grymus ei nerth, brenhinaidd [a] di-nam,
Gwron graenus [a] doeth a ffraeth, [â] pharabl pêr.
Iôr llewaidd mwyaf buan, [un â] helm hardd ac arno orchudd
dur,
Arglwydd [sydd] ar flaen byddin, [cyflawnwr] gorchest hyglod a
champus.
Pennaeth enwog [a'r] mwyaf cryf, gosgeiddig, [ar] lwyth
Bleddyn,
- 152 Yn ei lys [ac ynddo] ddiod win ni fyn ef faidd.

156 Cadarn-wych yw'n harglwydd, angylaidd [a] diysgog,
Pennaeth mwyn [sy'n] cynnal [yn] ddymunol, un rhadlon.
Hopgyn eryraidd, arwrol [a] di-ofn,
Pennaeth gloywddu [ei lygaid ac] eofn [ac] arglwyddaid.

Awdl i'r Drindod

	Trindawd gwawd gwalch, 'y Ngharw trafalch,	'y Nghartrefiawdr,
	Tro ym rad mad trwy loyw gariad,	Gair rhybuddiawdr,
	Trafn gwyrth hoywryw, tra fwyf yn fyw,	fy Llyw Llywiawdr.
4	Teg wyd, Geli, traws haelioni,	Rhi rhagorawdr,
	Trysor moliant, trasyw ffyniant,	ffawd Arweddiawdr.
	Trosaist, wyrth nyrrh, trasyth eur byrrh,	Borth oleuawdr,
	Tra bai pumoes a'th wnaeth garwloes	ar groes grogiawdr.
8	Hoelied (nid gau) Dy aelodau,	diwyl Oedawdr,
	Er ein prynu, eurwyrth feddu,	fudd Warediawdr,
	O ward uffern, hagr figynwern,	gethern gaethawdr.
	Wyd Un a Thri, ein Arglwydd ni,	nef Gynhaliawdr;
12	Câr brydydd rhwydd a'i hael arwydd	o hil Arawdr.
	Gwnaethost fôr tawch a thir ffrwythlawch,	awch Uchelawdr,
	A gwellt a gwÿdd a chred a ffydd,	ffyrf Gynghorawdr,
	A gwyllt a dof a gwir hoywgof,	hygadr Ddysgawdr,
16	A'r holl ffrwythau a'r holl radau,	raid Warediawdr.
	Er Dy gethrau a'th aml wyrthau,	wyrth Edrychiawdr,
	Na ad fi yn drist mywn ufferngist,	hael Grist Greawdr.

20 Crist Greawdr, Llywiawdr llawer,
 Creulyd Geli, Gwiwri gwÿr,
 Crair nef ddigae a daear,
 Craff y'th folaf, tecaf Tŵr;
 Cryf Arglwydd, gwaranrwydd gwir,
 24 Croyw hoyw hynod fawrglod Fur,
 Credaf yt iawn, hyfryd Iôr.

28 Hyfryd a Iôr wyd, Bôr balch,
 Hoywfraisg, pabl, dibarabflwlch;
 Er cur, Wawr, dy fron fawr folch,
 Rho Dy nawdd, nid cawdd, i'm cylch.

32 Dy nerth, Iesu cu, yw'r coel;
 Dy nawdd, gwn nad cawdd y cael;
 Naf nef eurwlad ddiadfail,
 Na wrthod fi, Geli gŵyl.

36

Celi gŵyl, annwyl ennyd
 Cael ym rym ran o'th gariad,
 Cwlm cwbl synnwyr heb lwyr lid,
 Coel da glwys, nid cul Dy glod;
 Calongur fuost, cost ced,
 Er prynu pumoes loes lud.

Ffynonellau

A—J 111 [= RWM 1], 1304 B—Llst 145, 41^v [rhif 125] C—Llst 147, 192
 D—Pen 118, 228

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif A, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl llawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 209–10.)

Darlleniadau'r llawysgrif

1 ygkar trefya6dyr. 6 trasytheurbyrth. 23 g6yr.

Awdl i'r Drindod

- [O] Drindod [sy'n haeddu] cân [i] wron, fy Ngharw tra urddasol,
 fy Nghartrefwr,
 Cyfeiria ras bendithiol ataf trwy gariad disglair, [Dydi y] Gair
 [sy'n] Rhybuddiwr,
 Arglwydd gallu rhyfeddol o natur wych, tra bwyf yn fyw, fy
 Arglwydd Reolwr.
- 4 Hardd ydwyt, [O] Dduw, grymus [Dy] haelioni, Frenin [sy'n]
 Un rhagorol,
 Gwrthrych annwyl mawl, ffyniant tra doeth, Cludwr bendith.
 Agoraist, [trwy] nerthoedd gwyrthiol, byrth euraid tra thalsyth,
 Gymorth disglair,
 Tra oedd pum oes a barodd loes erwin iti ar groes sy'n crogi.
- 8 Hoeliwyd (nid celwydd [mo hyn]) Dy aelodau, Oediwr eofn,
 Er mwyn ein prynu, [trwy] feddu gallu ardderchog, [y]
 Gwarddwr llesol,
 O garchar uffern, gwern gorslyd ffaidd, [lle] caethiwydd ciwed.
 Yr wyt yn Un a Thri, ein Harglwydd ni, Cynhaliwr nef;
- 12 Câr brydydd rhodddgar a'i arwydd urddasol o hiliogaeth Arawdr.
 Gwnaethost eigion a thir toreithiog, Fonheddwr [llawn] sêl,
 A gwair a choed a chred a ffydd, Gynghorwr cadarn,
 Ac [anifeiliaid] gwyllt a dof a gwir feddwl cain, Ddysgawdwr
 tra gwych,
- 16 A'r holl gnydau a'r holl rasmusau, Waredwr [rhag] angen.
 Ar gyfrif Dy hoelion a'th ryfeddodau niferus, Wyliwr gwyrthiol,
 Na ad fi yn drist yng nghaeadle uffern, Grist Greawdwr hael.
- [O] Grist Greawdwr, Bennaeth llaweroedd,
 Duw gwaedlyd, Brenin ardderchog gwŷr,
 Anwylyd [y] nef ddiderfyn a[r] ddaear,
 Yn rymus y'th folaf, [y] Cynheiliad tecaf;
 Arglwydd cryf, gwir ddiogelwch,
- 24 Amddiffynnwr mawr Ei glod [a] godidog [a] hardd [a] pheraidd,
 Credaf yn iawn ynot, Iôr hynaws.
- Arglwydd hyfryd ydwyt, Pennaeth gwych,
 Hardd a chryf, ffraeth, huawdl;
 28 Ar gyfrif poen, Iôr, Dy fron fawr ddrylliog,
 Dyro Dy amddiffyn, nid llid, o'm hamgylch.

32 Dy nerth, Iesu cu, yw'r argoel;
Dy amddiffyn, gwn nad llid [mo]'r derbyn[iad ohono];
Arglwydd gwlad euraid anllygredig nef,
Na wrthod fi, Dduw tirion.

36 [O] Dduw tirion, ennyd gwerthfawr
Yw cael imi gyfran rymus o'th gariad,
Rhwymyn doethineb berffaith heb ddigofaint llwyr,
Cred dda [a] gwych, nid crintach yw Dy glod;
Drylliog Dy galon fuost, pris [Dy] rodd,
Er mwyn prynu pum oes ddygn eu gloes.

Awdl i Dduw

- Mynog gwaredog y gwiw radau,
 Mwynawl hawl nefawl, ceffy'r mawl mau.
 Modd rhodd Rhên awen, awydd gwyrthau,
 4 Maint braint gwyrth y saint seilm eu graddau,
 Mawr Gwawr, fab Gwryy Fair, crair Cred olau.
 Am fy Rhi Geli, Golofn rheiddiau,
 A'th fawl heb ddim tawl talm gerddodlau.
 8 Yt ydd addolaf, Ti, Udd ddelwau
 Aur (fy ngloywNer wyd), ar fy ngliniau
 O'm pedeiriaith ddysg a'm paderau;
 Â'm cüwrdd seilmawl a'm cerdd salmaw
 12 Yt y cyfarchaf, da Naf dihai.
 Ddihagr, fy Arglwydd Grist oddehai,
 Ti a wnaeth, fy Nhad, bob had i'w hau;
 Ti a wnaeth yn ffraeth yr holl ffrwythau,
 16 A môr a daear, mwy ardwyau
 (Hofflaw'n hoywdeg wyrth!) a phlanedau,
 Gadr Iesu wiwgnawd, gyd â'r sygnau.
 Arglwydd, Pendefig, rhyfig rhifiau,
 20 Arglwydd cyfiawn iawn, dawn dynionau,
 Arglwydd Dduw, Culwydd rwydd Ei reiddiau,
 Arglwydd Ddofydd ffydd, cynnydd canau,
 Arglwydd nef a llawr, Gwawr y gwyrthau,
 24 Arglwydd Dad mad rhad, cariad corau,
 Arglwydd llawen, Rhên llên a llyfrau,
 Dyro ym, f' Arglwydd, rhag arwydd gau,
 Cynnar yngyrth loes, cyn yr angau,
 28 Cyffes a chymun, gyfun gofau,
 A'th nawdd rhag uffern, billwern byllau.
 Er Dy goron ddrain, Wrda gorau,
 Wirdeg Athro nef, er Dy gethrau,
 32 Wawr diwael eddyl, er Dy wleddau,
 Er deiliadaeth nef, er Dy lydwau
 (Eurdal ydwyd, Haul), er Dy aelodau,
 Er Dy fysedd heirdd, er Dy foesau,
 36 Er Dy ewinedd llathr, w'r diwinau,

- Er Dy olwg, Crist, er Dy aelau,
 Er Dy aelaw saint, er Dy wylau,
 Er Dy eilyw teg, er Dy olau,
 40 Er Dy wyneb gloyw, er Dy enau,
 Er Dy hoelion dur, er Dy heiliau,
 Er Dy ddirgrif nef, er Dy ddagrau,
 Er Dy yng alar, er Dy engyliau,
 44 Er gwaed Dy galon hygron don dau,
 Fy ngwythrydaer gam, fy ngweithredau,
 A'm gwyll aruthr lid a'm gwall eirau,
 A'm eiddilwch oll a'm meddyliau,
 48 Trwy iawndud moddiant Trindod, maddau.
- Cadrnen sŷr, em gwŷr, a'm gwyloch—o'm drygau,
 Draig rhag aml bechawd fylch;
 Cerdd gennyf i a'i diylch,
 52 Caf nawdd y Drindod i'm cylch.
- I'th wenwlad, wirDad eurdo,—gras disglair,
 Grist oesglod lathr loywfro,
 Ener, gyda thi yno,
 56 F'Ynad Ben, i f'enaïd bo.
- Bo cyfyngaf, Naf nefol fryd,—gain Dduw,
 Fo gan ddyn anhyfryd,
 Ehangaf fydd, Ben ffydd byd,
 60 O gynnwll, Iesu, gennyd.
- Gennyd, Rhi celi, Culwydd cywir—mawr,
 Amherawdr môr a thir,
 Caffwyf nef lle y tangnefir
 64 Drwy nerth Gair y Wryr Fair wir.
- Wirglod Cred wared, Dy arwydd—arnaf,
 AwyrNen, rhag tramgwydd;
 Erglyw fi, Rhên Geli rhwydd,
 68 Eurgledd nef a byd Arglwydd.
- Arglwydd Iesu Grist, Arglwydd Asia—mawr,
 Arglwydd, Mur Affrica,
 Arglwydd rhwydd, Rhodd Europa,
 72 Arglwydd buddwerth hylwydd ba.

Arglwydd, eglur Dduw, Arglwydd Agla,—Naf,
 Arglwydd nef a therra,
 Arglwydd Ri, Fab Marïa,
 Trugaredd a diwedd da!

76

Ffynonellau

A—BL 15001, 225^v B—J 111 [= RWM 1], 1303 C—LIGC 4973B, 323^v
 D—LIGC 2002C [= Pant 33], 153 E—Llst 133, 268^v [rhif 810] F—Llst
 145, 40^r [rhif 123] G—Llst 147, 190 H—Pen 118, 227

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif B, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl lawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 209–10.)

Darlleniadau'r llawysgrif

1 radeu. 5 cre*goleu. 6 an. 8 Ytt y. 10 pedeiryethdysc. 11 cu 6rd. 12 danaf. 13 varglôyd. 21 aglôyd. 22 [Arglwydd] dovyd; fyd. 24 aglôyd. 45 vgyôythryder. 48 Jaôndud. 56 vy nat benn y yf eneit. 66 a wyrnenn. 72 bud werth.

Teitl

Davyd y koet agant yr odleu hymn.

Awdl i Dduw

- [O] Arglwydd gwaredol y grasusau gwiw,
 Un hynaws [a chennyt] hawl nefol, cei fy mawl.
 Dull rhodd [yr] Arglwydd yw awen, awydd [am gyflawni]
 rhyfeddodau,
- 4 Maint rhagorfraint rhinwedd y saint yw salmau [i']w graddau,
 Mawr yw[r] Arglwydd, mab Mair Wry, gwrthrych annwyl y
 byd crediniol disglair.
- O gwmpas f' Arglwydd Dduw, cynheiliad bendithion,
 Bydd cyfran o odlau cerdd yn Dy foli heb ddim terfyn.
- 8 Addolaf Di, Tydi, [ar ffurf] delwau euraid o Dduw
 (Fy Iôr disglair ydwyt), ar fy ngliniau
 Â'm dysg [mewn] pedair iaith a'm gweddïau;
 Gyda'm moliant cadarn serchus [a] hardd a'm salmau cerdd
- 12 Gweddïaf arnat, Bennaeth daionus cywir.
 Yn hardd, f' Arglwydd Grist rhadlon,
 Tydi a wnaeth, fy Nhad, bob had i'w hau;
 Tydi a wnaeth yn hael yr holl ffrwythau,
- 16 A môr a daear, amddiffynion mwy
 ([Dyna] wyrth rymus a theg [a] hyfryd!) a phlanedau,
 Iesu wych a hardd Dy gnawd, ynghyd â'r clystyrau sêr.
 Arglwydd, Pendefig, hyder lluoedd,
- 20 Arglwydd cyfiawn iawn, bendith dynion,
 Arglwydd Dduw, Pennaeth hael Ei roddion,
 Arglwydd Reolwr ffydd, ffyniant lluoedd,
 Arglwydd nef a llawr, Tywysog y gwyrthiau,
- 24 Arglwydd Dad mad [a] rhadlon, [gwrthrych] cariad canghellau,
 Arglwydd llawen, Brenin llên a llyfrau,
 Rho imi, f' Arglwydd, rhag arwydd ffals,
 Gloes aruthr [a] chynamserol, cyn angau,
- 28 Gyffes a chymun, meddyliau cytûn,
 A'th amddiffyn rhag uffern, pyllau [sy'n] gaer o gors.
 Ar gyfrif Dy goron ddrain, Wrda gorau,
 Athro ffyddlon a theg y nef, ar gyfrif Dy hoelion,
- 32 Frenin rhagorol [Dy] amcan, ar gyfrif Dy wleddau,
 Ar gyfrif daliad nef, ar gyfrif Dy luoedd
 (Euraid Dy wedd ydwyt, [fel yr] haul), ar gyfrif Dy aelodau,
 Ar gyfrif Dy fysedd hardd, ar gyfrif Dy diriondeb,
- 36 Ar gyfrif Dy ewinedd gloyw, Wr heb dwyll,
 Ar gyfrif Dy olwg, Grist, ar gyfrif Dy aeliau,
 Ar gyfrif Dy saint lluosog, ar gyfrif Dy ddyddiau gŵyl,
 Ar gyfrif Dy wedd hardd, ar gyfrif Dy oleuni,

40 Ar gyfrif Dy wyneb disglair, ar gyfrif Dy enau,
 Ar gyfrif Dy hoelion dur, ar gyfrif Dy wleddoedd,
 Ar gyfrif Dy nefoedd hyfryd, ar gyfrif Dy ddagrau,
 Ar gyfrif Dy loes ingol, ar gyfrif Dy angylion,
 44 Ar gyfrif gwaed Dy galon angerddol [a] briw Di,
 Fy nghamwri enbyd ei lid, fy ngweithredoedd,
 A'm dicter aruthr [a] gwyllt a'm geiriau beius,
 A'm heiddilwch oll a'm meddyliau,
 48 Trwy wlad berffaith cyfrwng [y] Drindod, maddau [imi].

Bydd Arglwydd cadarn [y] sêr, anwylyd dynion, yn fy ngolchi
 o'm camweddau,
 Arweinydd diffygion mynych pechod;
 Bydd cerdd gennyf i yn diolch am hynny,
 52 Caf nawdd y Drindod o'm cwmpas.

Yn Dy wlad sanctaidd, Dad ffyddlon ardderchog Dy amddiffyn,
 Bro loyw [a] llathraid Crist bythol Ei glod,
 Arglwydd, gyda thi yno,
 56 Fy Ngŵr Doeth o Bennaeth, [boed] gras disglair i'm henaid.

Po enbytaf, Naf nefol [Dy] feddwl, Dduw hardd,
 Y bo yn achos dyn anhyfryd,
 Mwyaf o le, Bennaeth ffydd [y] byd,
 60 Fydd gennyt, Iesu.

Gyda Thi, Frenin nef, Pennaeth ffyddlon [a] mawr,
 Ymherodr môr a thir,
 Boed imi gael nef lle y gwneir tangnefedd
 64 Drwy rym Gair y Wry Fair gywir.

Gwir [wrthrych] clod gwaredigaeth Byd Cred, [boed] Dy
 arwydd arnaf,
 Iôr nef, rhag niwed;
 Clyw fi, Arglwydd Dduw hael,
 68 Arwr dethol nef a Phennaeth byd.

Arglwydd Iesu Grist, Arglwydd Asia fawr,
 Arglwydd, Amddiffynnydd Affrica,
 Arglwydd bendithlon, Rhodd Ewrop,
 72 Arglwydd gwerthfawr Ei fendith [a chanddo] wobr ffortunus.

Arglwydd, Dduw disglair, Arglwydd Agla, Naf,
Arglwydd nef a daear,
Arglwydd Frenin, Mab Mair,
[Boed imi] drugaredd a diwedd da!

Englynion i Grist

- 4 Rhy fychan, Grist loywlan Lyw,
Dros gur hoelion, loesion liw,
A brath brongnaif â glaif glew,
Nêr eurddoeth, a wnair erddaw.
- 8 Erddaw dylyem, ddrem ddrud,
Oddef Mab Duw a wyddiad;
Efô a'n prynawdd, nawdd nod,
O uffern rew fignwern rwd,
Ac a'n gwnaeth, ffraeth ffrwythlawn ged,
O gaith yn rhyddion i gyd.
- 12 I gyd, bobl y byd, anwybodus—ÿm
Am na charwn Iesus
A theg urddas y Grasius
A Thad aur a myrr a thus.
- 16 Cadrnen sÿr, em gwÿr, a'm gwylich—o'm drygau,
Draig rhag aml bechod fylch;
Cerdd gennyf i a'i diylch,
Caf nawdd y Drindod i'm cylch.

Ffynonellau

A—BL Add 15001, 100^v B—BL Add 15004, 9^v C—J 111 [= RWM 1],
1330 D—LIGC 2002C [= Pant 33], 152 E—LIGC 4973B, 149^v F—Llst
145, 41^v [= rhif 128]

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif C, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r
holl llawysgrifau eraill, un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ohoni.
(Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 209–10.)

Teitl

dd' y koet.

Englynion i Grist

- 4 Rhy ychydig, Grist Arglwydd disglair a sanctaidd,
Am ergyd hoelion, [a'u] natur [yn peri] gloesau,
A gwaniad yn rhwygo mynwes â gwaywffon lem,
Bennaeth rhagorol o ddoeth, [—rhy ychydig] a wneir er Ei
fwyn.
- 8 Er Ei fwyn dylem, [ac yntau'n] ofid[us ei] olwg,
Ddioddef yr hyn a wyddai Mab Duw;
Ef a'n prynodd, noddfa hynod,
O faw cors rew[llyd] uffern,
Ac a'n gwnaeth, rhodd gyfoethog haelionus,
O [fod yn] gaethion yn rhyddion i gyd.
- 12 Yr ydym i gyd, bobl y byd, yn ddiddeall
Am na charwn Iesu
Ac urddas hardd yr Un Grasol
A Thad [yr] aur a[r] myrr a[r] thus.
- 16 Bydd Arglwydd cadarn y sêr, anwylyd dynion, yn fy ngolchi
o'm camweddau,
Arweinydd rhag diffygion mynych pechod;
Y mae cerdd gennyf i yn diolch iddo,
Caf nawdd y Drindod o'm cwmpas.

Dychan i Ddafydd ap Rhys ab Ieuan

- Gwnaf drwy nod anghlod â'm englyn—yn farw
 Daer agarw darogyn;
 Gwn mae ffôl y drum solyn,
 4 Gecru heirdd, caith aig, ocr i'i hÿn.
- Gwywbeth, cul eneth, cylionyn—oerlwm
 Yn erlid ffwlberdyn;
 Gwin hwyr y'i medd na gwenyn,
 8 Gwas a gaiff nychdod a gwÿn.
- Freulyd gorff dyfrgi, frilyn,—carn filiain,
 Fawlyd hagr Ddafyddyn,
 Fynwgl gwyrfan ddifwynyn,
 12 Fin crydd, rhag fy ofn y crÿn.
- Y poerllyd hewlyd holyn—am fawdruth,
 Nid am fedru emyn,
 Y pryf drwg, pyn ei profyn',
 16 Ap Rhys, hwyr i'r beirdd y pryn.
- Mab i grochan gwadd, mab gwrechyn—y piw,
 A nai'r pi gan Iencyn,
 Fab llau gwd, fab llygodyn,
 20 Fab llwch ennaint llawn haint llÿn.
- Dos, dwg anghlod nod neidryn,—dryw hy, a
 Gyr drahaus syml gorryn;
 Fy nghred i'r effeiriedyn
 24 'N ei law y caiff mefl a lÿn.
- Anurddaf anaf oenyn—o brelad,
 Baw seiliad, biswelyn,
 Budrfab Rhys, brys briwsonyn,
 28 Ab Ieuan deg, eb un dyn.

Ffynonellau

A—J 111 [= RWM 1], 1359 B—Llst 137, 350

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif A, yr hynaf; y mae testun llawysgrif B yn gopi ohono. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 209–10.)

Darlleniadau'r llawysgrif

12 yf. 20 llyyn. 24 ny la6.

Teitl

Dauyd y coet ae cant.

Dychan i Ddafydd ap Rhys ab Ieuan

- Paraf trwy farc anghlod â'm henglyn [fod] yn farw
 Bryfyn ffyrnig [a] drygionus;
 Gwn mai ffôl yw[’r un a chanddo] ffurf (?) dyn bach hyll,
 4 [Yn] cynhennu â gwŷr urddasol, [gan eu trin fel] bagad o
 gaethion, [a dwyn] anghlod i’w hynafiaid.
- Peth gwyw, geneth denau, gwybedyn anhyfryd a llwm
 Yn ymlid ffwlbart;
 Prin y mae’n meddu gwin na gwenyn,
 8 [Y] gwas a gaiff nychdod a phoen.
- Corff pwdr dyfrgi, dyhiryn, taeg llwyr,
 Dafyddyn hagr [a] bawaidd,
 Un diwerth [a chanddo] wddwf hirgam,
 12 Gwefus crydd, rhag fy ofn i y mae’n crynu.
- Yr holwr haerllug [a] glyfoeriog am druth bawaidd,
 Nid am fedru cân o foliant,
 Yr anifail drwg, pan brofent ef,
 16 Ap Rhys, o’r braidd y darpara [ddim] i’r beirdd.
- Mab i grochan twrch, mab gwrach y piw,
 A nai’r bиден gan Siencyn,
 Mab [ac arno lond] cwd o lau, mab llygoden,
 20 Mab baddon o faw llawn pla heintus.
- Dos, dwg anghlod [ar gyfer un ac arno] nodwedd neidr, ddryw
 eofn, a
 Gyr [y] corrach ffôl [a] thrahaus;
 Fy llw i’r offeiriad bach [yw]
 24 Y caiff yn ei awdurdod nam a fydd yn glynu.
- Oen bach anafus [a] mwyaf anurddasol o brelad,
 [A’i] sylfaen o faw, darn o dom,
 Mab budr Rhys, [un sy’n] brys[io at] friwsionyn,
 28 Ab Ieuan deg, medd un dyn.

Dychan i Raeadr Gwy

- Rhaeadr oergri cadr ar grwcedau—bach,
 Bychin geiniog werthau;
 Rhugl ffugl ffagl, magl mwygl refrau,
 4 Rheglwern i gwm uffern gau!
- Cau gosystig ddig, ddygn gyrbwyll—asgen,
 Ddu gynnen ddigannwyll,
 8 Caeth Rhaeadr diwaladrbwyll,
 Clafres bres, taeoeg twyll.
- Twylldwng rhwng duflwng diflas—llu ceusoeg
 Lle ceiswyd fy lleas;
 12 Tristchwedl blin doed i'r dinas,
 Tanfflam drwy Raeadr Gwy gas!
- Cas yw angadr Raeadrn,
 Casaf un hwch, trwch lwch lun,
 Cas drahausffrom, safr tom tin,
 16 Cas cas cas cas cas cŵn;
 Cas digarw y'm cystegyn',
 Cwys dewgur i'r costogion!

Ffynonellau

A—BL Add 15001, 261^v B—J 88 [= RWM 18], 35 C—J 111 [= RWM 1],
 1360 D—LIGC 4973B, 373^v E—LIGC 21287B [= Iolo Aneurin Williams
 1], 121^r F—Pen 86, 268 G—Pen 111, 363 H—Llst 137, 351

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif C, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r
 holl llawysgrifau eraill, gan gynnwys BF, yn ôl pob tebyg, un ai'n union-
 gyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt.
 209–10.)

Darlleniadau'r llawysgrif

1 oercri; crókedeu. 5 gossostic. 9 du vlóng. 15 drahusffrom

Teitl

Dauyd y coet ae cant. y readyr góy.

Dychan i Raeadr Gwy

Rhaeadr drystiog [ei] dŵr oer [a] grymus [yn disgyn] ar
 gudynnau bach,
 Ceiniogwerthau bychain;
 [Deled] chwythad coelcerth chwim, magl [i bobl â] rhefrau
 twym,
 4 [A] chors haeddiannol i berfedd cwm uffern!

Dieter dyfal ei ysfa [a] gau, sôn dybryd am niwed,
 [Ac] ymrafael chwerw dioleuni,
 Tostlym yw Rhaeadr anfonheddig,
 8 Gwraig glafrllyd esgud, taeoges twyll.

Llw twyllodrus [a fu] rhwng un anfad a chreulon [a] chiwed a'u
 boliau'n llawn gwaddod
 Lle ceisiwyd fy marwolaeth;
 Bydded i hanes trist ddod i'r dref,
 12 Fflam o dân trwy Raeadr Gwy gas!

Cas yw rhandir hyll Rhaeadr,
 [Fel yr] hwch gasaf un, [a'i] chorff [o] fudreddi anfad,
 Cas o ffyrnig a thrahaus, [gyda] sawr baw tin,
 16 Cas cas cas cas cas cas yw[ˈr] cŵn;
 Yn gas [ac] yn llidiog a chreulon y blinent fi,
 [Boed] clwyf mawr ei boen i'r taeogion!

Dychan i Siac ap Twm ap Cedi

- Cystuddffull bawddull, baddwm—y pechod,
 Yw'r mab bychan iadlwm,
 Cestgawl garl, fwly tom barlwm,
 4 Cystegwer clawr amner clwm.
- Caeth arialsur dwrch cythreulswm—soegfa,
 Ci hirbla cehyrblwm,
 Collais o'i werngoffr offrwm,
 8 Cylla diawl mywn cenawl cwm.
- Calon faen, cyff graen, caiff grwm—'n ei hyrthgwymp
 Mal hurthgen, Siac fab Twm;
 Corff pydew, trum Iddew trwm,
 12 Ci-ŵyr Cedi yw'r cidwm.

Ffynonellau

A—BL Add 15001, 261^v B—Card 4.140, 681 C—J 111 [= RWM 1], 1360
 D—LIGC 4973B, 373^v E—LIGC 21287B [= Iolo Aneurin Williams 1], 122'
 F—Llst 137, 351

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif C, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl llawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 209–10.)

Darlleniadau'r llawysgrif

1 Kystudfull. 2 pychan. 3 tombarlóm. 9 ny hyrthgwymp.

Teitl

dd' y coet ae cant.

Dychan i Siac ap Twm ap Cedi

[Un sy']n prysuro gofid [ac sy'n] fudr, baddon y pechod,
 Yw'r mab bychan penfoel,
 4 Cerlyn a chawl yn ei gylla, [â] bol [cymaint â] bryn llwm ei frig,
 Bloneg drafferthus yw gorchudd [ei] bwrs tyn.

[Y] twrch chwerw ei anian [a] llym [a] dieflig ei gasgliad lle
 llawn soegion,
 Ci maith ei haint [ac] anystwyth ei gyhyrau,
 Collais offrwm o'i gist o bren gwern,
 8 [Un â] bol diawl [sy'n byw] yng nghanol cwm.

[Un â] chalon garreg, stwmpyn [o ddyn] diolwg, caiff grymedd
 yn ei ddinistr chwyrn
 Fel hurtyn, Siac fab Twm;
 [Un â] chorff [o'r] pydew, siâp Iddew trwm,
 12 Ci o wŷyr [i] Gedi yw'r blaidd.

10
Dychan i leidr

Bwch llwch trwch, cimwch troch cymell—gwartheg
I'w gwerthu mewn gwlad bell;
Baich o faw diawl i'r bachell,
4 Bwly chwydredd, nid oes wedd well!

Cul willmer arfer oerfin—y gofid,
Gafr yn cachu cennin,
8 Cwlm tröig i ysbrigin,
Delw wag, on'd da dyly win?

Rhyorug seithug sothach—was, bawleidr,
Ysbeilo llawer gwrach;
Rhaff am freuant y mantach,
12 Mael heb drugaredd na mach!

Ffynonellau

A—BL Add 15001, 91^v B—J 111 [= RWM 1], 1360 C—LIGC 4973B,
138^v D—Llst 137, 351

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif B, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl llawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 209–10.)

Darlleniadau'r llawysgrif

4 chwycred.

Teitl

Dauyd y coet ae cant.

Dychan i leidr

Bwch [ac arno] lwch gwaradwyddus, cimwch wedi ei drochi
 [sy'n] gyrru gwartheg

I'w gwerthu mewn gwlad bell;

[Boed] llwyth o faw diawl i'r crafang[wr],

4 Bol [llawn] chwŷd, nid oes ddull gwell!

Taeog tenau [yn] arfer arf drist [yn] y frwydr,

Gafr yn cachu cennin,

[Boed] cwlwm troedig i [un fel] ysbrigyn,

8 Siâp diwerth, onid yn dda yr haedda gwin?

Y mae[r] gwas diddim ofer, [y] lleidr bawaidd,

Wedi ysbeilio llawer hen wraig;

[Boed] rhaff am wddwf yr un bylchog ei ddannedd,

12 Manteis[iol o beth] heb drugaredd [iddo] na mach!

Dychan i dref Llanymddyfri ac i Gadwgan

4 Dafydd y Coed hoed hydrsant,
 Dyn wyd cerddlon, radlon rent,
 Ffo'r bore o'r brithle brwnt,
 Ffi Lanymddyfri ddufront!

8 Lle nis gwnaeth, o faeth fethiant rhyff,—eirioed,
 O rodio gwledydd hyff,
 Hardd ged oesgred heb ysgryff
 Heirdd brydyddion prifion pryff.

12 Llyma wneuthur pur pefr ysglyff—ryged
 O ragor geirau cryff,
 Englyn; o farn gwŷr anghlyff
 O ddau gwŷs nad gau ei gyff:

16 Cafas Cadwgawn llawn llef
 Llawer nos dig annigrif
 Wrth din ci wrth dân calaf
 Yn tynnu drwy wrysg o brysg bryf.

Ffynonellau

A—B 15001, 92^r B—Card 4.140, 682, 685 C—J 111 [= RWM 1], 1361a–b
 D—LIGC 21287B [= Iolo Aneurin Williams 1], 122^r E—Llst 137, 351

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif C, yr hynaf a'r un y mae AB yn hanfod ohono. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 209–10.)

Darlleniadau'r llawysgrif

4 du vront.

Priodoliad

dauyd y coet ae cant (*mewn llaw redol ddiweddarach yn dilyn y pedwerydd englyn; gw. sylwadau rhagarweiniol y gerdd*).

Dychan i dref Llanymddyfri ac i Gadwgan

- Dafydd y Coed [sy'n dioddef] gofid [cymaint ag eiddo] sant
grymus,
Yr wyt yn ddyn cerddorol, [derbyniwr] tâl graslon,
Ffo [yn] y bore o'r lle gwael [a] chas,
4 Wfft i Lanymddyfri ddiflas [a] chas!
- Lle [ydyw] na wnaeth erioed, oherwydd methiant rhai difoes [i
ddarparu] gwledd,
Er iddynt [*sc.* y prydyddion] deithio drwy diriogaethau
dymunol,
8 [Roi] rhodd hardd o ffyddlondeb parhaol heb labystiaid
[I] brif brydyddion hardd [a] chorffol.
- Dyma lunio [yn] ddi-fai [a] gloyw berl o rodd fawr
Trwy ragoriaeth geiriau gafaelgar,
[Sef] englyn; ym marn gwŷr hyfedr
12 Gwyddys yn llwyr nad gau mo'i darddiad:
- Cafodd Cadwgan croch ei lef
Lawer noson chwerw [ac] annifyr
Ger tin ci wrth dân gwellt
16 Yn tynnu cynrhonyn â changau [wedi eu cywain o] gelli.

Nodiadau

1

Yr oedd Rhydderch ab Ieuan Llwyd o Lyn Aeron, fel ei dad,¹ yn ffigur pwysig yng Ngheredigion yn y bedwaredd ganrif ar ddeg fel noddwr beirdd a swyddog mewn llywodraeth leol dan y Goron.² Yr oedd hefyd yn awdurdod ar gyfraith Hywel ac yn dal nifer o swyddi o natur gyfreithiol. Ceir nifer o gyfeiriadau ato yn rhestri swyddogion Ceredigion o 1382 ymlaen ac yr oedd yn dal i gyflawni gwaith gweinyddol yn nawdegau'r ganrif. Fe'i ganed, yn nyb Daniel Huws, tua 1325,³ ac yn ôl Ralph A. Griffiths yr oedd yn ei fedd erbyn 1398–9.⁴ Canwyd iddo gan feirdd megis Dafydd ap Gwilym, Llywelyn Goch ap Meurig Hen, Gruffudd Llwyd ap Dafydd ab Einion, ac Iolo Goch. Â'i enw ef, wrth gwrs, y cysylltir Llyfr Gwyn Rhydderch,⁵ ac odid nad oedd yn dad i'r bardd coeth a dysgedig Ieuan ap Rhydderch.⁶ Yr argraff gyffredinol a geir ohono yw ei fod yn ŵr pur arbennig fel uchelwr lleol, yn hardd a chryf o gorff, yn goeth ei ddiwylliant, yn gyfreithiwr tra medrus, ac yn wir hoff gan y beirdd, ac y mae'r awdl hon yn dystiolaeth drawiadol i'w aml ragoriaethau a rhinweddau.⁷ Dichon mai rywbyrd rhwng 1382 a c. 1398 y canwyd hi.

Canwyd yr awdl ar fesur cyhydedd naw ban. Y mae hyd pob llinell yn rheolaidd ac fe'i cynganeddwyd drwyddi a'r gynghanedd sain yn flaenaf ac ychydig enghreifftiau o'r gynghanedd groes a thraws a'r rheini'n bengoll yn ddieithriad. Sylwer ar y newid llwyr bron o'r gynghanedd sain i'r

¹ Gw. GC 93 a GLIBH 12–13.

² Ar Rydderch, gw. yn arbennig D.H.E. Roberts, 'Noddwyr y Beirdd yn Sir Aberteifi', LICy x (1968–9), 83–9; R.A. Griffiths: PW i, 10, 117 (yn enwedig), 121, 285, 503, 536; *Llyfr Gwyn Rhydderch*, gol. J. Gwenogvryn Evans gyda rhagymadrodd gan R.M. Jones (Caerdydd, 1973), xiii; D. Huws, 'Llawysgrif Hendregadredd', Cylchg LIGC xxii (1981–2), 15–16; Llinos Beverley Smith, '“Cannwyll Disbwyll a Dosbarth”: Gwŷr Cyfraith Ceredigion yn yr Oesoedd Canol Diweddar', *Ceredigion*, x (1986), 232, 234, 236, 237, 238; ACDC 96–8; GGLI 267–70, *ib.* 13.27n. Ceir ei ach yn P.C. Bartrum: WG1 'Cydifor ap Gwaithfoed' 1–3.

³ *Art.cit.* 'Llyfr Gwyn Rhydderch', 20.

⁴ R.A. Griffiths: PW i, 117. Fodd bynnag, ceir *ib.* 504, 505, 510, gofnodion ar gyfer y blynyddoedd 1417–18, 1424–5, 1432–33, 1441–2, a 1435–6, yn ymwneud â gŵr o'r enw Rhydderch ab Ieuan Llwyd a drinnir yn y gyfrol fel yr un person. Barn D.R. Johnston ynglŷn â hyn, 'Awdl Llywelyn Goch i Rydderch a Llywelyn Fychan', B xxxv (1988), 24, n3, yw mai gŵr arall yw'r olaf. Yn IGE² xxiv awgrymir i Rydderch fyw am gyfnod yn nechrau'r 15g.

⁵ Gw. R.M. Jones, *op.cit.* xiii; D. Huws, *art.cit.* 15–16.

⁶ Ymhellach, gw. IGE² xxiv–v.

⁷ Fe'i golygwyd hefyd yn ACDC 283–6, 562–70.

gynganedd gytsain yn llinell 33. Defnyddir cymeriad llythrennol a chynganeddol yn bennaf.

- 2 **o'i emys ni omedd** Nid yw Rhydderch yn gwahardd ei feirch i eraill, hynny yw, y mae'n eu rhannu'n hael. Rhoddir gwrthrych *gomedd* yma dan reolaeth yr ardd. *o*; ar y gystrawen, gw. G 556.
- 6 **Garwy** Garwy Hir a oedd yn enwog fel milwr a charwr, gw. G 523, GDG³ 484 (48.15n), TYP² 354–5.
- 7 **rhwyll** Gair ac iddo amryw o ystyron, gw. GPC 3116–17; dilynir dehongliad ACDC 564 '*chainmail*'.
- glwysfur** Llsgr. *lôysuud*, ond derbynnir y diwygiad a awgrymir yn betrus yn G 536 er mwyn yr odl fewnol ag *Arthur*.
- 9 **Cai** Un o'r blaenaf o farchogion Arthur, gw. G 122, TYP² 303–7.
- Caw** Caw o Brydyn, gw. G 117, TYP² 301–3.
- 10–11 **Einiawn ... / Fab Gwallter** Yr oedd mam Rhydderch, Angharad Hael, yn wyres ar ochr ei mam i Einion ap Gwallter o linach Trahaearn Fawr, Brycheiniog, gŵr yr oedd dau fab iddo yn fyw yn 1271, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Elystan Glodrydd' 3, 'Trahaearn Fawr' 2. Y tebyg yw mai ato ef hefyd y cyfeirir yn 2.56.
- 10 **glud** Yn G 149 fe'i deallir yn ffurf dreigledig *chud* 'cruglwyth, ... cyfoeth, anrhaith', &c. (ar y ffurf honno, cf. GPC 509); ond rhydd *glud* gwell ystyr yma, gw. G 535 d.g. *glud*² a GPC 1412 d.g. *glud*².
- 12 **Rhydderch** Gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod. Deallir y ll. yn gyfeiriad at waith Rhydderch fel barnwr.
- geirserch** Cf. ll. 31 *eneitserch*.
- 13 **Selyf** Selyf (Solomon) fab Dafydd Frenin a gŵr a oedd yn enwog am ei ddoethineb, gw. TYP² 123–6, 506–7.
- hoywdyf** Fe'i deallir yn gyfuniad o *hoyw* a bôn y f. *tyfu*; cf. 2.61 *mawldyf*, GPB 9.42 *Garw ffroenarw*, *gafrdarw geifrdyf* ('gafraidd yr olwg') (anh.), a gw. WG 109.
- cyhydedd** Awgrymir yn G 228 y gall mai 'mydr, cynganedd, barddoniaeth' yw'r ystyr yma; os felly gellid deall y ll. yn gyfeiriad at Rydderch fel bardd da, ac ni fyddai hynny'n syndod o gofio am ei dras (gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod). Fodd bynnag, cf. yr ystyron pellach a roddir i *gyhydedd* yn GPC 745, (a): 'Y cyflwr o fod yn ogyhyd, cyfartalrwydd hyd, hyd cyfartal: *Cyfr*. dyfarniad (mewn achos) fod yr hyn y cyfreithid yn ei gylch i'w rannu'n gyfartal rhwng y diffynnydd a'r erlynydd; rhaniad (tir) rhwng cyfyrdyr; peth a fo cyfwerth neu gyfartal; maint cyfatebol; cysondeb, cyfatebiaeth, gwastadrwydd'. Gan fod Selyf yn arwr y prisid cryfder ei farn, credir y

byddai deall *cyhydedd* i olygu ‘tegwch [barn]’ yn rhoi gwell ystyr yma. Ar Rydderch ynglŷn â’r gyfraith, gw. Llinos Beverley Smith, ‘“Cannwyll Disbwyll a Dosbarth”’: Gwŷr Cyfraith Ceredigion yn yr Oesoedd Canol Diweddar’, *Ceredigion*, x (1986), 232, 234, 236, 237, 238.

- 15 **Meirion** Wŷr Cunedda. Dichon fod cysylltiad rhyngddo a Cheredigion, ac yn y cyswllt hwn y mae R. Geraint Gruffydd, ‘Why Cors Fochno?’, THSC, 1995, 15–16, wedi dadlau ar sail rhai enwau yng ngogledd Ceredigion fod cyrch gan Feirionnydd i’r rhanbarth hwnnw wedi digwydd yn gynnar yn hanes Cymru. Cf. hefyd 2.72.
- 17 **dilaestof** Fel y dywedir yn G 352, gellir ei ddeall yn gyfuniad o *dilaes* a *dof* neu o *di-* a *llaesdof*. Gan fod *llaes* a *dof* yn perthyn yn nes i’w gilydd o ran ystyr na *dilaes* a *dof*, sydd bron yn wrthwyneb i’w gilydd, haws credu mai’r ail darddiad sy’n gywir.
- dilesgedd** ‘Cadarn, cryf, pybyr’ yn ôl G 353.
- 18 **dignawd** Fe’i deellir yn gyfuniad o *dig* a (*g*)*nawd*, gan ddilyn G 345; gthg. GPC 997 sy’n nodi’r ffurf *di-gnawd* yn unig (ond heb gynnwys yr enghraifft hon).
- 19 **trafn** Gw. 2.2n.
- amlblaid** Dilynir GPC 94 o ran ei ystyr, sef ‘â llawer o’i blaid, â llawer o ganlynwyr neu gefnogwyr’; gthg. cynnig petrus G 23, ‘cymhorthus, yn cynorthwyo llawer, yn rhoddi amryw gymorth; neu, efallai, ag aml orchudd’. O blaid ystyr GPC dyfynnir yn ACDC 566 o R.R. Davies, ‘Owain Glyn Dŵr and the Welsh Squirearchy’, THSC, 1968, 167: ‘For it was one of the attributes of a squire that he should have a *plaid*, a group of supporters who obeyed his every command, a band of people who were bound to him by ties of reward or tenancy or patronage or social pressure.’
- 22 **Bedwyr** Un o’r blaenaf o farchogion Arthur, gw. G 53, TYP² 279–80.
- 23 **twf** Awgrymir yn ACDC 567 y gall mai ‘ffurf, gwedd’ a olygir yma (ystyr gyffredin i’r gair yng ngwaith Dafydd ap Gwilym); ar amrywio ystyron *twf*, gw. GPC 3656.
- Rholant** Arwr y gân Ffrangeg o gylch chwedlau Siarlymaen, ‘Chanson de Rolant’, a gyfansoddwyd c. 1100.
- anmynedd** Hen ffurf *amynedd*, gw. GPC 104.
- 24 **aml-lwrf** Llsg. *ymlŵryt*, ond rhaid wrth odl â *gynnwrf* a derbynnir diwygiad ACDC 567. Amrywiad yw *llwrf* ar *llwrw*, gw. GPC 2236.
- 27 **Llŷr** Digwydd enw Llŷr Llediaith, gw. TYP² 427–30, yn lled fynych yn y farddoniaeth am arwr a nodweddid gan ei lid, ond gall hefyd mai *llŷr* ‘môr’ sydd yma, gw. GPC 2275 d.g. *llŷr*¹ ac 3.19.

anghysyr ‘Athrugar, ffyrnig’ yn ôl G 19, ond yn GPC 67 cynigir yn betrus yr ystyr ‘di-ofn’.

28 **maelwr** Fel y dywedir yn GPC 2306 d.g. *maeliwr, maelwr*, nid yw'r ystyron ‘masnachwr, marchnatwr, siopwr, dyn canol, rhyngfasnachwr, ?pedler; gorelwr, cribddeiliwr’ yn gweddu i'r enghraifft hon a gwell yw ei chysylltu â *mael* ‘tywysog, pennaeth, arglwydd’, *ib.* 2305 d.g. *mael²*, neu *mael* ‘arfwisg wedi ei gwneud o ddolennau neu blatiau metel, arfogaeth, cotarmur’, *l.c.* d.g. *mael³*. Cyfeirir at fedd yr arwr *ebediv am maelur* yn LIDC 43 (18.209), ond ni wyddys dim rhagor amdano.

30 **Glyn Aeron** Dyma lle y trigai tad Rhydderch, Ieuan Llwyd ab Ieuan, a'i daid, Ieuan ap Gruffudd Foel, a thebyg mai tŷ yn hytrach nag ardal a olygid wrtho. Cysylltir y teulu yn ddiweddarach â Pharcrydderch, tŷ ar ochr ogleddol afon Aeron; gw. GLIBH 10–12, GC 1.26n a cf. GLGC 90 (36.19–22) *a chaned faled i ferch, / a chyrrhaedded awch Rhydderch. / Glyn Aeron, Rhydodyn dir / oedd ei adail a'i ddeudir.*

da Ar galediad *-n dd-* > *-n d-*, gw. Treigladau 26–7.

31 **anwytsedd** ‘Sedd nwyd’ yn ôl G 31, ond anodd gweld ei arwyddocâd.

eneitserch Cf. ll. 12 *geirserch*.

33 **ysgyg** Llsgr. *ysgyt*. Fe'i deallir yn ffurf 3 un.pres.myn. y f. *ysgogi*.

trosedd Gw. GC 7.40n.

38 **cyrbwyll** Ffurf hŷn ar *crybwyll*, gw. G 263, GPC 618.

erbyn Gellid ei gydio wrth *eiriach* yn y ll. flaenorol, ond ni fyddai hynny mor gyson â'r gyfres o gymalau yn dechrau ag *a(c)* a be. sy'n dechrau yn ll. 32. Cf. hefyd y tebygrwydd patrwm rhwng llau. 35–6 *pob salwedd / O'i giried, ac euro* a llau. 37–8 *dim serthedd / O'i gyrbwyll, ac erbyn*.

clêr Wynedd Cf. moliant Dafydd y Coed i Hopgyn ap Tomas lle y geilw ei lys yn *rhwyl Gwyndyd* (3.49) a Hopgyn yn *Gwyneddiadd* (ll. 143), a disgrifiad Ieuan Llwyd ab y Gargam o'r un gŵr fel *Haelfab Tomas, teml Gwynedd feirdd* (12.5). Cf. hefyd yr hyn a ddywed Siôn Cent am Frycheiniog, IGE² 268 (llau. 13–14), *Breisgeirw a bair gwŷr brwysgion, / Brwysgáu glaer foethau glêr Fôn*. Nid yw'n eglur paham y sonnir am feirdd Gwynedd yn neilltuol mewn cyfeiriadau fel y rhain (go brin bod cyfeiriadau Dafydd y Coed yn awgrymu mai bardd o Wynedd ydoedd ef, gw. tt. 3–4). Bu mwy o gymysgu rhwng beirdd gogledd a de Cymru yn sgil y Goncwest, ond nid oedd hyn yn newydd erbyn cyfnod Dafydd y Coed. Rhan o'r ergyd, efallai, yw fod llysoedd Rhydderch ab Ieuan Llwyd a Hopgyn ap Tomas yn neilltuol o boblogaidd hyd yn oed gan feirdd a drigai mor bell oddi wrthynt â Gwynedd. Ymhlyg hefyd, fodd bynnag, gallai fod elfen o edmygedd tuag at feirdd Gwynedd fel cynheilaid cadarnaf cerdd dafod Gymraeg. Yr oedd cronglwyd Hopgyn

ap Tomas, gan hynny, yn hynod (ymysg rhesymau eraill) am fod beirdd cystal â beirdd Gwynedd yn teithio mor bell i ganu yno. Y mae'n bosibl fod Hillyn, a ganodd i Ieuan Llwyd, tad Rhydderch, yn wŵr o Fôn, gw. GLIBH 95, a bod cynifer â thri o'r beirdd a ganodd i Hopgyn ap Tomas, sef Madog Dwygraig, Ieuan Llwyd ab y Gargam, a Llywelyn Goch ap Meurig Hen, yn dod o Wynedd, gw. 3.49n.

- 40 **Geraint** Geraint fab Erbin, arwr rhamant ac efallai hanes, gw. TYP² 355–60. I'r Gogynfeirdd, nodweddid ef gan ei lid a'i ysbryd milwriaethus.
- 41 **fflamddurgledd** Yn G 397 d.g. *dur* fe'i trinnir fel dau air, *fflam durgled*, ond yn 506 yn betrus fel *fflamdurgledd*.

2

Dysgwn fod gwrthrych yr awdl hon,¹ Gruffudd, yn fab i Lywelyn ab Ieuan (llau. 3–4, 28),² yn ddisgynnydd i Lawdden (llau. 6, 74), ac yn *wledig Mefenydd* (ll. 12), sef y cwmwd lle yr oedd ei gartref yn y Morfa Bychan (ll. 41). Gwelir o'r achau fod Gruffudd yn perthyn i ach Llawdden Hen, gŵr a sefydlodd linach yn ardal Uwch Aeron yn y ddeuddegfed ganrif.³ Gwelir ymhellach i Ruffudd briodi Annes, merch Ieuan Llwyd ab Ieuan ap Gruffudd Foel o Lyn Aeron.⁴

Ceir cofnodion swyddogol yn ymwneud ag un Gruffudd ap Llywelyn ab Ieuan Fychan o Geredigion.⁵ Bu hwn ar ymgyrch y Saeson yn erbyn y Ffrancwyr yn 1346–7, ymgyrch a arweiniodd at fuddugoliaeth y Saeson yn Crécy a chipio Calais, ac yn gyfnewid am ei wasanaeth derbyniodd ar 27 Awst bardwn am lofruddio ryw bryd cyn hynny ryw *Griffith Auf ap Jevan ap Griffith*.⁶ Yr oedd yn feili teithiol yng Ngheredigion yn 1351–5, yn fedel (*beadle*) yng nghwmwd Mefenydd yn 1356–9, ac yn 1360–1 yn brif ynad yn yr un cwmwd. Y tebyg yw mai ef yw gwrthrych y gerdd hon, a dichon y ceir adlais o gipio Calais yn y geiriau *Drylliwr caer aelaw* (gw. ll. 68n). Ceir cofnodion hefyd am un Gruffudd ap Llywelyn ab Ieuan.⁷ Yr oedd hwn yn sietwr yng Ngheredigion tua 1376–85, yn ystod daliadaeth y Dywysoges Joan o'r sir, ac ar 2 Chwefror 1389 parhâi i fod mewn dyled o £6 13s. 4c o'i gyfnod yn y swydd. Yn 1382–4 yr oedd yn gwnstabl Mefenydd. Cyfyd y cwestiwn ai'r un oedd y gŵr hwn â Gruffudd ap Llywelyn ab Ieuan Fychan.

¹ Fe'i golygwyd yn ACDC 275–82, 548–61.

² Arno, gw. hefyd *ib.* 77–8.

³ P.C. Bartrum: WG1 'Llowdden' 1, 3, 4.

⁴ *Ib.* 'Llowdden' 4.

⁵ Gw. R.A. Griffiths: PW i, 303–4, 469, 474.

⁶ *Register of Edward the Black Prince* (4 vols., London, 1930–33), i, 115.

⁷ R.A. Griffiths: PW i, 325, 534.

Y mae Ralph A. Griffiths yn eu trin fel dau ŵr gwahanol,⁸ ond gan fod y ddau yn dal swyddi pwysig yn yr un cwmwd ac y gallai bywyd un dyn rychwantu blynyddoedd gyrfa'r ddau yn ddigon hawdd, y mae'n berffaith bosibl mai'r un person oeddynt. Ategir hyn i raddau gan y ffaith mai Gruffudd ap Llywelyn ab Ieuan Fychan yn unig a grybwyllir yn yr achau ac na cheir ynddynt unrhyw Ruffudd ap Llywelyn ab Ieuan.⁹ Os yr un ydynt, gellir cynnig i'w flynyddoedd ymestyn o c. 1325 hyd c. 1390. Y mae'n amlwg ei fod yn was ffyddlon i'r Goron a'i fod, megis cynifer o uchelwyr y cyfnod, yn gallu cyfuno'r swyddogaeth honno'n ddigon rhywydd â noddi beirdd (ll. 58 *Emyn Curig beirdd yw*, ll. 70 *byrddlawr beirddlawr*); ac, fel y gwelwyd eisoes, tystia'r achau iddo briodi merch i deulu a oedd yn nodedig am yr un math o wasanaeth. Anodd dyddio'r gerdd, ond dichon ddarfod ei chanu rywbyrd wedi canol y bedwaredd ganrif ar ddeg (cf. hefyd l. 56n).

Egyr yr awdl ag englyn proest hir o chwe llinell¹⁰ a ddilynyr gan ddau englyn unodl union, tri englyn proest, un englyn unodl union, un englyn proest, tri englyn unodl union, a chyhydedd hir. Ac eithrio ll. 1, y mae hyd pob llinell yn rheolaidd. Ar wahân i ail hanner llinell 48, cynganeddwyd y gerdd drwyddi gyda'r gynghanedd sain yn flaenaf, yna, mewn graddfa ddisgynnol, y draws, y groes a'r llusg. Cynnwys amryw o linellau'r gyhydedd hir ddwy gynghanedd sain lle y dilyna'r naill y llall yn annibynnol. Ychydig o gynganeddion pengoll a geir. Gwneir defnydd helaeth o gymeriad, yn enwedig cymeriad llythrennol a llafarog, a cheir cyrch-gymeriad rhwng pob englyn (ac eithrio'r ail a'r trydydd englyn lle y cynhelir yr un brifodl) a rhwng yr englyn olaf a'r gyhydedd hir gyda gair olaf y gerdd yn cyrchu ei gair cyntaf.

- 1 **Ceredigion** Y mae'r ll. yn rhy hir onis cywesgir. Cf. 1.15 *C'eredigion ail Meirion* (= R 1305.12 *Credigyabn eil meiryabn*).
- 2 **crydrafn** 'Grymus ei gwrs, nerthol ei hynt' yw cynnig petrus G 182, ond ar amrywiol ystyron *trafn*, gw. GDG³ 546 (143.3n) lle y rhoddir yr ystyr 'arglwydd' a dderbynnir yma; cf GLIBH 4.62n.
- 3–4 **Gruffudd ... / ... fab Llywelyn** Gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.
- 3 **llaw Nudd** Llsgr. *labnud* a ddeallir yn GPC 2117 yn un gair ac iddo'r ystyr '(â) llaw hael fel llaw Nudd, mawr (ei) haelioni'; ond haws credu mai dau air sydd yma. Yr oedd Nudd ap Senyllt, gyda Mordaf ap Serfan a Rhydderch ap Tudwal Tutglyd, yn un o 'Dri Hael' Ynys Prydain (gw. 3.60), a chyfeiria'r beirdd ato'n aml fel safon o haelioni, gw. TYP² 476–7.

⁸ Credir *ib.* 325 mai o Forfa Bychan yr hanai Gruffudd ap Llywelyn ab Ieuan ac i Ddafydd y Coed ganu'r gerdd hon iddo.

⁹ P.C. Bartrum: WG1, mynegai, cyfrol vi, 275.

¹⁰ Gw. J. Morris-Jones: CD 326–7.

- 4 **llew olwg fab** Cf. GDG³ 36 (13.65) *Llew olwg farchog, Llywelyn,—o’th las.*
Llywelyn Gw. y sylwadau rhagarwiniol uchod.
- 6 **Llawdden** Llawdden Hen, un o gyndeidiau Gruffudd, yn ôl pob tebyg, gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.
- 8 **Mechydd** Mechydd ap Llywarch Hen, gw. CLIH 29, 30 a EWGT 86.
- 12 **Mefenydd** Un o gymydau Ceredigion yn ardal Uwch Aeron a ffiniai â’r môr ar ei ochr orllewinol lle yr oedd Morfa Bychan, cartref Gruffudd ap Llywelyn, gw. J.E. Lloyd: HW³ 258, WATU 154, D.H.E. Roberts, ‘Noddwyr y Beirdd yn Sir Aberteifi’, LICy x (1968–9), 91.
- 16 **cynnwys** Awgrymir yn G 259 mai’r a. ‘derbyniol, croesawedig; ?cynwysedig, cryno’ sydd yma. Ond sylwer mai eg. fel rheol oedd *dawn* yn y cyfnod hwn (ac felly yn unig y’i nodir yn G 303).
- 17 **gwell no thrugeinSais** Cf. ll. 38 *Drafn diddig di-Seisnig doeth*, ll. 40 *Er anfodd Eingl Llundain*, ll. 50 *Gwŷyr distryw Eingl gaith*, ll. 60 *Un cymurth Lloegrblaid* a gw. td. 6.
- 19–22 Y mae cynghanedd draws fantach (gw. J. Morris-Jones: CD 153) ym mhob llinell o’r englyn hwn; ymhellach.
- 19 **rhoi bawb** Cywasgiad o *rhoi i bawb*.
- 28 **Llywelyn fab Ieuan** Gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.
- 30 **Trystan** Trystan fab Tallwch, gw. G 394, TYP² 329–33. Diau mai at ei filwriaeth y cyfeirir yma, gw. *ib.* 332.
- 35 **meddbarth** Gthg. yr ystyr ‘ardal enwog am ei medd’ a roddir yn GPC 2396.
- 36 **brwysglawn** Yn ôl G 79, gallai hefyd olygu ‘llawn o feddwon’.
- 37 **dioer** Sylwer ei fod yn ffurf unsill.
- 38 **trafn** Gw. ll. 2n.
di-Seisnig Cf. ll. 50 *garw diestrrawn*, 3.134 *Dwys oesenw agwrdd, di-Saesnegaidd* a GC 5.18 *Eryr tymyr gwŷyr, gweilch di-Saesneg*. Y syniad yw fod Gruffudd yn Gymro diledryw. Gw. hefyd ll. 17n.
- 39 **Uthr** Uthr Bendragon, tad Arthur yn ôl y traddodiad Cymraeg, gw. TYP² 520–3. Fe’i crybwyllir hefyd yn ll. 70.
gawruthr Fe’i deallir yn gyfuniad o *gawr* ac *uthr*; gthg. G 117 lle y’i deallir yn gyfuniad o *Caw* a *rhuthr*, h.y. ‘rhuthr [megis eiddo] Caw’, ond fel y dywedir yn ACDC 553, chwithig fyddai dau e.prs. ar bwys ei gilydd fel hyn. Posibilrwydd arall fyddai diwygio i *gawr-ruthr* o *cawr* a *rhuthr*; cf. ll. 70 *Uthr cadruthr cawr*.
- 39–41 **Doeth ... / I’r Morfa ...** Ai ystyr hyn yw fod Gruffudd wedi etifeddu’r lle? Cf. GC 1.26n.

- 40 Aneglur yw arwyddocâd y ll. hon. Dywedir yn ACDC 553, 'Awgryma'r llinell fod Gruffudd wedi herio *Eingl Llundain* mewn rhyw ffordd neu'i gilydd.' Gw. hefyd ll. 17n.
- 41 **Morfa** Sef Morfa Bychan, cartref Gruffudd.
- 43 **Morudd** Ceir sawl cymeriad hanesyddol neu chwedlonol o'r enw hwn: Morudd ab Aeddan (930?), aelod o linach o dywysogion, o Rufoniog yn ôl pob tebyg, gw. WCD 489; Morudd ap Dan (274–57 C.C.), brenin chwedlonol ar Brydain ym *Mrut y Brenhinedd, l.c.*, RB 79; Morudd ab Eldad (630), tywysog o linach Buellt a Gwerthrynion, WCD 490; Morudd, un o feibion Efrog, RB 63; a Morudd Iarll Caerloyw, un o farchogion Arthur, *ib.* 200, 220, 228. O'r rhain, y mwyaf tebygol yma yw'r olaf; cf. GO 101 (XV.5–6) *Morvdd a Gwalchmai Ierwerth./ Mortvn aer, mawr wyt o nerth* (a n.104); GLGC 404 (184.63) *Pum Morudd Dafydd lle y dofem* (ond fe'i huniaethir yno, 612, â Morudd fab Efrog).
- 45 **nawell Nudd** Cf. R 1206.19–20 *Traðs ud / nud nawell* (Gruffudd ap Maredudd). Ymhellach ar *nawell* (cyfuniad o *naw* a *gwell*), gw. GPC 2557.
- 47 **grym** Yn G 595 fe'i rhestrir yn betrus fel enghraifft o'r e.
- 48 Sylwer nad oes gynghanedd yn ail hanner y ll. (*am y gwin grawn*), ond y mae cynghanedd draws yn y ll. yn gyfan.
hael ... am Ar ddilyn *hael* gan *am*, gw. G 759.
- 49 **dewgrwydr** Cyfeirir at wasgaru'r gelyn. Ar ystyr *crwydr*, gw. hefyd GDG³ 445 (d.g. *Einglgrwydr*), 489 (d.g. *deugrwydr*), GPC 617.
- 50 **diestrwn** Gw. ll. 38n. ACDC 50, 'Y mae arwyddocâd, efallai, yn y ffaith fod y bardd yn canmol ei noddwr am fod o linach bur.' Gw. hefyd l. 17n.
- 51 **gwawl** Awgrymir yn betrus yn G 635 y dylid darllen *gwawr*, ond nid oes angen. Ar y cyfuniad *gwawl* a *hawl*, cf. GCBM i, 20.3 *Haðl waðl wastad reinyad reid* ('Cyfrannwr caledi, disglair [a] gwastadol ei hawl').
llych Ffurf 3 un.pres.myn. y f. *llochi* yn ôl GPC 2249 (d.g. *llych*¹) gan gyfeirio at D (er mai *llawch* a *lloch* yw'r ffurfiau a geir *ib.* 2197 d.g. *llochaf*). Dywed hefyd fod enghreifftiau R (sef hon a 14.7) efallai'n awgrymu e., ond dichon mai bf. sydd yma (a cheir *figura etymologica* rhyngddi a *llawch*). Gthg. 14.7n.
- 52 **ffyniawn** Cf. GGDT 8.23–4 *Da gyforun un Einiawn—fab Gwalchmai / A ganai, ffynnai fal berw ffynnawn!* (Gwilym Ddu o Arfon).
- 53 **caer galch** Llsg. *garr galch* ond diau mai *gwall* am *gaer* yw *garr*. Y mae nifer o gyfeiriadau yn y farddoniaeth yn awgrymu bod cestyll a llysoedd yn cael eu gwyngalchu yn y cyfnod, e.e. GGDT 6.4 *Llew caer*

galchdew, glew, glyw ddadannudd (Gwilym Ddu o Arfon), GSRh 1.29
Rhoddiad Angharad yng ngheyrydd—gwyngalch (Sefnyn).

- 54 **Llywelyn** Gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.
- 55–6 **Powys / ... hil Einiawn** Yr oedd gwraig Gruffudd, Annes, yn chwaer i Rydderch ab Ieuan Llwyd a dichon mai at linach mam Rhydderch, Angharad, wyres ar ochr ei mam i Einion ap Gwallter o linach Trahaearn Fawr, y cyfeirir yma, gw. 1.10–11n, a cf. G 460 d.g. *Einyawn*¹⁷.
- 56 **ynad** Anodd gwybod sut i'w ddehongli yma. Gallai olygu rhywun doeth, gw. GC 7.96n, ond gall fod yma gyfeiriad at swydd weinyddol a ddaliai Gruffudd ap Llywelyn, e.e. y swydd o brif ynad ym Mefenydd yn 1360–1 (gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod). Cf. hefyd 3.53n.
- 57 **Emyr** Yn ôl G 474 (d.g. *emer*) a GPC 1211, yr e.c. sydd yma, ond gan y dilynir ef gan *ail*, mwy naturiol fyddai e.prs. (cf. llau. 8 *ail Mechydd*, 39 *ail Uthr*, 61 *ail Selyf*), h.y. yr Emyr Llydaw hwnnw yng ngwaith Sieffre o Fynwy a oedd yn dad i'r dug Hywel a thad maeth i Emrys ac Uthr wedi iddynt ffoi i Lydaw, gw. TYP² 346–7, WCD 249–50.
- amlha da** Llsg. *amylba da da*; y mae'n amlwg fod angen hepgor un o'r ddwy enghraifft o *da* er mwyn y mesur a'r synnwyr, cf. G 23. Cynigir yn betrus *l.c.* mai 'tâl aml, gwobr lawer' yw ystyr *amlba* (ar *pa*, gair ansicr sydd efallai'n golygu 'gwobr, tâl', gw. GPC 2662 d.g. *pa*⁵) ac y gellid hefyd ddarllen *amlða*. Haws, fodd bynnag, yw cytuno ag ACDC 557 mai gwall yw *amylba* am *amlha* gan fod hyn yn gwella'r synnwyr a hefyd yn dwyn ar gof eiriau yr adran honno o Emyr Curig, y cyfeirir ati yn y ll. nesaf, sy'n digwydd ychydig cyn diwedd yr emyn, *Amylha arghwydd jessu grist yn da ni achadw rac pob ryw ddrwc yny modd ydamlheist daoedd dyweisson abraham jsac a jago yn enw y santeidd giric verthyr amen* (Llst 3, 430, llau. 9–13).
- 58 **Emyn Curig** Sef 'sicrwydd'. Gweddi am nawdd Duw yn enw'r sant Curig a'i fam Iulit oedd Emyr Curig ac fe'i defnyddir yma yn drosiadol am nawdd ac amddiffyn Gruffudd ap Llywelyn. Ceir y copi cynharaf ohono yn Llst 3 (15g.); gw. B.F. Roberts, 'Rhai Swynion Cymraeg', B xxi (1964–6), 202–3, LBS ii, 194–5. Cf. 13.43–5 *Heilwin da wydrin diodrig—cadarn, / ... A gair yn ei lys, ym delw Gurig! Ar Gurig*, gw. LBS ii, 192–200, CLC² 121.
- Carawn** Nawddsant Tregaron, Ceredigion, lle y dywedir iddo gael ei gladdu, gw. LBS ii, 135–6, WCD 107.
- 59 **Achel** Achilles, arwr y Groegiaid ym mrwydr Caerdroia, gw. TYP² 335–6. *Echel* yw'r ffurf arferol, gw. G 435, a honno'n unig a geir gan Feirdd y Tywysogion, gw. A. Parry Owen, 'Mynegai i Enwau Priod ym Marddoniaeth Beirdd y Tywysogion', LICy xx (1997), 29.

Uwch Aeron Yr ardal i'r gogledd o Afon Aeron yng Ngheredigion a gynhwysai gymydau Pennardd, Anhuniog, a Mefenydd, a chantref Penweddig, gw. J.E. Lloyd: HW³ 258–9, WATU 218.

60 **cymurth Lloegrblaid** Gw. ll. 17n.

61 **Selyf** Gw. 1.13n.

arf maeldarf Llsgr. *oryf maeldoryf*. Ni restrir *gorf* nac *orf* yn G 564 nac yn GPC 1477, 2654, a haws credu mai bai sydd yma am *aryf*. Os felly, y mae'n rhaid diwygio *maeldoryf* yn *maeldaryf* er mwyn y gynganedd; cf. ACDC 559. Deellir *maeldarf* yn gyfuniad o *mael* a bôn y f. *tarfu* 'aflonyddu (ar), cynhyrfu', &c., GPC 2449 (yn hytrach na'r e. *tarf* 'cyffro, ... gwasgariad', &c., *ib.*), gw. CA 218, 223, IGE² 423, Ifor Williams, 'Nodiadau Cymysg', B xi (1941–4), 78–9). Ceir tri gair gwahanol yn dwyn y ffurf *mael*, a heblaw 'elw, ennil', ceir *mael* 'tywysog, pennaeth' a *mael* 'arfwisg', gw. GPC 2305 d.g. *mael*², *mael*³, ond llai tebygol yw'r ddau olaf yn y cyd-destun.

mawldyf Fe'i deellir yn gyfuniad o *mawl* a bôn y f. *tyfu*. Cf. 1.13 *hoywdyf*.

63 **bythwyf** Ffurf 1 un.pres.dib. y f. *bod, sef* amrywiad ar *byddwyf*, ffurf gyfochrog â *bwyf/bof*, gw. G 67, GMW 137.

64 **gwnawn** Ffurf 1 un.amhff.myn., ond fel y dywedir yn G 695, fe'i defnyddir yn aml fel ail-ddyfodol.

68 **caer aelaw** Ai at gaer neilltuol y cyfeirir? Awgrymir yn betrus yn ACDC 555–6 ar bwys hwn a ll. 53 *caer galch* mai Calais a olygir wedi iddi syrthio i'r Saeson yn 1347 (ar ran Gruffudd ap Llywelyn yn hyn, gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod), ac er nad oes unrhyw arwyddocâd neilltuol i'r ymadrodd *caer galch* (gw. ll. 53n), nid yw'n amhosibl fod Dafydd y Coed yn meddwl yma am ymgyrch 1346–7.

treillaer Cyfuniad o *traill* ac *aer* 'brwydr'; ar *traill*, 'tro, troad, treigl', &c., gw. GPC 3552 d.g. *traill*¹. Gw. hefyd T. Gwynn Jones, 'Peniarth Glossaries', B ii (1923–5), 239, CA 224.

70 **Uthr** Gw. ll. 39n.

72 **Meirawn** Gw. 1.15n.

74 **doethben, ei ddawn** Llsgr. *doethben y daŵn*. Gellid hefyd aralleirio yn 'doethben, eu dawn' gydag *eu* yn cyfeirio at aelodau *llwyth Llawdden* (er mai e.un. yw *llwyth*, eto gall mai aelodau niferus y llwyth a oedd flaenaf ym meddwl y bardd). Ar *dawn*, gw. GPC 906, (c), 'Un â chyneddfau neu allu godidog (am bennaeth, arglwydd, &c.), rhywbeth o rinwedd arbennig (crair, &c.)'.

75 **emys** Gw. 1.2n.

3

Yr oedd Hopgyn ap Tomas o Ynysforgan yng Ngŵyr, gwrthrych yr awdl hon,¹ yn un o noddwyr beirdd enwocaf a hynotaf de Cymru, yn ŵr yr ymgynghorodd Owain Glyndŵr ei hun ag ef ar ei ymgyrhoedd, yn gasglwr llawysgrifau, gan gynnwys Llyfr Coch Hergest lle y ceir pum awdl iddo gan wahanol feirdd,² yn uchelwr cyfoethog, poblogaidd, ceidwadol ei chwaeth, ac yn ddyn o ddysg a diwylliant eithriadol.³ Ynglŷn â'i flynyddoedd, cymerodd G.J. Williams fod Hopgyn yn fyw pan lofnododd ei dad weithred yn 1337 a'i fod yn hen ŵr erbyn iddo gwrdd ag Owain Glyndŵr yn 1403⁴. Y mae, er hynny, angen ychwanegu gair am yr hyn a ystyrir yn adeg ei farw. Tynnodd G.J. Williams sylw at weithred sy'n ddyddiedig 20 Medi 1408 yn cofnodi trosglwyddo tiroedd i Domas ap Hopgyn,⁵ ac ymddengys fod ysgolheigion diweddarach wedi cymryd hyn i olygu mai tiroedd Hopgyn a drosglwyddwyd a'i fod, felly, yn ei fedd erbyn adeg y weithred.⁶ Yn ôl y ddogfen ei hun, fodd bynnag, tiroedd un *Willhelmus ap Howell ap Stevin* a drosglwyddwyd wedi ei farw, nid tiroedd Hopgyn. Nid oes tystiolaeth, felly, fod Hopgyn yn ei fedd erbyn 1408, a gallai fod wedi marw yn gynt neu'n ddiweddarach. Yn y gerdd hon y mae disgrifiadau Dafydd y Coed o Hopgyn fel gŵr *gwinau* (ll. 100) a *gwineuddor* (ll. 143), sef un a chanddo wallt brown,⁷ yn awgrymu bod Hopgyn yn gymharol ifanc pan ganodd Dafydd y Coed hi.

O'r pum awdl i Hopgyn ap Tomas a ddiogelwyd yn Llyfr Coch Hergest (gw. uchod), awdl Dafydd y Coed yn sicr yw'r hwyaf ac un o'r goreuon. Y mae'n llawn brwdfrydedd tuag at y gwrthrych, a cheir ynddi ambell gyffyrddiad o ormodiaith megis pan ddywed fod Hopgyn yn haelach na'r Tri Hael eu hunain (llau. 59–60). Nid oes modd ei dyddio—y cyfan y gellir

¹ Fe'i golygwyd yn ACDC 287–302, 571–94.

² Sef (ac eithrio Dafydd y Coed) Llywelyn Goch ap Meurig Hen, R 1307–8 (GLIG cerdd 6); Madog Dwyraig, *ib.* 1310–11; Meurig ab Iorwerth, *ib.* 1373–4 (cerdd 13); ac Ieuan Llwyd ap y Gargam, *ib.* 1415–16 (cerdd 12). Ceir hefyd yn J 111, col. 600, restr o 'gasbethau' Gwilym Hir, Saer Hopgyn ap Tomos, ac yn R 1311 awdl gan y Proll i Domas ap Hopgyn (cerdd 14).

³ Arno, gw. yn arbennig TLIM 9–14, 16, 146–50; B.F. Roberts, 'Un o Lawysgrifau Hopcyn ap Tomas o Ynys Dawy', B xxii (1966–8), 223–8; Prys Morgan, 'Glamorgan and the Red Book', *Morganwg*, xxi (1978), 42–60; Christine James, "'Llwy'r Wybodau, Llên a Llyfrau': Hopcyn ap Tomas a'r Traddodiad Llennyddol Cymraeg' yn *Cwm Tawe*, gol. H.T. Edwards (Llandysul, 1993), 4–44. Ceir ei ach yn P.C. Bartrum: WG1 'Bleddyn ap Maenyrch' 32.

⁴ Gw. TLIM 10–11, isod ll. 144n. Ceir y weithred yn G.T. Clark, *Cartae et Alia Munimenta quae ad Dominium de Glamorgancia Pertinent* (second ed., Cardiff, 1910), iv, 1211–12.

⁵ TLIM 14. Ceir y weithred yn *ib.*, iv, 1458.

⁶ B.F. Roberts, *art.cit.* 227, Prys Morgan, *art.cit.* 47, Christine James, *art.cit.* 9. Yn ACDC 80–1, ar y llaw arall, sylweddolir nad Hopgyn oedd cyn-berchennog y tir a drosglwyddwyd, er camenwi hwnnw yn 'William ap Hywell ap Slain'.

⁷ Yn GPC 1662 rhoddir i *gwinau* yr ystyrion 'Brown goch, rhudd goch, eurfrown (am wallt, aeliau, &c.), castanlliw (am feirch), cochddu, melynfrown, coch tywyll; brith, cymysg, cymylog, yn "copri" (am y tywydd)'.

ei ddweud yw ei bod wedi ei chanu cyn tua 1400 pan gofnodwyd hi yn Llyfr Coch Hergest.

Egyr yr awdl â chyfres o bum englyn unodl union a'u dilyn gan englyn proest hir o chwe llinell, un ar bymtheg o englynion unodl union, tri englyn proest hir o chwe llinell, a chypledau cyhydedd hir. Ac eithrio llinell 36, y mae hyd y llinellau yn rheolaidd. Cynganeddwyd y gerdd drwyddi, ac eithrio llinellau 22 (ond gw. ll. 22n) gyda'r gynghanedd sain yn flaenaf a heb ond ychydig o gynganeddion pengoll. Gwneir defnydd helaeth o gymeriad, yn enwedig cymeriad llythrennol a chynganeddol, gw. yn arbennig yr englynion proest a'r cypledau cyhydedd hir. Ac eithrio yn llinellau 31–46 lle y cynhelir yr un brifodl, cysylltir pob englyn â'r cypledau cyhydedd hir trwy gyrch-gymeriad a chyrch gair olaf y gerdd ei gair cyntaf.

- 1 **traidd** Ar ei ystyron, gw. GSCyf 15.65n a GPC 3551–2 d.g. *traidd*¹. Gthg. yr ystyr yn ll. 112.
- 12 **grym ... gras** Cf. ll. 96 *A grym pob cyfraith a'i gras*.
- 13 **tymyr** GPC 3678 'tiriogaeth, bro, talaith, teyrnas, gwlad', &c. d.g. *tymyr*¹. Cf. hefyd IGE² 308.
- 13–14 **ei ddawn ... / ... yng Ngwyr** Deellir y geiriau hyn yn esbonio *Gras ... tymyr* yn ll. 13, yn diffinio ym mha *tymyr* y mae Hopgyn yn byw.
- 14 **dyn** Sef Hopgyn.
Gwyr Sef bro Hopgyn. Digwydd hefyd yn y ffurf *Gwhyr*, gw. G 676.
- 15 **'u** Cyfeirir at drigolion Gwyr.
- 16 **Pŷr** GLIL1 17.16n, 'Cyfeirir at ddau Pyr yn y Croniclau Cymraeg: Pyrrhus, mab Achilles, un o arwyr brwydrau Caer Droeca, cf. "Ystoria Dared", RB 33–8, "Brut y Brenhinedd", RB 42; a Pyr, un o frenhinoedd Ynys Prydain, cf. "Brut y Brenhinedd", RB 82, a enwir hefyd yn yr achau, gw. EWGT 50, 109, 121.' Odid nad y cyntaf sydd yma hefyd. Ymhellach arno, gw. OCD³ 1035 *s.n.* Neoptolemus¹ a cf. ll. 41 *Talamon*, arwr Groegaidd arall.
- 21 **nawcan punt** Yn ôl ACDC 575, byddai £900 yn flynyddol yn sylweddol iawn, yn fwy nag incwm marchog (£200 y flwyddyn) a bron yn gyfwerth ag eiddo masnachwr llewyrchus (efallai £1,000 y flwyddyn). Ond dichon mai rhif ystrydebol ydyw i gynrychioli cryn gyfoeth, ac na ddylid ei ddeall yn llythrennol, cf., e.e., *nawcanwlad*, *nawcanwledd*, gw. G 109.
- 22 **Einglgad bont** Llsgr. *eigyl gat bont*. Dilynir dehongliad G 88, 456, ond dylid hefyd ystyried dehongliad ACDC 575 lle y darllenir *Einglgadbont* a deall *pont* yn ddelwedd o allu Hopgyn i greu ffordd y gellir ei thramwyo mewn brwydr. Ceir felly gynghanedd hefyd, yn hytrach nag odl yn unig.

- 23 **gwell ... Gwent** Yn ACDC 575, deellir hyn fel cyfeiriad dilornus a chyfeirir at y ll. yn 'Nhrawsganu Cynan Garwyn', P Tal 1 (I.10) *Gwenhwys a ladet. A lafyn gwyarlet*. Fodd bynnag, cf. sylw Rhys Amheurug yn 1578, yn *Rice Merrick: Morganiae Archaio-graphia*, ed. B.Ll. James (Barry Island, 1983), 14, 'Gwent for valour, Glamorgan for liberality'. Nid dilorni gwŷr Gwent a wna'r bardd, ond eu defnyddio fel safon o wrhydri; cf. hefyd D.H. Evans, 'The Life and Work of Dafydd Benwyn' (D.Phil. Oxford, 1981), 628 (CCLII.33–4) *os dewrion, pawb ysdyrient, / nid oes milwyr ond gwyr Gwent*; GHS 12.5–6 *Gŵr o Went a gâr antur, / Mwy no dau yw â min dur*.
- 25 **cun** 'Pen, pennaeth', &c. yn ôl G 186 d.g. *cun*¹, ond gwell yma o ran ystyr yw *cun* 'haid o gŵn neu fleiddiaid; llu, mintai', &c., gw. *l.c.* d.g. *cun*².
- 26 **hollwyth** Dilynir GPC 1895 a'i ddeall yn gyfuniad o *holl* a *llwyth*. Gall hefyd mai *gŵyth* 'llid', &c., yw'r ail elfen, er na nodir y ffurf yn G 753 d.g. *gŵyth*¹.
Bleddyn Bleddyn ap Cynfyn yn ôl G 57, ond perthynai Hopgyn i lwyth Bleddyn ap Maenyrch, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Bleddyn ap Maenyrch' 32.
- 28 **enillgerdd** Cf. *enillwerth* 'yn haeddu tâl', G 479, GPC 1217. Fodd bynnag, gall hefyd olygu 'buddiol / llwyddiannus ei gerdd'.
- 34 Dichon mai ffordd arall yw hyn o ddweud 'o'r naill ben o Gymru i'r llall', ond cf. ll. 49n.
- 36 **awdur y Brythion** Yn ACDC 577 gwelir yma arwydd fod y bardd 'yn dyheu am reolwr dros y cyfan o'r hen diriogaeth, ar batrwm Arthur-aidd'. Y mae'r ll. yn fyr o sillaf oni yngenid 'Brythïon'.
- 39 **maeth** Ffurf 3 un.grff.myn. y f. *magu*, gw. GMW 124.
- 41 **Talamon** Arwr Groegaid y sonnir amdano yn 'Ystoria Dared', gw. RB 3–5, 12, 14. Dywedir amdano yno: *Talamon llef eglur oed ida6. ag6r gredua6l creula6n yn erbyn y elynyon. ac ann6yt mul ganta6. a brigeir bengrech du* (12 (llau. 26–8)). Gw. hefyd OCD³ 1479 *s.n.* Telamon.
- 42 **ton** Llsg. *don* (nid *donn*) ac anarferol, efallai, fyddai cyffelybu harddwch dyn i eiddo ton; cf. awdl Llywelyn Goch ap Meurig Hen i Hopgyn lle y dywed amdano, GLIG 6.53, *Teg yw, oreulyw ar alarch—unlliw*. Ar *ton* 'croen', gw. P. Mac Cana yn 'Nodiadau Amrywiol', B xix (1960–2), 114 a GPC 3520 d.g. *ton*².
- 43 **ar awduriaid blaid** Cydier wrth l. 46 *efyw'r goron*.
blaid Llsg. *blett* (*pace* R 1375, ll. 30, lle y darllenir *bleit*).

- 47 **gwryd** Yn betrus y cynhwysir yr enghraifft hon yn G 709 dan yr ystyr 'maintioli, hyd, neu daldra gŵr neu wraig; mesur neu faintioli unrhyw greadur', ond yr oedd Cai yn enwog am ei faint, gw. GC 11.144n.
- 48 **Erbin** Llsgr. *erbi*. Dilynir diwygiad G 117. Dywedir *ib.* 482 y gall Caw fab Erbin yma fod yn wall am Caw o Brydyn, ond gw. hefyd TYP² 303 lle y dadleuir bod cymeriadau eraill o'r enw Caw.
- 49 **Gwyndyd** Cf. ll. 143 *Gwyneddiaidd*, ac ar yr ergyd, gw. 1.38n. Wrth ofyn pwy oedd y bobl o Wynedd y cyfeirir atynt, ystyrier awdlau Madog Dwygraig a Ieuan Llwyd ab y Gargam i Hopgyn ap Tomas, R 1310.8–10 *Haðd amor trysor tróssyat uchelvreint ... hedið owyned y wahodyat beird*; 12.5 *Haelfab Tomas, teml Gwynedd feirdd*, *ib.* llau. 57–8 *Dygaf ei glod, gloywdwr hyder, / Hoywder ener, hyd ar Wynedd*. Yr oedd Llywelyn Goch ap Meurig Hen, bardd arall a chanddo awdl i Hopgyn yn Llyfr Coch Hergest, yn hanfod o Wynedd (Meirionnydd) fel y gwnâi Ieuan Llwyd ab y Gargam yntau o bosibl, gw. 12.17–20n. Yn G 740 nodir yr enghraifft hon i *Gwyndyd* yn betrus ond nid yw'n eglur paham.
- 53 **mawl aur enw** Os iawn ei gymryd fel sangiad, braidd yn llac yw ei berthynas â gweddill yr englyn.
ynad Felly hefyd l. 65 *Ynad llewych*, ll. 128 *dwyl fil ynad*. Y mae ll. 127 *Da lyfr y gyfraith*, fel y dadleua Christine James, "‘Llywyr Wybodau, Llên a Llyfrau’": Hopgyn ap Tomas a'r Traddodiad Llenyddol Cymraeg' yn *Cwm Tawe*, gol. H.T. Edwards (Llandysul, 1993), 27, yn tueddu i awgrymu 'ymwneud ymarferol â'r gyfraith rhagor na rhyw ddi-ddordeb cyffredinol ynddi'. Cf. hefyd l. 96 *A grym pob cyfraith*. Dichon, felly, er na ddefnyddir y gair yn gyffredin yng nghyd-destun gweinyddiaeth y De (*l.c.*), mai 'magistrate' yn hytrach na'r ystyr drosiadol 'gŵr doeth' (gw. 2.56n) sydd i *ynad* yma. Cf. hefyd awdl Madog Dwygraig i Hopgyn, R 1310.17–20, *kyflaðn ywyneb kof lan ynat. / Kynnedueu selyf kein vod seilyat daðn. / kyfyaðn ac unyaðn y digonyat. / Korof deheubarthdir ae karyat barngoeth* a 12.52n, 13.14n. Ar lyfrau cyfraith Hopgyn ap Tomas, gw. ll. 96n a cf. 2.56n, 12.52n.
- 55 **cylchlyn** Gthg. G 229 lle y rhoddir yn betrus yr ystyr 'cwmpaslyn' (S. 'moat'), ond haws cymryd, megis yn GPC 749, mai *llyn* 'diod', nid *llyn* S. 'lake', yw'r ail elfen.
- 56 **calchlys** Llys Hopgyn yn Ynysforgan, gw. Prys Morgan, 'Glamorgan and the Red Book', *Morgannwg*, xxi (1978), 47.
'n ei Llsgr. *nyð* a dilynir diwygiad G 98 d.g. *calchlys*. Posibilrwydd arall a awgrymir yno yw mai (*n*)*yw* a olygir (a'r *n* wedi ei hailadrodd o ddiwedd [*c*]/*ylchlyn*), ond tywyllu'r ystyr a wnâi hynny.
- 60 **Trihael** Gw. 2.3n.

- 64 **cyfarch** Dichon mai deisyfiad ar fardd am gerdd a olygir.
- 65 **ynad** Gw. ll. 53n.
- 66 **Llywarch** Sef Llywarch Hen, un o arweinwyr yr Hen Ogledd yn y 6g. cyn i gylch o ganu dyfu o'i gwmpas, gw. TYP² 430–33.
- 68 **caith** Cf. ll. 27 *eillgad*.
- 69 **Cadell** Cadell fab Rhodri Mawr, un o gyndeidiau tywysogion y Deheubarth, gw. G 90, J.E. Lloyd: HW³ 326, EWGT 104.
- 71 **llawchbobl** Gallai hefyd, fel y dywedir yn ACDC 581, olygu 'pobl wedi eu llochi / noddi'.
- 72 **Costinobl** Constantinobl, G 168, un o'r trefi pellaf yn y byd yn ôl syniad yr Oesoedd Canol.
- 73 **Elffin** Elffin ap Gwyddno, gw. G 468, Ifor Williams, *Chwedl Taliesin* (Caerdydd, 1957), TYP² 510, CLC² 229.
- 74 **nobl** GPC 2587 d.g. *nobl^l* (a), 'Uned ariannol a darn o aur bath gynt a oedd gan amlaf yn gyfwerth â thraean punt ...'; benthyciad o'r S. *noble*. Rhoddir arian parod yn ogystal â nwyddau moethus; cf. 12.61 *bunnoedd roddi*.
- 75 **yn fau** Gw. WG 284 ar y gystrawen.
- 76 **bwecwrn** Yn ôl G 191 d.g. *kwrn*, benthyciad o un o hen ffurfiau'r S. *buckram* (*bukeram*, *bougeren*, *bukram*) neu, ond yn llai tebygol, o *buckhorn*. Ategir y tarddiad o *buckram* yn GPC 351 lle y'i diffinnir fel 'math o ddefnydd main naill ai o sidan neu o gotwm; math o liain neu frethyn bras'.
- sendri** Cf. R 1328.44 *pryt o vybn prifdec sendri* (Gruffudd ap Maredudd). Fe'i diffinnir fel '?gwisgoedd syndal' yn GPC 3222, a'i darddu yn betrus o'r S.C. *endre*, amrywiad ar *endal*, sef '*A kind of costly fabric (apparently of linen or cotton)*', MED d.g.
- 79 **mwyelch** Ymddengys fod mwyalchod yn niferus o gwmpas llys Hoggyn. Cf. geiriau Meurig ab Iorwerth yn ei awdl yntau i Hoggyn ap Tomas, 13.73, *Cwyn â mil adar, canmoledig—hail*.
- 80 Yn ACDC 583, dehonglir hyn i olygu bod Hoggyn naill ai'n bwrw helmau nes eu gwneud yn llyfn neu'n eillio pennau ei elynion fel eu bod yn debyg i fadarch. Haws credu, fodd bynnag, mai'r ystyr yw fod Hoggyn yn malu helmau (a phennau) mor rhwydd ag y buasai'n malu madarch. Os felly, dyma ddelwedd lachar ac anghyffredin (a chydawns hefyd, efallai, ag ysbryd y gerdd).
- medeilch** Ar y ffurf, gw. GPC 1200 d.g. *madarch*.
- 89 **ffulltrin** Fel e. y'i trinnir yn G 513, 'ymladd egniöl', cf. GPC 1324, ond gallai hefyd fod yn a.—'egniöl ei ymladd'.

- Ffawg** Foulk (neu Fulke) Fitz Warren (neu Warine), arglwydd Whittington, gw. G 504, IGE² 345.
- 91 **llyn** Yn ACDC 296, 584, fe'i deallir i olygu llyn 'lake' o gwmpas y *gloywglos*, h.y. cwmpaslyn 'moat'.
- 92 **cetgwbl** G 120 '? yn rhannu ei holl gyfoeth, neu yn drwyadl haelionus'.
- 94–6 Yn ôl G.J. Williams, TLIM 12, y mae disgrifiadau Dafydd y Coed ac Ieuan Llwyd ab y Gargam o'r llyfrau a oedd gan Hopgyn ap Tomas yn ei lys yn unigryw yng nghanu beirdd y 14g.
- 94 y **Lusidarius** Sef yr *Elucidarium* gan Honorius Augustodunensis, compendiwm tra phoblogaidd yn yr Oesoedd Canol o'r athrawiaeth Gristnogol ar ffurf ymddiddan rhwng meistr a'i ddisgybl, a gyfieithwyd i'r Gymraeg ac y ceir y cyfieithiad cynharaf ohono sydd ar glawr yn J 119 ('Llyfr Ancr Llanddewibrefi'), gw. LIA 2–76. Ceir copi ohono hefyd yn Llst 27 ('Llyfr Coch Talgarth', c. 1400), y credir mai eiddo Rhys, brawd Hopgyn ap Tomas, ydoedd—gw. B.F. Roberts, 'Un o Lawysgrifau Hopgyn ap Tomas o Ynys Dawy', B xxii (1966–8), 224,—ac un arall yn Pen 190 (c. 1400) yn 'llaw Pen 32', sef y llaw a ysgrifennodd y rhan fwyaf o adran olaf Llyfr Coch Hergest, un o lawysgrifau Hopgyn ap Tomas, a dichon mai at un o'r rhain y cyfeirir, gw. Christine James, *art.cit.* 30–1, 35. Cyfeiria Ieuan Llwyd ab y Gargam yntau yn ei awdl i Hopgyn at y gwaith hwn, gw. 12.53–4 *Dysgodd lyfrau, loywfraint dawnus, / Lusidarius lwys ei daeredd*. Ceir cyfeiriadau hefyd gan Iolo Goch yn ei gywydd i'r llafurwr a chan Ruffudd Llwyd yn ei gywydd i Hywel ap Meurig Fychan o Nannau a Meurig Llwyd ei frawd, gw. GIG 123 (XXVIII.37), GGLI 14.7 (eithr gan gamddeall enw'r llyfr yn enw'r awdur, gw. *ib.* 280).
- 95 **Greal** Sef 'Ystorïau Sant Greal' (chwedlau'r Greal), casgliad o storïau am yr ymchwil am y Greal Sanctaidd. Fe'i cyfieithwyd i'r Gymraeg yn y 14g. o ddau destun Ffrangeg annibynnol, *La Queste del Saint Graal* a *Perlesvaus*, a luniwyd tua dechrau'r ganrif flaenorol. Ceir y copi cynharaf sydd ar glawr yn Pen 11, c. 1400, y dadleuwyd ei bod yn eiddo i Hopgyn ap Tomas ac odid nad oes gysylltiad rhyngddi a'r cyfeiriad hwn. Gw. TLIM 13, 148, CLC² 150–1, YSG xi, xiv, xx–xxi, Christine James, *art.cit.* 29–30. Fel y dywedir yn TLIM 13, y mae'n llai tebygol mai llyfr o anthemau a genid yn yr eglwys a olygir; gw. hefyd Christine James, *art.cit.* 19.
- Yniales** Ffurf, ond odid, ar *aniales*, Cymreigiad o'r Llad. *annAles* ('blwyddnodion'). Dichon mai at destun Lladin megis yr *Annales Cambriae* neu'r *Cronica de Walia* y cyfeirir, neu'r cronicl byr hwnnw yn Pen 32 ('y Llyfr Teg'), 1404, sy'n rhoi manylion am hanes Morgannwg ac y dyfynnir ohono gan Rys Amheurig, gw. TLIM 147–8. Dylid nodi hefyd fod yr olaf yn yr un llaw (a elwir yn 'llaw Pen 32') â

honno piau'r rhan fwyaf o adran olaf Llyfr Coch Hergest (J 111) (gan gynnwys cerdd Dafydd y Coed), un o lsgrau. Hopgyn ap Tomas, gw. Christine James, *art.cit.* 35. Ar y llaw arall, dichon mai testun Cymraeg a olygir, megis 'Ystoria Dared', 'Brut y Brenhinedd', neu 'Frut y Tywysogion', neu hyd yn oed gyfuniad ohonynt, gyda'r gair anghyffredin *yniales* yn cael ei ddefnyddio mewn dull generig, gw. *ib.* 22, 23–4. Ceir y tri hyn yn dilyn ei gilydd yn Pen 19, 1390–1400 (gw. BT (RB) xxix), sydd yn yr un llaw ('llaw Pen 32') â honno piau'r rhan fwyaf o adran olaf J 111, a'r ddau gyntaf mewn llsgr. ddyddiedig c. 1400 a gomisiynwyd gan Hopgyn ap Tomas ac sydd bellach yn ffurfio rhan o'r llawysgrif gyfansawdd a elwir Philadelphia 8680, gw. *ib.* 29, 35, B.F. Roberts, *art.cit.* 225–7. Felly tybed ai un o'r llsgrau. hyn a oedd gan Ddafydd y Coed mewn golwg?

96 **grym ... gras** Cf. ll. 12n.

pob cyfraith Y mae'n debygol, yn sgil y gweithiau y cyfeirir atynt yn y llau. blaenorol, mai gweithiau eraill a olygir, rhai'n ymwneud â'r gyfraith. Ymddengys fod llsgr. J 57 (c. 1400), testun tra phwysig o ddull Blegywryd o gyfraith Hywel, wedi ei hysgrifennu ar gyfer Hopgyn ap Tomas, gw. *Cyfreithiau Hywel Dda yn ôl Llawysgrif Coleg yr Iesu LVII Rhydychen*, gol. Melville Richards (arg. diwygiedig, Caerdydd, 1990), xi, xxiii. Rhaid crybwyll hefyd Pen 32 (1404) sy'n cynnwys testun o ddull Iorwerth ac sydd yn yr un llaw â honno piau'r rhan fwyaf o adran olaf Llyfr Coch Hergest (J 111, gw. ll. 95n ar *yniales*); gw. hefyd Christine James, *art.cit.* 31, 35. Ar gyswllt Hopgyn â'r gyfraith, gw. ll. 53n. Yn ACDC 585 awgrymir ei bod yn bosibl hefyd mai cyfreithiau Seisnig a olygir. Cf. ll. 127 *Da lyfr y gyfraith*.

97 **cafaf** Ffurf 3 un.grff.myn. y f. *cael*, gw. GMW 122.

98 **Ifor** Ifor ap Llywelyn ('Ifor Hael'), noddwr enwog Dafydd ap Gwilym y bernir ei fod yn ei flodau 1340–80, gw. ByCy 390, GDG³ xxxix, CLC² 361–2. Yn sgil canu Dafydd ap Gwilym iddo, datblygodd yn ddihareb am haelioni; cf. Madog Dwygraig yn ei awdl i Hopgyn, R 1310.38, *Jfor llydior leidyat gwaeb aergryn*. Cynnar iawn yw'r cyfeiriadau hyn.

99 **gwyndodig** G 740 '? gwynfydedig, dedwydd, hapus; bendithiol, llesol, hylwydd, tyciannus'; cf. Meurig ab Iorwerth yn ei awdl i Hopgyn ap Tomas, 13.9–10 *Mawr Hopgyn aergryn ... / Fab Tomas wyndodig*, 31 *Selyf un nawd, wawd wyndodig—brofiant*. Daw'r ffurf o'r e. *gwyndod* 'gwynfyd', gw. GPC 1771–2. Yn *ib.* 1772, 2, ychwanegir yr ystyr 'yn perthyn i Wynedd, yn hanfod o Wynedd' ond bwrir cryn amheuaeth ar yr ystyr honno yn G a dywedir mai coegni efallai sy'n esbonio'r enghraifft yn GDG³ 393 (148.32) *Cynwrig, Wyndodig dad?* a ddeallir *ib.* 587 i olygu 'yn perthyn i Wynedd'. Enghreifftiau o'r 17g. ymlaen yn

unig yw'r rhai eraill a nodir yn GPC 1777, 2, a'r rheini'n bennaf o eiriaduron.

- 100 **gwinau** Cyfeiriad at wallt Hopgyn; cf. ll. 143 *gwineuddor* a gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.
- 101 **Gwalchmai fab Gwyar** Un o farchogion Arthur, gw. TYP² 369–75.
- 103 **Ffin** 'Fin (neu Find) mac Cumhaill, un o hen arwyr Iwerddon', G 506. Cyfeirir ato hefyd gan Ruffudd ap Maredudd yn ei awdl i Owain fab Tomas, R 1313.28–9 *creir ffynnyant ffin*, a gw. J. Lloyd-Jones yn 'Nodiadau Cymysg', B iv (1927–9), 133. Diddorol yw gwybodaeth y bardd o draddodiad Gwyddelig; cf. cyfeiriad Dafydd ap Gwilym at Derdri, GDG³ 368 (139.21) a gw. D.J. Bowen, 'Dafydd ap Gwilym a Cheredigion', LICY xiv (1981–4), 203–4. Gw. hefyd Patrick Sims-Williams, 'Fionn and Deirdre in Wales', *Éigse*, xxiii (1989), 1–15.
- 105 **pedeircad** Ansicr yw ei arwyddocâd, ond cf. 5.10n ar *pedeiraiith*.
- 106 Ceir yma gynghanedd sain bengoll a chynghanedd lusg.
- 111–112 **Tomas ... fab Einiawn** Gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.
traidd Gw. ll. 1n.
- 114 **tyrau ddiwraidd** Cf. GLILI 20.41 *Er pan y llyweist, Lloegyr diwreit,—Gymry* (hefyd *ib.* 23.88); GCBM i, 18.3 *Glyw diwreit*. Deellir *diwraidd* yma'n e.—cf. GPC 1060 'dymchweliad, difrodaeth, difodiad', &c.—yn ddisgrifiad o Hopgyn ap Tomas; gthg. G 378 lle y trinnir yr enghraifft hon fel bf.
- 115 **crwydr** Gw. 2.49n.
- 116 **Arthuraidd** Fel y dywed Christine James, *art.cit.* 12, y mae cyffelybu Hopgyn i Arthur yn 'fodd i awgrymu gallu milwrol eithriadol'. Cf. Llywelyn Goch ap Meurig Hen, Madog Dwygraig, a Meurig ab Iorwerth yn eu hawdlau hwythau i Hopgyn, GLIG 6.43 *wiw Arthur ail*; R 1311.3 *ior annyan arthur*; isod 13.51–6 *I Arthur loywdeml ... / ... y mae tebig*.
- 117 **caing** Yn betrus y cynigir yr ystyr 'gwaywffon' yn G 97, GPC 389.
- 122 **hawl** Gallai hefyd fod yn e. (nis nodir felly yn G 768).
- 127 **da lyfr y gyfraith** Gw. ll. 53n, ac ar yr ystyr 'awdurdod' i *llyfr*, gw. GPC 2256, (b). Cf. ll. 96 *A grym pob cyfraith*.
- 128 **dwy fil ynad** Ar y rhif ystrydebol *dwy fil*, cf. GIG 71 (XV.85–6) *Gwae ddwyfil gwedi'i ddyfod / O fewn yr eglwys, glwys glod*; DN 63 (XXII.10) *Davydd wŷr Ddavydd, gyrr ddwyvil—ar ffo*. Ar *ynad*, gw. ll. 53n.
- 138 **dewiniaidd** Ai lledgyfeiriad yw hyn at allu proffwydol Hopgyn (gw. ll. 144n)?

- 141 **beilchlin** Fe'i trinnir fel e. yn G 50 ('llinach gwŷr urddasol') ac yn GPC 269 ('llinach uchelwaed'), ond haws ei ddeall fel a. ar ôl yr e.ll. *hynaif*.
- 143 **gwineuddor** Ar *gwinau*, gw. ll. 100n.
Gwyneddiaidd Gw. ll. 49n.
- 144 **berw proffwydaidd** Cyfeiriad at ymwneud Hopgyn â cherddi darogan, gw. TLIM 11; cf. geiriau Llywelyn Goch ap Meurig Hen, GLIG 6.15–16 *Eofnllwyr y gwŷr egori—yt frawd / A ddywawd praffwawd y proffwydi*. Mewn llythyr enwog a anfonwyd yn 1403 gan faer a bwrdeisiaid Caerllion ar Wysg at eu cymheiriad yn Nhrefynwy, dywedir i Owain Glyndŵr, pan oedd yng Nghaerfyrddin, anfon am *Hopkyn ap Thomas of Gower* er mwyn ymgynghori ag ef gan ei fod yn ei ystyried yn *maister of Brut*, gw. TLIM 11. Yn ôl G.J. Williams, *l.c.*, dichon mai ystyr yr ymadrodd *maister of Brut* oedd fod Hopgyn yn 'awdurdod ar yr hen ddaroganau ... ac nid ei fod ef ei hun yn eu cyfansoddi' ac y mae geiriau Llywelyn Goch yn ategu hynny.
- 146 **pân** Llsg. *pann*, ond nid yw ystyron yr a. *pan* 'wedi ei bannu' (gw. GPC 2678 d.g. *pan*²) na'r e. *pan* 'cwpan, dysgl yfed' (*l.c.* d.g. *pan*³) yn gweddu i'r cyd-destun, felly diwygir i *pân* a'i ddeall yn amrywiad ar *paun*, gw. GPC 2678 d.g. *pân*^{3, 4}. Disgrifia'r Proll fab Hopgyn, Tomas, fel *paun*, 14.40. Cf. hefyd ddisgrifiad Iolo Goch o Owain Glyndŵr, GIG (VIII.6), fel *paun y Sirwern* neu o Ddafydd ap Bleddyn, esgob Llanelwy, GIG 81 (XVIII.22), fel *Gŵr digabl, paun chwaen, chwannawg—i gerddlais*.
difwgl Nodir y ffurf yn G 341 d.g. *divygl* ac yn GPC 988 rhestrir y ffurfiau *difygl, difwgl, difwgl*. Y mae angen ffurf deirsill er mwyn hyd y ll.
- 151–2 Ceir ll. drwy'r llau. hyn yn y llsg. (*pace* R 1377, llau. 25–6), ac eithrio'r llythrennau *ledyn* yn *bledyn*, ond nid oes dim yn eu cylch sy'n peri credu na ddylent fod yn rhan o weddill y gerdd.
- 156 **gloywddu** Y tebyg yw mai cyfeiriad at lygaid Hopgyn sydd yma, cf. disgrifiad Llywelyn Goch ap Meurig Hen o Hopgyn yn GLIG 6.48 *Hopcyn gytyr lygatu* a medd ymhellach, *ib.* ll.53, *Teg yw, oreulyw ar alarch—unlliw*, gan gyfeirio at ei groen.

4

Er cyflwyno'r awdl hon¹ i'r Drindod yn benodol ar y cychwyn, eto, yn wahanol i gerdd Casnodyn i'r Drindod,² ni cheir ynddi ddim ymdeimlad o

¹ Fe'i golygwyd yn ACDC 256–70, 541–5.

² GC cerdd 7.

ymwneud y Tri Pherson â'i gilydd, a thebycach ydyw yn hyn o beth i awdlau Beirdd y Tywysogion i Dduw neu Iesu. Diolcha'r bardd i Iesu am waredu'r ddynoliaeth rhag uffern gan foli Ei greadigaeth ac ymbil arno, trwy foliant ei gerdd, i'w dderbyn i'w gwmmi. Confensiynol iawn yw'r driniaeth o'r themâu traddodiadol hyn.

Egyr yr awdl â deunaw llinell ar fesur y rhupunt a ddilynir gan bedwar englyn proest, y cyntaf, yn anarferol, yn cynnwys saith llinell a'r olaf yn cynnwys chwe llinell. Ac eithrio llinell 18, y mae hyd y llinellau yn rheolaidd. Cynganeddwyd y gerdd drwyddi gan ddefnyddio'r gynghanedd sain yn helaeth iawn. Y mae amryw o'r llinellau rhupunt yn bengoll ac yn cynnwys cynghanedd sain deirodl. Gwneir defnydd helaeth o gymeriad llythrennol, llafarog, a chynganeddol, a chysylltir diwedd y rhupunt a'r englynion, yna'r englynion â'i gilydd drwy gyrch-gymeriad.

- 1 **trafalch** *Trabalch* a ddisgwylid ond y mae angen *f* er mwyn y gynghanedd; cf. Treigladau 407 am enghreifftiau diweddarach o dreiglo ail elfen cyfansoddair ar ôl *tra-*.

'y **Nghartrefiawdr** Llsgr. *ygar trefya6dyr*. Dilynir cynnig petrus G 114.

- 2 **Gair** Sef y Gair ganedig, Crist. Ar yr ystyr hon, gw. GPC 1372, a cf. 5.64.

rhybuddiawdr Ni restrir y gair hwn yn GPC 3124; fe'i deallir yn gyfuniad o'r e. *rhybudd* a'r terfyniad gweithredydd *-awdr*, GPC 239.

- 5 **ffawd** Llsgr. *fa6t*, a chymerir bod yr *f* naill ai'n cynrychioli'r sain *ff* neu ynteu'n wall copïo. (Ni nodir yr enghraifft hon yn G 503–4 d.g. *ffawt*.)

- 6 **trosaist** Am yr ystyr 'troi, ... symud' gw. GPC 3617 d.g. *trosaf^t*. Dichon y cyfeiria yma at 'droi' y *trasyth eur byrth*, sef eu hagar.

nyrth Ceir dwy enghraifft arall o'r ffurf yn CLIH 49 (XII, 5b), BRh 16 (ll.19), ond amhosibl gwybod ai amrywiad seinegol ar *nerth* ydyw ai hen ffurf l., gw. CLIH 243, BRh 57, GPC 2571.

trasyth eur byrth Sef pyrth y nef.

- 7 **pumoes** Y rhaniad canoloesol, sy'n gyffredin yng ngwaith y beirdd, o hanes yn bum oes a ddaeth i ben gyda geni Crist, sef o'r creu hyd Noa, o Noa hyd Abraham, o Abraham hyd Foses, o Foses hyd Ddafydd, ac o Ddafydd hyd Grist. Crist oedd dechrau'r chweched oes. Ceir disgrifiad o'r chwe oes yn Bl BGCC 354 (33.33–9); gw. hefyd *ib.* 362, HG Cref 214–15, GDG³ 434, MWRL 89–90, GCBM ii, 294–5.

crogiawdr E. 'crogwr, croeshoeliwr' yn ôl G 179, GPC 609, ond fe'i deallir yma yn a.

- 10 **caethawdr** Sef y diafol.

- migynwern** Cadwyd yr *y* epenhetig er mwyn cael pedair sillaf yn y cymal (er y gellid hefyd drin *hagr* yn ddeusill). Gthg. 6.8 lle y mae'n ddeusill.
- 12 **câr** Ffurf 2 un.grch. y f. *caru*.
arwydd Yn ACDC 543, fe'i deallir yn gyfeiriad penodol at arfbais y bardd sy'n dynodi ei dras uchel.
o hil Arawdr Gw. uchod td. 3.
- 13 **môr tawch** Gw. GPC 2485.
- 14 **gwellt a gwÿdd** Cyfuniad cyffredin yn y canu crefyddol, gw. GBDd 5.45n.
- 15 **gwyllt a dof** Cyfuniad cyffredin arall yn y canu crefyddol, gw. GSRh 14.262n.
- 16 **rhadau** Llsg. *radeu*, ond y sain *d* a ofynnir gan y gynghanedd.
- 18 Sylwer bod 5 sillaf yn lle 4 yn y traean cyntaf oni chywesgir *Na ad* neu *fî yn*.
- 19–25 Ceir saith ll. yn yr englyn proest hwn; ni nodir englynion proest o fwy na 6 ll. yn J. Morris-Jones: CD 326–7: tybed a oedd y bardd am greu englyn proest gan ddefnyddio pob un o'r saith llafariad (ond gw. ll. 23n)?
- 23 **gwir** Llsg. *g6yr*, ond rhaid ei ddiwygio yn unol â gofynion yr englyn proest gan fod *gwÿr* yn digwydd yn ll. 20.
- 28 **bolch** Ffurf f. yr a. *bwlch*.
- 39 **pumoes** Gw. ll. 7n.

5

Dilyna'r gerdd ddymunol hon¹ drefn y canu i Dduw o gyfarch, moli, gofyn am faddeuant, a dymuno mynd i'r nefoedd. Diddorol yw cyfeiriad y bardd ato'i hun yn gweddio ar ei liniau gerbron delwau crefyddol (llau. 9–10) a'r adleisiau posibl, onid tebygol, o'r traethawd cyfriniol 'Ymborth yr Enaid' (llau. 35–40, a gw. y nodiadau).

Egyr y gerdd ag wyth a deugain o linellau ar fesur cyhydedd naw ban a ddilynir gan saith englyn unodl union. Ac eithrio llinellau 34, 36, 43, 63 (gw. y nodiadau), y mae hyd y llinellau yn rheolaidd. Ac eithrio llinell 51, cynganeddwyd y gerdd drwyddi gan ddefnyddio'r gynghanedd sain yn bennaf a cheir rhai llinellau pengoll. Nodwedd drawiadol ynglŷn â llinellau 1–48 ar y gyhydedd naw ban yw mai'r gynghanedd sain yn bennaf a geir yn llinellau 1–29, ond y gynghanedd gytsain (y draws yn bennaf) bron yn llwyr

¹ Fe'i golygwyd yn ACDC 256–64, 532–40.

yn llinellau 30–48. Gwneir defnydd helaeth o'r gwahanol gymeriadau, yn enwedig y math llythrennol a llafarog. Cysylltir yr englynion o linell 53 hyd linell 72 trwy gyrch-gymeriad a'r ddau englyn olaf trwy gynnal yr un brifodl ac ailadrodd yr un gair, *Arglwydd*, ar ddechrau pob llinell ac eithrio'r olaf. Eithriad i'r patrwm hwn yw englyn cyntaf y gyfres (llau. 49–52) nad oes ddim cysylltiad ffurfiol rhyngddo a llinellau 48 na 53. Gellid ei hepgor gan ddadlau bod cyrch-gymeriad synhwyrol rhwng *iawndud* (ll 48) a *wenwlad* (ll. 53) a bod yma enghraifft o englyn crwydr. Ni ellir ei fachu wrth unrhyw ran arall o'r gerdd hon nac o'r gerdd i'r Drindod (cerdd 4), ond ceir yr un englyn yn union yn cloi cerdd 6 lle y mae'n ffurfio diwedd glo priodol (er nad yw'n cyplysu'n ffurfiol â'r englyn sy'n ei ragflaenu yno ychwaith). Y mae'n bosibl, felly, fod englyn olaf cerdd 6, am ryw reswm, wedi ei ailadrodd yma, ond yn niffyg tystiolaeth fwy pendant penderfynwyd gadael testun yr awdl hon i Dduw fel y mae yn y llawysgrif.

- 1 **gwardog ... radau** Llsg. *g̃baredawc ... radeu*. Yn G 621, er hynny, d.g. *gwardawc*, gofynnir ai 'gwardawg ... radau' a gynrychiolir, gan ychwanegu bod *gradeu* yn digwydd yn ll. 4 yma. Pwynt arall sydd fel petai o blaid y dehongliad hwnnw yw'r ffaith fod *mwynawl* yn y ll. nesaf yn tueddu i ailadrodd ystyr *gwarddog*.
- 2 Ceir yma gynghanedd sain bedair odl; cf. ll. 24.
- 3 Ar gysylltu Duw â'r awen, gw. GC 4.3–6n. Ymddengys mai 'gwyर्थiau' barddonol a olygir wrth *awydd gwyर्थau*.
- 4 **graddau** Sef y graddau nefol, gw. Bl BGCC 110, 168–9 a GCBM ii, 17.1n.
- 5 **cred olau** Llsg. *cre*goleu*. Dilynir ACDC 256.
- 6 **am** Llsg. *an* a derbynir diwygiad ACDC *l.c.*
rheiddiau Gw. GPC 3051 d.g. *rheiddiau*¹ lle y rhoddir iddo'n betrus yr ystyr 'rhoddion'. Cf. hefyd GCBM ii, 16.117n, a ll. 21.
- 7 **talm gerddodlau** Cf. GDG³ 143 (53.3) *Tâl moelegg, talm o alaw*. Ystyr y testun y llythrennol yw 'odlau cerdd [sy'n] gyfran'.
- 8 **yt ydd** Llsg. *Ytt* y ond disgwyliid *ydd* o flaen llafariad, gw. GMW 171.
- 8–9 **Udd ddelwau / Aur** Gw. y drafodaeth am luniau crefyddol yng Nghymru yn yr Oesoedd Canol gan D.S. Jones, 'Cywydd Dafydd ap Gwilym i "Luniau Crist a'r Apostolion"', B xix (1960–2), 102–8. Gallai *Udd* hefyd fod yn a. yn yr ystyr 'pendefigaidd, urddasol', gw. GPC (i ymddangos).
- 10 **pedeiriaith** Dichon mai dynodi cyflawnder iaith a wna yma yn hytrach na chyfeirio at bedair iaith benodol; gw. TYP² 279 a GPC 2707 am enghreifftiau eraill a cf. GGI² 174 (LXV.55–6) *Nid gwaeth y dywaid, nid gau, / Bedeiriaith na'i baderau*; GHS 13.41–2 *Hwn a ddysgodd*

ohonun' / Bedair iaith heb ado'r un; hefyd 3.105 pedeircad, 16.26 pedwardyn.

- 11 **cüwrdd** Llsgr. *cu brd*. Dilynir G 184 lle y'i nodir yn betrus a'i drin fel un gair.

seilmawl Disgwyliad treigladau i'r ail elfen yma, ond gw. Treigladau 97, GIG 299, n95, 355, n52 ynglŷn â'r geiriau *enwogmawr, Moelmud, bolmaen*. O ran ystyr, cf. GC 7.193n ar *seiliaith*. Yn ACDC 534, oherwydd credu y dylai *sail a mawl* roi *seilfawl*, dadleuir mai cyfuniad o *seilm a mawl* sydd yma a byddai'r cyfryw gyfuniad yn ddichonadwy: er mwyn esbonio'r diffyg treigladau rhaid mai cyfuniad afrywiog ydyw, neu os yw'n rhywiog, bod dwy *m* wedi atal treigladau, gw. GIG 324, n40. Ond os felly, ailadroddir *seilm* yn y ffurf *salmaw* yn yr un ll.

cerdd salmaw Meddylia'r bardd am ei gerddi'n ffigurol fel salmaw. Cf. cyfeiriad Dafydd ap Gwilym at *sallwyr Dafydd Broffwyd* yn GDG³ 363 (137.57–60), *Pand englynion ac odlau / Yw'r hymnau a'r segwensiau? / A chywyddau i Dduw lwyd / Yw sallwyr Dafydd Broffwyd?*

- 13 **fy Arglwydd** Llsgr. *varglwyd*, ond byr yw'r ll. o sillaf felly.
- 18 **gwiwgnawd** Yn betrus yn G 688 awgrymir darllen *wiwnawd* (o *nawd* 'natur'), ond gwnâi hynny'r gynghanedd yn ddiffygiol, ac o ran ystyr y mae *gwiwgnawd* yn taro'n well am Iesu yng nghyd-destun llau. 35–40.
- 19 **rhifiau** 'Lluoedd'; ar yr ystyr hon, gw. GIG 309, 350.
- 20 **dynionau** Ffurf l. ddwbl ar *dyn*, gw. GPC 1140.
- 21 **rheiddiau** Gw. ll. 6n.
- 22 **ffydd** Llsgr. *fyd*, ond os cymerir mai'r f. *fydd* sydd yma, yna torrir ar batrwm llau. 19–25.
- cannau** Ll. *cant*, gair a nodir yn betrus yn G 109 d.g. *cant*³ ond nid yn GPC 418 (d.g. *cant*³).
- 24 Sylwer ar y gynghanedd sain bedair odl; felly hefyd l. 2.
- 26–8 Y gystrawen yw *Dyro ym ... / ...cyn yr angau, / Cyffes ...*
- 26 **arwydd gau** Fe'i diffinnir yn y ll. nesaf, *Cynnar yngyrth loes*, sef, fe ymddengys, angau anhymig a disyfyd.
- 29 **pillwern** Ar yr e. *pill* a'i ystyron, gw. GPC 2805. Meddylir am gors uffern fel castell neu gaer i'r graddau ei fod yn caethiwo y rheini a ddelir ynddo.
- 34 Y mae'r ll. yn rhy hir o sillaf oni chywesgir *Dy aelodau*.

Haul Ar gyharu Crist â'r haul, gw. Bl BGCC 118–19.

- 35–40 Y mae'r cyfeiriadau yma at rai o nodweddion harddwch corfforol Iesu, fel Ei ewinedd, Ei fysedd, a'i aelïau, yn dwyn ar gof y disgrifiad manwl o Iesu yn ddeuddeg oed a geir yn YE 17–22, e.e. 19 (llau. 82–4)

byrryon ewined ballassar kwrteisson ar hirveinon vysded anueidrawl disgleirloyw lewychder; 17 (llau. 15–16) dwy burloywduon hirueinon aeleu. Yn y cyswllt hwn dylid crybwyll mai perchennog gwreiddiol Llyfr Coch Talgarth (Llst 27), a gynhwysai destun o ‘Ymborth yr Enaid’, oedd Rhys ap Tomas yn ôl pob tebyg, sef brawd Hopgyn ap Tomas o Ynysforgan y canodd Dafydd y Coed iddo (gw. cerdd 3). Gw. B.F. Roberts, ‘Un o Lawysgrifau Hopgyn ap Tomas o Ynys Dawy’, B xxii (1966–8), 224.

36 Y mae’r ll. yn rhy hir o sillaf oni chywesgir *Dy ewinedd*.

43 Y mae’r ll. yn rhy hir o sillaf oni chywesgir *Dy yng* neu *Dy engyliau*.

44 **hygron** Yn betrus y cynigir yr ystyron ‘crwn neu lawn iawn, angerddol neu rymus iawn; cyflawn’ yn GPC 1966, ond dywedir yno hefyd y dichon ei fod i’w gysylltu â *hygron*, *hygrawn* ‘tueddol i Gronni, yn llenwi’n rhwydd’, o fôn y f. *cronni*.

45 **gwythrydaer** Llsgr. *gwythryder*. Derbynnir diwygiad G 753.

46 **gwyll** Amrywiad ar *gwyllt*, gw. GPC 1766.

48 **iawndud** Unig enghraifft, a dilynir GPC 2004 o ran ystyr a tharddiad. Braidd yn chwithig, er hynny, yw *iawndud moddiant Trindod* o ran synnwyr, a thybed nad bai sydd yma am *iawndid* ‘iawnder, cyfiawnder’ (ar y terfyniad e. *-did*, megis yn *glendid*, *gwendid*, gw. WG 231), er na welwyd enghraifft arall o’r gair?

moddiant Yn betrus y nodir yr ystyron ‘cyfrwng, dull, moddion’ yn GPC 2474.

49–52 Ar berthynas yr englyn hwn â gweddill y gerdd, gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.

49 **gwylch** Ffurf 3 un.pres.myn. y f. *golchi*, gw. G 552. Y mae’r syniad o olchi rhywun o’i bechodau yn hen ddelwedd feiblaidd.

50 **bylch** Ll. *bwlch*.

51 Ni cheir cynganedd yn y ll. hon.

a’i diylch Ffurf 3 un.pres.myn. y f. *diolch* yw *diylch*, gw. G 365. Y mae’r rh.m. ‘i yma’n cyfleu gwrthrych anuniongyrchol y f.

56 **Ynad** Ar yr ystyr, gw. 2.56n.

57–60 **Bo cyfyngaf ... / gan ddyn ... / Ehangaf ... / ... gennyd** Cf. y ddihareb *Po cyfynga gan ddyn ehenga gan Dduw* yn D (Diar). Fel y dywedir yn ACDC 539, y mae’n amlwg fod yma addasiad o hen ddihareb.

60 **cynnwll** Llsgr. *gynnwll* a dderbynnir yn GPC 797; gthg. G 258 sy’n awgrymu’n betrus ddiwygio’n *gynnull*.

63 Y mae’r ll. yn rhy hir o sillaf oni chywesgir *lle y*.

- 64 **Gair** Gw. 4.2n.
- 65 **arwydd** Cf. Dat vii.3 ‘Peidiwch â niweidio na’r ddaear na’r môr na’r coed nes inni selio gweision ein Duw ar eu talcennau’; *ib.* ix.4 ‘Dywedwyd wrthynt am beidio â niweidio na phorfa’r ddaear na’r un planhigyn na choeden, ond yn unig y bobl nad oedd sêl Duw ganddynt ar eu talcennau’; GBF 33.78 *Dot not y’r m hŷneb, a’r m hadneppych* (Madog ap Gwallter) a gw. E. Rowlands, ‘Dydd Brawd a Thâl’, LICY iv (1956–7), 80–9.
- 69–71 ... **Asia** ... / ... **Affrica**, / ... **Europa** Dichon fod yma adleisiau o ‘Delw y Byd’, sef cyfieithiad o lyfr cyntaf *Imago Mundi* Honorius Augustodunensis lle y disgrifir y byd a’i barthau; gw. DB.
- 71 **Rhodd** Fe’i deallir am Dduw.
- 72 **pa** Gair ansicr y rhoddir iddo yr ystyron ‘? gwobr, tâl’ yn GPC 2662 d.g. *pa*⁵, gan ei gymharu â *pae* ‘tâl, taliad, cyflog’, benthyciad o’r H.Ffr. *paie*, o bosibl trwy’r S.C., *ib.* 2667.
- 73 **eglor** ... **Agla** Hen drawiad; cf. IGE 232 (llau. 69–70) *Adsios ysgeiros dros gur, / Alpha w agla eglur* (Ieuan ap Rhydderch); GSRh 12.241 *Trindawd eglurffawd Agla—a’r m llywio* (Gruffudd Fychan). Ymhellach ar *Agla*, sy’n dod o’r Roeg *aglaos* ‘disglair’, gw. G 15, GPC 47. Fe’i disgrifir gan E. Duffy, *The Stripping of the Altars* (New Haven and London, 1992) 275, ynghyd ag *Anazapta*, fel gair hudol.
- 74 **terra** Y gair Llad. *terra* yn golygu ‘daear’.
- 76 Cf. GDB 35.92 *Ys caffo ef drugared a diwed da. Amen* (Dafydd Benfras); GSRh 12.244 *Trugaredd a diwedd da* (Gruffudd Fychan).

6

Ar awduriaeth y gerdd hon, gw. td. 8. Cyfres o englynion ydyw sy’n sôn am anniolchgarwch pobl am ddiodefaint Crist a fu farw ar y groes er mwyn rhyddhau’r ddynoliaeth o afael uffern. Diwedda’r bardd trwy osod ei ffydd a’i ymddiriedaeth yn Nuw a’r Drindod a fydd yn ei ddiogelu rhag pechod a chan gynnig ei gerdd yn arwydd o ddiolch.

Cyfres o ddau englyn proest, yr ail yn chwe llinell o hyd, a dau englyn unodl union yw’r gerdd. Ac eithrio llinell 5, y mae hyd y llinellau yn rheolaidd. Cynganeddwyd y gerdd drwyddi, ac eithrio llinell 15, gan ddefnyddio’r gynghanedd sain yn bennaf. Ac eithrio diwedd y trydydd englyn, cysylltir diwedd pob englyn a dechrau’r englyn nesaf trwy gyrch-gymeriad a defnyddir cymeriad llafarog yn bennaf. Ceir yr englyn olaf hefyd yn awdl Dafydd y Coed i Dduw (cerdd 5.49–52); gw. ymhellach sylwadau rhagarweiniol y gerdd honno.

- 5 Y mae'r ll. yn fyr o sillaf.
- 8 Gellid hefyd roi coma ar ôl *rew* ac aralleirio'r ll., 'O rew uffern, aflendid cors', ond gwannach, efallai, yw'r effaith felly.
- 15–18 Ar berthynas yr englyn hwn â gweddill y gerdd, gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod. Am nodiadau arni, gw. y nodiadau ar 5.49–51 ac ymhellach gw. sylwadau rhagarweiniol cerdd 5.

7

Cerdd ddychan yw hon i glerigwr (llau. 23 *effeiriodyn*, 25 *prelad*) o'r enw Dafydd ap Rhys ab Ieuan (llau. 10, 16, 18, 27–8).¹ Ymddengys fod Dafydd yn rhy grintachlyd i dalu'n deilwng i feirdd o'r iawn ryw (gw. llau. 4, 7, 13–16, 27), ac wele, felly, yr ymosodiad hwn.² Un o'r pethau mwyaf diddorol ynglŷn â'r gerdd yw'r bwriad a ddatgenir yn y llinell gyntaf o'i defnyddio i ladd y gwrthrych (gw. ll. 1n). Gwneir defnydd helaeth o eiriau sy'n diweddu â'r terfyniad bachigol *-yn* (e.e. llau. 2 *tarogyn*, 6 *ffwlberdyn*) sy'n awgrymu bod Dafydd ap Rhys yn fach o gorff neu'n ddirmygadwy.³

Cafwyd hyd i dri dyn o'r enw Dafydd ap Rhys ab Ieuan yn yr achau, sef Dafydd ap Rhys ab Ieuan o hil Bleddyn ap Cynfyn (Maldwyn),⁴ Dafydd ap Rhys ab Ieuan Fychan o hil Padriarc (Maldwyn),⁵ a Dafydd ap Rhys Moethe ab Ieuan Llwyd o hil Cydifor ap Gwaithfoed (Ceredigion).⁶ Fodd bynnag, gan fod y tri, yn ôl Bartrum, yn perthyn i'r ddeuddegfed genhedlaeth, ac felly wedi eu geni c. 1400, diweddarach ydynt nag oes Dafydd y Coed. Ni ellir casglu, felly, o dystiolaeth yr achau nac ychwaith o dystiolaeth fewnol y gerdd pwy oedd union wrthrych y gerdd ddychan hon.

Cyfes o saith englyn unodl union yw'r gerdd a'r cwbl ar yr un brifodl. Ac eithrio llinell 4, y mae hyd y llinellau yn rheolaidd a chynganeddwyd y gerdd drwyddi gan wneud defnydd helaeth o gymeriad llythrennol.

- 1 **Gwnaf ... yn farw** Cf. y gred ymysg y Gwyddelod fod dychan bardd yn dwyn marwolaeth a drwg effeithiau eraill yn ei sgil, gw. J.E. Caerwyn Williams, *Traddodiad Llenyddol Iwerddon* (Caerdydd, 1958), 147–8. Yng Nghymru ceir traddodiad cyffelyb am ladd Rhys Meigen â cherdd ddychan gan Ddafydd ap Gwilym, gw. GDG³ xl–li; rhagflaenir dychan Trahaearn Brydydd Mawr i Gadwgan Ficar gan y geiriau

¹ Fe'i golygwyd yn ACDC 306–9, 600–4.

² Cf. hefyd gerdd 19, ac yn arbennig gerdd yr Ustus Llwyd i Ruffudd de la Pole, BI B XIV 151–3 (71).

³ Cf. yn neilltuol ddychan Trahaearn Brydydd Mawr i Gasnodyn, gw. GGDT cerdd 13, td. 132.

⁴ P.C. Bartrum: WG1 'Bleddyn ap Cynfyn' 25.

⁵ *Ib.* 'Padriarc' 2.

⁶ *Ib.* 'Cydifor ap Gwaithfoed' 7.

Trahaearn Brydydd Mawr a'i cant i Gadwgawn Ficar a'i ddaw ac y llosges ei dŷ y Calan nesafwedy ei ddychanu yn nos Nadolig ac y llas ei ddaw, GGDT cerdd 12; ac y mae'n bosibl mai dychanu tebyg a achosodd farwolaeth Griffri yn nychan y Mab Cryg iddo (gw. sylwadau rhagarweiniol cerdd 16). Gw. hefyd DGIA 39–41, Dylan Foster Evans, 'Goganwr am Gig Ynyd': *The Poet as Satirist in Medieval Wales* (Aberystwyth, 1996). Diau mai rhai o effeithiau'r dychan a olygir hefyd yn llau. 8, 12, 22, 24.

- 2 **tarogyn** Amrywiad ar *torogyn*, sef ffurf wrywaidd *torogen* 'tick' neu 'louse', gw. GPC 3530 a cf. GGDT 13.4n.
- 3 **trum** Ar ei ystyron, gw. GDG³ 477 (d.g. *diwalldrum*), GPC 3623 a cf. 9.11
solyn Nis rhestrir yn GPC. Cynigir yn dra phetrus mai cyfuniad o *salw* ac *-yn* ydyw a droes yn *sawlyn* (trawsosod) ac yna'n *solyn* (gwyriad). Ystyr y gair felly fyddai 'dyn bach gwael / hyll', ystyr sy'n sicr yn gweddu i'r cyd-destun. Posibilrwydd arall yw mai benthyciad sydd yma o'r S.C. *sol* (*sole* heddiw) 'lleden chwithig', gw. MED d.g.; cf. y ffordd y geilw Casnodyn Drahaearn Brydydd Mawr yn *dwys gemyw* (GC 11.5) a *safn cemyw* (ll. 169). Posibilrwydd arall yw cyfuniad yn cynnwys yr e. *siol* 'pen, penglog, ... corun', &c., (o'r S.C. *cholle*, ffurf ar *jowle*), GPC 3286 d.g. *siol*¹.
- 4 Y mae'r ll. yn rhy hir o sillaf ac awgrymir yn betrus yn G 97 hepgor *caith*, ond nid yw hynny'n gwella'r ystyr na'r gynganedd.
heirdd Y tebyg yw mai beirdd a olygir, cf. yr ymadrodd cyffredin *beirdd heirdd*; cf. 12.4.
ocr Benthyciad o'r S.C. *ocr*, EEW 178, GPC 2613 (d.g. *ocr*¹). Fe'i deellir yma yn ffigurol, gw. *l.c.*
hŷn Gradd gmhr. *hen* a ddefnyddir yma'n enwol am 'fonedd', gw. GPC 1973–4.
- 6 **ffwlberdyn** Ffurf fach. *ffwlbert*, *ffwlbart*, benthyciad o'r S.C. *fulmerd*, *fulmard*, gw. GPC 1328.
- 7 **gwenyn** Er mwyn gwneud medd, yn ôl ACDC 601.
- 8 **nychdod** Gw. ll. 1n.
- 9 **brilyn** Benthyciad o bosibl o'r S. *breel* 'worthless, good for nothing fellow', gw. G 76, GPC 326, ond tynnir sylw hefyd yn yr olaf at yr Wydd. *brille*, *brillin* 'hurty'n, ynfyty'n'.
- 10 **Dafyddyn** Ffurf ddirmygus ar enw gwrthrych y gerdd ddychan, cf. ll. 18 *Iencyn* (o *Ieuan*) a'r defnydd dychanus tebyg yn GGDT 15.58 *Tutgyn* (Iorwerth Beli) (o *Tudur*) a Bl B XIV 152 (71.34) *Gruffyddyn*.

12 **crydd** Bwrw'r bardd ddirmyg ar Ddafydd ap Rhys trwy gyffelybu ei wedd i eiddo gweithiwr a ddilynai grefft a ystyrid yn is na'r broffes farddol. Cf. y cyfeiriadau yng ngherddi dychan Casnodyn a Llywelyn Ddu ab y Pastard, *Palfau pryf cau cryf, ci crydd*, GC 11.95; *Crydd teimlwydd tomlyd, crud gwŷd gwaedog*, GLIBH 19.54. (Nodir yr enghraifft hon o *crydd* yn betrus yn G 182.)

crÿn Ar briodoli ofn i'r gwrthrych yr ymosodir arno mewn dychan, gw. DGIA 58.

13–16 Ergyd y llau. hyn yw fod Dafydd ap Rhys yn derbyn cerddi isel eu safon (*bawdruth*) yn lle gwobrwyo'n hael am rai da (*emyn*). Gall fod Dafydd y Coed ar yr un pryd yn gwahaniaethu rhwng dau ddosbarth o fardd. Os felly, gellir tybio mai'r glêr oedd awduron y *bawdruth*.

13 **hewlyd** Gair ansicr ei ystyr a'i darddiad. Dyma'r unig enghraifft a nodir yn GPC 1864 lle y rhoddir iddo'n betrus yr ystyron 'yn herio, haerllug, cecrus', a derbynnir hynny yma.

holyn Dilynir GPC 1891 (d.g. *holyn*¹) lle y'i deellir yn betrus yn e. â'r ystyr 'holwr taer a haerllug; hawlwr'. Gwrthrych ydyw i *profyn*' yn ll. 15.

14 **emyn** Ar yr ystyr, gw. GPC 1211, a cf. y defnydd tebyg o *salm*, gw. 5.11n.

15 **pyn** Fe'i deellir yn amrywiad ar *pan*, gw. GPC 293 (d.g. *pyn*²). Yn ACDC 603, fe'i deellir yn un o ffurfiau ll. *pwn*. Yr ystyr felly fyddai 'yn lluoedd y'i profant'. Ond yn ôl GPC 2942, ar ôl y rhif *can* yn unig y ceid *pyn*.

ei profyn' Dichon mai cyfeiriad at y beirdd (gw. y ll. nesaf) yn rhoi prawf ar Ddafydd ap Rhys gan ddwyn tystiolaeth amdano yn eu cerddi.

16 **Rhys** Gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.

17 **crochan gwadd** Dilynir G 177, 597 a chymryd y ddau air gyda'i gilydd, ond nid yw'r gyfeiriadaeth yn eglur. Ai rhyw frywes gwraich a gynhwysai dyrchod a phethau eraill a olygir, disgrifiad a fyddai'n gyfochrog â *mab gwrechyn* y *piw* yn yr un ll.? Defnyddir *gwadd* hefyd mewn cerddi dychan i ymosod ar y gwrthrych, ac fe ellid, gan hynny, ei gymryd ar ei ben ei hun, ond mwy penagored fyth felly fyddai ystyr *crochan* ac ni cheid cystal cyfochredd â *gwrechyn* y *piw*. (Yn GPC 602, (b), nodir hefyd ar gyfer *crochan* yr ystyron 'dyn glwth, un gwancus anniwall; un sy'n dal sylw craff ar bopeth sy'n digwydd o'i gwmpas', ond 1782 yw dyddiad yr enghraifft gyntaf.)

gwrechyn y piw Cf. Eirlys Gruffydd, 'Hela 'Sgwarnogod', *Llafar Gwlad*, i (1983), 6–7, lle y sonnir am gred dra hynafol ymysg y Cymry

fod gwrachod ar ffurf ysgyfarnogod yn dwyn llaeth trwy sugno gwartheg. Cf. hefyd GPB 10.18n ar *Caul y Pulo*.

- 18 **Iencyn** Gw. ll. 10n a'r sylwadau rhagarweiniol uchod.
- 21 **anhlod nod neidryn** Fel y dywedir yn ACDC 603, y mae awgrym o Satan yn y geiriau (gw. yn enwedig Gen iii.14–15).
dos ... dryw hy Diau mai gwyrddroi y thema o anfon aderyn yn llatai (megis yng nghanu Dafydd ap Gwilym neu'r stori am ddrudwy Branwen yn ail gainc y Mabinogi) a wneir yma. Fel aderyn gwrthun yn aml yr ystyrid y dryw gan y beirdd, e.e. GGDT 13.31 *Cyw dryw drewedig bregeth* (Trahaearn Brydydd Mawr); GDG³ 43 (15.31–2) *Nid un gwalch hoywfalch hyfaidd—llygeidfyw / Ag yw cyw y dryw, caeau a draidd*.
- 22 **gyr** Gall mai 'gyr ymaith' neu hyd yn oed 'gyr o'i gof' a olygir.
- 23 **cred** Tyngu llw a wna'r bardd yma.
- 24 **mefl a lŷn** Bydd rhyw nam corfforol a fydd yn aros o ganlyniad i felltith y bardd.
- 25 **anaf** Yn G 26 cynigir yn betrus y gallai olygu 'anafus' yma, ac yn GPC 106 rhoddir i *anaf* fel a. yr ystyr 'gwrthodedig'. Gwell yw'r ystyr gyntaf yma ac efallai, fel y dywedir yn ACDC 604, mai oen wedi ei ysbaddu neu a'i gynffon wedi ei thorri a awgrymir.
- 26 **seiliad** Rhydd GPC 3210 yr ystyron 'y weithred o seilio, sylfaeniad, sail, seiliau, sylfaen, hefyd yn *ffig*.' Tybed ai 'tras' a olygir yma? Cf. y defnydd o *gosail* yn DGA 63 (22.41–2), *Ni cheisiaf, ddyn wych osail [‘girl of excellent lineage’], / Yn rhydd ond y dydd a'r dail*. Posibilrwydd arall fyddai 'tin', cf. y defnydd o *bôn* yn yr un ystyr, gw. G 70; ac ar y syniad, cf. 8.3 *mwygl refrau*, GGDT 12.5 *A gwilo fawdro* (Trahaearn Brydydd Mawr).
- 27–8 **Rhys ... / Ab Ieuan** Gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.
- 28 **un dyn** Sef Dafydd y Coed.

8

Yn y gerdd hon¹ dychenir a melltithir trigolion tref Rhaeadr Gwy am geisio lladd y bardd (ll. 10). Pe gellid deall *digannwyll* yn llinell 6 yn llythrennol, gellid awgrymu mai pan oedd y bardd yn ei wely liw nos y bu hynny. Os felly, dygir ar gof gerdd enwog Dafydd ap Gwilym 'Trafferth mewn Tafarn' lle y ceisiodd tri Sais ymosod arno, ac yntau'n *tewi yn y tywyll*, oherwydd meddwl y byddai, ac yntau'n Gymro, yn sicr o ddwyn eu heiddo.²

¹ Fe'i golygwyd yn ACDC 303–5, 595–9.

² GDG³ 327–30 (cerdd 124).

Dywed Ian Soulsby am Rhaeadr Gwy:

The ... street-pattern suggests a planned settlement, and Rhayadr was regarded as a borough, although by prescription only as there is no record of any charter. ... the place is not specifically referred to as a town until 1304. It appears as a borough in accounts of 1360 and 1371 and there were also markets and a fair held at this time ... Rhayader appears to have been a defended town ... Like the majority of Welsh towns Rhayader suffered at the hands of the Glyndŵr rebels, and it emerged as nothing more than a petty market centre ...³

Hawdd y gellid meddwl am y lle fel un o'r trefi Seisnig niferus hynny a sefydlwyd yng Nghymru yn y drydedd ganrif ar ddeg a'r ganrif ddilynol,⁴ a cheir cerddi eraill gan y beirdd sy'n adrodd am droeon anffodus a gawsant mewn trefi Seisnig. Ymysg y rhain gellir crybwyll yn neilltuol ddychan y Mab Cryg i Sais o'r enw Griffri o Drefyclo a'i carcharasai,⁵ cerdd glera Iocyn Ddu ab Ithel Grach yn dychanu mab maer Caer am ei anfoesgarwch,⁶ a dychan Tudur Penllyn i dref y Fflint oherwydd iddo gael ei watwar yno pan ganodd gerdd.⁷

Trawiadol yw'r ffordd y mae'r gerdd yn agor gyda disgrifiad o rhaeadr y dref, ond nid yw hyn mewn gwirionedd ond ffordd gyfrwys y bardd o hysbysu mai â'r dref honno y mae a wnelo'r gerdd, a'r darluniad byw yn codi o hynodrwydd y rhaeadr ei hun (gw. ymhellach 8.1n).

Cyfes o dri englyn unodl union ac un englyn proest hir yw'r gerdd. Y mae hyd y llinellau yn rheolaidd. Cynganeddwyd y gerdd drwyddi gan ddefnyddio'r gynghanedd sain yn bennaf gydag enghreifftiau dwbl, teirol a chweodl. Cysylltir diwedd pob englyn a dechrau'r englyn nesaf trwy gyrchgymeriad a gwneir defnydd helaeth o gymeriad llythrennol, geiriol a ch ynganeddol.

- 1 **rhaeadr** Sef y rhaeadr ger y bont sy'n croesi Afon Gwy ar gyrion gorllewinol y dref. Yn Alan Crow, *Bridges on the River Wye* (Hereford, 1995), 46, dywedir, 'When the Wye reaches Rhayader it encounters a rocky channel, and the resulting cataract gave the town its proper name of Rhaeadr Gwy ... The bridge was built across the cataract in 1780, and it is said that the latter was much reduced in consequence ...' Perthyn i eiriau Dafydd y Coed ddiddordeb fel disgrifiad cynnar o'r rhaeadr. (Gthg. y farn hon am ystyr *rhaeadr* yma â honno a fynegir yn

³ Ian Soulsby, *The Towns of Medieval Wales* (Chichester, 1983) 224–6.

⁴ Yn ôl *ib.* 224, nid oes unrhyw sôn am y lle fel anheddfa sifil (*civil settlement*) cyn y 14g.

⁵ Cerdd 16.

⁶ Gw. Bl B XIV 149–51 (cerdd 70). Ceir dychan i wŷr Caer hefyd gan Lewis Glyn Cothi, gw. GLGC 467–9 (cerdd 215).

⁷ GTP 51–3 (cerdd 30).

R. Iestyn Daniel, 'Y Ffynhonnau yng Nghanu'r Cywyddwyr', *Dwned*, vii (2001), 77–9, lle y cymerwyd ar gam mai ffynnon a olygid.)

oergri cadr ar grwcedau Llsg. *oercri kadyr ar cr6kedeu*. Diwygir oherwydd angen treiglo ail elfen gair cyfansawdd ac ar ôl yr ardd. *ar*.

crwcedau Ll. *crwced, croced*, benthyciad o'r S.C. *croket*, gw. G 180, GPC 601 (d.g. *croced*). Ar ystyr *croket*, gw. MED 757 d.g., '*an ornamental curl or roll of hair*'. Ymddengys mai'r hyn a olygir yw ffurf yr ewyn ar wyneb y dŵr. Cynigia G hefyd yn betrus yr ystyr 'crwc' ('twba, celwrn', &c.) ar gyfer *crwced* fel pe bai'n ffurf ar *crwc*, er nad oes unrhyw enghreifftiau eraill yn hysbys. Yr ystyr, felly, fyddai bod y rhaeadr fel bwceidiau o ddŵr. Ceir enghraifft nodedig o 'ddyfalu' dyfr-oedd ffynnon yn y cywydd ansicr ei awduriaeth i ffynnon Gwenfrewi yn IGE² 105 (llau. 11–24).

- 2 **bychin** Gall fod yn ffurf dafodieithol megis a glywir ar lafar yng Ngwynedd, neu'n wall am *bychein*. Nis nodir yn G 85 na GPC 360.

ceiniog werthau Cyffelybir ewyn y dŵr eto.

- 3 **rhugl ffugl fflagl ... / ... i gwm** Cf. llau. 11–12 *Tristchwedl blin doed i'r dinas*, / *Tanfflam drwy Raeadr Gwy gas*; GTP 51 (30.4) *Y Fflint a welwyf yn fflam*.

mwygl refrau Yr awgrym yw eu bod heb eu glanhau yn iawn, cf. 7.26n.

- 4 **rhewlwern** Llsg. *regylwern*. Ni restrir y ffurf yn GPC 3049, ond cf. GLIBH 19.115 *Rhyglfab Hywel, sêl rhugl, seilied—ei bwll* (Llywelyn Ddu ab y Pastard) ac *ib.n* lle y deellir *Regyluab* y llsg. yn betrus i olygu 'mab haeddiannol' a chynnig mai amrywiad (orgraffyddol o bosibl) yw elfen gyntaf y cyfuniad ar *rhygl* o'r f. *rhyglyddu* 'haeddu', &c. Y mae'n bosibl hefyd fod yma wall am *regwern* 'cors felltgedig' gyda'r *l* wedi ei chario drosodd ar gam o *rugyl* yn y ll. flaenorol (er bod hynny'n gwanhau'r cymeriad). Y mae *gwern* yn air cyffredin iawn yn nisgrifiadau'r beirdd o uffern a gall fod yn gyfystyr ag uffern, gw. GPC 1645.

uffern gau Cf. 16.35–6 *Syched ei ffilcas, bengam ffwlcwd wÿll, / Dibwyll arth ffwrndwyll, wrth ufferndan*; GTP 52 (30.49–52) *O ddifrif rhof ddiodyd / Y Fflint gaeth a'i phlant i gyd; / A'i ffwrn faith fal uffern fydd / A'i phobl Seisnig a'i phibydd*.

- 5 **cosystig** Llsg. *gossostic*. Dilynir diwygiad G 167. Cynigia hefyd yn betrus ddarllen *cosoestric* ('a'i ysa'n para am oes'), er y golyga hynny newid mwy ar ddarlleniad y llsg.
- 6 **digannwyll** Gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.
- 7 **caeth** Cf. disgrifiad Tudur Penllyn o dref y Fflint a'i phobl fel *Y Fflint gaeth a'i phlant i gyd*, GTP 52 (30.50).

- 8 **pres** Neu *près*, gw. GPC d.g. *pres*², *près*³. Ymhellach ar ei ystyron a'i darddiad (nid *pres* 'arian' mohono), gw. *l.c.* a d.g. *pres*⁴. Fe'i deallir yma i olygu 'tyrfa'. Gthg. CA 313 lle y cyfeirir at yr enghraifft hon a nodi'r ystyr '*acceleratio, festinatio*' (TR '*hastening, haste*') a roddir iddo yn D. Trwy alw Rhaeadr Gwy yn [*g*]/*lafres bres*, y tebyg yw fod y bardd yn cyffelybu'r lle i butain sy'n gwneud ei bywoliaeth mewn man poblog; os felly, dyma ei ffordd o ddilorni economi masnachol y dref.
- 15 **safr** Amrywiad ar *sawr*, gw. GPC 3186.
- 16 **cŵn** Gellir ei ddeall naill ai'n ffigurol a dilornus am drigolion Rhaeadr Gwy (cf., e.e., GBDD 14.9–12 *A gefaist-di ... / Gan gŵn lâl dâl am dy dad?*) neu'n llythrennol am gŵn a ddefnyddiwyd i hel y bardd o'r dref.
- 18 **costogion** Cf. ll. 16n (ar ystyron *costog*, gw. GPC 570).

9

Dychan yw'r gerdd hon¹ i usuriwr o'r enw Siac ap Twm ap Cedi (llau. 10–12) yr oedd y bardd wedi dioddef colled ariannol o'i herwydd (ll. 7). Ni wyddys dim mwy am y cymeriad hwn na'r hyn a ddywedir amdano yn y gerdd.

Cyfes o dri englyn unodl union ar yr un odl sydd yma, ac mae hyd y llinellau yn rheolaidd. Cynganeddwyd y gerdd drwyddi a'r gynghanedd sain yn flaenaf. Y mae llinellau 1, 3–4 pob englyn yn dechrau ag *c*.

- 1 **cystuddffull** Yn betrus y cynigir yr ystyr hon yn G 269, ac 'yn ffrystio'n helbulus' yw'r ystyr gyntaf a roddir. Ond os cybydd neu usuriwr oedd gwrthrych y dychan (gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod), naturiol fyddai iddo achosi *cystudd* i'r sawl y benthyciai arian iddynt.
- 3 **bwly** Anodd gwybod ai *ŵ* ynteu *o* sydd yn y llsgr. gan fod brig y llythren wedi ei gau ond ceir mymryn o siâp tebyg i eiddo esgynnydd *ŵ* wrth ei phen chwith hefyd. Dilynir R 1360.32 yn betrus a chymryd mai *ŵ* sydd yno. Digwydd *bwly* hefyd yn 10.4 *Bwly chwydredd*. Dilynir awgrym G 70 mai ffurf ydyw'r ddwy enghraifft ar *boly* 'bol, cest'. Yn GPC 296, ar y llaw arall, d.g. *bol* ni nodir y ffurf a rhoddir yr ail enghraifft d.g. *bwla* 'tarw', *ib.* 352 (cf. EEW 93). Eithr nid yw'r ystyr 'tarw' yn gweddu yma i ddyn a ddisgrifiwyd eisoes fel *mab bychan* yn y ll. flaenorol ac yn llai fyth yn 10.4. (Tynnir sylw hefyd yn G 70 at y ffaith mai gair deusill yw *bwla* mewn gwrthgyferbyniad â *bwly* sy'n unsill. Gallai *bwla*, serch hynny, fod wedi datblygu o *bwly* yn yr un ffordd ag y datblygodd *eira* (deusill) o *eiry* (unsill), er mai ail enghraifft Dafydd y Coed yw'r unig esiampl o'r ffurf *bwly* a nodir yn GPC 352.)

¹ Fe'i golygwyd yn ACDC 310–11, 605–8.

tom barlwm Ymhellach, gw. GC 11.138n.

- 5 **twrch cythreulswm soegfa** Cymerir *cythreulswm* gyda *twrch* yn hytrach na *soegfa* a deallir *swm* yn gyfeiriad at y cyfoeth y mae Siac wedi ei bentyrru (ar *swm* ynglŷn ag arian yn y cyfnod, cf. BT (RB) 216.18–19 *a thalu diruawr swm o aryant y Lewys ...*). Yn G 270 deallir *cythreulswm* yn e. ‘swm (casgliad, crynhoad, sylwedd) dieflig’, ond haws ei gymryd yn a. gan fod *twrch* a *soegfa* yn agos i’w gilydd o ran synnwyr; cf. 16.3 *chwyrndwrch gwaddodblas*. Ni chafwyd enghraifft arall o *soegfa* a gallai hefyd olygu ‘pentwr o soegion’.
- 7 Yr ystyr yw fod y bardd wedi colli’r benthyciad (*offrwm*) a roddodd Siac iddo o’i stôr arian (*gwerngoffr*) oherwydd ei lyncu gan log uchel; gw. ACDC 607.
- 9 **caiff grwm** Ffordd arall o ddweud y bydd canlyniadau andwyol i Siac pan ddaw ei *hyrthgywmp*. Cynigir yn betrus yn G 97 mai ll. *kaff* ‘gafael, ?crafanc bach’ yw *keiff* (gthg. GPC 388 d.g. *caff*¹ lle mai’r unig ffurf. l. a nodir yw *caffiau*), ond ni raid tybio felly.
- 10–12 **Siac fab Twm; / ... / Ci-wŷyr Cedi** Gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.
- 11 **pydew** Sef uffern, gw. GPC 2959, (b). Y syniad yw fod Siac yn hyll ac / neu’n ddrygonus.

trum Gw. 7.3n.

Iddew Cyffelybir Siac i Iddew oherwydd ei ariangarwch. Am enghreifftiau o agwedd wrth-Iddewig ymhlith y beirdd Cymreig, gw. GDG³ 208 (76.4), IGE² 183 (ll. 8) (Siôn Cent); hefyd DGIA 61.

10

Dychan yw’r gerdd hon¹ i rywun a ddisgrifir fel *cimwch ... cymell—gwartheg / F’w gwerthu mewn gwlad bell* (llau. 1–2) a *bawleidr* (ll. 9), a dywedir iddo *Ysbeilo llawer gwrach* (ll. 10). Gall mai porthmon ydoedd, ond tebycach efallai ei fod yn lleidr gwartheg. Dywed Robert Richards:

Pechod parod i amgylchu’r Cymry, a gwŷr y cyffindiroedd yn enwedig, ydoedd dwyn gwartheg. Cwyna Ffwg Fitzwarin, o gastell Whittington, fod William de Halle, Waryn de Rugge (? Rug), Nicholas o’r Waun, Richard Madoc, Howel ap Thomas ac eraill, wedi dwyn 5 o geffylau, 100 o gesig, 100 o ebolion, 48 o ychen, 40 o fustych, 40 o wartheg, 500 o ddefaid, a 100 o foch—gwerth, at ei gilydd, tua mil o bunnau—o’i barc yn Whittington. Yn 1331 y bu hyn. Rhyw ddeng mlynedd ar hugain cyn hyn (1302) cwynai Roger Mortimer i rywun ddwyn rhai o’i gesig, oedd

¹ Fe’i golygwyd yn ACDC 312–14, 609–11.

yn werth 200 o farciau, wrth iddo ef eu symud o'r Waun i Sir Amwythig. Ceir cwyn gyffelyb gan denantiaid rhydd Cynllaith a Mochnant yn amser y Tuduriaid, sef bod lladron o Fawddwy a Meirionnydd a rhannau eraill o Bowys wedi dwyn da gwerth 100 o farciau neu ragor yn ystod y ddeufis blaenorol.²

Er na ddywed Dafydd y Coed yn benodol ei fod wedi colli gwartheg yn y modd hwn, odid nad digwyddiad o'r fath oedd achlysur cyfansoddi'r englynion hyn. Ceir cerddi dychan i ladron gan, er enghraifft, y Mab Cryg (cerdd 15), Rhys ap Dafydd ab Einion,³ awdur anhysbys yn Llyfr Coch Hergest,⁴ Deio ab Ieuan Du,⁵ Tudur Penllyn,⁶ a Dafydd Nant (neu 'Y Nant').⁷

Cyfes o dri englyn unodl union sydd yma ac y mae hyd y llinellau yn rheolaidd a chynganeddwyd y gerdd drwyddi. Y mae'r defnydd o gymeriad yn llai amlwg yn y ddau englyn olaf ac ni cheir cyswllt strwythurol rhwng yr ail a'r trydydd englyn.

- 1 **llwch** Gallai hefyd olygu 'llaid, budreddi', gw. GPC 2234 d.g. *llwch*².
troch Dengys cenedl *cimwch* na all fod yn ffurf f. yr a. *trwch* (a digwydd *trwch* yn gynharach yn y ll.) ac fe'i deellir fel bôn y f. *trochi*.
cimwch '... yn ffig. a difriol am berson crablyd a sarrug neu drwsogl o gorff', GPC 482.
- 3 **baw diawl** GPC 265, '*devil's dung, asafoetida*'. Cf. GIG 168 (XXXVII.92) *Ŷs faw diawl, aswy fu d'iaith*; GDG³ 204 (75.21–2) *Bid iddaw yn ei law lwyth / O faw diawl, ef a'i dylwyth*; GPB 5.4 *Ni wŷr Sawl, faw diawl, ei dad* (Rhys ap Dafydd ab Einion).
bachell Yn G 49 cynigir yn betrus yr ystyr 'congl, cornel.' Yn GPC 247, 1(a), lle y cynhwysir yr enghraifft hon hefyd, rhoddir yr ystyr 'congl, cornel, cilfach'. Fodd bynnag, nid yw'r ystyron hyn yn taro yn yr achos hwn a dylid ystyried yn hytrach yr ystyron eraill a roddir *ib.* 247, 2, 'magl, hoenyn, croglath; tripiad, sodliad (wrth ymrafael codwm); crafanc, gafael'.
- 4 **bwly** Gw. 9.3n.
chwydredd Llsgr. *chwycered*; dilynir awgrym G 282 d.g. *chwydreð*.
- 5 **oerfin** Ar *oer* ynglŷn â brwydro, cf., e.e., GC 11.54 *Gof oerferw gyfarfod, ib.* ll. 179 *Cur oerfrwydr*.

² Robert Richards, *Cymru'r Oesau Canol* (Wrecsam, 1933), 341.

³ GPB cerdd 5.

⁴ *Ib.* cerdd 11.

⁵ GDID 42–5 (cerdd 17).

⁶ GTP 49–51 (cerdd 29).

⁷ Fe'i golygwyd gan T. Gwynn Jones, 'Ein kymrisches Fluchgedicht', ZCP xvii (1928), 167–76.

7 **tröig** Ni chynhwysir y gair yn GPC 3614, ond derbynnir yr ystyr ‘*twisted*’ a gynigir yn betrus gan Lloyd-Jones ar slip yng nghasgliad GPC. Cyfeirir at gwlwm rhaff grogi. Cyffredin iawn yn y cerddi dychan yw dymuno’r crocbren i’r gwrthrych, a cheir yr un syniad yn ll. 11.

ysbrigin Defnydd ffigurol; cf. ll. 5 *cul*.

8 **gwin** Ai llwncdestun gwin (neu’r cyffelyb) i ddathlu crogi’r lleidr a olygir? Posibilrwydd arall y gellid ei gynnig, er yn dra phetrus, yw mai talfyriad ydyw *gwin* yma o *gwinbren* ‘trawst neu ben croes yn cysylltu dwy geibren mewn nen tŷ, gafaelbren’, benthyciad o’r S. *windbeam*, gw. GPC d.g. *gwinben*¹, sef rhan uchaf crocbren yn yr achos hwn. Cf. geiriau Tudur Penllyn i’r lleidr Gruffudd ap Deicws Chwith, GTP 49 (cerdd 29.1–4) *Gruffudd, ti a gai reffyn, / O’th unbais wrth Y WINBEN, / A’th godi, hwyr y’th gedwyn, / Wrth gadwyn o nerth gwden*.

12 **mael** Efallai fod gwrthgyferbyniad yma rhwng y fantais neu elw a gafodd y lleidr trwy ddwyn gwartheg a’r fantais a ddelai i eraill o’i grogi.

mach Fel y dywedir yn ACDC 611, ‘Roedd bod heb *mach* yn golygu bod y tu allan i gwmpas y gyfraith, neu fod o radd ry isel i fod yn deilwng o “mach”.’

11

Perthyn peth ansicrwydd i’r englynion hyn¹ o ran eu hunoliaeth oherwydd y modd y gosodwyd hwy allan yn y llawysgrif, sef yng ngholofnau 1361a a 1362b o Lyfr Coch Hergest. Y mae’r englyn cyntaf yn dilyn cerdd flaenorol gan Ddafydd y Coed (sef cerdd 10) yn ddi-fwlch. Yn dilyn yr englyn hwn ceir wedyn fwlch o un llinell ac yna’r ail a’r trydydd englyn sydd, tyst o’u prifodl, yn perthyn i’w gilydd.² Ar ôl y rhain ceir bwllch mawr sy’n llenwi dros hanner y golofn. Yna, ar frig y golofn gyferbyn ceir y pedwerydd englyn, ac yn ei ddilyn y priodoliad, mewn llaw redol ddiweddarach, aneglur braidd, na sylwodd Gwenogvryn Evans arni yn R, *dauyd y coet ae cant*. Ai un gerdd sydd yma, felly, ynteu tair?

Y brif ddadl o blaid mai un gerdd sydd yma yw tystiolaeth fewnol yr englynion. Gellir cydio *Lle* (ll. 5) wrth *Lanymddyfri* (ll. 4), deall *Llyma wneuthur ... Englyn* (llau. 9–11) yn gyfeiriad at yr englyn dilynol, a gweld math o gyfatebiaeth rhwng dechrau a diwedd y gerdd i’r graddau mai englynion proest sy’n ei hagog a’i chloi. Y mae’r englyn cyntaf a’r olaf hefyd yn rhoi cyd-destun i’r ail a’r trydydd englyn, sef cyd-destun lle (*Lanymddyfri*) ac achos (ymddygiad Cadwgan). Ni sylwyd ychwaith ar

¹ Fe’u golygwyd yn ACDC 314–16, ii, 612–14.

² Diddorol sylwi bod John Davies, Mallwyd, wedi canu dau englyn i Rowland Fychan o Gar-gai sy’n dynwared y rhain (e.e. BL Add 14944, 2^r, a gw. MCF).

ddim yn y gerdd, er ei byrred, sy'n anghydawns ag arddull Dafydd y Coed. Gallai fod arwyddocâd hefyd yn y priodoliad sy'n dilyn yr englyn olaf. Arfer copïwyr y Llyfr Coch yw doddi priodoliad *cyn* y gerdd, ond gan fod y priodoliad hwn mewn llaw wahanol, ddiweddarach, dichon ei fod, fel y priodoliadau a geir yn llawysgrifau'r cywyddau, yn cyfeirio'n ôl. Os tair cerdd sydd yma, gellid gofyn paham na ddodwyd priodoliad o'r fath ar ôl yr englyn cyntaf neu'r trydydd, gan fod digon o le yn y llawysgrif i wneud hynny. Ond y mae'n rhaid cyfaddef, os cywir dal mai un gerdd sydd yma, na wyddys paham y gosodwyd yr englynion allan yn y fath fodd.

O blaid credu mai tair cerdd sydd yma, y mae, i ddechrau, y bylchau a nodwyd. Gall mai arwyddocâd y bwlch cyntaf yw fod y copïwr wedi bwriadu doddi priodoliad yno ar gyfer yr ail a'r trydydd englyn ond na wnaeth am ryw reswm, ac mai arwyddocâd y bwlch mawr sy'n dilyn y trydydd englyn yw fod y copïwr wedi bwriadu cynnwys rhagor o gerddi yno. Gellid dadlau hefyd fod y priodoliad sy'n dilyn yr englyn olaf yn cyfeirio ymlaen at gerdd arall (neu gerddi eraill) nas cynhwyswyd am ryw reswm ac nad ydyw, felly, yn awgrymu bod unoliaeth i'r englynion blaenorol fel y dadleuwyd uchod. Y mae hefyd yn bosibl dehongli tystiolaeth fewnol y gerdd yn wahanol. Gellir cydio *Lle* (ll.5) wrth *Llyma* (ll. 9) a deall *Llyma wneuthur ... / ... / Englyn ...* (llau. 9–10) yn gyfeiriad at yr englyn y digwydd y geiriau hyn ynddo. Gellid apelio hefyd at y diffyg cysylltiad strwythurol (megis odl neu gyrch-gymeriad) rhwng y ddau englyn cyntaf a'r ddau olaf, er na ddylid pwyso gormod ar y pwynt hwn. Rhaid cyfaddef, er hynny, o ddilyn y trywydd hwn, yr amddifedir yr ail a'r trydydd englyn o gyd-destun.

Er mai anodd yw torri'r ddadl yn derfynol, bernir bod y dystiolaeth, at ei gilydd, yn gryfach o blaid credu mai un gerdd sydd yma yn hytrach na thair, ac felly y trinnir yr englynion yn y golygiad hwn.

Dechreuau'r gerdd gydag ymson³ gan y bardd lle y mae'n cynghori ei hun i ffoi o Lanymddyfri, a dychenir dau wrthrych gwahanol, sef tref Llanymddyfri ei hun a gŵr o'r enw Cadwgan. Oherwydd y ffordd y cyfosodir y ddau (gw. llau. 5–12), y mae'n deg tybio mai yn Llanymddyfri y trigai Cadwgan. Dywed Ian Soulsby am Lanymddyfri:

... the recorded history of the town does not begin until the arrival of the Normans in the early 12th century. Richard fitz Pons erected a motte-and-bailey on the north bank of the Afon Gwydderig, about a mile to the south of a Roman fort at Llanfair. This castle is first mentioned in 1116, when it was attacked by Gruffydd ap Rhys, but there is no record of a town at this early date, although the founding of a Benedictine priory

³ Gellid cymryd y cyfeiriad at y bardd fel arwydd mai rhyw fardd arall piau'r llau., ond byddai hynny'n groes i dystiolaeth y llsg. gan fod y gerdd flaenorol yn waith Dafydd y Coed a'r englyn hwn yn ei dilyn yn ddi-fwlch. Ceir hefyd ddigon o enghreifftiau yn y farddoniaeth o feirdd yn ymson.

may also have been accompanied by some civil settlement. By the end of the century it was certainly in being, and English burgesses are recorded in 1185. Both the town and castle are frequently mentioned in the fighting of the following century, when control regularly alternated between English and Welsh. The vill had little chance to develop until stability was restored during the reign of Edward I, and the growth of the borough can be dated to *post* 1276, when Llandovery was granted to John Giffard, a Gloucestershire knight, who encouraged expansion, and strengthened the castle, perhaps rebuilding it in stone. From a burgage total of 37 in 1299 the figure had risen to 81 in 1317.⁴

Tref Seisnig felly, yn bennaf, oedd Llanymddyfri, ac fel y cyfryw ni fyddai'n groesawgar iawn tuag at Gymry (cf. sylwadau rhagarweiniol cerdd 8). Er hynny, y mae'n bwysig cofio bod rhai Cymry hefyd yn byw mewn trefi o'r fath, ac ymddengys mai un felly oedd Cadwgan.

Ni wyddys pahan yn union y dychenir Cadwgan, ond efallai ei fod yn ŵr anhael ei nawdd i feirdd (cf. cerdd 7).

Rhestra Lloyd-Jones y Cadwgan hwn yn betrus dan Gadwgan ap Cynwrig⁵, un o gwmni o wyth a ddychenir gan Lywelyn Ddu ab y Pastard⁶ (blodeuai yn ail chwarter y bedwaredd ganrif ar ddeg), ond gan mai Ffransisgiad, fe ymddengys, oedd Cadwgan ap Cynwrig,⁷ nid yw'n debygol mai arno ef yr ymosodir yn y gerdd hon. Cadwgan arall y dylid ei grybwyll yw Cadwgan Ficar a ddychanwyd ynghyd â'i ferch a'i ddaw gan Drahaearn Brydydd Mawr⁸ am grintachrwydd ei arlwy,⁹ ond ni wyddys ymh'le y trigai ef ac amhosibl felly yw gwybod ai'r un gŵr ydoedd â'r un a ddychenir yma.

Cyfes o un englyn proest, dau englyn unodl union ar yr un odl, ac un englyn proest sydd yma. Ac eithrio llinell 16, y mae hyd y llinellau yn rheolaidd. Cynganeddwyd y gerdd drwyddi a'r gynghanedd sain yn flaenaf a cheir peth defnydd o gymeriad.

- 5 lle Cymerir ei fod yn edrych yn ôl at *Lanymddyfri* yn y ll. flaenorol. Ar y posibilrwydd ei fod yn edrych ymlaen at *Llyma* yn ll. 9, gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.

nis gwnaeth Goddrych y f. yw *heirdd brydyddion* yn ll. 8, a'r gwrthrych yw'r rh. mewnlol -s, yn cyfeirio ymlaen at *hardd ged* yn ll. 7.

rhyff Gair ansicr. Ceir yr un ffurf, os nad yr un gair hefyd, yn GPB 6.126 *Am ben Addaf, dyff ryff rwygiedig* (Hywel Ystorm) a 8.22 (mewn

⁴ Ian Soulsby, *The Towns of Medieval Wales* (Chichester, 1983) 162.

⁵ G 93 d.g. *Kadwgawn*⁴.

⁶ GLIBH cerdd 19.

⁷ Gw. *ib.* 19.41n.

⁸ GGD T cerdd 12.

⁹ *Ib.* 12.4-5 *Ar gronwledd fuchedd fechan. / A gwilo sawdro, ef oedd fwdran—llyn.*

cyfansoddair) *Bonryff bonws*, *cyff cyffraith unmal* (anh.). Fe'i terddir yn betrus, *ib.* 6.126n, o'r S. *riff* yn yr ystyr '*a cutaneous eruption; the itch or mange*' gan ddeall *ryff* i olygu 'clafrllyd' a *bonryff* i olygu 'tinglafr'. Fodd bynnag, fel y cydnabyddir *l.c.*, o 1578 y daw'r enghraifft gynharaf o *riff* a nodir yn OED². Pwynt arall yw mai e., nid a., ydyw yn y S., a gellir amau a fuasai'n troi'n a. yn y Gym. (er mai haws fyddai iddo weithredu felly, gyda'r e. arall *bôn*, yn y gair cyfansawdd *bonryff*). Tybed ai benthyciad sydd yma, yn hytrach, o'r S.C. *rough(e)* 'garw', &c., gw. MED d.g.? Byddai'r ystyr yn sicr yn gweddu i'r enghreifftiau uchod. Gellir rhagdybio ffurf un. **rhwoff* a roddodd y ll. *rhyff* ac a ddefnyddiwyd mewn ystyr enwol. Cynigir yn betrus yn ACDC 612 mai ll. *rhaff* yw *ryff* y llsg. Er na nodir y ffurf hon yn GPC 2997, eto y mae'n ddichonadwy, cf. *ysgryff* a *pryff*, ffurfiau ll. *ysgraff* a *praff* yn llau. 7 ac 8, ond tywyll fyddai'r gyfeiriadaeth o'i ddeall felly.

7 **ced** Sef cerdd i'r noddwr.

ysgryff Fe'i deallir yn ffurf l. *ysgraff*. Mewn proflen GPC nas golygwyd eto, nodir yn unig y ffurfiau ll. *ysgraff(i)au*, *ysgreiff*, (prin) *ysgraffiaid*, ond y mae'r ffurf *ysgryff* yn ddichonadwy, cf. *pryff*, ffurf l. *praff*, yn y ll. nesaf. Ystyr arferol *ysgraff* yw 'cwch, llong' (gw. D), ond cynigir bod iddo ystyr ffigurol yma, sef 'rhywun mawr ac afluniaidd, llabwst', neu'r cyffelyb. Cf. disgrifiad Casnodyn o Drahaearn Brydydd Mawr, a oedd yn ddyn mawr o gorff, GC 11.179, fel *oesgrwydr ysgraff* (er mai'n llythrennol y'i deallwyd yno); cf. hefyd y defnydd o'r e. *car* amdano, *ib.* 11.139, ... *car tramawr trwm*.

9 **ysglyff** D d.g. *ysglyf*: '*praeda, praedatio, raptura*'; TR d.g. *ysglyf*, *ysglyff*: '*a prey, a booty, a thing taken away by force*'. Yr hyn a olygir yw 'ysbail' yn yr ystyr 'peth gwerthfawr'. Ar yr ymgyfnewid rhwng *f* ac *ff*, gw. ChO 51–2.

11–12 ... **o** ... / ... **gyff** Hynny yw, bydd beirdd o'r iawn ryw yn gwybod yn iawn mai bardd o'r iawn ryw a luniodd yr englyn canlynol (?er gwaethaf ei gynnwys gwrthun braidd).

11 **anghlyff** Ffurf l. *anghloff*, 'chwim, cyflym, deheuig' yn ôl G 17 a GPC 53, ond ymddengys mai ystyr ffigurol sydd iddo yma.

12 **o ddau** Yn llythrennol, 'dwywaith'.

15 **tân calaf** Y mae'r *calaf*, yn ôl ACDC 613–14, 'yn cyfleu gradd isel y Cadwgan a enwir yn llin.13 gan mai pren ac nid corsennau a ddefnyddid fel tanwydd yn nhai'r uchelwyr'.

16 Y mae'r ll. yn rhy hir o sillaf.

tynnu Hynny yw, allan o berfeddion y ci.

Mynegai

- a 6.6n
aelaw 2.68n
aerfin 1.41
aerflaidd 2.65
aergorf: aergyrf 2.46
aergrwybr 3.123
aergyrf 2.62
aergyrf gw. aergorf
agarw 7.2
Aglā (am Dduw) 5.73n
agwrdd 3.134
angel: engyliau 5.43
anhablair 1.20
anhlod 7.21n
anghloff: anghlyff 11.11n
anghlyff gw. anghloff
anghysyr 1.27n
am 2.48n, 5.6n
amherawdr 5.62
amblaid 1.19n
amledd 1.24
amlhau: amlha 2.57n
aml-lwrf 1.24n
amws: emys 1.2n, 2.75n
anaf 7.25n
anmynedd 1.23n
annhirion 1.21
anturiaidd 3.115
anurdd: anurddaf 7.25
anwytsedd 1.31n
arbed 1.35
arf 2.61n
arglwydd 5.13n
arglwyddiaidd 3.1, 156
arialsur 9.5
aros 3.116
Arthuraidd 3.116n
Arweddiawdr 4.5
arwraidd 3.155
arwydd 4.12n, 5.26n, 65n
athroaidd 3.124
aur 2.66, 3.37, 5.8–9n
awdur 3.36n, 144; awduriaid
43n
awyrNen 5.66
bachell 10.3n
balch: beilch 1.4
balchlin: beilchlin 3.141n
balchras 3.111
balchryw: beilchryw 3.31,
119
barlwm 9.3n
barwn 2.2
baw 10.3n
bawdruth 7.13
bawddull 9.1
bawleidr 10.9
beilchlin gw. balchlin
beilchryw gw. balchryw
beirddlaw 2.70
berw 3.144n
biswelyn 7.26
blaid 3.43n
blodau 3.43
bo 5.57–60n
bod: bythwyf 2.63n
bolch gw. bwlch
breisgflaidd 3.123
breisgo 1.34
brenhinaidd 3.141
brilyn 7.9n
brisgflwng 3.123
brithle 11.3
brongnaif 6.3
brwydrchwant 1.4
brwydrdaer 3.145

- brwysgedd** 1.34
brwysglawn 2.36n
bryd 1.3, 2.70, 72
Brythion 3.36n
bryyraidd 3.139
budrfab 7.27
buddbarch 2.35
buddffrwyth 2.74
buddwerth 5.72
bugail 2.69
bwcwrn 3.76n
bwch 10.1
bwlch¹: bylch 5.50n
bwlch²: bolch 4.28n
bwly 9.3n, 10.4n
bychin 8.2n
bylch gw. bylch¹
bylchu: bylcher 1.11
bylchraidd 3.111
bylchron 2.1, 3.31
byrddged 1.8
byrddlawn 3.112
byrddlawr 2.70
byrddwin 3.140
caer 5.49, 8.1
caerren 5.49
caeruthr 2.70
cael: caiff 9.9n; **cafas** 3.97n
caer 2.53n, 68n
caeth¹ 8.7n
caeth²: caith 2.50, 3.68n, 6.10, 7.4
caethawdr 4.10n
caing 3.117n
calaf 11.15n
calch 2.53n
calchlys 3.56n
calon 2.67
calongur 4.38
caloniog 2.29
cant: cannau 5.22n
carl 9.3
cartrefiawdr 4.1n
caru: câr 4.12n
carwriaidd 3.118
casedd 1.27
catgis 3.92
cau 8.4n, 5
ced 11.7n
cehyrblwm 9.6
ceiniog werth: ceiniog werthau 8.2n
cerdd 5.11n
cerddlon 11.2
cerddodl: cerddodlau 5.7n
cerddawr 3.60; **cerddorion** 33
cerddwriaidd 3.122
certh 3.147
cestgawl 9.3
cetgwbl 3.92n
ceusoeg 8.9
ci: cŵn 8.16n
cimwch 10.1n
ci-wyr 9.12
clærwedd 1.29
cleifddwys 2.56
clêr 1.38n
clerwr: clerwyr 1.29
clodfawr 3.61
clotbell 2.45, 3.67
clotgar 2.2
cludfydr 3.61
clutbarch 3.67
clwm 9.4
coel 4.30
coethfalch 2.54
cof 3.8; **cofion** 3.43
colofn 5.6
côr: corau 5.24
costog: costogion 8.18n
cosystig 8.5n
craff: cryff 11.10
crair 1.14, 2.48, 3.4, 5.5
Creawdr 4.18, 19
cred 5.5n, 7.23n
creulawn 3.112

crochan 7.17n
crogiawdr 4.7n
croyw 1.12, 4.24
crwced: crwcedau 8.1n
crwm 9.9n
crwydr 3.115n
crydd 7.12n
cryfdrafn 2.2n
cryff gw. craff
crynaf: crŷn 7.12n
cul 4.37
cun 3.25n
cüwrdd 5.11n
cwm 8.3n
cŵn gw. ci
cwys 8.18
cyfarch 3.64n
cyfraith 3.96n, 127n
cyfyngaf 5.57–60n
cyff 9.9
cynghoraidd 3.117
Cynghorawdr 4.14
cynghrair 1.20
cyhydedd 1.13n
cylchlyn 3.55n
cylyionyn 7.5
cymell 3.68, 10.1
cymen 2.64
cymrodedd 1.39
cymrwysg 3.2
cymurth 2.60n
Cynhaliawdr 4.11
cynneddf 3.59
cynnwll 5.60n
cynnwrf 1.24
cynnwys 2.16n
cynnydd 2.16, 5.22
cyrbyyll 1.38n
cystegu: cystegyn' 8.17
cystegwer 9.4
cystuddffull 9.1n
cythreulswm 9.3n
cywirair 3.118

cywiwdwrn 3.18
chwydredd 10.4n
da 1.30n, 2.57n, 3.127n
dau 11.12n; **dwy** 3.128n
dawiw 3.136
dawn 2.74n, 3.5, 13–14n, 130, 5.20
deiliadaeth 5.33
delw 10.8; **delwau** 5.8–9n
dewiniaidd 3.138n
dewisiaidd 3.133
dewrgrwydr 2.49n
diachulaidd 3.136
diadfail 4.32
diawl 10.3n
dibarabflwlch 4.27
didaeogaidd 3.135
diddrygedd 1.30
diddyedd 1.14
dieiddiliaidd 3.130
diencilaidd 3.131
diestravn 2.50n
difreg 3.42, 3.135
difrif 3.75
difwngwl 3.146n
difwynyn 7.11
dig 11.14
digannwyll 8.6n
digardd: digeirdd 2.57
digarw 8.17
digeirdd gw. digardd
dignawd 1.18n
dihagr 5.13
dihepgor 3.31
dilaestof 1.17n
dilesgedd 1.17n
diodwin 2.14
dioer 2.37n
diolch: diylch 5.51n
diriaw 3.122
diruthrdarf 1.25
di-Saesnegaidd 3.134
di-Seisnig 2.38n

- diswrth** 2.32
diwaladrbwyll 8.7
diweddw 3.129
diwinau 5.36
diwraidd 3.114n
diwyw 3.133
diylch gw. **diolch**
dlyedog 3.137
doeth 2.39–41n
doethbabl 3.148
doethben 2.74n
dof 4.15n
doniog 3.131
draig 5.50
dros 3.81, 6.2
drud 6.5
drum / trum 7.3n
drwg: drygau 5.49
dryw 7.21n
du 8.6
duflwng 8.9
dufrwnt: duf front 11.4
durarf 1.25, 3.114
durfriw 1.21
durgaen 3.149
dwrdd 3.133
dwy gw. **dau**
dwygamp 3.142
dwys 3.134
dyfod: doeth 2.39n
dylyu: dyly 10.8; **dilyem** 6.5
dyn 3.14n, 5.57–60n, 7.28n;
dynionau 5.20n
Edrychiawdr 4.17
effeiredyn 7.23
eglur 5.73n
engyliau gw. **angel**
ehang: ehangaf 5.57–60n
ei¹ 3.56n
ei² 7.15n
Einglgad 3.22n
eillgad 3.27
emyn 7.14n
Emyn Curig 2.58n
emys gw. **amws**
eneidlyw 3.42
eneitserch 1.31n
enillgerdd 3.28n
enw 3.53n
erbyn 1.38n
er: erddaw 6.4
eryr 1.22, 29, 2.5, 3.15, 118
eryraidd 2.62
eryrawl 3.155 **eryrol** 2.42
eurbarch 1.35
eurbrint 3.24
eurdal 5.34
eurdo 5.53
eurddar 3.94
eurddoeth 6.4
eurddull 3.11
eurfad 3.51
eurgadr 3.153
eurgarw 2.45
eurgledd 5.68
eurglod 2.52
eurllwy 3.120
eurog 2.26
eurwlad 4.32
fy 5.13n
ffagl 8.3n
ffawd 4.5n
ffi 11.4
fflamddurgledd 1.41n
ffrwythlawch 4.13
ffrwythlawn 6.9
ffugl 8.3n
ffulltrin 3.89n
ffwlberdyn 7.6n
ffydd 5.22n
ffyniawn 2.52n
Gair 4.2n, 5.64n
gan 5.57–60n; **gennyd** 5.57–60n
garwloes 4.7
gau 5.26n
gawruthr 2.39n

- geirgall** 1.14
geirserch 1.12n
gem 5.49
glas 3.9
glasfedd 1.7
glew 6.3
gloywdeg 2.11
gloywddu 3.156n
gloywfro 5.54
gloywglos 3.91
gloywgoeth 2.37
gloywlan 6.
gloywnen 2.73
gloywNer 5.9
gloyw-wyn 3.109
glud 1.10n, 2.52, 4.39
glwysfur 1.7n
glwysgof 1.17
glynu: glŷn 7.24n
goddef 6.6
goddehau 5.13
golau 5.5n
golchi: gwylch 5.49n
goleuawdr 4.6
golwg 2.4n
gomedd 1.2n
goreuffyrf 2.46
gorsedd 1.12
gosgedd 1.9
gradd: graddau 5.4n
gras 3.12n, 96n
grasius 6.11
Greal, y 3.95n
grym 2.47n, 3.12n, 96n
gwadd 7.17n
gwall 5.46
gwalch 2.1, 42, 54, 73, 3.61, 4.1,
 gweilch 2.73, 3.81
guard 4.10
gward 1.8
Gwardiawdr 4.9
gwardog 5.1n
gwawl 2.51n
gwawlchwaen 3.150
gwaywddellt 3.121
gwaywrudd 3.46
gweddaidd 3.121
gweilch gw. **gwalch**
gweithred: gweithredau 5.45
gwell 2.17n, 3.23n
gwellt 4.14n
gwensedd 2.71
gwenyn 7.7n
gwerin 2.55
gwerinaidd 3.125
gwerngoffr 9.7
gwillmer 10.5
gwin¹ 7.7
gwin² 10.8n
gwinau 3.100n
gwineuddor 3.143n
gwinllyn 3.27, 152
gwir 4.23n
gwirDad 5.53
gwirdeg 5.31
gwiredd 1.8
gwirglod 5.65
gwiwgnawd 5.18n
gwiwri 3.77, 4.20
gwneuthur 11.9; **gwnaf** 7.1n;
 gwnawn 2.64n; **gwnaeth** 11.5n
gwrach 10.10
gwrachyn 7.17n
gwrthrydaer 5.45n
gwyrd 3.47n
gwrysg 11.16
gwst 2.53
gwybod: gwyddiad 6.6n
gwŷdd 4.14n
gwylch gw. **golchi**
gwyll 5.46n
gwyllt 4.15n
gwyndodig 3.99n
Gwyndyd 3.49n
Gwyneddiaidd 3.143n
gwynllyw 3.27

- gwyRDD** 3.108
gwyrfan 7.11
gwyrrth 4.3, 6, 17, 5.4
gwythrydaer 5.45n
gwywbeth 7.5
gyrfrwydr 2.49
gyrru: gyr 7.22n
hael 2.48n, 56, 3.79, 122, 131, 4.12, 18; **haelion** 3.50
haelioni 4.4
hardd: heirdd 2.57, 5.35, 7.4n
harddedd 1.32
harddfalch: heirddfeilch 3.82, 83
harddfoes 3.83
harddfur 3.82
harddffrwst 2.53
harddrym 3.29
harddryw: heirddryw 3.29
haul 5.34n
hawl gw. holi
hebog 2.34
heilddwbl 3.92
heirdd gw. hardd
heirddfeilch gw. harddfalch
heirddryw gw. harddryw
helmfelt 3.121
hen: hÿn 2.54, 7.4n
hepgor: hepgyr 3.9, 108
hewlyd 7.13n
hil 2.55–6n, 4.12n
hiraer 3.117
hirbla 9.6
hirfyw 3.120
hoff: hyff 11.6
hofflawn 5.17
holi: hawl 3.122n
holyn 7.13n
hollwyth 3.26n
hoiw 2.10
hoiwborth 2.33
hoiwdyf 1.13n
hoiwfraisg 4.27
hoiwgof 4.15
hoiwgun 3.7
hoiwryw 4.3
hwyl 1.8, 3.123
hwyr 7.7
hwyrfarw 3.120
hy 7.21n
hydrdaer 2.53
hydrgledd 2.72
hydrsant 11.1
hyfawr 3.63
hyff gw. hoff
hygadr 4.15
hygron 5.44n
hylwybr 3.124
hylwydd 5.72
hÿn gw. hen
hyrthgwyp 9.9
'i 5.51n
iadlwm 9.2
iarllaidd 3.120
iawndud 5.48n
iawnfalch 2.39
iawnrym 2.25
Iddew 9.11n
Lusidarius, y 3.94n
llarieiddfab 2.27
llathr 2.3
llathrben 3.25
llaw 2.3n, 7.24
llawch 2.51
llawchbobl 3.71n
llawchlu 2.5
llawged 3.3
llaw-wag 3.66
lle 11.5n
llew 2.4n
llewnaf 3.149
llewych 3.65
llewychlin 2.5
llinlws 2.55
lliw 6.2
lloch: llych 2.51n
Lloegrblaid 2.60n

llonydd 2.11
llwch 7.20, 10.1n
llwrw: llyry 3.29
llych gw. llochi
llydw: llydwau 5.33
llyfr 3.127n
llygodyn 7.19
llyn 3.91n
llynwin 2.67
mab 2.4n
mach 10.12n
madalch: medeilch 3.80n
mael¹ 10.12n
mael² 3.58
maeldarf 2.61n
maelwr 1.28n
maeth¹ 11.5
maeth² gw. magu
magu: maeth 3.39n
mantach 10.11
marw 7.1n
mau 3.75n
mawl 3.53n
mawldyf 2.61n
mawr 2.69
mawrdda 2.49
mawredd 1.15, 2.72
mawrglod 4.24
medeilch gw. madalch
meddbarth 2.35n
mefl 7.24n
meidrol 3.44
methiant 11.5
migynwern 4.10n, 6.8
mil 3.128n
milcant 2.51
mireiniaidd 3.119
mireinrwydd 2.25
moddiant 5.48n
moes 2.18, 19
môr 4.13n
mur 3.46, 99, 144, 4.24
mwyalch: mwyeilch 3.79n

mwygl 8.3n
mwynawl 5.2
mwyniant 1.4, 23
mynd: dos 7.21n
'n 3.56n, 9.9n
naddgad 3.67
nawcan 3.21n
nawdd 6.7
nawell 2.45n
neidryn 7.21n
nen 5.49
nerth: nyrrth 4.6n
nis 11.5n
nobl 3.74n; **noblau** 75
nod 6.7, 7.21n
nychdod 7.8n
nyrrth gw. nerth
o 1.2n
ocr 7.4n
oedawdr 4.8
oerfin 10.5n
oergri 8.1n
oerlwm 7.5
oesenw 3.134
oesgad 1.9
oesglod 5.54
oesgred 11.7
pa 5.72n
pab 1.12
pân 3.146n
parod: parotaf 3.149
pawb 2.19n
pedeircad 3.105n
pedeiriaith 5.10n
perydd 3.150
pillwern 5.29n
piw 7.17n
plaid 3.43n, 131
plymlwydludd 2.44
poerllyd 7.13
pont 3.22n
praff: pryff 11.8
pres 8.8n

- profi: profyn'** 7.15n
proffwydaidd 3.144n
pryff gw. praff
prysg 11.16
pumoes 4.7n, 39n
punt 3.21n
pwyll 3.100
pwytuswalch 3.148
pydew 9.11n
pyn 7.15n
rhad: rhadau 1.26, 4.16n, 5.1n
rhaeadr 8.1n
rhaeadran 8.13
rhagorawdr 4.4
rhagorflaen 3.150
rhan 8.13
rhefr: rhefrau 8.3n
rheglwern 8.4n
rheiddiau 5.6n, 21n
rhent 11.2
rheol 3.49
rhif: rhifiau 5.19n
rhodd 5.71n
rhoi 2.19n
rhuddner 2.65
rhugl 8.3n
rhuthrdarw 3.87
rhwy 3.113
rhwyll 1.7n
rhwysg 2.2
rhybuddiawdr 4.2n
rhyfig 5.19
rhyff 11.5n
rhyged 11.9
rhyhardd 2.63
rhylawn 3.50
safr 8.15n
salm: seilm 5.4 **salmau** 5.11n
salwedd 1.35
sawr gw. safr
seiliad 7.26n
seilmawl 5.11n
sendri 3.76n
soegfa 9.3n
solyn 7.3n
sygn: sygnau 5.18
syml 7.22
taeoges 8.8
taer 3.114
taeredd 1.21
taernerth 3.147
tangnefu: tangnefir 5.63
talm 5.7n
tân 11.15n
tanfflam 8.12
tarogyn 7.2n
tawch 4.13n
teilyngbrif 3.98
terra 5.74n
teŷrniaidd 2.11
ti 5.8
tir: tiredd 1.25
tom 9.3n
ton 3.42n
trafalch 4.1n
trafn 1.19n, 2.2n, 38n
trahausffrom 8.15
trahydr 3.61
traidd 3.1n, 112n
trasyth 4.6
trasyw 4.5
trawsteg 2.30
treillaer 2.68n
Trihael, y 3.60n
trin 3.112
tristchwedl 8.11
troch 10.1n
tröig 10.7n
trosedd 1.33n
trosi: trosaist 4.6n
trugeinSais 2.17n
trum 7.3n, 9.11n
trwch 8.14
trwm 9.11
trychanwledd 1.36
trychdrin 2.14

trysor 4.5
twf 1.23n
tŵr 3.113, 4.22; *ll.* **tyrau** 3.114n
twrch 9.5n
twylldwng 8.9
tymyr 3.13n
tynnu 11.16n
'u 3.15n
uchelawdr 4.13
udd 5.8–9n
uffern 8.4n
ufferngist 4.18
un 1.16, 7.28n
unbryd 3.48

unllid 2.30
uthrddrud 1.3
ŵyr 9.10–12n
yn 3.75n
ynad 2.56n, 3.53n, 65n, 128n,
 5.56n
Yniales, yr 3.95n
ynys: ynysedd 1.16
ysbrigin 10.7n
ysglyff 11.9n
ysgogi: ysgyg 1.33n
ysgraff: ysgryff 11.7n
ysgryff gw. ysgraff
ystor 3.33

Enwau personau

- Achel** 2.59n
Arthur 1.7 (gw. hefyd **Arthuraidd**)
Arawdr 4.12n
Bedwyr 1.22n
Bleddyn, Bleddynt 3.26n, 27, 151
Cadell 3.69n
Cadwgawn 11.13
Cai 1.9n, 3.47, 142
Carawn 2.58n
Caw 1.9n, 2.67, 3.48, 121
Cedi 9.12n
Celi 4.4, 20, 33, 34, 5.6, 67
Curig 2.58n
Crist 4.18, 19, 5.13, 37, 54, 6.1 (gw. hefyd **Iesu**)
Dafydd y Coed 11.1
Dafyddyn 7.10n
Dofydd 5.22
Duw 2.33, 5.57, 73, 6.6n, **Duw Dad** 3.54, 55 **Arglwydd Dduw** 5.21
Einiawn¹ 3.112n (gw. hefyd **Hopgyn**)
Einiawn² 2.56n **Einiawn fab Gwallter** 1.10–11n
Elffin 3.73n
Emyr 2.57n
Erbin 3.48n
Ffawg 3.89n
Ffin 3.103n
Garwy 1.6n, 3.55
Geraint 1.40n
Gruffudd 2.32, 37, 46, 47
Gruffudd fab Llywelyn 2.3–4n
Gwalchmai fab Gwyar 3.101n
Gwallter 1.10–11n (gw. hefyd **Einiawn**¹)
Gwyar 3.101n (gw. hefyd **Gwalchmai**)
Hopgyn 3.28, 32, 47, 90, 91, 108, 109, 135, 155 **Hopgyn fab Tomas** 3.3–4, 10 **Hopgyn fab Tomas fab Einiawn** 3.109–12
Iencyn 7.18n
Iesu 4.30, 5.18, 60, **Iesus** 6.12, **Iesu Grist** 5.69
Ieuan¹ 2.28n (gw. hefyd **Llywelyn**)
Ieuan² 7.28n (gw. hefyd **Rhys**)
Ieuan Llwyd 1.1
Ifor 3.98n
Llawdden 2.6n, 7, 74
Llŷr 1.27n, 3.19, 29
Llywarch 3.66n, 67
Llywelyn 2.4n, 54n **Llywelyn fab Ieuan** 2.28n (gw. hefyd **Gruffudd**)
Mair 2.48 **Gwryy Fair** 5.5 y **Wryy Fair** 5.64
Maria 5.75
Mechydd 2.8n
Meirion, Meiriawn 1.15n, 2.72n
Morudd 2.43n
Nudd 2.3n, 32, 45n, 47, 3.39
Pŷr 3.16n, 17
Rholant 1.23n
Rhydderch 1.12n, 31
Rhys 7.16n **Rhys ab Ieuan** 7.27–8n
Selyf 1.13n, 2.61n
Siac fab Twm ... ŵyr Cedi 9.10–12n
Talamon 3.41n
Tomas 3.4, 10, 13 **Tomas fab Einiawn** 3.111–12n (gw. hefyd **Hopgyn**)
Trindod, Trindawd, y Drindod 4.1, 5.48, 52, 6.18
Trystan 2.30n, 31
Twm 9.10–12n (gw. hefyd **Siac fab Twm**)
Uthr 2.39n, 70n

Enwau lleoedd

- Affrica** 5.70
Asia 5.69n
Ceredigion, Ceredigiawn,
C’redigion 1.15, 2.1n, 76
Costinobl 3.72n
Cymru 2.21, 3.125 **Cymry** 3.1, 7
Deau, y 3.126
Deheubarth 2.34, 35, 3.64
Europa 5.71n
Glyn Aeron 1.30n
Gwent 3.23n
Gwynedd 1.38n
Gŵyr 3.14n, 17, 102, 103, 115
Llanymddyfri 11.4
Lloegr gw. Lloegrblaid
Llundain 2.40
Mefenydd 2.12n
Môn 3.34
Morfa 2.41n
Morgannwg 3.34
Powys 2.55n
Rhaeadr Gwy 8.12 **Rhaeadr** 8.7
(gw. hefyd **Rhaeadran**)
Tawy 3.56, 113
Uwch Aeron 2.59n

GWAITH IEUAN LLWYD
AB Y GARGAM

Rhagymadrodd

Un gerdd yn unig a ddiogelwyd o waith Ieuan Llwyd ab y Gargam¹ a dyma brif ffynhonnell yr ychydig a wyddys amdano. Y mae'r ffaith iddo ganu i Hopgyn ap Tomas a bod ei gerdd ar gadw yn Llyfr Coch Hergest, a ddyddir tua 1400, yn dangos ei fod yn ei flodau cyn hynny. Y mae'r geiriau *Heaf ei fawl ... hyd y Gogledd* (12.17–20) a *Dygaf ei glod ... hyd ar Wynedd* (12.57–8) yn awgrymu mai gŵr o Wynedd ydoedd (er y gellid eu deall hefyd yn arwydd o sêl dros gyhoeddi enw Hopgyn mewn rhanbarth o Gymru lle yr oedd yn llai adnabyddus neu'n anhysbys). Mewn dogfen sy'n cynnwys rhestr faith o wŷr o Fôn a ildiodd i'r Goron yn 1406 ar ôl cefnu ar achos Owain Glyndŵr crybwyllir un *Jem Lloyd brydydd*,² a chan fod dyddiad y digwyddiad yn gweddu'n burion i gyfnod Ieuan Llwyd ab y Gargam a bod y lleoliad ym Môn yn hawdd ei gysoni â'r cyfeiriadau daearyddol uchod, fe all, yn wir, mai ef oedd y prydydd a grybwyllir yn y ddogfen. Sylwyd hefyd ar ŵr o'r enw Dafydd Llwyd a hanai o Fôn, sef Dafydd Llwyd ap Dafydd ab Ednyfed o lwyth Rhys Goch o Dalybolion,³ aelod o'r unfed genhedlaeth ar ddeg a anwyd, yn ôl Bartrum, tua 1370, ond amhosibl gwybod ai'r un gŵr ydoedd â'r bardd.

Y mae cerdd Ieuan Llwyd ab y Gargam yn un o bum awdl foliant i'r noddwr enwog Hopgyn ap Tomas⁴ a gadwyd yn y Llyfr Coch. Y mae Ieuan yn moli Hopgyn am y rhinweddau traddodiadol, sef gwrhydri a haelioni; ac, fel Dafydd y Coed, cyfeiria at y traethawd diwinyddol, yr *Elucidarium*, wrth sôn am ddysg Hopgyn (gw. ll. 54n). Trawiadol hefyd yw ei ddisgrifiad o Hopgyn, *Llëyg yw pawb ... / ... wrth Hopgyn ... / Llwy'r wybodau llên a llyfrau* (llau. 33–5).

Canwyd yr awdl hon ar amrywiad ar fesur tawddgyrch cadwynog, sef 'dau bennill o rupunt hir â'r un brifodl, ac ychydig o wahaniaeth yn rhagodlau'r cyntaf. Yn lle bod y tri chymal cyntaf yn odli nid yw ond yr ail a'r trydydd, ond y mae'r tri'n odli â'r tri cyfatebol yn yr ail glymiad'.⁵ Mewn tawddgyrch cadwynog arferol, cynhwysa pob 'pennill' wyth llinell (cf. cerdd 14), ond yma hanerwyd y mesur 'drwy wneuthur pennill pedair llinell o un clymiad o'r hanner cyntaf ac un o'r ail'.⁶ Patrwm odli cymalau pob pennill pedair llinell yma (a chymryd mai *a* yw'r brifodl) yw *b c c a ; d*

¹ Ystyr y *Gargam* yw 'yr un cam ei goesau'.

² Glyn Roberts, 'The Anglesey Submissions of 1406', B xv (1952–4), 54, y drydedd golofn.

³ P.C. Bartrum: WG1 'Rhys Goch of Talybolion' 2.

⁴ Gw. sylwadau rhagarweiniol cerdd 3 uchod.

⁵ Gw. J. Morris-Jones: CD 344.

⁶ *Ib.* 346.

d d a. Ceir cyrch-gymeriad yn ogystal yng nghlymiad cyntaf pob pennill (gan roi cynghanedd braidd gyffwrdd yn y mwyafrif o achosion), ac y mae pob cymal yng nghlymiad olaf pob pennill yn dechrau â'r un gytsain, a cheir cynghanedd sain reolaidd rhwng yr ail gymal a'r trydydd a'r pedwerydd. Cynhelir y brifodl *-edd* drwy'r gerdd. (Yn llinellau 1–24 sylwer bod pob cymal yn nwy linell olaf y penillion, ac eithrio ll. 16, yn dechrau â *h-*; yn llinellau 25–44 fod pob un yn dechrau ag *ll-*; ac yn llinellau 45–68 fod pob un, ac eithrio ll. 52, yn dechrau â *d-*.)

Moliant Hopgyn ap Tomas o Ynysforgan

Hawddfyd i'm pôr parod foliant!
 Milwr dyfiant, difeth frwydrgledd,
 Hylwydd Hopgyn hylwybr ganlyn,
 4 Heirdd a'i gofyn hirdda gyfedd.
 Haelfab Tomas, teml Gwynedd feirdd,
 Fyrddau digeirdd, degan owedd,
 8 Hyder Rholant, heirdd glêr fabsant,
 Hael ogoniant, hoywlew gwneidd;
 Hil i Einion, ener Cymru,
 Cymro trahy trwyadl fonedd,
 Huawdl doethfin, holion Myrddin,
 12 Heiliairawnwin, hael o rinwedd.
 Hopgyn glaerwyn, glerwyr frenin,
 Freinau Elffin, wylffawd gloywedd.
 Hoedl hir iddaw! hwyl dewrfab Caw,
 16 Hydr yn llywiaw llin tÿrnedd.
 Heaf ei fawl, filwr aerau,
 Er ein rheidiau a'r anrhydedd,
 Hwyl Paredur, hebog gleifddur,
 20 Hoywdeg eglur, hyd y Gogledd.
 Hopgyn arglwydd, eurglod warant,
 Wiwri anant, wawr rhianedd,
 Hydr arglwyddlyw, hir y bo byw!,
 24 Hael o wiwryw, hyloyw wiredd.
 Llewpart Gwÿr, gwyar liwlafn,
 Liaws hoywdrafn, hydrum osgedd,
 Llafn ym mrwydrgad, Llÿr un drwsiad,
 28 Llywiwr gwenwlad, llawir gwinwledd.
 Llorf Deheubarth, hybarch frÿr,
 Freiniau Bedwyr, byd orfoledd;
 Lluniau glod gwalch, llyw llys gaergalch,
 32 Llew dewr hoywfalch lle diryfedd.
 Llÿyg yw pawb, pybyrlew gwyn,
 Gwir, wrth Hopgyn, hepgyr gamwedd,
 Llwyrr wybodau llên a llyfrau,
 36 Llawr y Dehau a'i llwyr duhedd.
 Llidiog wrth frwydr, friwdorf aergad,

- Eurgarw gwinrad, gwynrwydd ail Sedd,
 40 Llorf cleddyfir, llydan ei wir,
 Llyw ni fylchir, Lleon falchedd.
 Llathr y cynnail kannyn beunydd,
 Bennaeth dedwydd, didwyll wyledd,
 44 Lliaws barlmant llonydd anant,
 Llŷr ddigioniant, llwyr ddigonedd.
 Dily foliant, filwr unfraint,
 Iawnfryd Geraint, gwrol ryseidd,
 48 Dihagr drwsiad, doctor cerdd fad,
 Dehau fwriad dioferedd.
 Dydd da iddo! addas gariad,
 Wawr i hoywlad, wiwri hywledd,
 Darian Gŵyr, degan clerwyr,
 52 Doethdeg eryr ar gymrodedd.
 Dysgodd lyfrau, loywfraint dawnus,
 Lusidarius lwys ei daeredd,
 Dôr holl Gymru diwael hael hy,
 56 Da yw ymy a diomedd.
 Dygaf ei glod, gloywdwr hyder,
 Hoywder ener, hyd ar Wynedd.
 Dily amlwawd, dewin dafawd,
 60 Dôr da hyffawd dewr dihoffedd.
 Difefl bennaeth bunnoedd roddi,
 Rhwysg mab Beli, baladr dewredd,
 Dôr tariandalch, digrifdrem walch,
 64 Dewr a haelfalch, dyry heilfedd.
 Duw a'i rhoddo, rhwydd huawdlfryd,
 Hoedl ac iechyd, gwyachaf orsedd,
 Da y'i hadwaen, dëyrn chwyrn chwaen,
 68 Drech enw ymlaen drychan mlynedd!

Ffynonellau

Digwydd y gerdd yn y llawysgrifau canlynol:

A—BL Add 15001, 114^r B—Card 4.140, 688 C—J 111, 1415 D—LIGC 4973B, 166^r E—LIGC 21287B [= Iolo Aneurin Williams 1], 5^v F—Llst 133, 290^v [rhif 854] G—Llst 137, 335

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif C, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl llawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 209–10.)

Darlleniadau'r llawysgrif

23 Hyder. 31 gaer galch. 41 kymeil. 63 digrif dremwalch.

Rhaglith

Jeuan llwyt uab y gargam ae cant.

Moliant Hopgyn ap Tomas o Ynysforgan

- [Boed] bywyd dymunol i'm harglwydd parod [ei] foliant!
 [Un â] chorff milwr, cledd brwydr di-feth,
 Hopgyn llwyddiannus hawdd [ei] ganlyn,
 4 Y mae gwŷr hardd yn gofyn iddo am wledd faith ei daioni.
 Mab urddasol Tomas, noddfa beirdd Gwynedd,
 [Un sy'n cadw] byrddau gwych, hefelydd tegan,
 [Un a chanddo] ehofnder Rholant, noddwr bendigaidd beirdd
 hardd,
 8 [Un o] ogoniant urddasol, llew gwych [mewn] brwydr;
 [Un o] hil Einion, arglwydd Cymru,
 Cymro tra gwrol cyflawn [ei] fonedd,
 Un huawdl [a] doeth ei enau, [a chanddo] ragorfreintiau
 Myrddin,
 12 Tywalltai win grawn, [yr] un hael ei rinwedd.
 Hopgyn harddwych, brenin beirdd,
 [Un â] rhagorfreintiau Elffin, llawenydd gŵyl [lawn] gogoniant.
 Hir oes iddo! [yr un â] rhuthr mab dewr Caw,
 16 [Yn] gadarn yn llywio llinach arglwyddi.
 Heuaf ei fawl, filwr brwydrau,
 Ar gyfrif ein hanghenion a'r anrhydedd [iddo],
 [Un a chanddo] ruthr Peredur, hebog dur ei gleddyf,
 20 Un gwych a hardd [a] disglair, hyd y Gogledd.
 Hopgyn arglwydd, sicrwydd hardd ei glod,
 Brenin aruchel beirdd, arglwydd merched ifainc,
 Arglwydd bennaeth cadarn, hir y byddo byw!,
 24 Un urddasol o linach ardderchog, [gŵr o] gywirdeb gwych.
 Llewpart Gŵyr, [a'i] gleddyf staenedig [gan] waed,
 Arglwydd gwych lliaws, [un] ardderchog [ei] lun,
 [Triniwr] llafn mewn brwydr, o'r un olwg â Llŷr,
 28 Rheolwr bro ddedwydd, un haelionus [sy'n rhoi] gwledd o win.
 Cynheiliad Deheubarth, arglwydd mawr ei barch,
 [Un a chanddo] ragorfreintiau Bedwyr, [achos] gorfoledd [i'r]
 byd;
 Lluniau foliant gwron, pennaeth llys calchaid fel caer,
 32 Llew dewr balch a gwych [sy'n byw mewn] lle priodol.
 Di-ddysg yw pawb, [y] llew dewr bendigaidd,
 Yn sicr, mewn cymhariaeth â Hopgyn, y mae'n osgoi camwedd,
 [Un a chanddo] holl wybodau dysg a llyfrau,
 36 Arwr y Deheubarth a'i holl diriogaeth.
 Llidiog mewn brwydr, ymladdfa [lle y mae] llu clwyfedig,

- Arwr campus yn rhannu gwin, [un o] ddedwyddwch tebyg i
Sedd,
- 40 Cynheiliad hir ei gleddyf, eang ei hawl,
Arweinydd nas anefir, gwychder Lleon.
Yn ddisglair y mae'n cynnal cant o ddyinion beunydd,
Pennaeth dedwydd, cywir [ei] gwrteisi,
[Sef] cymanfa niferus [o] feirdd bodlon,
- 44 [Un o] wrhydri Llŷr, [darparwr] helaethrwydd perffaith.
Y mae ganddo hawl ar foliant, filwr arbennig ei ragorfaint,
[Un â] meddwl cywir Geraint, gwrol [ei] rwysg,
Hardd [ei] olwg, awdurdod [ar] farddoniaeth dda,
- 48 [Un â] bwriad cywir [a] doeth.
Dydd da iddo! [a] chariad teilwng,
Arglwydd i wlad lon, brenin aruchel hael ei wledd,
Amddiffynnwr Gŵyr, un annwyl beirdd,
- 52 Gwron doeth a hardd ar farn.
Astudiodd lyfrau, [yr un] disglair ei fraint [a] doniog,
Lusidarius pur ei daerineb,
Amddiffynnwr Cymru gyfan yw['r] un gwych [a] bonheddig
[ac] eofn,
- 56 Da ydyw wrthyf a dinacâd.
Dygaf ei glod, gynheiliad disglair glewder,
Arglwydd gwychder, hyd at Wynedd.
Y mae ganddo hawl ar glod mynych, [yr un â] thafod dewin,
- 60 Amddiffynnwr llesol [a] dedwydd yw['r] un dewr diymffrost.
Pennaeth perffaith [sy'n] rhoi punnoedd,
[Un â] rhwysg mab Beli, cynheiliad [llawn] dewrder,
Amddiffynnwr drylliog ei darian, gwron dymunol ei drem,
- 64 Un dewr a balch a hael, darpara fedd mewn gwledd.
Boed i Dduw roi iddo, [yr] un haelionus huawdl ei natur,
Einioes ac iechyd, [yr un â] phreswylfod mwyaf gwych,
Yn sicr y canfyddaf, [yr] arglwydd chwyrn [ei] ymosodiad,
- 68 [Yr un] gwych [ei] glod ar y blaen [ym mhen] tri chan mlynedd!

Nodiadau

12

- 4 **heirdd** Sef beirdd, cf. 7.4n.
- 5 **Tomas** Ar achau Hopgyn, gw. P.C. Bartrum: WG1 ‘Bleddyn ap Maenyrch’ 32.
teml Gwynedd feirdd Cf. 1.38n. Ar *teml*, cf. hefyd ddisgrifiad Meurig ab Iorwerth o Hopgyn, 13.7, fel *Teml beirdd byd*.
- 6 **gowedd** Fe’i nodir yn betrus yn G 584. (Nis ceir yn GPC 1517.)
- 7 **Rholant** Arwr brwydr Roncesvalles yng nghylch chwedlau Siarlymaen.
- 9 **i** Cf., e.e., yr ymadrodd *perthynas i* a gw. GPC 1991, 5 (b).
Einion Taid Hopgyn ap Tomas.
Cymru Cf. ll. 55 *Dôr holl Gymru* a G 238 lle y cynigir yn betrus mai’r wlad a olygir; y mae’n bosibl, er hynny, mai’r bobl a olygir.
- 11 **Myrddin** Sef Myrddin ap Morfryn, gw. TYP² 469–74. Yn wyneb diddordeb Hopgyn ap Tomas mewn barddoniaeth, y tebyg yw mai i Fyrdin fel bardd hanesyddol y cyffelybir ef yma, gw. GGDT 8.12n. Y mae’n bosibl, er hynny, mai’r ffigur chwedlonol (‘Myrddin Wylt’) sydd ym meddwl y bardd, ac yn benodol yr enwogrwydd yr ymddengys iddo ei ennill fel siaradwr di-ball yn ogystal ag fel ynfytyr a daroganwr, gw. E.I. Rowlands, ‘Myrddin Wylt’, LICy iv (1956–7), 118. Os felly, gellid deall *holion* i olygu ‘cwestiynau’, sef y cwestiynau a ofynnid iddo gan bobl (cf., e.e., y stori amdano yn T. Jones, ‘Myrddin ar Bawl’, *ib.* 179–80).
- 14 **Elffin** Elffin mab Gwyddno Garanhir, noddwr Taliesin yn y chwedl a dyfodd amdanynt, gw. TYP² 510, CLC² 229. Cymherir nawdd Elffin i’r pen-bardd â nawdd Hopgyn i feirdd.
- 15 **dewrfab Caw** Yr oedd gan Gaw o Brydyn 19 o feibion, gw. TYP² 301–3. Dichon, fel yr awgrymir yn betrus yn G 117, mai Huail a olygir, sef brawd i Gildas a gwron a laddwyd gan Arthur, gw. TYP² 408–10, GDG³ 453, CO³ 8 (ll. 212), 10 (llau. 259, 260).
- 17–20 **Heaf ei fawl ... / ... hyd y Gogledd** Cf. llau. 57–8 *Dygaf ei glod ... / ... hyd ar Wynedd* a gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.
- 18 **a’r** Llsgr. *ar* a allai hefyd gynrychioli’r ardd. yn yr ystyr ‘trwy’.

- 19 **hwyl Paredur** Disgwyliid gweld treiglo'r e.prs. *Paredur* ar ôl yr eb. *hwyl* (gw. Treigladau 106). Ar Beredur fab Efrog, arwr y rhamant 'Peredur' y cyfeirir ato yma fel safon o filwriaeth, gw. TYP² 219, 488–91, 561.
- 23 **hydr** Byddai derbyn darlleniad y llsgr., sef *Hyder*, yn gwneud y ll. yn rhy hir o sillaf.
- 27 **Llŷr** Llŷr Llediaith a ystyrid gan y Gogynfeirdd yn safon o feiddgarwch ar faes y gad, gw. TYP² 427–9.
- 30 **Bedwyr** Gw. 1.22n.
- 31 **caergalch** Cf. 2.53n ar *caer galch*.
- 33 Y mae'r ll. yn rhy fyr o sillaf oni chyfrifir *pybyrlew* yn deirsill.
- 36 **a'u** Llsgr. *ae*; y mae'n rhaid deall y rh.m. yn f. neu'n ll. (yn wyneb y gytsain gysefin sy'n dilyn). Yn betrus, felly, cymerir mai cyfeirio at fröydd y *Dehau* a wneir, er mai unigol yw'r ffurf *Dehau* mewn gwirionedd. Posibilrwydd arall yw fod y bardd yn cyfeirio'n ôl at *pawb* yn ll. 33.
- tuhedd** Fe'i deallir yn amrywiad ar *tuedd*.
- 38 **Sedd** Crybwyllir Sedd Gyfedd ap Gwyngad, tad Edfedd, mewn fersiwn o achau Maenyrch, patriarch llwythau ym Mrycheiniog, gw. WCD 582, P.C. Bartrum, 'Pedigrees of the Welsh Tribal Patriarchs', Cylchg LIGC xiii (1963–4), 105. Digwydd *Sedd* hefyd, fodd bynnag, fel amrywiad ar *Seth* (mab Adda), megis yn GLGC 234 (103.33) *Nid llai sôn am Siôn nog oedd am Sedd*.
- 40 **fylchir ... falchedd** Cf. GLGC 31 (10.46) *darfu ein bylchu am ein balchedd*.
- Leon** Cyfeiriad at un o ddau arwr chwedlonol o'r enw hwn, y naill yn gysylltiedig â Chaerllion ar Wysg, a'r llall, Leon Gawr, â Chaer (S. *Chester*); gw. WCD 407, 414 (d.g. *Llion Gawr*), GMB 1.46n, GDB 31.15n, 35.21n, GBF 22.12n.
- 41 **cynnail** Llsgr. *kymeil*; derbynnir diwygiad G 254.
- 44 **Llŷr** Gw. ll. 27n.
- 46 **Geraint** Gw. 1.40n.
- 47 **doctor cerdd fad** Ai cyfeiriad at awdurdod Hopgyn ym maes canu brud (gw. 3.144n)?
- 52 Cyfeirir, fe ymddengys, at ymwneud Hopgyn â'r gyfraith, gw. 3.53n.
- 54 **Lusidarius** Gw. 3.94–6n, 94n. Y mae'n rhesymol tybio bod Ieuan Llwyd yn cyfeirio at yr un copi o'r gwaith ag a wna Dafydd y Coed.
- 57–8 **Dygaf ei glod ... / ... hyd ar Wynedd** Gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.

- 61 **punnoedd** Cf. 3.74n ar *nobl*.
- 62 **mab Beli** Sef mab i Feli Fawr, neu Beli Fawr mab Mynogan (Manogan), perchennog chwedlonol Prydain; efallai mai Lludd a olygir: gw. TYP² 281, 425, 545, WCD 38–9, 416.
- 63 **digrifdrem walch** Llsg. *digrif drem* | *walch*, darllenriad a dderbynnir fel y saif yn G 348, 609, ond aneglur fyddai ystyr *tremwalch* ac felly fe'i diwygiwyd.
- 66 **gorsedd** Ar y treigladd, gw. Treigladau 52.

Mynegai

adnabod: adwaen 67
addas 49
aergad 37
amlwawd 59
a'r 18n
arglwyddlyw 23
a'u 36
balchedd 40n
bardd: beirdd 5n
briwdorf 37
brwydrgledd 2
bylchu: bylchir 40n
caergalch 31n
cannyn 41
cerdd 47n
claerwyn 13
cleddyfir 39
clod 57–8n
cymrodedd 52
cynnal: cynnail 41n
chwaen 67
da 67
dehau 48
dewrfab 15n
didwyll 42
digardd: digeirdd 6
digoniant 44
digrifdrem 63n
dihagr 47
dihoffedd 60
dioferedd 48
diryfedd 32
doctor 47n
doethdeg 52
doethfin 11
dôr 55, 60, 63
dwyn: dygaf 57–8n

dylu: dily 45, 59
eurgarw 38
eurglod 21
gleifddur 19
gloywdwr 57
gloywedd 14
gloywfraint 53
gorseidd 66n
grawnwin 12
gwalch 31, 63n
gwarant 21
gwenwlad 28
gwinrad 38
gwinwledd 28
gwir 39
gwiredd 24
gwiwri 22, 50
gwiwryw 24
gwyledd 42
gwyllfawd 14
gwynrwydd 38
hael 8
haelfab 5
haelfalch 64
hardd: heirdd 4n, 7
hau: heaf 17–20n
hawddfyd 1
hawl: holion 11
heilfedd 64
heilio: heiliai 12
heirdd gw. hardd
hirdda 4
holion gw. hawl
hothdeg 20
hothder 58
hothdrafn 26
hothfalch 32

hoywlad 50
hoywlew 8
huawdlfryd 65
hwyl 15, 19n
hyder 7, 23n, 57
hydrum 26
hyffawd 60
hyloyw 24
hywledd 50
i 9n
iawnfryd 46
Lusidarius 54n
lliwlafn 25
mab 62n
mabsant 7
mad 47n
mawl 17–20n

paladr 62
parlmant 43
punt: punnoedd 61n
rhiain: rhianedd 22
taeredd 54
tarian 51
tariandalch 63
tegan 6, 51
templ 5n
trahy 10
trech 68
trwsiad 27, 47
tuhedd 36n
tyfiant 2
unfraint 45
wrth 37

Enwau personau

Bedwyr 30n
Beli 62n
Caw 15n
Duw 65
Einion 9n
Elffin 14n
Geraint 46n
Hopgyn 3, 13, 21, 34

Lleon 40n
Llŷr 27n, 44
Myrddin 11n
Paredur 19n
Rholant 7n
Sedd 38n
Tomas 5n

Enwau lleoedd

Cymru 9n, 55
Dehau, y 36
Deheubarth 29

Gogledd, y 20n
Gwynedd 5n, 58n
Gŵyr 25, 51

GWAITH MEURIG AB
IORWERTH

Rhagymadrodd

Y gerdd fawl hon¹ i Hoppyn ap Tomas o Ynysforgan yw'r unig gerdd sydd wedi goroesi o waith Meurig ab Iorwerth. Sylwyd ar ddau ŵr o'r enw hwn yn yr achau. Yr oedd Meurig ab Iorwerth o Frycheiniog yn dad i ferch o'r unfed genhedlaeth ar ddeg, a anwyd yn ôl Bartrum tua 1370, a bu hon yn ail wraig i Ddafydd, person Llanedi, o lwyth Einion ap Llywarch, sir Gaerfyrddin.² Yn ail, yr oedd Meurig ab Iorwerth Fongam ab Iorwerth y priododd ei orwyres, Lleucu, â Dafydd Delynwyr, aelod yn y ddegfed genhedlaeth, a anwyd yn ôl Bartrum tua 1330, o lwyth Rhydderch ap Tewdwr, sir Gaerfyrddin.³ Llauer rhy gynnar yw Meurig ab Iorwerth Fongam i'w uniaethu â'r bardd, ond y mae blynyddoedd Meurig ab Iorwerth o Frycheiniog yn taro'n burion, ac fe all, yn wir, mai hwn a ganodd y gerdd uchod.

Y mae cerdd huawdl a brwd Meurig ab Iorwerth yn un o bum awdl foliant i Hoppyn ap Tomas⁴ a gadwyd yn y Llyfr Coch a thebyg yw ei chynnwys yn gyffredinol i eiddo'r rheini. Mewn llinell gofiadwy gelwir Hoppyn yn *Tad y gerddwriaeth fad fawr* (ll. 8) a diddorol yw'r cyfeiriad ato fel *mesur, moesau Ffrenigig* (gw. ll. 57n).

Egyr y gerdd ag englyn proest a ddilynir gan bedwar englyn unodl union, y tri olaf ar y brifodl *-ig*. Cenir gweddill y gerdd wedyn ar fesur gwawdodyn hir, drachefn ar y brifodl *-ig*. Ac eithrio llinell 24, y mae hyd pob llinell yn rheolaidd. Cyganeddwyd y gerdd drwyddi gyda'r gynghanedd sain yn flaenaf, gan gynnwys enghreifftiau pengoll a dwbl. Gwneir defnydd helaeth iawn o gymeriad llythrennol, ac yn y llinellau gwawdodyn hir y mae'r cymeriad yn newid o bennill i bennill. Cysylltir y tri englyn cyntaf trwy gyrch-gymeriad, a chyrcha gair olaf y gerdd y gair cyntaf.

¹ Fe'i golygwyd yn ACDC 341–8, 652–63.

² P.C. Bartrum: WG1 'Einion ap Llywarch' 3.

³ *Ib.* 'Rhydderch ap Tewdwr' 3.

⁴ Gw. sylwadau rhagarweiniol cerdd 3.

Moliant Hoggyn ap Tomas o Ynysforgan

- 4 Digabl ŵr y dwg ei blaid,
Dôr dursaf dewr diarswyd;
Difai radd, da fu eirioed,
Diornwalch o deŷrnwaed.
- 8 Tëyrn hil cedyrn, cywiw faedd gawr—brwydr,
Briwdwn wayw ar aesawr;
Teml beirdd byd, bryd briodawr,
Tad y gerddwriaeth fad fawr.
- 12 Mawr Hoggyn aergryn, eurgrair pwyllig—teml,
Fab Tomas wyndodig,
Braint Gŵyr yw llyw llysig,
Baredur ddysg mywn brwydr ddig.
- 16 Eryr uchelwyr, diochelwig—hael,
Hylathr farn gadwedig,
Breiniawl hawl hoywlys ddiddig,
Braisg fyfyrdod, fragod frig.
- 20 Dragywydd y bydd barnedig—mawl sail
Mal Selyf wynfydig;
Ei drwydded bendigedig
A'i dra myfyrdod a drig.
- 24 Myfyrdod ceudod cerdd blethiedig,
Mawrfawl swllt didawl cysylltedig;
Modur, maith awdur nid methodig,
Mal gwasgarfudd Nudd nyw rhôl yn oddig,
Mur gwaywddur gwiwddoeth, coeth catholig—fryd,
Mawrwell no dyn byd hyd ym Merwig.
- 28 Synnwyr a orug alwysennig,
Sef ydiw ei air yn safedig;
Syth wrth syth, trasyth ag arf treisig,
Serth lorf ddoeth, loywdorf ddetholedig,
Selyf un nawd, wawd wyndodig—brofiant,
32 Sant swydd a alwant ysydd elwig.

36 Hopgyn iôr gwinllyn gwenllys foesig,
 Hopgyn wyn wanar, trawsddar treisddig,
 Hopgyn ail Merfyn, mawrfar pwysig,
 Hopgyn harddwyn hyd deufryd Dyfrig,
 Hopgyn yn dylyn Nadolig—beunoeth,
 Hopgyn eirgoeth doeth wrth ymdeithig.

40 Hylymarf yng ngyrd fal hwyl Amig,
 Hoyw olud addef, hwylau diddig,
 Heliwr aer, friwdwr arferedig,
 Hael o wir anian, hawl wyrennig.
 44 Heilwin da wydrin diodrig—cadarn,
 A heilau masarn, wŵr helm ysig.

48 A gair yn ei lys, ym delw Gurig!
 A gŵraidd ydiw ac urddedig,
 I glêr a nifer nefol leiddig,
 A glân a difan yw'r pendefig,
 A gloywdeg synnwyr dirgeledig—iawn,
 A gwinfwrdd yn llawn i bellennig.

52 I Arthur loywdeml wrth aur wledig
 O lwys gall awen, lys Gelliwig,
 Ein udd, ofwy fudd, a fu feddig
 I dlodion ddyinion a ddywynnig,
 56 I Feda a Chadw, gynefodig—iôn,
 Am ei atebion y mae tebig.

60 Coeth awdur mesur, moesau Ffrengig,
 Caith ostyngiad mad yn rhwymedig,
 Cystal ag Eidial yw, neud Cedig,
 Costiad, dafodiad addefedig.
 Cymaint yw ei fraint fro ni ddiffig—nawdd
 Â'r mwyaf, yn hawdd o fonheddig.

64 Clau aergarw trafel, clêr gartrefig,
 Clywed ein awdur clod enwedig,
 Cleddlym cleulafn grym, greddf ffyniedig,
 Clwyf rôn ar ddyinion, ar ddiennig;
 68 Calander maswner a musig—beirddion,
 Coron y doethion diadwythig.

- 72 Cymro ydiw ef cymeredig,
Cyfraith erbyniaith, ŵr arbennig,
Camber rymuster o rwym ystig,
Calon i'n brydion yn buriedig;
Cwyn â mil adar, canmoledig—hail,
Cai ail a gynnail ac a gynnig.
- 76 Cwrseriaid euraid eirf beddestrig,
A chadoedd emys nid ychydig,
Cyfoethog lludwog nid colledig,
Cadr lyw yw uniawn, dawn diunig,
80 Cerddau (mwy rhadau!) mawrhydlig—a fedd,
Cwbl awdur mawredd nid cabledig.

Ffynonellau

A—BL Add 15001, 252^v B—Card 4.140, 663 C—J 111, 1373 D—LIGC 4973B, 361^r E—LIGC 21287B [= Iolo Aneurin Williams 1], 58^r F—Llst 133, 299^v [rhif 873] G—Pen 118, 261

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif C, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl llawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 209–10.)

Darlleniadau'r llawysgrif

17 ma6lseil. 34 waruar. 35 ma6r var. 50 g6in v6rdla6n yn lla6n. 65 kedlym. 67 masswener.

Rhaglith

Meuric uab Jorwerth ae cant y hopk' uab thomas.

Moliant Hopgyn ap Tomas o Ynysforgan

- Yn wŕ di-fai yr arwain ei fintai,
 Amddiffynnwr cadarn ei safiad dewr [a] di-ofn;
 Dilychwin [ei] urddas, da fu erioed,
 4 Gwron digabl o waed arglwyddi.
- Arglwydd [o] hil gwŕr cedyrn, rhyfelwr rhagorol [yng] nghri
 brwydr,
 [Ei] waywffon ddrylliedig ar darianau;
 Noddfa beirdd byd, perchennog harddwch,
 8 Tad y brydyddiaeth hardd bwysig.
- Hopgyn mawr sy'n ysgwyd byddin, trysor rhagorol [a] doeth
 noddfa,
 Mab Tomas dedwydd,
 Rhagorfraint Gŵyr yw['r] arglwydd gwych,
 12 Deheurwydd Peredur mewn brwydr chwerw.
- Pennaeth uchelwyr, [gŵr] urddasol [a chanddo] lu digilio,
 [Un a chanddo] farn ddisglair a drysorir,
 Hawl freiniol [ar] lys ysblennydd [a] diddan,
 16 [Gŵr o] fyfyrdod praff, [y] gwychaf [yn rhoi] bragod.
- Yn dragwyddol y bydd [yr un sy'n] sylfaen mawl wedi ei
 ddyfarnu['n un]
 Megis Selyf gwynfydedig;
 Bydd ei gynhaliaeth fendigedig
 20 A'i fawr fyfyrdod yn aros.
- Myfyrdod calon [iddo] yw cerdd wedi ei phlethu,
 Moliant gwych yn [ennill] trysor dibrin cysylltiedig;
 Pennaeth, noddwr mawr nad yw'n nychlyd,
 24 Fel [yn achos] budd gwasgaredig Nudd ni rannai [ei fudd yntau]
 yn ddig,
 Amddiffynnwr dur ei waywffon [a] gwycheddoeth, un coeth
 cywir [ei] fryd,
 Llawer gwell nag [unrhyw] ddyn byd[ol ei statws] cyn belled â
 Berwig.
- Parodd [yr] un hael ddoethineb,
 28 Ac y mae ei air yn safadwy;
 Cadarn ydyw wrth gadarn, tra chadarn ag arf dreisiol,

- Cynheiliad unionsyth [a] doeth, [a chanddo] fintai ddisglair [a]
dethol,
O'r un natur â Selyf, [â] phrofiad o fawl dedwydd,
32 Dyn sanctaidd ei swydd a alwant yr hwn sy'n rhagorol.
- Hopgyn [yr] arglwydd sy'n yfed gwin [mewn] llys bendigaid [a]
moesgar,
Hopgyn [yr] arweinydd gwych, [un fel] derwen nerthol [a]
chwerw ei drais,
Hopgyn debyg i Ferfyn, [gŵr o] ddigofaint mawr [a] llethol,
36 Hopgyn hardd a bendigaid hyd [at fod ag] arfaeth Dyfrig
ddwywaith,
Hopgyn yn cadw Nadolig bob nos,
Hopgyn coeth ei air [a] doeth wrth fforddolyn.
- [Triniwr] arf awchus mewn brwydr fel [mewn] ymosodiad [gan]
Amig,
40 [Un sy'n byw mewn] trigfan [o] olud gwych, [lle llawn] hwyliau
da,
Heliwr [mewn] brwydr, amddiffynnwr clwyfedig dibynadwy,
Pendefig o wir natur, [un â] hawl rymus.
Gwin parod [a] chadarn wedi ei dywallt [mewn] gwydrin,
44 A gwleddoedd [ar] lestri masarn, milwr ysig ei helm.
- A moliant yn ei lys, myn delw Curig!,
A gwrol ydyw ac urddasol,
I feirdd a llu cynhaliaeth nefol ydyw,
48 A phur a di-fai yw'r pendefig,
Ac [â] doethineb ddisgleirwych [a] chyfrin iawn,
A bwrdd gwin yn llawn i ddieithryn.
- I Arthur disglair ei noddfa o'i gymharu ag arglwydd ardderchog
52 O awen ddisglair [a] doeth, [—Arthur o] lys Celliwig,
Ein pennaeth, [y mae'n] fudd[iol] ymweld ag [ef], a ddisgleiria
[Sef ef] a fu'n feddyg i ddynion tlawd,
I Feda a Chato, [ac yntau'n] arglwydd cynefin,
56 Y mae'n debyg oherwydd ei atebion.
- Noddwr gwych mydryddiaeth, [gŵr o] gwrteisi Ffrenig,
Darostyngwr daionus gwŷr caeth [sydd] yn rhwymedig [i'w
bobl],
Cystal ag Eidal yw, Cedig yw,

60 Gwariwr, llefarwr cydnabyddedig.
Cymaint yw ei fro [lawn] braint lle ni phall [ei] nawdd
Â'r mwyaf, [yn] hyfryd o fonheddig.

Arwr brwydr chwim [mewn] trafferth, un sy'n rhoi cartref i
feirdd,

64 Y mae clywed ein hawdurdod yn anrhydedd arbennig,
Llym ei gleddyf [a] chwim ei lafn [a] nerthol, [â] natur
lwyddiannus,

Gwaywffon glwyfus ar ddynion, ar [filwyr] eiddgar;
Patrwm o arglwydd llawen a cherddoriaeth beirdd,
68 Coron gwŷr doeth dedwydd.

Cymro cymeradwy yw ef,
[Datganwr] cyfraith [â] lleferydd hyfryd, gŵr gwych,
[Un â] nerth Camber o ran caethiwo dyfal,
72 Calondid i'n gwŷr tanbaid [sydd] yn buredig;
Gwledd gyda mil o adar, cyfeddach wych,
A gynhalia ac a gynnig yr un tebyg i Gai.

Rhyfelfeirch rhagorol y milwr troed [sydd bob amser ac] arfau
[ganddo],

76 Ac nid ychydig o luoedd o feirch,
Un nerthol â mintai nad yw wedi dioddef colled,
Arweinydd gwych ydyw [a] chywir, budd helaeth,
Y mae ganddo hawl ar gerddi ysblennydd (mwy yw[’r]
bendithion!) ,

80 Noddwr perffaith [ac iddo] fawredd nas ceblir.

Nodiadau

13

- 2 **dôr** Eb. yn unig yn ôl G 387 a GPC 1076, ond fel y dengys yr a. *dursaf*, fe'i trinnir yma fel eg. Y tebyg yw mai gwryweidd-dra Hopgyn yw'r rheswm am hyn; cf. 14.18n, GC 7.1n, ond gthg. isod ll. 30 [l]lorf ddoeth.
- dursaf** Nis rhestrir yn GPC 1100 ac ni roddir ystyr yn G 397. Dilynir yn fras ACDC 652 lle y cynigir yn betrus yr ystyr 'yn sefyll fel dur, sefydlog fel dur'.
- 5 **cywiw** Awgrymir yn betrus yn G 273 y gellid darllen *cydwiw* i gynganeddu â *cedyrn*, ond gan gydnabod hefyd na raid, efallai, wrth gynghanedd gyflawn.
- gawr** Gellid hefyd ei ddeall yn ffurf dreigledig *cawr*.
- 7 **teml beirdd** Cf. disgrifiad Ieuan Llwyd ab y Gargam o Hopgyn, 12.5 *Haelfab Tomas, teml Gwynedd feirdd*.
- bryd** Fe'i deallir yn dreiglad meddal *pryd*, ond rhoddai *bryd* 'meddwl, ystyriaeth' gystal ystyr.
- 9 **aergryn** Neu 'yn peri terfysg mewn brwydr', G 13.
- 10 **Tomas** Ar achau Hopgyn, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Bleddyn ap Maenyrch' 32.
- 12 **Paredur** Gw. 12.19n.
- 14 Gall mai cyfeirio a wneir yma at ymwneud Hopgyn â'r gyfraith. Cf. llau. 56n, 70n ac 3.53n.
- 18 **Selyf** Gw. 1.13n. Ceir Triawd yn Llyfr Coch Hergest sy'n enwi Cado Hen, Beda, a Sibil Ddoeth fel y tri dyn a gafodd ddoethineb Adda, gw. TYP² 128 lle y dadleuir fod Sibil Ddoeth o bosibl wedi disodli Selyf. Os felly, diddorol sylwi bod Beda a Chadw hwythau yn cael eu crybywll yn ll. 55, fel pe bai'r bardd yn meddwl mai hwy a Selyf, nid Sibil, oedd y tri doeth. Gw. hefyd GLILL 4.11n.
- 21 **cerdd blethiedig** Defnyddia'r beirdd amryw o ffigurau ynglŷn â'r proses o gyfansoddi cerdd, ac y mae *plethu* yn un ohonynt; gw. GSCyf 12.16n a GDG³ 13 (5.7–8) *Gwell y plethaf, ddewraf ddôr, / Gwawd tafawd yt, Ifor*.

- 22 **mawrfawl swllt** Cyfeirir at y tâl a roddai Hopgyn am gerddi mawl; cf. GDG³ 57 (20.43–4) *O gerddi swllt, agwrdd sâl, / Ni chaid un gistaidd gystal.*
- 23 **awdur** Yn yr ystyr ‘person o awdurdod’, gw. GPC 239, 1 (b) a cf. llau. 57, 64, 80.
- 24 Y mae’r ll. yn rhy hir o sillaf oni chywesgir *rhôl yn*.
Nudd Nudd ap Senyllt, gw. 2.3n.
- 26 **Berwig** Berwick-on-Tweed yn yr Alban, gw. GGL1 251 a GLGC 586. Fel y dywedir yn *Y Flodeugerdd Newydd*, gol. W.J. Gruffydd (Caerdydd, 1909), 212, ‘[It] is often used by the Welsh poets to denote the utmost boundary of England’. GDL1 34 (6.39–40) *Ef a arwain hyd Ferwig / Losgwrn a dwrn y llew dig; ib.* 88 (36.41–2) *Gwledd hyd y gogledd o gig, / Gwledd fawr o Glawdd i Ferwig.*
- 29 **syth** Ar amrywiol ystyron *syth*, gw. GPC 3400; cymerir mai ‘diwyo’ neu ‘gadarn, disyflyd’ a rydd yr ystyr orau yma mewn cyswllt ag *arf treisig*, ond nodir yno hefyd yr ystyron ‘cyfiawn, cywir, gonest’.
- 31 **gwyndodig** Gw. 3.99n.
- 34 **gwanar** Llsg. *waruar*; derbynnir diwygiad petrus G 614.
- 35 **Merfyn** Sef Merfyn Frych, yn ôl pob tebyg, brenin Gwynedd (*ob.* 844) a thad Rhodri Mawr, gw. J.E. Lloyd: HW³ 323–4 a ByCy 591, TYP² 260–1, EWGT 9 *et passim*, WCD 473–4. Nid yw’n eglur paham yn union y cyffelybir Hopgyn iddo ond ystyrier *ib.* 474, ‘There is evidence that the court of Merfyn Frych and his son Rhodri Mawr was the centre of a heightened intellectual activity, fostered partly by the fact that it was a stopping place for Irish scholars travelling to and from the continent.’
- 36 **hyd deufryd** Ar galedu *dd* ar ôl yr ardd. *hyd*, gw. Treigladau 394.
Dyfrig Dyfrig Esgob, gw. GRhS 10.91n. Dichon mai ar sail dysg y cyffelybir Hopgyn iddo (cf. ll. 35n).
- 39 **Amig** Un o’r prif gymeriadau yn y chwedl ganoloesol dra phoblogaidd ‘Cymdeithas Amlyn ac Amig’ y ceir y testun cynharaf o’r cyfieithiad Cymraeg ohoni yn Llyfr Coch Hergest, *c.* 1400; gw. KAA² xxvii–xxviii, CLC² 14. Dylid nodi hefyd fod y Llyfr Coch yn eiddo i Hopgyn ap Tomas, gw. sylwadau rhagarweiniol cerdd 3 uchod.
- 41 **briwdrwr** Hynny yw, y mae Hopgyn yn dal i fedru amddiffyn er gwaethaf ei friwiau.
- 45 **ym** Ar ei ddefnydd mewn llwon, gw. GMW 245–6.
Curig Gw. 2.58n.
- 47 **lleiddig** Dilynir awgrym ACDC 658 a’i ddeall yn amrywiad ar *lleithig*, er nas nodir yn GPC 2150. Efallai y dylid ei ddiwygio. Posibilrwydd

arall yw mai bôn y f. *lladd* a'r terfyniad *-ig* (gw. GPC 2015 d.g. *-ig*²) 'un cynefin â lladd, yn taro gelyn' sydd yma, er mai chwithig braidd o bosibl yw ei oleddfu felly gan *nefol*.

- 50 **gwinfwrdd yn llawn** Llsg. *g6in v6rdla6n yn | lla6n*. Yn G 84 d.g. *bwrð* diwygir yn betrus i *gwinfwrdd lawn* (*yn llawn*), *ond yn ib.* 681 d.g. *gwin* i *gwinfwrdd yn llawn*. Y tebyg yw mai'r olaf sydd gywiraf gan y ceir felly 9 sillaf, nid 10, i'r llinell a chwithig yw ailadrodd *llawn*.
- 51–6 Brawddeg hir o 6 ll. Cedwir y f. tan y diwedd a chyffelybir Hopgyn i Arthur, Beda, a Chadw (*I Arthur ... I Feda a Chadw ... y mae tebyg*).
- 51 **aur wledig** Sef Hopgyn ap Tomas.
- 52 **Celliwig** Llys Arthur yng Nghernyw a ystyrir gan y beirdd yn llys delfrydol, gw. G 128, TYP² 3–4, GCBM ii, 4.167n, CO³ 94–5, CLC² 98.
- 55 **Beda a Chadw** Beda Ddoeth, y Sais o hanesydd, yw'r cyntaf, gw. G 53, TYP² 279, a Dionysius Cato yw'r ail, gw. G 90 (d.g. *Cado*), TYP² 291. Cofir y ddau gan y Cymry am eu doethineb. Cf. hefyd l. 18n.
- 56 **atebion** Cyfeiriad, yn ôl ACDC 659, at 'ddoethineb a ffraethineb Hopgyn yn y llys barn'; cf. ll. 14n.
- 57 **moesau Ffrenig** Cyfeiriad diddorol sy'n awgrymu naill ai fod diwylliant Ffrainc wedi dylanwadu ar Hopgyn neu ynteu ei fod mor gwrtais â Ffrancwr.
- 59 **Eidial** Ceir hefyd y ffurfiau *Eidal*, *Eiddal*, *Eidawl*, *Eidiol*, *Eidol*, ac fel y dywedir yn G 453, anodd bod yn sicr ai ffurfiau ar yr un enw ydynt oll ac ai'r un person a ddynodir ganddynt. Dichon fod y ffurf i'w chysylltu â rhai o frenhinoedd cynnar Prydain o'r un enw a restrir gan Sieffre o Fynwy; gw. ymhellach GCBM ii, 6.150n.
- Cedig** Rhestrir yr enghraifft hon yn G 121 dan yr a. 'dicllon, lliidiog, cythryblus'. Ar sail y cyfeiriad blaenorol yn yr un ll. at *Eidial*, fodd bynnag, y mae'n haws credu mai cyfeiriad sydd yma at arwr arall, sef y *Cedig* Draws hwnnw y cyfeiriodd Casnodyn ato, GC 2.24n, ac y ceir hanes amdano yn bwrw Rhun ap Maelgwn Gwynedd ar ei ben â chorn yfed yn llys Maelgwn cyn ffoi at Gyndeyrn am seintwar yn Llanelwy, gw. LBS iv, 385, G 121 a'r ychwanegiadau rhwng 480 a 481, TYP² 502–3, GGDT 29.
- 65 **ffyniedig** Dilynir GPC 1333 sy'n rhestru'r enghraifft hon d.g. *ffynedic*, o fôn y f. *ffynnu*, yn hytrach na than *ffenedig* 'dewr, eofn, ffyrnig', &c., benthyciad o'r Llad. *fanaticus*, *ib.* 1282. Byddai ystyr yr olaf yn gweddu llawn cystal, er hynny. Yn G 504, 516 ystyrir *ffyniedig* yn ffurf ar *ffenedig* a rhestrir enghraifft y testun felly dan yr olaf.
- cleddlym** Llsg. *kedlym*. Dilynir diwygiad petrus G 120 er mwyn y cymeriad.

- 67 **maswner** Llsgr. *masswener*, ac yn G 477 fe'i deellir *masw ener* sy'n peri i'r ll. fod yn rhy hir o sillaf.
- 70 **cyfraith erbyniaith** Cyfeiriad arall, fe ymddengys, at ymwneud Hoppyn â'r gyfraith, gw. ll. 14n. Ansicr yw ystyr *erbyniaith* a chynigir ' ? lleferydd hyfryd neu dderbyniol ' yn GPC 1229.
- 71 **Camber** Camber fab Brutus, gw. G 100, WCD 97.
- 72 **brydion** Dilynir G 79 a'i ddeall yn l. *brwd*; dichon mai at filwyr y cyfeirir.
- 73 **adar** Cf. geiriau Dafydd y Coed yn ei awdl yntau i Hoppyn ap Tomas, 3.79, *Mi a glodforaf feistr llys mwyeilch—hael*. Ystyr drosiadol sydd yma eto—'cantorion, beirdd'.
- 74 **Cai** Gw. 1.9n.
- 79 **rhadau** Llsgr. *radeu*, ond nid yw'n debygol mai treigladau o *graddau* sydd yma gan fod angen y sain *d* i gynganeddu â *mawrhydig*. Anarferol hefyd fyddai treiglo ar ôl *mwy* (ar hyn, gw. Treigladau 48).

Mynegai

- adar** 73n
addef 40
addefedig 60
aergryn 9n
alwysennig 27
arf: eirf 75
arferedig 41
ateb: atebion 56n
aur 51n
awdur 23n, 80
baedd 5
bardd: beirdd 7n **beirddion** 67
barnedig 17
bragod 16n
braisg 16
brig 16
briwdwr 41n
brwd: brydion 72n
brydion gw. **brwd**
cad: cadoedd 76
cadwedig 14
calander 67
cartrefig 63
catholig 25
cerdd 21n
cerddwriaeth 8
cleddlym 65n
cleulafn 65
colledig 77
costiad 60
cwbl 80
cyfraith 70n
cymeredig 69
cywiw 5n
dawn 78
deufryd 36n
diadwythig 68
diddig 15, 40
dig 12
diochelwig 13
diorwalch 4
dirgeledig 49
diunig 78
dôr 2n
dursaf 2n
dylun 37
dysg 12
dywynygu: dywynnig 54
elwig 32
erbyniaith 70n
eryr 13
euraid 75
eurgrair 9
Ffrenngig 57n
ffyniedig 65n
gair 45
gawr 5n
geirgoeth 38
gloywdeg 49
gloywdorf 30
gostyngiad 58
gwanar 34n
gwasgarfudd 24
gwawd 31
gwaywddur 25
gwenllys 33
gwinfwrdd 50n
gwinllyn 33
gwiwddoeth 25
gwledig 51n
gwyndodig 31n
hael 13
harddwyn 36
hawdd 62

heilwin 43
hoyw 40
hoywlys 15
hwyl 39
hyd 36n
hylymarf 39
llawn 50n
lleiddig 47n
lludwog 77
llysig 11
mad 8, 58
maith 23
masarn 44
maswner 67n
mawrfar 35
mawrfawl 22n
mawrwell 26
methedig 23
moes: moesau 57n
moesig 33
pellennig 50
plaid 1
plethiedig 21n

priodawr 7
profiant 31
pryd 7n
pwysig 35
rhad: rhadau 79n
rhwym 71
sant 32
serth 30n
swllt 22n
syth 29n
tafodiad 60
teyrnwaed 4
templ 7n, 9
trasyth 29
trawsddar 34
treisddig 34
trwydded 19
urddedig 46
ym 45n
ymdeithig 38
yn 50n
ystig 71

Enwau personau

Amig 39n
Arthur 51
Beda 55n
Cadw 55n
Cai 74n
Camber 71n
Cedig 59n
Curig 45n

Dyfrig 36n
Eidial 59n
Hopgyn 9, 33, 34, 35, 36, 37, 38
Merfyn 35n
Nudd 24n
Paredur 12n
Selyf 18n, 31
Tomas 10n

Enwau lleoedd

Berwig 26n
Celliwig 52n

Gwŷr 11

GWAITH Y PROLL

Rhagymadrodd

Y mae peth ansicrwydd ynglŷn â'r llysenw *Y Proll*. Ar y naill law, cyfeirir yn Llyfr Coch Hergest at awdur y gerdd isod¹—yr unig gerdd ganddo i orosi—fel *Y proll*.² Ar y llaw arall, ceir cerdd ddychan gan Ieuan ap Rhydderch i ŵr a eilw y *Prol*,³ ac mewn cerdd ddychan gan Ddafydd Benwyn i Siancyn Morgan cyfeirir at ŵr o'r un enw.⁴ Dylid ychwanegu hefyd na welwyd unrhyw gyfeiriad arall at fardd o'r enw *Y Proll* yn y farddoniaeth ac mai *Y Prol* yn unig a geir gan John Davies, Mallwyd, yn yr adran tua diwedd ei eiriadur ar awduron Brytaneg a'u dyddiadau. Oherwydd anghyffredinedd a thebygrwydd y ddwy ffurf, cyfyd y cwestiwn ai gwall yw *proll* am *prol* neu enghraifft brin o ddynodi'r sain *l* ar ddiwedd gair â'r symbol *ll* yn orgraff y Llyfr Coch; ynteu ai dynodi gŵr gwahanol i wrthrych dychan Ieuan ap Rhydderch a Dafydd Benwyn y mae. Yr unig beth y gellir ei ddweud ar hyn o bryd yw fod orgraff y Llyfr Coch yn gryf o blaid yr ynganiad 'Y Proll',⁵ ac nid yw'n debygol fod y ffurf 'Y Prol' yn amrywiad ar yr enw hwnnw. Yn niffyg tystiolaeth fwy pendant, felly, *Y Proll* a ddefnyddir yn y golygiad hwn, er cydnabod y gallai gwybodaeth newydd daflu goleuni gwahanol ar y mater. Ni wyddys tarddiad nac ystyr y llysenw.⁶

Ynglŷn â blynyddoedd *Y Proll*, y mae dyddiad Llyfr Coch Hergest, sef tua 1400, a'r ffaith i'w gerdd gael ei chynnwys ynddo yn ddiweddarach gan

¹ Fe'i golygwyd yn ACDC 355–60, 669–75.

² Gw. isod.

³ *Peniarth MS. 53*, copiwyd gan E. Stanton Roberts, gol. H. Lewis (Caerdydd, 1927), 26–8. Dynoda'r llythrennau *l* ac *ll* y seiniau arferol, a chyfeirir at y gwrthrych wyth o weithiau fel y *prol*, ac mewn un achos ceir odl fewnol rhyngddo a'r gair *gerfol*.

⁴ D.H. Evans, 'The Life and Work of Dafydd Benwyn' (D.Phil. Oxford, 1981), 630 (CCLII.145) *Ail i'r Proth, veistrol vstrych*. Fel rheol y mae'r cyfuniad *lh* yn dynodi'r sain *ll* yn orgraff y cyfnod, ac felly y'i deellir yn yr enghraifft hon yn GPC 2543 d.g. *mystrych*, ond y mae'n amlwg mai'r sain *l* a ofynnir gan y gynghanedd. (Y symbol *ll* a ddefnyddir ar gyfer y sain *ll* ym mhob achos arall yn y gerdd a dyma'r unig enghraifft ynddi o *lh*. Dichon fod hyn yn adlewyrchu ansicrwydd rhyw gopiwr ynglŷn â ffurf yr enw.)

⁵ Gw. hefyd GMW xxix lle y derbynnir y ffurf.

⁶ Ceir enghreifftiau llenyddol o *prol*, ar y llaw arall, yn yr ystyr 'rhagymadrodd, prolog', &c., a dichon mai benthyciad ydyw o'r Llad. *prologus* neu'r *S. prologue*, gw. HGK 88, GPC 2908 lle y dywedir hefyd mai dyma enw bardd y Llyfr Coch a llsg. Pen 53. Anodd, er hynny, yw gweld ei briodoldeb ynglŷn â pherson. Tybed ai amrywiad ydyw ar *bról*, *bról* 'bost, ymfrost', benthyciad posibl o'r Saesneg *brawl*? Gall fod ateg i hyn yng ngherdd Ieuan ap Rhydderch, lle y mae'r holl bwylsais ar ymfrostgarwch y *Prol*, gw. E. Stanton Roberts, *op.cit.* 26 (llau. 20–3), *bastwn ywr prol nyt abostol. / bostywr kerdd chwerwach nor bystyl. / bost aflan liw sextan sistyl. / bostyet mewn tuddet didestl*. Ni nodir, er hynny, unrhyw enghreifftiau cynharach na'r 16g. yn GPC 332 o *bról*.

law sy'n perthyn i chwarter olaf y bymthegfed ganrif,⁷ yn gosod y bardd yn y ganrif honno; ac os iawn rhoi Tomas ap Hopgyn yn hanner cyntaf y ganrif, teg yw tybio mai yn yr un cyfnod yr oedd Y Proll yntau yn ei flodau.⁸

Heblaw iddo ganu i Domas ap Hopgyn, ni wyddys nemor ddim am Y Proll. Gellir dysgu tipyn mwy am y Prol, ond gan na wyddys ai'r un bardd ydoedd ai bardd arall, gadewir hynny tan eto.⁹

Ar wahân i awdl Y Proll, yr unig dystiolaeth arall hysbys am Domas ap Hopgyn, mab yr enwog Hopgyn ap Tomas o Ynysforgan y ceir pump o awdlau iddo yn Llyfr Coch Hergest,¹⁰ yw gweithred a luniwyd yn 1408 sy'n cofnodi trosglwyddo tiroedd iddo yng Ngŵyr a fuasai'n eiddo un *Willhelmus ap Howell ap Stevin* wedi marw hwnnw.¹¹ Dywed G.J. Williams am Domas ar sail awdl y Proll, 'ni cheir rhyw lawer o arwyddion yn y canu hwn ei fod wedi etifeddu cyneddfau ei dad',¹² eithr da y dangosodd Dr Geoffrey Ballinger nad cywir mo'r gosodiad hwn.¹³ Yn un peth, y mae'r ffaith fod yr awdl wedi ei chynnwys yn y Llyfr Coch yn awgrymu rhyw barch uwch na'r cyffredin at Domas, ac fe'i molir am yr un pethau ag a hynodai ei dad, yn fwy penodol am ei ymhél â'r gyfraith a phrydyddiaeth gan gynnwys y canu brud (gw. llau. 12n, 23n, 34n). Y mae'n bosibl hefyd fod Tomas wedi chwarae rhyw ran fwy na'r arfer ym mywyd yr eglwys (gw. ll. 14n).

Canwyd yr awdl hon ar fesur tawddgyrch cadwynog. Arno, gw. sylwadau rhagarweiniol cerdd 12 uchod;¹⁴ eithr lle yr hanerwyd y mesur yno, yma fe'i ceir yn ei gyflawnder mewn saith 'pennill' wyth llinell o hyd wedi eu cyfansoddi o ddwy uned bedair llinell yr un ar y prifodlau *-wydd*, *-el*, *-iw*, *-as*, *-aith*, *-awdd*, *-yw*. Patrwm odli cymalau pob pennill (a chymryd mai *a* yw'r brifodl) yw *b c c a*; *b c c a*; *d d d a*; *d d d a*. Yn nau glymiad cyntaf pob pennill cysylltir y cymal cyntaf â'r ail, yr ail â'r trydydd, a'r trydydd â'r pedwerydd â chyrch-gymeriad (gan roi cynganedd braidd gyffwrdd yn y mwyafrif o achosion). Yn nau glymiad olaf pob pennill cysylltir tri chymal cyntaf pob clymiad ag odl, gan ddefnyddio'r un odl yn y ddau, a'r trydydd a'r pedwerydd cymal â chytseinedd. Defnyddir cyrch-gymeriad i gysylltu pob pennill â'i gilydd yn ogystal, a chyrcha gair olaf y gerdd ei gair cyntaf. Heblaw'r gynghanedd fraidd gyffwrdd a geir yn ganlyniad naturiol i'r cyrch-gymeriad yn hanner cyntaf y penillion, ceir hefyd yn fynych gynghan-

⁷ RWM ii, 20.

⁸ Yn yr adran ar awduron Brytaneg a'u dyddiadau tua diwedd D rhoddir y dyddiad 1400 i y *Prol*.

⁹ Gw. R. Iestyn Daniel, *Gwaith Ieuan ap Rhydderch* (i ymddangos yng Nghyfres Beirdd yr Uchelwyr).

¹⁰ Gw. sylwadau rhagarweiniol cerdd 3 uchod.

¹¹ Gw.*ib.*

¹² TLIM 14.

¹³ ACDC 99.

¹⁴ Diddorol sylwi mai'r un mesur (gyda gwahaniaethau) a ddefnyddiodd Ieuan Llwyd a'r Proll wrth foli Hopgyn ap Tomas ond efallai nad oes unrhyw arwyddocâd i hynny.

edd gyflawn, yn enwedig y gynghanedd sain, ac amryw o linellau yn cynnwys dwy gynghanedd a'r rheini gan amlaf o fath gwahanol. Ac eithrio llinell 48 y mae hyd y llinellau yn rheolaidd.

Moliant Tomas ap Hopgyn

- 4 Hoywlyw ryw ras, rysedd Edlym,
 Odlau cyflym coflythr hylwydd;
 Coeth doeth Domas, dymyr erddrym,
 Yrddrad grym llym, llaw Dduw a'i llwydd.
 Cyflwr gŵr gwych, gwledd medd mynych,
 Gwin hoyw edrych, gwyn ehudrwydd.
 8 Cannawdd cennych, arnaw llaw llych,
 Nodiau clau clych, eurwych arwydd.
- 12 Arwyddon iôn, iawn ener diball,
 Dwbl cwbl cuall, cyhoedd bensel,
 Abl ddigabl ddawn, ddoniog ddeall,
 Ddeongl arall, eryr digel
 Yw ar bobloedd ac ar luoedd
 A niferoedd, wiw nwyf Uriel,
 Iôr cenedloedd a goludoedd,
 16 Iawn ri torfoedd, un rad Derfel.
- 20 Derfel fel sant, saint ogyfarch,
 Gafael mawrbarch, alarch eiliw,
 Gwawl mawl moliant mâl dihafarch,
 Hoywfodd ar farch, wedd Llywarch wiw.
 Hil madfil mawr Hopgyn wyn wawr,
 Hael wrth gerddawr, ffraeth fflaglawr ffrîw,
 24 Wyr beirdd eurawr, cas blaslawr,
 Ysig aesawr, frwydr gatgawr friw.
- 28 Briwgad rad rwysg, rysgyr Mordaf,
 Mawrdeg adaf ydiw Tomas,
 Beirddfyd bryd brwysg, braisg rodd alaf,
 Eilun Addaf, addysg Melwas,
 Gorwyr geirwir Einawn, dawn dir,
 Mawr a gerir, mur, gywiwras.
 Clau y clywir clod hynod hir,
 32 Cludnawd wawd wir cenir nid cas.

Nid cas (fas fodd), fudd ardduniant,
 Daniel rymiant, rwymad cyfraith,
 Nudd ffydd rydd rodd, rwydd ogoniant,
 36 I gynnal cant cyntedd llys faith.
 Erglyw, Arglwydd nef, tref trawsglwydd
 Ym mŷr madrwydd, am ŵr mydriaith,
 Ehud sud swydd euraid arwydd,
 40 Hael a hylwydd, paun rhwydd, pen rhaith.

Pen rhaith gwaith gwrdd, gwyrdd ei roddion,
 Rhwyddaf calon, Celi a'i nawdd,
 Penllad fad fwrdd, feirdd wahoddion,
 44 Hoywdda dynion, doniawg ansawdd;
 Lliwlafn trafyn traws lluoedd lliaws,
 Llŷr hoff unnaws, llwyr y ffynnawdd.
 Bo hoywdro haws bellnod glod glaws
 48 Lle ni bydd anaws llyn byddin-nawdd.

Byddin drin draul, drylwyn cadau,
 Cedyrn bleidau blodeuyn ryw,
 Dyn hy dan haul, hylwydd gerddau,
 52 Gyrddaf gampau, gwypaf gŵr yw.
 Molawd ffawd ffydd mywn rhwyl maen rhydd,
 Mawl a'i cynnydd mal y cennyw;
 Idloes foes fydd, iôn awenydd,
 56 Huawdl mal hydd, helydd hoywlyw.

Mal y dechrau.

Ffynonellau

A—BL Add 15001, 115^r B—Card 4.140, 688 C—J 111, 1311 D—LIGC 4973B, 167^r E—LIGC 21287B [= Iolo Aneurin Williams 1], 71^v F—Llst 147, 202

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif C, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl llawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 209–10.)

Darlleniadau'r llawysgrif

17 o gyuarth. 20 aruarth. 23 tas. 39 syut. 47 hoe6 dro. 48 bydina6d.

Teitl

Y proll a gant yr a6dyl honn y domas ap hopkyn.

Moliant Tomas ap Hopgyn

- [Yr un â] gras rhywogaeth arweinydd gwych, rhwysg Edlym,
 Cerddi rhugl yw [cyfrwng] mynegiant [fy] meddwl
 llwyddiannus;
- 4 Rhagorol yw Tomas doeth, [daliwr] tiriogaeth wych,
 Un wedi ei fendithio'n wych [a chanddo] nerth ffyrnig, y mae
 llaw Duw yn rhoi llwyddiant iddo.
 [Un ac iddo] ystad gŵr rhagorol, mynych wledd o fedd,
 Y mae'n edrych yn siriol ar win, bywiogrwydd bendigedig.
 [Boed] amddiffyn mawr gennych, [a] llaw ymgeledd[gar]
 drosto,
- 8 [A] seiniau hyglyw clychau, arwydd rhagorol a gwych.
- [Un â] nodweddion arglwydd, pennaeth uniawn di-ball,
 Cymaint ddwywaith [â'r cyffredin a] pherffaith yw[’r] un
 ffyrnig, pendefig [y] cyhoedd,
 Di-fai [a] nerthol ei ddawn, dawnus ei ddeall,
- 12 [Rhoddwr] dehongliad [i] arall, eryr amlwg
 Ydyw dros bobloedd a thros luoedd
 A niferoedd, [un ag] ynni ardderchog Uriel,
 Arglwydd tylwythau a goludoedd,
- 16 Brenin cywir minteioedd, [o] ras tebyg i [eiddo] Derfel.
- Fel sant Derfel, pendefig saint, ydyw,
 Cynheiliad mawr ei barch, cyffelyb i alarch,
 Disgleirdeb mawl cerdd foliant lathraid [a] bywiog,
- 20 Gwych ei ddull ar farch, [a chanddo] wedd Llywarch rhagorol.
 [Un o] hil torf ddedwydd Hopgyn [yr] arglwydd gwych,
 Un hael wrth brydydd, [ac iddo] wyneb rhyfelwr parod,
 Disgynnydd beirdd gwych ei floedd, arglwydd llys [sy'n] gas
 [wrth elyn],
- 24 Drylliedig [ei] darianau, clwyf cawr brwydr [mewn] cad.
- [Un ag] urddas graslon [mewn] byddin wasgaredig, [gwneuth-
 urwr] cyrch [teilwng o] Fordaf,
 Amddiffynnwr mawr a hardd yw Tomas,
 Anwylyd beirdd [a chanddo] feddwl bywiog, cyfoeth rhodd
 wych,
- 28 Cyffelyb i Adda, [â] medr Melwas,
 Gorwyr cywir Einion, bendith sicr,
 Yn fawr a gerir, amddiffynnwr, [un o] ras rhagorol.
 Yn eglur y clywir clod hynod [a] maith [iddo],

- 32 Cenir cân foliannus [a] gwir nad yw'n gas.
 Nid cas (dull bas), [yr un o] urddas lles[ol],
 Yw[r un â] grymuster Daniel, [y] rhwymwr cyfraith,
 [Un] hael [ei] rodd [ac iddo] ffyddlondeb Nudd, ysblander
 bendithlon,
- 36 Wrth gynnal cant [yn] neuadd llys mawr.
 Gwrando, Arglwydd nef, cartref nod [dynion]
 Ym moroedd dedwyddwch, oherwydd gŵr [sy'n ymarfer] iaith
 ar fydr,
 [Un â] swydd fywiog ei natur [ac iddi] arwydd ardderchog,
- 40 [—Gwrando] un bonheddig a llwyddiannus, paun hael, pen
 cyfraith.
- Pen cyfraith [sy'n cyflawni] gwaith gwych, dillad gwyrdd yw ei
 roddion,
 [Un â] chalon fwyaf hael, Duw sy'n ei amddiffyn,
 [Un a chanddo] fwrdd dedwydd [ac arno'r] ddiod orau,
 [darparwr] gwleddoedd [i] feirdd,
- 44 Budd llwyr [i] ddonion, [un â] natur ddoniog;
 [Un] â llafn ystaenedig yw arglwydd grymus lluoedd lluosog,
 O'r un natur â Llŷr clodfawr, y mae wedi ffynnu'n llwyr.
 Bydded yn hyfrytach [ei] ffawd fywiog [yn yr] eisteddfa [o]
 glod pell ei enwogrwydd
- 48 Lle na fydd diod [ar gyfer] nawdd i fyddin yn anos [ei chael].
- [Un â] byddin [sy'n peri] dinistr [mewn] ymladdfa, un parod
 [mewn] brwydrau,
 Minteioedd cadarn [o] rywogaeth y rhagoraf,
 Dyn eofn dan haul, ffyniannus [ei] gerddi,
- 52 [Y] gwrolaf [ei] gampau, [y] gŵr mwyaf ardderchog ydyw.
 Molir ffyniant [ei] ffyddlondeb mewn llys maen haelionus,
 Bydd mawl yn peri llwydd iddo fel y cenfydd;
 [Un a chanddo] ymddygiad Idloes fydd [ef], pennaeth o fardd,
- 56 Huawdl fel hydd, heliwr o arglwydd gwych.

Nodiadau

14

- 1 **Edlym** Edlym Gleddyf Goch, cyfaill Peredur fab Efrog, gw. *Historia Peredur vab Efwrawc*, gol. Glenys Witchard Goetinck (Caerdydd, 1976), 49 (ll. 19)–52 (ll. 16), G 494. Ni chyflawna Edlym gampau gwaedlyd yn y chwedl ond wedi i Beredur drechu gosgordd (*teulu*) yr iarlles yn ei llys, dywed wrthi am Edlym, *ib.* 50 (llau. 22–4) *Ac yr y uwyn ef y deuthum i y whare a'th teulu, ac ef a'i gallei yn well no mi bei as mynhei.*
- 2 **coflythr** Derbynnir yr ystyr a roddir iddo yn G 159 ac yn betrus yn GPC 538.
- 6 **hoiw** Gellid hefyd ei gydio wrth *Gwin*.
- 7 **cennyh** Dyma'r unig enghraifft o ffurf 2 ll. yr ardd. *gan* / *can* yn dechrau ag *c* a nodir yn G 103 a hynny'n betrus. Nid yw'n eglur pwy a gyferchir—efallai mai Tri Pherson y Drindod Fendigaid neu'r gynull-eidfa.
llych Gw. 2.51n. Haws yw ei ddeall yma yn e. o fôn y f. *llochi* 'llochesu', &c., yn hytrach nag yn f., er na welwyd enghraifft arall ohono fel e.
- 8 **clych** Ymddengys fod y bardd yn cyffelybu'r holl glodydd a genir i Domas i swm clychau eglwys; cf. ll. 31 *Clau y clywir clod hynod hir.*
- 9 Y mae'r ll. yn rhy hir o sillaf.
- 12 **deongl** Cyfeiriad, fe ymddengys, at allu Tomas i ddehongli proffwydoliaethau, megis ei dad, Hopgyn, gw. 3.144n.
- 14 **Uriel** Un o'r pedwar prif archangel yn ôl ffynonellau Iddewig apocryffaidd, gw. ODCC³ 1670. Cf. GLIG 5.46 *Iawn arial Wgawn, Uriel agwedd*. Cf. hefyd lau. 16 *un rad Derfel*, (17 *Derfel fel sant*), 28 *Eilun Addaf*, 34 *Daniel rymiant*, 55 *Idloes foes*. Ar bwys y cyfeiriadau hyn at ffigurau Iddewig-Gristnogol y cyffelybir Tomas ap Hopgyn iddynt, gofynnir yn ACDC 669 a ellir tybio ei fod yn chwarae rhyw ran yng ngwaith yr Eglwys.
- 16 **Derfel** Derfel Gadarn, mab Hywel Mawr ab Emyr Llydaw a sant, gw. LBS ii, 333–6, GO 71, G 313.
- 18 **gafael mawrbarch** Eb. yw *gafael* gan amlaf, gw. G 518, GPC 1368, ond cf. 13.2n. O ran ei ystyr yma, gthg. G 518 lle y'i deallir i olygu 'yr

hyn y gafaclair ynddo fel sicrwydd (a'r weithred ei hun), gwarant, gwystl'.

alarch eiliw Cyfeiriad, o bosibl, at 'sancteiddrwydd' Hopgyn; cf. ll. 14n.

20 **Llywarch** Gw. 3.66n.

21 **Hopgyn** Tad Tomas, gw. sylwadau rhagarweiniol cerdd 3 uchod.

22 **ffaglawr** Derbynnir yr ystyr a roddir yn GPC 1274; gthg. G 503 lle y'i rhestrir yn betrus fel ffurf l. bosibl i *ffag(y)l*.

23 **wyr beirdd** Dengys hyn yn eglur fod Tomas ap Hopgyn yn disgyn o deulu o feirdd ac y mae'n gyson â'r hyn a wyddys am ei ddi-ddordebau llenyddol ac eiddo ei dad Hopgyn. Cf. ll. 55 *awenydd*.

eurawr Dilynir awgrym petrus G 496 mai *eur* a *gawr* yw'r elfennau, cynnig a dderbynnir yn GPC 1257.

cas Llsg. *tas*; yn GPC 3453 nodir y ffurf *tas* fel amrywiad ar *das* (ond gydag enghreifftiau o'r 19g.) 'pentwr, ... twr, cruglwyth'. Haws credu, gan debyced y llythrennau *c* a *t* yn aml yn y llsgrau., mai bai sydd yma am *cas* a diwygir o'r herwydd.

25 **briwgad** Llsg. *Gri6 gat*. Dilynir diwygiad G 77 er mwyn cynnal y cyrch-gymeriad ac er mwyn yr ystyr.

Mordaf Mordaf ap Serfan a oedd, gyda Nudd ap Senyllt a Rhydderch ap Tudwal Tutglyd, yn un o Dri Hael Ynys Prydain, a chyfeiria'r beirdd ato yn aml fel safon o haelioni, gw. TYP² 463.

27 **beirddfyd** Dilynir dehongliad ACDC 358 o *byd* yma (gw. hefyd GPC 361). Anghyffredin yw ei weld mewn gair cyfansawdd.

28 **Addaf** Sef tad yr hil ddynol. Ar ei brydferthwch diarhebol, gw. TYP² 263.

Melwas Arwr traddodiadol y cyfeirir ato mewn canu mawl o'r 14g. ymlaen ac y ceid traddodiadau amdano fel hudol ac fel cipiwr Gwenhwyfar, gwraig y brenin Arthur; ymhellach gw. GSRh 4.123n.

29 **gorwyr ... Einawn** Ar achau Tomas, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Bleddyn ap Maenyrch' 32.

30 **cywiwras** G 273 'cyfryw deilyngdod, cystal rhinwedd' ond ni raid i'r a. *cywiw* fod â grym gradd gyfartal, gw. *l.c.*, GPC 835, a chwithig braidd fyddai'r ystyr '[un o] gystal rhinwedd ag [eiddo] amddiffynnydd'. Haws derbyn mai effaith cyfosod yw'r treigladd i *cywiwras*.

34 **Daniel** Fe'i nodir yn betrus yn G 296 d.g. *Danyel*^l fel cyfeiriad at Ddaniel Broffwyd. Y mae hyn, yn sicr, yn gyson â'r cyfeiriadau eraill at saint yn y gerdd, gw. ll. 14n.

rhwymad cyfraith Dyma gysylltu Tomas ap Hopgyn â gweithgaredd cyfreithiol, megis ei dad; cf. ll. 40 *pen rhaith* a 3.53n.

35 **Nudd** Gw. 2.3n.

ffydd Hynny yw, y mae Tomas yr un mor ffyddlon neu ddibynadwy â Nudd o safbwynt ei haelioni i bobl.

37 **erglyw** Y gwrthrych yw ll. 40 *hael a hylwydd*.

trawsglwydd Ar y gair hwn, sy'n digwydd hefyd yn y ffurf *trawsgwydd*, gw. PKM 256–7, GMB 32.29n, GLIF 2.34n, GSRh 9.43n a GPC 3565.

38 **madrwydd** Fe'i deellir yn e. haniaethol (*mad* a *-rwydd*), ond gall mai'r a. *rhwydd* yw'r ail elfen. Nis nodir yn GPC 2302.

am ŵr mydriaith Sef y Proll, am mai ef sy'n galw ar Dduw ar ran Tomas ap Hopgyn. Er hynny, y mae'n bosibl mai Tomas a olygir (cf. y cyfeiriad ato yn ll. 23 fel *ŵyr beirdd*).

39 Cymerir mai at Domas y mae'r ll. hon yn cyfeirio, nid y bardd. Y mae *Ehud sud* yn dwyn ar gof l. 6 *gwyn ehudrwydd* ac *euraid arwydd* l. 8 *eurwych arwydd* ynglŷn â Thomas ap Hopgyn.

sud Llsgr. *syut*, gair anhysbys sydd hefyd yn peri i'r ll. fod yn rhy hir o sillaf.

40 **pen rhaith** Cf. ll. 34n.

paun Cf. 3.146n.

44 **doniawg ansawdd** Gellid hefyd ei gymryd gyda *dynion*.

46 **Llŷr** Gw. 1.27n.

47 **pellnod** Ar *nod* 'enwogrwydd, bri', &c., gw. GPC 2587; gellid hefyd gynnig yr ystyr 'sain', gw. *ib.* 2588 a cf. ll. 8 *nodiau*, neu hyd yn oed 'sôn'.

claws Awgrymir yn G 144 y gall mai benthyciad o'r Llad. *clausum* ydyw ac mai 'clo' yw ei ystyr gyda *clod*. Yn GPC 492 derbynnir y tarddiad ond rhoddir yr ystyron 'llannerch, lle wedi ei gau i mewn; eisteddfa, stôl'.

48 Y mae'r ll. yn rhy hir o sillaf.

byddin-nawdd Llsgr. *bydina6d*, ond anodd gweld ei arwyddocâd yn y cyd-destun o'i dderbyn fel 3 un.grff.myn. y f. *byddino* (ni chynhwysir yr enghraifft hon yn G 86 d.g. *bydinaw*).

49 **trylwyn** Ar wahanol ystyron y gair, gw. GCBM ii, 1.37–8n, GDG³ 510, 603 a GPC 3641.

52 **campau** Sylwer ar y treigladd ar ôl gradd eithaf yr a., gw. Treigladau 52, a gthg. y gysefin yn *gŵr* yn yr un ll. ar ôl *gwympaf*.

53 **molawd** Ffurf amhrs.dyf.myn. y f. *moli*, gw. GMW 121.

- 55 **Idloes** Idloes Sant, gw. LBS iii, 291 a cf. GIG 137 (XXX.55) *Nawdd y wirgroes a nawdd Idloes.*
awenydd Gw. ll. 23n.
- 56 **mal hydd** Ymddengys mai ergyd y gymhariaeth yw y bydd Hopgyn yn ymarfer ei huodledd am yn hir; ystyridd yr hydd yn greadur hirhoedlog, gw. GPC 1956 (d.g. *hydd*¹).

Mynegai

- adaf** 26
addysg 28
alarch 18n
anodd: anaws 48
ansawdd 44n
ardduniant 33
arwydd: arwyddon 9
awdl: odlau 2
awenydd 55n
bardd: beirdd 23n
beirddfyd 27n
blodeuyn 50
braisg 27
briwgad 25n
brwysg 27
budd 33
byddin-nawdd 48n
camp: campau 52n
can: cennych 7n
canfod: cennyw 54
cas 23n
catgawr 24
cennyw gw. canfod
clau 8, 31
claws 47n
cloch: clych 8n
cludnawd 32
coeth 3
coflythr 2n
cuall 10
cwbl 10
cyflym 2n
cyfraith 34n
cywiwras 30n
dawn 29
deongl 12n
digel 12
dihafarch 19
doniawg 44n
ehud 39
ehudrwydd 6
eiliw 18n
erglywed: erglyw 37n
eurawr 23n
eurwych 8
ffaglawr 22n
ffawd 53
ffydd 35n
gafael 18n
golud: goludoedd 15
gwahodd: gwahoddion 43
gwawd 32
gŵr 38n
gwymp: gwympaf 52
gwyn 6, 21
gwyrd 41
gyrddrad 4
hael 40
hoyw 6n
hoywdro 47
hoywdda 44n
hoywlyw 1, 56
hydd 56n
hylwydd 51
iawn 9
iôn 9
lliaws 45
lliwlafn 45
llochi: llych 7n
llych gw. llochi
madfil 21
madrwydd 38n

mawrbarch 18n
mawrdeg 26
moli: molawd 53n
mur 30
mydriaith 38n
paun 40n
pellnod 47n
pen 40n
penllad 43
pensel 10

plaid: pleidau 50
plaslwr 23
rhaith 40n
rhwydd 35
rhwymad 34n
sud 39n
trawsglwydd 37n
trylwyn 49n
unnaws 46
ŵyr 23n

Enwau personau

Addaf 28n	Llŷr 46n
Celi 42	Llywarch 20n
Daniel 34n	Melwas 28n
Derfel 16n, 17	Mordaf 25n
Duw 4	Nudd 35n
Edlym 1n	Tomas 3, Tomas ... gorwyr ...
Einawn 29n (gw. hefyd Tomas)	Einawn 26–9
Hopgyn 21n	Uriel 14n
Idloes 55n	

GWAITH Y MAB CRYG

Rhagymadrodd

Hyd y gwyddys, ni cheir sôn am y Mab Cryg¹ mewn unrhyw ddogfen gyfoes nac yn yr achau, a dibynna'r hyn sy'n hysbys amdano yn gyfan gwbl ar dystiolaeth yr ychydig gerddi o'i eiddo a gadwyd. Yng ngherdd 15, dymuna weld rhyw leidr a ysbeiliodd ei dŷ yn cael ei grogi, a hynny, os yw'r diwygiad *Maelor* yn gywir,² *ar Ddinas Maelor* (15.31), sef hen gaer Pendinas ger Aberystwyth. Gan ei bod yn naturiol tybio mai am grocbren lleol yr oedd y bardd yn meddwl, yna ymddengys mai yn rhywle yng nghyffiniau Aberystwyth yr oedd ei gartref. Y mae rhyw gymaint o ateg i'r dyb hon yng ngherdd 17 lle y dywed am Ddafydd ŵyr Meurig a oedd yn byw yn ardal Rhwng Gwy a Hafren, *Lle ym ei ofwy drwy dref Raeadr* (17.24), geiriau sy'n awgrymu rhywun yn teithio o orllewin Cymru.³ Yr oedd yn gyfarwydd hefyd â Maesyfed oherwydd cyfeiria ddwywaith at ardal Rhwng Gwy a Hafren (16.11, 17.23), at afonydd Tefeidiad, Ieithon, Cymaron, a Chlywedog (16.13, 19, 24, 27), ac at drefydd Rhaeadr (17.24) a Threfyclo (16.34). Anodd yw bod yn bendant ynglŷn â'i flynyddoedd. Y mae'r ffaith fod y testunau cynharaf o'i gerddi sydd ar gadw yn Llyfr Coch Hergest yn dangos na chanwyd y cerddi hynny yn ddiweddarach na thua 1400. Y mae rhyw gymaint o le i ofyn a ellid bod wedi cyfansoddi cerdd 17, oherwydd ei chefnidir milwrol, ym mlynnyddoedd cynnar y bymthegfed ganrif,⁴ ond y mae hyn yn drwyadl ansicr.

Gellir lloffa ychydig o ffeithiau am fywyd y Mab Cryg o'i gerddi. Felly, yn ei gerdd ddychan i leidr (cerdd 15) dysgwn fod rhyw leidr dienw wedi torri i mewn i'w dŷ a dwyn ei ieir, ei drywsus, ei grib, coes llwy o'i eiddo, a hen gôt o eiddo ei fam-yng-nghyfraith. Yn ei gerdd ddychan i Riffri (cerdd 16) ceir bod Sais (neu hanner Sais) o'r enw Griffri, o Drefyclo, fe ymddengys, wedi carcharu'r bardd yn anghyfiawn a bod hwnnw wedi dial arno trwy beri iddo foddï yn Afon Tefeidiad. Yn ei gerdd ddychan i Ddafydd, ŵyr Meurig, a Maredudd (cerdd 17) dywed ei fod *yng ngwrthryf o*

¹ Y mae ei lysenw yn cyfeirio at ei lais; cf., e.e., y llysenwau Rhys Gryg (sef Rhys Fychan, pedwerydd mab yr Arglwydd Rhys) a Gruffudd Gryg, y bardd a gymerodd ran yn yr ymryson enwog â Dafydd ap Gwilym. Diddorol sylwi hefyd fod Hywel Swrdwal yn cyfeirio at Domas ap Syr Rhosier Fychan o Dretŵr fel [*m*]ab y cryg, gw. GHS 3.17 a'r nodyn. Ar ystyron *cryg*, gw. GPC 621. Ynglŷn â bardd, efallai mai 'ac atal dweud arno' a olygir, gw. yn enw. GDG³ 393 (148.61–2), 395 (149.25–8). Yn ôl yr Athro Beverley Smith, yr oedd G.J. Williams o'r farn honno (gwybodaeth personol).

² Gw. 15.31n.

³ Ymhellach, gw. 17.24n.

⁴ Ymhellach, gw. sylwadau rhagarweiniol y gerdd.

ddygarthref, sef mewn trybini oherwydd rhaff, ac fe allai hyn olygu ei fod, am ryw reswm, yn wynebu neu'n osgoi ei grogi.⁵

Y cwbl sydd wedi goroesi o waith y Mab Cryg yw tair awdl fer, cyfanswm o 96 o linellau. Cerddi dychan i wahanol unigolion ydynt, cerddi ysgafn ddigon ond diddorol, lliwgar, a chofiadwy. O'u cymharu â chyfangorff y cerddi dychan a gadwyd yn Llyfr Coch Hergest, y maent yn llai cymhleth a thrymaidd eu celfyddyd na llawer o'r rheini (yn enwedig y rhai hwy) ac, fel y dywed Dr Huw Meirion Edwards, y tebyg yw eu bod, megis cerddi gan Iocyn Ddu a'r Ustus Llwyd, yn perthyn yn agos o ran mater a mynegiant i ganu coll y glêr (er nad fel clerwyr yn ystyr israddol y gair y dylid ystyried y tri bardd hyn).⁶ Ceir cyfatebiaethau hefyd rhwng cerddi 15 a 16 a cherdd felltith gan fardd o'r enw Dafydd y Nant (neu 'Y Nant') y mae llawer o le i gredu mai clerwr o Frycheiniog ydoedd,⁷ ardal a ffiniai â de Maesyfed. Cerdd ryfeddaf y Mab Cryg, efallai, yw ei ddychan i Riffri (cerdd 16) lle y sonia am bedair afon rhwng Gwy a Hafren fel affeithwyr iddo yn y dasg o gael gwared ar y gwrthrych anffodus. Dichon y ceir yma adleisiau o'r arfer ymhlith y beirdd o droi at ddychan weithiau er mwyn niweidio rhywun, neu olion o'r gelfyddyd ddu (er nad hawdd gwahaniaethu rhwng y ddau beth).

Fel crefftwr y mae'r Mab Cryg yn fedrus a rheolaidd. Defnyddia fesur y gwawdodyn ym mhob cerdd a'r gynghanedd sain yn bennaf. Oherwydd yr elfen storïol gref yn y cerddi, y mae ei frawddegau yn aml yn hwy na'r arfer, ac yn 15.17–24 ceir brawddeg sy'n ymestyn dros wyth o linellau. Nodwedd anghyffredin ar y cerddi, ar y llaw arall, yw nad oes ynddynt brifodl. Ceir enghraifft gynnar o fath o awdl foliant ddi-odl (ac eithrio englyn ar ei diwedd) i Ddafydd ab Owain o Wynedd gan y meistr mawr hwnnw, Llywarch ap Llywelyn 'Prydydd y Moch';⁸ ac yn nes i oes y Mab Cryg ceir awdl ddychan ddi-odl i glerigwr—*Madaþc corunaþc*—gan yr Ustus Llwyd.⁹ Pa beth bynnag oedd rheswm y beirdd hyn dros ddewis hepgor prifodl yn eu cerddi, y mae'n gwbl amlwg nad diffyg meistrolaeth ar eu cyfrwng oedd hynny. Yn wir, gellid dadlau i'r Mab Cryg gyflawni math o gamp drwy osgoi ailadrodd yr un terfyniad yn safle'r brifodl ym mwyaftrif mawr ei linellau.¹⁰

Y llawysgrif gynharaf sy'n cynnwys gwaith y Mab Cryg yw Llyfr Coch Hergest, a gopiwyd tua 1400. Perthyn y llawysgrifau eraill i'r cyfnod o'r unfed ganrif ar bymtheg ymlaen ac fe'u nodir yn y golygiadau o'r cerddi

⁵ Gw. 17.2n a sylwadau rhagarweiniol y gerdd.

⁶ DGIA 52. Gw. hefyd 15.18 lle y cyfeiria'r bardd ato'i hun fel [*p*]rydydd.

⁷ Gw. G.J. Williams, 'Cerddi'r Nant', B xvii (1956–8), 78; hefyd TLIM 113–16.

⁸ GLIL1 cerdd 3.

⁹ R 1364–5, MA² 367.

¹⁰ Yng ngherdd 15 ailadroddir y terfyniad *-od* yn llau. 2, 15; yng ngherdd 16 *-as* yn llau. 3, 10, *-erth* yn llau. 7, 12, ac *-erw* yn llau. 22, 27; yng ngherdd 17 *-ef* yn llau. 2, 11, ac *-yn* yn llau. 5, 15.

isod. Y mae eu testunau hwy o'r cerddi yn tarddu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o Lyfr Coch Hergest.

Dychan i leidr

- Duw diadnair, Mair, mae'r cynghorau
 A wnafl rhag lladron, dynion dannod?
 Aethpwyd â'm teirier, taeriaith ffyrnigrwydd,
 4 Tramgwydd nawr arwydd, y nos arall.
 Ni bu'r rhyw lefain, damwain dymestl,
 Ag a fu echnos i'm diddos dŷ
 Er pan laddawdd, cawdd, y cath llosgyrngrin
 8 Y ci lledfegin llwyd a fegais.
 Dyfod y carn-lleidr, gwrneidr garnial,
 Ac ysbeilio'r tŷ hyd nos tywyll,
 Arfaethu, mynnu cawell (mynfaedd!) teg
 12 Adwy wynhaed-deg, murchweg mawrchwedl.
 Edrych a orug, ffug ufferndrum,
 Ar hyd y tŷ clyd, bryd bredychfoes,
 Ac arganfod rhod ridyll y dringod
 16 A drylle fy ffon trwy'r un ffenestr.
 Cafas y lleidrwas gyd â'm llawdrwael,
 Cyfaillt anniwyd bryd i brydydd,
 Crib ffyrddling nidding, neddwallt gymanfa,
 20 A llwydroed gota, drud a gatel
 (Hirgrog i'r diriaid oer daid, od âi
 O'm gwâl poen gofal!); hyd pan gafas
 Hengod fy ngwegr rhwng hengist a thil
 24 A thyllau gwiril yn y gwarag.
 Nid edewis ym ddim (grym grymiant)
 O'r trysor trawsfyg, lawdr byg bagan,
 Dieithr clwyd fawieir, fywion hwngrdlawd mell.
 28 Wrth ddau reffyn wellt, gysellt gasaf,
 Cigfrain a weler uwch ei wilers
 Yn dial f'anrhaith, gwaith gwythlonder,
 Ar Ddinas Maelor lle mae molest sôn
 32 Ysgwtbren lladron am eu lledrad!

Ffynonellau

A—BL Add 14970, 156^r B—BL Add 15001, 246^v C—J 111, 1362 D—
 LIGC 4973B, 353^r E—LIGC 21287B [= Iolo Aneurin Williams 1], 115^r
 F—Pen 118, 254

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif C, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl llawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 209–10.)

Darlleniadau'r llawysgrif

3 ter ieir. 4 tramgŷy. 5 bu ry6. 11 mynnaed. 12 vynhaedec. 15 y tringot. 17 lleidyrwasc. 19 ffyrdlic. 23 vynghóegyr. 30 van reith. 31 mael6r.

Teitl

Y mab cryc ae cant.

Dychan i leidr

- [O] Dduw di-fai, [o] Fair, pa le mae'r cynghorion
 A ddilynaf rhag lladron, dynion gwaradwydd[us]?
 Aethpwyd â'm tair iâr, [achos] ffyrnigrwydd iaith daer,
 4 Arwydd o natur tramgwydd, y noson o'r blaen.
 Ni fu'r fath ruo, storm ddamweiniol,
 Ag a fu echnos yn fy nhŷ clyd
 Er pan laddodd, [dyma destun] gofid, y gath wywedig ei
 chynffon
 8 Y ci hanner-dof [a] llwyd a fegais.
 Dyfod [a wnaeth] y carn-lleidr, [un â] sathr sarff,
 Ac ysbeilio'r tŷ ar nos dywyll,
 Amcanu at gawell ([y] baedd [o ddyn!]) teg [a'i] chwennych
 12 [Mewn] lloches wyngalchedig a hardd, hyfryd ei mur[iau a]
 mawr ei sôn.
 Edrych a wnaeth, [yr] un twyllodrus [ac] uffernol ei ffurf,
 Ar hyd y tŷ clyd, [un â] meddwl dichellgar ei arfer,
 A chanfod [y] darian dyllog [a âi gyda]r arfwisg,
 16 A drylliau fy ngwaywffon trwy'r un ffenestr.
 Cafodd y lleidrddyn gyda'm [gwas] gwael ei drywsus,
 Cyfaill anffyddlon ei wedd i brydydd,
 Grib ffyrlling cybydd, cynullfan nedd gwallt,
 20 A choes llwy fer, eiddo ffôl
 ([Boed] crogfa faith i'r adyn annymunol [ei] daid, pe âi
 Poen pryder [trwy hynny] o'm cartref!); nes y cafodd
 Hen gôt fy mam-yng-nghyfraith rhwng hen goffr a chagedd
 24 A thyllau pryfyn yn y cambren.
 Ni adawodd imi ddim (effeithiol oedd ei fedr)
 O'r trysor sylweddol o anrhydeddus, [y] pagan pyglyd [ei]
 drywsus,
 Ond cwt yr ieir bawlyd, pryfed tlawd a newynog [y] mell.
 28 Wrth ddau gortyn gwellt, rhaff grogi fwyaf cas,
 Y boed i gigfrain gael eu gweld uwchben ei din
 Yn dial fy ysbeiliad, gweithred [o] greulondeb,
 Ar Ddinas Maelor lle y mae poen sŵn
 32 Crocbren lladron oherwydd eu lladrad!

Dychan i Riffri

- Crist Crair, un Mab Mair, mawr ryfeddod
 Am gri bileinsais, trais wtreswr,
 Nad â hëyrn chwyrn, chwyrndwrch gwaddodblas,
 4 Y doeth ei leas cyn glas gloeslif!
 Can oedd celwyddawg, rochgawg rechgawr,
 A ffalst ac anghlaer, murdaer mawrdwyll,
 A ffugiol trethol, truthain amhrydferth,
 8 A serth ac anferth, swrth ac ynyfyd.
 Am fy ngharcharu tru, tradicter,
 Trwy weithred Griffri, cablgi cwblgas,
 Prif afonydd rhydd rhwng Gwy a Hafren,
 12 Modrybedd cymen ym, a'i cymerth.
 Un oedd Defeidiad ddifrad ddyrys,
 Enwog brif afon, tros fôn trawsfodd,
 Eurgaddug can dug y dogy gwaddotsaig
 16 Yr orau carwraig yn dwyn corwrysg.
 A'r ail, dwfr gynnail deifr argynnwrf,
 (Oer yw i ddedwydd cerydd cares!)
 Dig oedd Ieithon, sôn senigl raeando,
 20 Deffro, rhwyd ortho, bei rhaid wrthi.
 Trydedd, mawr gochwedd er marw gychwedl;
 Bei ceffid trwy lid ar led un erw
 Ofer gleiriach, sach sarrug ei wacson,
 24 Afon Cymaron a'i cymerai.
 Ceiso Griffri, Deifrgi dwfrgwyp,
 Gwnaeth ar ei thrawsryd pyd pedwardyn
 Clawedog feinog, fwynaf cefnithderw,
 28 Clwyflif dros gannerw, glwysferw glasfor:
 Porth Dduw i'r ponpren, llethr asgenllithr,
 A'r saer a'i dodes yn odidog
 Am ddiwhelu cnu cnecfwch cynhorthwy
 32 Gan felyn fordwy, falaen fawrdwysg.
 O gwlychodd Griffri, cri crin foelfors,
 Uchlaw Trefyclawdd, fawdd faethgennau,
 Syched ei ffilcas, bengam ffwlcwd wÿyll,
 36 Dibwyll arth ffwrndwyll, wrth ufferndan!

Ffynonellau

A—BL Add 14970, 156^v B—BL Add 15001, 247^r C—J 111, 1362 D—LIGC 4973B, 353^v E—LIGC 21287B [= Iolo Aneurin Williams 1], 116^r F—Pen 118, 255

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif C, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl llawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 209–10.)

Darlleniadau'r llawysgrif

3 ch6ynd6rch. 17 Areil. 19 y eithon.

Dychan i Riffri

- [O] Grist Anwylyd, unig Fab Mair, [y mae'n] rhyfeddod mawr
 Oherwydd cri Sais taeogaidd, carwr trais,
 Nad ag arfau haearn garw, [y] baedd garw [o ddyn o] le [llawn]
 gwaddod,
- 4 Y daeth ei farwolaeth cyn angau llifeiriol ei loes!
 Oherwydd yr oedd yn gelwyddog, cawr rhechlyd yn rhochian
 wrth ei lestr,
 A ffals a dirgel [ei ffordd], llofrudd mawr ei dwyll,
 A ffuantus [a] than dreth, gwenieithwr hagr,
- 8 Ac anghwrtais a gwrthun, sarrug ac ynyfyd.
 Oherwydd fy ngharcharu truenus, [achos] dicter mawr,
 Trwy weithred Griffri, adyn enllibus cwbl atgas,
 Cymerodd y prif afonydd dilestair [eu llif] rhwng Gwy a Hafren,
- 12 Modrybedd doeth imi, ef.
 Un oedd Tefeidiad ddi-dwyll [a] gwyllt,
 Afon ardderchog [ac] enwog, rymus ei ffordd dros din,
 Un ragorol ei gorchudd oherwydd cludodd y gariadferch orau
 sy'n cludo mân brysgwydd
- 16 Y costog [hoff o] bryd gwaddod [ymaith].
 A'r ail, fframwaith o ddŵr [ac ynddo] ddyfroedd [llawn]
 cynnwrf,
 (Trist i un dedwydd yw cerydd cyfeilles!)
- 20 Garw oedd Ieithon, [a] sŵn haen o raean chwilfrifw,
 Deffro [a wnâi], [y] gorchudd [dros] rwyd, pe bai'n rhaid wrthi.
 [Am y] drydedd [afon], [man] lladdfa fawr [ydyw] o ganlyniad i
 hanes marwolaeth;
- 24 Pe ceid yn wyllt ar ehangder un erw
 Henwr musgrell [ac] ofer, [llond] sach sarrug ei siarad gwag,
 Byddai Afon Cymaron yn ei gymryd.
 Ceisio Griffri, Seisgi [a gafodd] gwypm i'r dŵr,
 A wnaeth [hi] ar ei rhyd nerthol, perygl [i] bedwar dyn,
 [Sef] Clywedog garegog, [y] gyfnither fwynaf,
- 28 Llfeiriant dinistriol dros gant o erwau, [megis] berw prydfferth
 môr glasliw.
 [Boed] nawdd Duw i'r bompren, esgynfa llithriad niweidiol,
 A'r saer a'i gosododd yn wych
 Oherwydd dwyn ymaith blew bwch cneciog cynorthwy[ol]
- 32 Gan lifeiriant melyn, [un o] faint mawr [ac] adwythig.
 Os gwlychodd Griffri, [gyda] bloedd [un â] thorgest noeth [a]
 bregus,

Uwchlaw Trefyclo, [gan ddiodeff] ingoedd boddi,
Boed iddo sychu ei garpiau, [y] dylluan fudr ei chod [a]
phengam,
[Yr] arth ynfyd sy'n twyllo mewn ffwrn, wrth dân uffern!

Dychan i Ddafydd, wŷr Meurig, a Maredudd

- Duw a'm rho dyall call rhag cellwair
 (Dyn wyf yng ngwrthwyf o ddygarthref),
 I brydu canu, ceinwawd gyfiewin
 4 I walch balch bylchwin, fyddin faddau.
 Coethrydd hael Ddafydd, cynnydd cannyn,
 (Caith a ddiodef rhag llef a llosg),
 8 Câr encil eiddil, eiddun hedd dichlais,
 Cerennydd â Sais rhag trais traethodd.
 Ni bu digonrhydd, greddf onwydd grym,
 Balchwyr (clod ddadwair!) mawrair Meurig.
 Pan fu glau'r hyntau yn Norhamtwn dref,
 12 Poen oedd ddiodef ynglef Englis.
 Cyffelyb â'r sôn y digones
 Dafydd yn nhrefydd Seisnig rhyfedd
 Ag y digones, deg anwych derfyn,
 16 Maredudd â'r llyn yn Llanrhystud.
 Pan welas Dafydd, hwylddydd, haelddeddf
 Y gwŷr yn ymgur (tyst dolur tost),
 Myfyr oedd gantaw rhag antur ymladd,
 20 Brwydrnadd gwrŷs mawradd, gwers y meirw.
 Can ni ddêl yng ngawr llawr lluyddgyrch,
 Maith yw ei wirod a'i wasgod wisg,
 Llyw rhwysg beirdd hyfrwysg rhwng Hafren a Gwy,
 24 Lle ym ei ofwy drwy dref Raeadr.
 Cyn ni bôn' undad (mad ymodwrdd!),
 Maredudd gyfiawn dawn a Dafydd,
 Brodyr un galon wrth ymgilio ynt
 28 I goed, gad luchynt, i gydlechu.

Ffynonellau

A—BL Add 14970, 157^v B—BL Add 15001, 247^v C—J 111, 1363 D—
 LIGC 4973B, 354^v E—LIGC 21287B [= Iolo Aneurin Williams 1], 117^r
 F—Pen 118, 255

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif C, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r
 holl lawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni.
 (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 209–10.)

Darlleniadau'r llawysgrif

20 gbyrs. 25 Kany. 27 Brodur.

Dychan i Ddafydd wŷr Meurig, a Maredudd

- Boed i Dduw roi imi synnwyr dyn call rhag gwawd
 (Dyn ydwyf mewn trybini oherwydd rhaff),
 Er mwyn canu cerdd, moliant godidog [a] gweddus
 4 I wron balch [sy'n hoff o] win sy'n gorlifo, [un] sy'n cefnu ar
 fyddin.
 Y mae Dafydd bonheddig [a] gwych o hael, llwyddiant cant o
 ddynion,
 (Dioddefa caethion rhag rhyfelgri a llosgfa[’r gelyn]),
 Yn hoffi encil tila, heddwch dymunol [a] diogel,
 8 Cyhoeddodd gyfeillgarwch â Sais rhag trais.
 Ni fu’n ddigon diymatal, [yr un â] natur onwydd grymus,
 Wŷr syber (newid [a fu i’w] glod!) [a] mawr ei enw Meurig.
 Pan fu’r teithiau’n chwim yn nhref Northampton,
 12 Poen oedd dioddef oernad Saeson.
 Yn gyffelyb y gwnaeth Dafydd â’r sŵn
 Mewn trefi Seisnig rhyfedd
 I [fel] y gwnaeth Maredudd, [achlysur] diwedd dymunol [ond]
 gwael,
 16 Â’r ddiod yn Llanrhystud.
 Pan welodd Dafydd haelionus ei arfer, [ar] ddiwrnod cyrch,
 Y milwyr yn ymdaro (tyst [i hynny] oedd [y] boen chwerw),
 Yr oedd pryder arno rhag perygl ymladd,
 20 Galanastra ymladdfa fawr, gweddi’r meirw.
 Am na ddaw[’r] arwr cyrch byddin i[’r] gad,
 Helaeth yw ei wirod a’i wisg amddiffyn,
 Arglwydd [llawn] ysblander beirdd hawdd eu meddwi rhwng
 Hafren a Gwy,
 24 Trist imi ymweld ag ef trwy dref Rhaeadr.
 Er nad ydynt o’r un tad (da yw trwst [brwydr]!),
 Maredudd [o] gynhysgaeth gymesur a Dafydd,
 Brodyr [o’r] un anian ydynt wrth gilio
 28 I goed, [adeg] ymosodiad chwyrn [mewn] brwydr, i lechu gyda’i
 gilydd.

Nodiadau

15

Yn y gerdd hon dychenir rhyw leidr a dorrodd i mewn i dŷ'r bardd a dwyn eiddo. Disgrifir ei weithred yn fanwl a diweddir trwy ddymuno iddo gael ei grogi. Os yw'r dehongliad o *llawdrwael* yn llinell 17 yn gywir, yna yr oedd gwas y bardd ynglŷn â'r lladrad, ond anodd gwybod ai cynorthwyo'r lleidr a wnaeth ynteu methu â'i wrthsefyll. Am gerddi dychan eraill i ladron, gw. sylwadau rhagarweiniol cerdd 10 uchod. Y debycaf i eiddo'r Mab Cryg yw cerdd gan y clerwr a adwaenir fel Dafydd Nant (neu 'Y Nant'):¹ yno hefyd rhestrir yr eitemau a ladratawyd, gan ddymuno angau poenus i'r lladron (ond mewn ffordd fwy eithafol a sinistr).²

Awdl ar fesur gwawdodyn yw hon, sef cwpledi o gyhydedd naw ban am yn ail â thoddeidiau, ond, fel yn achos cerddi eraill y Mab Cryg, nid oes ynddi brifodl.³ Y mae hyd y llinellau yn rheolaidd a chynganeddwyd y gerdd drwyddi ar y gynghanedd sain yn bennaf, rhai ohonynt yn bengoll, gyda rhai enghreifftiau o'r gynghanedd gytsain wreiddgoll a braidd gyffwrdd.

- 3 **teirieur** Llsgr. *ter ieir*, ond y mae'n amlwg mai bai am *teir* yw *ter* (ar ddilyn rhif. gan e.ll., gw. GMW 47). Cwyna'r bardd isod, llau. 25–7, mai'r cyfan a adawodd y lleidr ar ei ôl oedd eu cwt bawlyd.
- 7 **cath** Y tebyg yw mai cath wyllt a olygir. Sylwer mai eg. ydyw yma, fel yr oedd yn aml gynt, gw. G 117, GPC 440.
- 11 **cawell** Ai cawell yr ieir a olygir?

mynfaedd Llsgr. *mynnaed*. Digwydd y ffurf *mynnaed* yn R 1353.16–17 mewn cerdd gan Lywelyn Ddu ab y Pastard, ac mewn nodyn ar y ffurf yn GLIBH 19.16n tybir mai *mynuaed* yw'r darlleniad cywir, sef 'baedd'. Gan fod *mynnaed* yn air anhysbys, cymerir mai bai am *mynuaed* ydyw, a'i ddeall yn gyfeiriad dilornus at y lleidr; cf. GPB 9.70 *Myn fwch* ['myn gafr'] *llwyd ceisfwyd, coesfoll* (anh.) (gthg. GPC 2537 lle y darllenir *myn vŏch* R 1347.10 yn *mynfwch* a'i ddeall i olygu 'bwch gafr' R 1347.10), 27 *Min tad myn, maen claerwyn clér*, 42 *Garw*

¹ Fe'i golygwyd gan T. Gwynn Jones, 'Ein kymrisches Fluchgedicht', ZCP xvii (1928), 167–76. Gw. hefyd sylwadau H.M.Edwards yn DGIA 49–53.

² Gw. ymhellach sylwadau rhagarweiniol cerdd 16.

³ Ymhellach, gw. td. 160.

ffroenarw, gafrdarw ['bwch gafr'] *geifrdyf*; *ib.* 5.11 *Na fwy yn unlle, fyn anllad* (Rhys ap Dafydd ab Einion).

- 12 **adwy wynhaed-deg** Llsg. *Adwy wynhaedec*; diwygir *wynhaedec* yn *wynhaedec*, a'i ddeall yn gyfuniad o *gwynhaed a teg*. Ar *gwynhaed*, gw. GLIF 1.34n (ond gair trisill yw yno). Posibilrwydd arall yw diwygio a darllen *a dwyn wyn haedd-deg* neu *a dwy wyn haedd-deg* (er mai eg. yw *oen* gan amlaf, gw. GPC 2623), ond ni fyddai hynny'n cydweddu cystal â *murchweg mawrchwedl* sy'n dilyn. (Ni welwyd enghraifft arall o'r a. *haedd-deg* ond cf. *haeddwyh*, *ib.* 1804.)
- murchweg mawrchwedl** Sylwer eu bod, yn wahanol i *wynhaed-deg* sy'n goleddfu'r eb. *adwy*, heb eu treiglo. Cf. arfer y Cywyddwyr o wneud hyn weithiau pan ddelai a. yn union ar ôl yr orffwysfa, gw. Treigladau 55n *et passim*.
- 14 **bredychfoes** Gthg. G 73 lle y'i deellir yn e. yn golygu 'dichell, twyll'.
- 15–16 Ymddengys mai ergyd y llau. hyn yw fod arfau'r bardd wedi dirywio ac i'r lleidr fanteisio ar hynny.
- 15 **tringod** Fe'i deellir yn gyfuniad o *trin* 'brwydr' a *cod* 'cot'. Yn G 155 fe'i nodir yn betrus d.g. *cot²* 'côt' a gofynnir hefyd a ddichon mai *cod¹* 'cod, ysgrepan, cwd' yw'r ail elfen. Nis rhestrir yn GPC 3598.
- 16 **drylle** Fe'i diwygir yn betrus i *drylleu* yn G 393 ond nid oes angen o'i ystyried yn ffurf dafodieithol.
- 17–20 Sylwer fel y mae'r bardd yn y llau. hyn yn dychanu'r hyn a ladratawyd, er mai ei eiddo ef ydoedd. Ymddengys mai diben hyn yw bychanu'r hyn a gyflawnodd y lleidr. Cf. hefyd lau. 23–4.
- 17 **llawdrwael** Gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.
- 19 **nidding** Nis rhestrir yn GPC 2582 ac fe'i deellir yn betrus yn fenthyciad o'r S. *nithing* 'a stingy or miserly person, niggard', gw. MED d.g., 2(a).
- 20 **drud a gatel** Ar y gystrawen, gw. GMW 205.
- 21 **oer daid** Ffordd arall o ddweud bod y lleidr o hiliogaeth wael.
- 23 **fy ngwegr** Yn betrus cymerir mai *gwegr* yw'r ffurf yma (llsg. *vyngh6egyr*), a'i bod yn ffurf amrywiol ar *chwegr* (er na nodir yr amrywiad yn GPC 848); am enghreifftiau pellach o *chw-* yn ymglyfnewid â *gw-*, cf. *chwarae* / *gwarae*. Y mae'n rhaid cyfrif *gwegr* yn ddeusill os dymunir cael deg sillaf yn y ll. fel y disgwyliid.
- a thil** Llsg. *athil*, a dilynir awgrym petrus G 47 d.g. ynglŷn â'r darlleniad. Ni chafwyd enghraifft arall o *til* o'r cyfnod ond cynigir yn betrus mai benthyciad ydyw o'r S.C. *tille*, gw. MED d.g. *tille¹*, 'a locker or similar container for the storage of military gear; also a casket or similar container'.

- 24 **gwiril** Petrus yw'r ystyr 'pryf, pryfyn' a roddir iddo yn G 684 a GPC 1668.
- gwarag** Ymddengys mai'r offeryn y crogid y gôt arno a olygir (S. 'coat-hanger').
- 26 **trawsfyg** Fe'i deallir yn gyfuniad o *traws* mewn ystyr dda a *myg*.
- 27 **mellt** Tybed nad oes yma arlliw o'r ystyr 'melltigedig' dan ddylanwad *melltigo*, er mai gwahanol, wrth gwrs, yw tarddiad yr ail?
- 29 **gweler** Ar y modd dib. yn mynegi dymuniad, gw. GMW 113.
- 31 **Maelor** Llsg. *maelbr*. Ystyr *maelwr* yn ôl GPC 2306 (lle y cynhwysir yr enghraifft hon) yw 'masnachwr, marchnatwr, siopwr ...', ond beth, yn y cyd-destun, fyddai arwyddocâd 'dial fy ysbeiliad ar dref masnachwr'? Ceir synnwyr da, ar y llaw arall, o ddeall *maelbr* yn fai am *maelabr* a chymryd mai cyfeiriad sydd yma at Ddinas Maelor, sef yr hen enw ar Bendinas, y gaer hynafol ger Aberystwyth, a bod drwgweithredwyr yn cael eu crogi yno. Os cywir y diwygiad, yna dyma wybodaeth werthfawr am gynefin y Mab Cryg.
- 32 **ysgwtbren** Fe'i deallir yn gyfuniad o *ysgwâd* 'gwth, ergyd', gw. GDG 483, 606, a *pren*.

16

Dychan yw'r gerdd hon i Sais o'r enw Griffri y dywed y bardd iddo foddi mewn afon trwy lithro oddi ar bompren am iddo garcharu'r bardd yn anghyfiawn. Enwa bedair afon rhwng Gwy a Hafren mewn perthynas â'r farwolaeth, sef Tefeidiad, Ieithon, Cymaron (afon Aran heddiw) a Chlywedog, ond o'r rhain ymddengys, ar sail llinellau 33–4 yn bennaf, mai yn Afon Tefeidiad y boddodd oherwydd yr afon hon yn unig o'r pedair a redai heibio i Drefyclo. Diweddir trwy ddymuno gweld Griffri yn sychu ei ddillad wrth dân uffern.

Ar sail y cyfeiriadau at Riffri fel Sais (llau. 2 *bileinsais*, 25 *Deifrgi*) a'r ffaith iddo foddi ger Trefyclo, y mae'n deg tybio mai un o drigolion y fwrdeistref honno ydoedd, ac efallai y gellir priodoli ei enw Cymreig i boblogaeth gymysg y lle.¹ Nid yw'n eglur sut yn union yr achoswyd ei farwolaeth, ond yn wyneb y dyhead amlwg iawn a fynegir am ei farw, tybed ai'r bardd ei hun a oedd yn gyfrifol? Os felly, cymharer dychan Dafydd y Coed i Ddafydd ap Rhys ab Ieuan (6.1n).

¹ Gw. Ian Soulsby, *The Towns of Medieval Wales* (Chichester, 1983), 155, 'Certainly it [sef Trefyclo] had emerged by 1292–3, when there were 71 taxpayers, but the fact that as many as 60 per cent. of them were Welsh points against plantation alone for its creation. It is more reasonable to regard Knighton as a vill enlarged by plantation as by 1304 it had grown to accommodate 126 burgesses holding 162 and a third burgages.'

Fel mewn cerddi eraill yn sôn am afonydd,² personolir hwy gan ddisgrifio rhai o'u prif nodweddion; ond ceir hefyd elfen arall, ddieithr, sef synio am y pedair afon fel affeithwyr a oedd yn berthnasau neu yn gyfeillion clòs i'r bardd yn y gwaith o gael gwared ar Riffri. Felly geilw'r pedair yn [*f*]odrybedd cymen (ll. 12), Tefeidiad yn [*g*]arwraig (ll. 16), Ieithon yn [*g*]ares (ll. 18) a Chlywedog yn *fwynaf cefnithderw* (ll. 27). Ond eto, nid yw sail perthynas yr afonydd â'i gilydd yn eglur. Y mae'n bosibl fod y bardd yn meddwl eu bod i gyd yn llifo i Afon Tefeidiad cyn iddi gyrraedd Trefyclo ac y bu i Griffi farw, felly, yn nyfroedd pob un ohonynt. Ond er bod afonydd Ieithon, Cymaron a Chlywedog i gyd yn tarddu ym Maesyfed, gwahanol yw tarddle pob un (er bod tarddleodd Ieithon a Thefeidiad yn agos i'w gilydd); dwy yn unig—Cymaron ac Ieithon—sy'n ymuno, ac nid yw'r un ohonynt yn llifo i Afon Tefeidiad. A oedd y bardd heb wybod hynny, ynteu ai cysylltiad gwahanol, mwy cyfrin efallai, a oedd rhyngddynt yn ei feddwl? Diddorol hefyd yw'r modd yr uniaethir yr afonydd â pherthnasau benywaidd, a thebyg nad cenedl y gair afon sy'n gyfrifol am hyn yn gymaint â'r arfer hen iawn (nad yw'n gyfyngedig i Gymru yn unig) o feddwl am afon fel gwrthrych benywaidd.

Nodwedd arall ar y gerdd sy'n hawlio sylw yw'r elfen o felltith (rhagor dychan) ynddi sy'n cyrraedd ei huchafbwynt trwy ddymuno uffern i Riffri. Peth anghyffredin yw hyn yng ngwaith y beirdd proffesiynol, ac unwaith eto gwelir tebygrwydd i gerdd Dafydd y Nant³ lle y dymunir i'r lladron, ymysg pethau erchyll eraill, *uffern bytew*.⁴ Diau fod olion y gelfyddyd ddu ar gerdd Y Nant,⁵ a dichon fod Twm Morys yn gywir yn gweld ei holion ar gerdd y Mab Cryg hefyd.⁶

Megis y gerdd flaenorol, awdl ar fesur gwawdodyn yw hon a heb brifodl.⁷ Ac eithrio llinell 25, y mae hyd y llinellau yn rheolaidd. Cynganeddwyd hi drwyddi â chyfran uchel o gynganeddion sain, nifer ohonynt yn bengoll, a rhai cynganeddion cytsain gwreiddgoll a braidd gyffwrdd.

2 **cri** Pan syrthiodd i'r afon, llau. 31–2.

wtreswr Cyfuniad o *wtres* (benthyciad o'r S.C. *outrage*, EEW 169) a'r terfyniad *-wr*. Ymhellach, gw. GDG³ 520, 605.

3 **chwyrndwrch** Llsgr. *chbyndŵrch*. Dilynir diwygiad petrus G 283 (d.g. *chwynn* a *chwyrn*). Ar *twrch* 'baedd, mochyn', gw. CA 183, IGE² 424.

² E.e., GDG³ 194–5 (cerdd 71), *ib.* 269–70 (cerdd 99); Gruffydd Aled Williams, 'Cywydd Gwilym ap Sefnyn i Afon Ogwen ac Afon Menai', *Dwned*, iii (1997), 88–9; D.H. Evans, 'An Incident on the Dee during the Glyn Dŵr Rebellion?', TCHSDd xxxvii (1988), 8–11.

³ Gw. sylwadau rhagarweiniol cerdd 15 uchod.

⁴ T. Gwynn Jones, 'Ein kymrisches Fluchgedicht', ZCP xvii (1928), 170 (ll. 32).

⁵ Gw. DGIA 50–51.

⁶ Twm Morys, 'Bob Dalen ar Benillion', *Barddas*, ccxv (Mawrth 1995), 16–17.

⁷ Ymhellach, gw. td. 160.

- 6 **murdaer** Fe'i deallir yn betrus yn fenthyciad o'r S.C. *murdere* 'llofrudd, bradychwr, lladdwr', gw. MED d.g. *morthor*, er nad hawdd esbonio'r terfyniad *-aer* (gthg. GPC 2511). Gellir deall y gair yn gyfuniad o *mur* a *taer* 'ffyrnig ger mur', 'ffyrnig ei amddiffyn' neu'r cyffelyb, fel pe bai Griffri'n warcheidwad muriau tref, ond nid yw'r ystyr yn gweddu cystal i'r cyd-destun.
- 7 **trethol** Nid yw arwyddocâd y gair yn eglur, onid yw'n golygu ei fod yn gasglwr trethi.
truthain GDG³ 60 (21.17–18) *Cras enau, geiriau ni ragorai—rhain, / Y truthain a'u traethai*.
- 12 **modrybedd cymen** Gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.
- 13 **Tefeidiad** Afon yn codi ar gyffiniau Maesyfed ac yn llifo i Hafren y tu isaf i Gaerwrangon. Rhed heibio i Drefyclo y cyfeirir ato yn ll. 34. Gw. EANC 177.
- 14 **tros fôn trawsfodd** Ffordd arall o ddweud bod yr afon yn un dda i berson foddï ynddi (ar gyfeirio at berson wrth ei din, cf. 15.29 *Cigfrain a weler uwch ei wilers* a'r nodyn) Dichon, er hynny, fod y geiriau'n goleddfu *afon*—'afon [yn llifo] dros waelod / wely cadarn ei natur'. Y mae'n bosibl hefyd mai *traws* a *bawdd* 'grymus ei foddïad / lif' a gynrychiolir gan *trawsfodd* (ar wyriad *aw* i o yn y sillaf olaf, gw. GMW 3).
- 15 **eurgaddug** Wrth *caddug* golyga'r bardd orchudd y dŵr y diflannodd y boddedig dano; cf. ll. 20 *gortho*.
dogy Gthg. G 385 lle y'i diwygir yn *dog(y)n* ond mwy cydnaws â'r cyd-destun yw ei ddeall yn fenthyciad o'r S.C. *dogge* mewn ystyr ddirfïol am berson (cf. ll. 10 *cablgi*); ymhellach, gw. GPB 10.3n.
- 16 **carwraig** Gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.
dwyn corwrysg Cf. Gruffydd Aled Williams, 'Cywydd Gwilym ap Sefnyn i Afon Ogwen ac Afon Menai', *Dwned*, iii (1997), 88 (ll. 7) *Mingas ddiwreiddwraig mangoed*.
- 17 **ail** Sef Afon Ieithon a enwir yn ll. 19.
cynnaill Dilynir GPC 794 o ran yr ystyr. Gthg. G 255 d.g. *kynneil*² lle y dywedir na ellir yn hawdd ei ystyried yn 3 un.pres.myn. y f. *cynnal* nac yn ll. yr e. *cynnal* ('cynhaliaeth, cynhorthwy', *ib.* 253). Serch hynny, er mai chwithig braidd fyddai ystyr *dwfr gynnaill* o dderbyn yr ail bosibilrwydd, fe ellid derbyn y cyntaf (ar hepgor y rh.pth. o flaen y f., gw. WG 285, Treigladau 174). Yr ystyr felly fyddai 'Ac y mae'r ail afon yn cynnwys dyfroedd ...'.
- 18 Y mae blas dihareb neu wireb i'r ll., ond un wedi ei chymhwyso'n goeglyd i'r sefyllfa dan sylw. Ymddengys mai Griffri a olygir wrth

dedwydd, ei farw trwy foddï yw *cerydd*, yr afon yw *cares* (cf. ll. 16 *carwraig* a'r sylwadau rhagarweiniol uchod), a chwaraeir ar ystyron llythrennol a ffigurol *oer*.

19 **leithon** Afon ym Maesyfed, gw. G 144 d.g. *Clawedawc* a 232 d.g. *Kymaron*.

20 **deffro** Hynny yw, deffro i gynorthwyo'r bardd i foddï'r anffodusyn. Rhan yw'r ddelweddaeth o'r ffordd y mae'r bardd yn personoli'r afonydd.

rhwyd ortho Ymddengys mai cyfeiriad sydd yma at y rhwydi ar wyneb yr afon: yr oedd Afon leithon mor llawn o bysgod fel bod rhwydi ar ei hwyneb ym mhobman. Cf. disgrifiad Dafydd ap Gwilym o Afon Dyfi, GDG³ 194 (71.7) *trefn trychanrhwyd*.

bei rhaid wrthi Hynny yw, pe bai'n rhaid wrth ei chymorth i ladd rhywun.

21 **trydedd** Sef Afon Cymaron a enwir yn ll. 24.

mawr ... gychwedl Ai sôn a wneir am foddï damcaniaethol Griffri?

22 **trwy lid ar led un erw** Cyfeiriad, fe ymddengys, at Afon Cymaron (ll. 24) yn gorlifo ei glannau; cf. ll. 28 *Clwyflif dros gannerw*, *glwysferw glasfor* am Afon Clywedog. Cf. hefyd GDG³ 194 (71.5–8) *Gad, er Duw rad, ardwy ri, / Drais y dwfr, fi dros Dyfi. / Tro drachefn, trefn trychanrhwyd, / Dy fardd wyf, uwch dwfr ydd wyd*; a cheir cerdd gan Fadog ap Gronw Gethin i Afon Dyfrdwy yn diolch iddi am orlifo a rhwystro'r Saeson mewn brwydr yn erbyn y Cymry, gw. D.H. Evans, 'An Incident on the Dee during the Glyn Dŵr Rebellion?', TCHSDd xxxvii (1988), 8–11.

23 Dichon mai meddwl am Riffri y mae'r bardd yma. *Â sarrug*, cf. ll. 8 *swrth*.

24 **Cymaron** Afon ym Maesyfed yng nghyffiniau Llanddewi Ystradenni a Llanfihangel Rhydieithon (llygrwyd yr enw yn Afon Aran); rhed i afon leithon (ll. 19), gw. G 232.

25 Y mae'r ll. yn fyr o sillaf; tybed a ddilid rhoi'r fan. o flaen *Deifrgi*?

Deifrgi Fe'i deallir yn gyfuniad o *Deifr* 'Saeson' a *ci* mewn ystyr ddiraddiol; cf., e.e., *Deifrdir*, *Deifrdref*, gw. G 310. Ar alw Griffri yn Sais, cf. ll. 2 *bileinsais*. Gthg. G 401 sy'n ei ddeall yn gyfuniad o *deifr*, ffurf l. *dwfr* 'dŵr', a *ci*, a GPC 1126 sy'n ei gynnwys gydag enghreifftiau o'r gair *dyfrgi*. Ond chwithig felly gyddai cyffelybu dyn a foddod mewn afon i ddyfrgi oni chymerir *deifrgi* i olygu 'ci (mewn ystyr ddiraddiol) [y] dyfroedd'; ond llai tebygol yw hynny.

26 **pedwardyn** Ar arwyddocâd *pedwar*, cf. 5.10n uchod.

27 **Clawedog** Afon Clywedog ym Maesyfed, gw. G 144.

mwynaf cefnithderw Gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.

- 31 **diwhelu** Fe'i deallir yn amrywiad ar *dichwelu*, gw. G 329 (d.g. *dichwelu*), GPC 960 (d.g. *dichwelaf*), 1058 (d.g. *diwelaf*).

cnu cnefwch cynhorthwy Cf. yr ymadrodd *cythraul canhorthwy* 'attendant or aiding demon', GPC 826, a'r gwrthwyneb *angel canhorthwy*, *ib.* 49. Ar *cnu*, cf. CO³ 8 (ll. 225)–9 (ll. 228) a *Moruran eil Tegit—ny dodes dyn y araf yndaw yGhamlan rac y haccred, pawb a tybygynt y uod yn gythreul canhorthwy; blew a oed arnaw mal blew hyd*. Cyfetyb, ond odid, i *croen* ynglŷn â pherson dynol.

- 33 **cri** Cf. ll. 2 [*cri*]. Yn G 175 fe'i rhestrir yn betrus d.g. *cri*², ond os felly disgwyliid gweld treiglo *crin* ar ei ôl (oni ddeallid *cri crin foelfors* yn frawddeg enwol).

crin foelfors Y tebyg yw mai fel sarhad y dylid deall hyn yn hytrach na disgrifiad llythrennol o gyflwr Griffri ar y pryd; cf., e.e., y disgrifiad o Einion yn GPB 7.13 *Ceilligwd forsgwd farsgal—cigyddion* (anh.).

- 34 **Trefyclawdd** Sef Trefyclo (S. *Knighton*), Maesyfed.

17

Yn y gerdd hon dychenir dau wŷr o'r enw Dafydd a Maredudd am eu llwfrdra yn y gad. Er nad brodyr mohonynt, medd y bardd, eto y mae tebygrwydd brawdol rhyngddynt o ran eu parodrwydd i ffoi (llau. 25–8). Am Ddafydd y sonnir fwyaf a dywedir ei fod wedi ceisio heddwch â Saeson (ll. 8) a throi at yfed mewn brwydr, yr un fath ag y gwnaeth Maredudd—mewn rhyw frwydr arall, fe ymddengys—yn Llanrhystud (llau. 13–16, 22). Gellir casglu oddi wrth linell 2 fod y bardd mewn rhyw fath o argyfwng a olygai, efallai, fod ei fywyd mewn perygl (gw. ll. 2n), er na ddywedir paham.

Nid yw cefndir y gerdd, gyda'i chyfeiriadau at frwydro rhwng Cymry a Saeson, yn nodweddiadol o amgylchiadau cymharol heddychlon Cymru'r bedwaredd ganrif ar ddeg. Un peth oedd terfysgoedd lleol a llofruddiaethau unigol, ond eithriad yn y cyfnod fuasai ymladd rhwng penaethiaid neu gad ar faes. Rhy fentrus, y mae'n debyg, fyddai ceisio dyddio'r gerdd yn y drydedd ganrif ar ddeg, ond tybed a ellid ei dyddio yn y blynyddoedd cythryblus hynny a ddilynodd gychwyn gwrthryfel Owain Glyndŵr yn 1400? Gan y cytunir mai rhwng 1382¹ ac adeg marw Hopgyn ap Tomas,² ei berchennog, y gwnaed Llyfr Coch Hergest, ni fyddai hynny'n annichon.³ Erys cefndir y gerdd, er hynny, yn ansicr ac awgrymu yn unig a wneir yma.

¹ Sef blwyddyn derfynol 'Brut y Saeson' (ff. 248^v–253^v).

² Ymhellach ar y pwynt hwn, gw. sylwadau rhagarweiniol cerdd 3 uchod.

³ Os felly, byddai'r gerdd yn ychwanegiad at y casgliad bychan hwnnw o gerddi a ddiogelwyd o gyfnod y Gwrthryfel, gw. GSCyf 84–5.

Cyfeiria'r Mab Cryg at Ddafydd fel *Balchwyr ... Meurig* (ll. 10) ac fel *Llyw rhwysg beirdd hyfrwysg rhwng Hafren a Gwy* (ll. 23) ond ni sylwyd yn yr achau ar unrhyw Ddafydd wŷr Meurig o'r ardal a'r cyfnod a allai gyfateb iddo. Ni wyddys mwy am Faredudd.

Megis yn y ddwy gerdd flaenorol, awdl heb brifodl ar fesur gwawdodyn yw hon. Cynganeddwyd hi drwyddi â chyfran uchel o gynganeddion sain (gan gynnwys sain ddwbl, sain deirodl, a sain gadwynog) a rhai ohonynt yn bengoll.

- 2 **dygarthref** Unig enghraifft: G 417, 'rhwym neu raff o gywarch'; GPC 1131, '?rhwym o garth neu gywarch: *bond or band of hemp.*' Os felly, gallai olygu naill ai raff i rwymo neu (yn fwy tebygol, efallai) raff i grogi. A oedd y bardd yn wynebu dedfryd marwolaeth neu'n ceisio osgoi hynny (efallai trwy fod ar herw)?
- 3 **cyfiewin** 'Gwarchodol, gofalus, craff, dyfal, diogel' yn ôl G 209, ond 'cydradd, cyfurdd, cyfartal; cyfaddas, cymwys, gweddus, teilwng' yn ôl GPC 695.
- 4 **bylchwîn** Dilynir dehongliad petrus G 84, sef 'gwin yn torri (drosodd)' yn hytrach na 'gwin a ballodd'. Os felly, y syniad yw fod y gwin yn *bylchu* ymyl y cwpan, h.y. yn llifo drosti.
- 8 **Sais** Ni wyddys ai Sais neilltuol ai Saeson yn gyffredinol a olygir, nac at ba ddigwyddiad y cyfeirir.
- 10 **dadwair** Dilynir GPC 874 o ran yr ystyr. Gthg. G 302, '?cynulliad, crynhoad, trefniant, cynnydd; ... cynnull, crynhoi, trefnu, cynyddu'. Cynhwysir yr enghraifft hon *l.c.* dan yr ail ystyr ('cynnull' &c).

Meurig Gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.

- 11–16 Ergyd y llau. hyn yw fod Dafydd wedi ymateb i swm y Saeson yn eu trefydd yn debyg i'r modd yr ymatebodd Maredudd yn Llanrhystud, sef trwy droi at ddiod. Ni ddywedir beth yn union a ddigwyddodd yn Llanrhystud, ond ar sail ll. 17 ac ymlaen ymddengys fod brwydr wedi bod yno (gw. ymhellach ll. 16n).
- 11 **clau** Disgrifir yr *hyntau* felly am fod ar Ddafydd ofn y trigolion. Ni fyddai Cymro'n boblogaidd mewn tref Seisnig.

Norhamtwn Ni wyddys pa gysylltiad a oedd gan Ddafydd â'r dref, ond efallai ei fod wedi derbyn eiddo o ryw fath yno (e.e. preswylfa neu diroedd) gan y Goron am gyhoeddi *Cerennydd â Sais* (ll. 8). Yn ei gywydd 'I Wagedd ac Oferedd y Byd', wrth restru'r holl foethau y bydd yr uchelwr bydol yn eu colli wedi ei farw, gofyn Siôn Cent, IGE² 290 (ll. 29), *Mae'r siwrnai i Loegr? Mae'r seirniai?* Cf a ddywedir yn R.A.

Griffiths: PW i, 188, am Syr Siôn Dwinn o Gydwelli, 'Dwinn's prominent position enabled him to attract patronage from the king as well as from magnates and humbler men, and he was able to build a substantial landed interest for himself. On 24 February 1462 he was granted the town, manor and lordship of Laugharne (Carms) as well as 10 manors in Northants.'

- 12 **Englis** Dyma'r unig enghraifft a nodir yn EEW 46 (benthyciad o'r S. *English*) a G 450.
- 13 **â** Yn G 220 fe'i cymerir gyda *Cyffelyb* ond ni cheir cystal synnwyr felly. Ar *digoni â*, cf. RB 217 (llau. 20–1) *Ac yna y gellit gôybot pôy oreu adigonei a gôyô*.
- 15 **teg anwych** Sylwer ar y gwrtheiriad.
- 16 Cyfeiriad, fe ymddengys, at ryw frwydr yn Llanrhystud a'r Cymry dan arweiniad Maredudd. Ai rhyw frwydr anh. a fu yn ystod cyfnod Owain Glyndŵr a feddylir (gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod).
- 18 **ymgur** Ffurf fer *ymguro*, gw. G 187 (d.g. *curaw*) a cf. IGE² 123 (llau. 13–14) *Gŵr fu ef wrth ymguraw / A phen draig y ffynnon draw* (Gruffudd Llwyd).
- 20 Y mae'r ll. yn fyr o sillaf.
- brwydrnadd** G 79 'cymynu, hollti', ond collir golwg ar *brwydr*. Yr ystyr lythrennol yw 'trychu [mewn] brwydr'.
- gwrŷs** Llsg. *gôyrs*. Dilynir diwygiad *petrus* G 722.
- gwers y meirw** Derbynnir yr ystyr a roddir yn G 670 d.g. *gwers*¹ a GPC 1645 i'r enghraifft hon o *gwers*; cf. GBF 40.29 *Seith wers kymman glan kynn gloes agheu—croc*. Dichon, er hynny, mai 'tro, ysbaid, talm', gw. G 670 d.g. *gwers*², GPC 1645, 2, a olygir, cyfeiriad at frwydr fel achlysur pan fydd milwyr yn marw.
- 24 Gall y ll. hon fod yn frawddeg annibynnol (h.y. *trist imi yw ...*) neu'n goleddfu *Llyw* yn y ll. flaenorol.
- drwy dref Raeadr** Safai Rhaeadr Gwy ar ochr ddwyreiniol Afon Gwy, ac i deithiwr yn dod o'r gorllewin fe fyddai'n fynedfa amlwg i ardal Rhwng Gwy a Hafren lle y trigai Dafydd, ŵyr Meurig (ar gysylltiad posibl y Mab Cryg ag Aberystwyth, gw. 15.31n).
- 25 **cyn ni bôn'** Llsg. *Kany bon* 'am nad ydynt', cf. ll. 21 *Can ni ddêl*. Anodd, fodd bynnag, yw gweld pa gysylltiad achosol a allai fod rhwng dweud nad yw'r brodyr o'r un tad a'r tebygrwydd brawdol rhyngddynt o ran ffoi yn y frwydr (ll. 27), a rhydd y diwygiad hwn synnwyr mwy boddhaol.

Mynegai

- a 15.20
adwy 15.12n
anghlaer 16.6
ail 16.17n
amhrydferth 16.7
anferth 16.8
anniwyd 15.18
anrhaith 15.30
antur 17.19
anwych 17.15n
arganfod 15.15
argynnwrf 16.17
asgenllithr 16.29
balchwyr 17.10
bawdd 16.34
bawiar: baweir 15.27
bileinsais 16.2
bod: bôn? 17.25n
bôn 16.14n
bredychfoes 15.14n
brwydrnadd 17.20n
bylchwin 17.4n
bywion 15.27
cablgi 16.10
cannerw 16.28
cannyn 17.5
canu 17.3
carn-lleidr 15.9
carwraig 16.16n
catel 15.20n
cath 15.7n
cawell 15.11n
cefnithderw 16.27n
ceinwawd 17.3
clau 17.11n
cleiriach 16.23
clwyflif 16.28
cnecfwch 16.31n
cnu 16.31n
coethrydd 17.5
corwrysg 16.16n
crair 16.1
cri 16.2n, 33n
crin 16.33n
cwblgas 16.10
cychwedl 16.21n
cydlechu 17.28
cyfiewin 17.3n
cymanfa 15.19
cymen 16.12n
cynhorthwy 16.31n
cynnail 16.17n
cyn ni 17.25n
cynnydd 17.5
cysellt 15.28
chwyrn 16.3
chwyrndwrch 16.3n
dadwair 17.10n
dannod 15.2
deffro 16.20n
Deifrgi 16.25n
diadnair 15.1
dibwyll 16.36
difrad 16.13
digonrhydd 17.9
diriaid 15.21
diwhelu 16.31n
dogy 16.15n
drud 15.20n
dryll: drylle 15.16n
dwfr 16.17; deifr 16.17
dwfrgwymyp 16.25
dwyn 16.16n
dyall 17.1
dygarthref 17.2n
Englis 17.12n

- eiddil** 17.7
er 16.21
erw 16.22n
eurgaddug 16.15n
ffilcas 16.35
ffwlcwd 16.35
ffwrndwyll 16.36
gafel 13.20n
gawr 17.21
glas 16.4
glasfor 16.28
gloeslif 16.4
glwysferw 16.28
gofwy 17.24
gortho 16.20n
graeando 16.19
grym 15.25
grymiant 15.25
gwacson 16.23
gwaddodblas 16.3
gwaddotsaig 16.15
gwâl 15.22
gwalch 17.4
gwarag 15.24n
gwasgod 17.22
gwegr 15.23n
gweld: gweler 15.29n
gwera 17.20n
gwilers 15.29
gwiril 15.24n
gŵr: gwŷr 17.18
gwrneidr 15.9
gwrthwyf 17.2
gwrŷs 17.20n
gwynhaed-deg 15.12n
gwythlonder 15.30
haelddeddf 17.17
hengist 15.23
hengod 15.23
hirgrog 15.21
hwngrdlawd 15.27
hwylddydd 17.17
hyfrwysg 17.23
hynt: hyntau 17.11
llawdrwael 15.17n
llawr 17.21
lled 16.22n
llef 17.6
lleidrwes 15.17
llid 16.22n
llosg 17.6
llosgyrngrin 15.7
lluchynt 17.28
lluyddgyrch 17.21
llwydroed 15.20
maddau 17.4
maelwr 15.31n
maethgen: maethgennau 16.34
malaen 16.32
marw: meirw 17.20n
mawr 16.21n
mawrair 17.10
mawrchwedl 15.12n
mawrdwyll 16.6
mawrdwysg 16.32
mawradd 17.20
mellt 15.27n
modryb: modrybedd 16.12n
moelfors 16.33n
murchweg 15.12n
murdaer 16.6n
mwyn: mwynaf 16.27n
myfyr 17.19
mynfaedd 15.11n
neddwallt 15.19
nidding 15.19n
oer 15.21n
pedwardyn 16.26n
pengam 16.35
prif 16.11, 14
rhaid 16.20n
rhechgawr 16.5
rheffyn 15.28
rhidyll 15.15
rhochgawg 16.5
rhod 15.15

rhwyd 16.20n
rhwysg 17.23
Sais 17.8n
senigl 16.19
taeriaith 15.3
taid 15.21n
teg 17.15n
teirier 15.3n
til 15.23n
tradicter 16.9
trawsfodd 16.14n
trawsfyg 15.26n
trawsryd 16.26

trethol 16.7n
tringod 15.15n
truthain 16.7n
trydedd 16.21n
ufferndan 16.36
ufferndrum 15.13
un 16.1
undad 17.25
wtreswr 16.2n
ynglef 17.12
ymgur 17.18n
ymodwrdd 17.25
ysgwtbren 15.32n

*Enwau personau***Crist** 16.1**Dafydd** 17.5, 14, 17, 26**Duw** 15.1, 16.29, 17.1**Griffri** 16.10, 25, 33**Mair** 15.1, 16.1**Maredudd** 17.16, 26**Meurig** 17.10n*Enwau lleoedd***Clawedog** 16.27n**Cymaron** 16.24n**Dinas Maelor** 15.31n**Gwy** 16.11, 17.23**Hafren** 16.11, 17.23**Ieithon** 16.19n**Llanrhystud** 17.16n**Norhamtwn** 17.11n**Rhaeadr** 17.24n**Tefeidiad** 16.13n**Trefyclawdd** 16.34n

GWAITH TUDUR AP GWYN
HAGR

Rhagymadrodd

Hyd y gwyddys, ni cheir sôn am Dudur ap Gwyn Hagr mewn unrhyw ddogfen gyfoes nac yn yr achau, a'r ddwy gerdd fer o'i eiddo a gadwyd yw unig sail ein gwybodaeth amdano. Codwyd y cerddi hyn i Lyfr Coch Hergest tua 1400, ac felly y mae'n deg casglu bod eu hawdur yn canu rywbryd yn y bedwaredd ganrif ar ddeg.¹ Fodd bynnag, os yw'r dehongliad a gynigir isod o gerdd 18 yn gywir, gellir dal iddo ei chanu yng nghanol y bedwaredd ganrif ar ddeg ac ystyried y blynyddoedd hynny yn gyfnod ei flodau. Dysgwn oddi wrth y gerdd honno iddo ddioddef cyni adeg y Pla Du gan golli cynhaliaeth y plwyfolion a gorfod byw'n fain fel hwythau. Dysgwn oddi wrth ei gerdd arall (cerdd 19) iddo gael ymborth gwael yn nhŷ rhywun, rhyw noddwr, ond odid. Y mae ei gerddi ar ffurf englynion celfydd a gorffenedig, ac y mae'n amlwg ei fod yn fardd o safon.

Llyfr Coch Hergest yw'r llawysgrif gynharaf sy'n cynnwys cerddi Tudur ap Gwyn Hagr. Perthyn y llawysgrifau eraill sy'n eu cynnwys i'r cyfnod o'r unfed ganrif ar bymtheg ymlaen ac fe'u nodir isod. Y mae eu testunau hwy o'r cerddi yn tarddu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o eiddo'r Llyfr Coch.

¹ Yn yr adran ar awduron Brytaneg ac adeg eu blodeuo yn D, rhoddir 1380 ar ei gyfer.

Cwyn oherwydd pla

4 Neu'r aeth, neud hiraethog bun,
 Fy mynwent, dirent derwen,
 Ys gwers, ys gwae ei pherson,
 Yn wandir teg, yn wyndwn.

8 No'm plwyf (dicllon wyf, decllwyth yd—ni'm try,
 Nid hawdd treulo'n hyfryd),
 Nid echwng clod, neud iechyd,
 Nid iachach plwyf bach o'r byd.

12 Rhaid yw ym bellach, ban ballwyf,—ildio,
 Yr eildydd y profwyf,
 Dwyn y fall fal y gallwyf
 I ymgnith ymhlith 'y mhlwyf.

Ffynonellau

A¹—BL Add 15001, 95^v A²—BL Add 15001, 99^v B—J 111, 1358 C¹—
 LIGC 4973B, 143^r C²—LIGC 4973B, 148^r D—LIGC 21287B [= Iolo
 Aneirin Williams 1], 83^r E—Llst 133, 300^v [rhif 877]

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif B, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r
 holl lawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni.
 (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 209–10.)

Teitl

Tudur uab góynn hagyr ae cant.

Cwyn oherwydd pla

Y mae fy mynwent, trist yw merch,
 Di-incwm yw arch,
 Ers tro, truenus yw ei pherson,
 4 [A hithau gynt] yn bridd mwyn hardd, wedi troi'n dir gwyllt.

Na'm plwyf (blin ydwyf, nid yw'n rhoi deg llwyth o ôd imi,
 Nid hawdd treulio[’r amser] yn ddiddan),
 Nid cyfyng oedd [ei] glod, iechyd oedd [iddo],
 4 Nid oedd blwyf bach iachach yn y byd.

Rhaid yw imi bellach, pan fydd eisiau arnaf, dalu[’r ffordd],
 [A hithau’r] ail ddiwrnod y rhoddaf gynnig arni,
 Dioddef y pla fel y medraf
 8 I rygnu [byw] ymysg fy mhlwyfolion.

Cwyn yn erbyn ymborth gwael

Sugnsur yd dibur, tebig—i gyffraith
 A gaffwn, ychydig;
 A gwan ruel annelwig,
 4 A gwyrth saws a chaws a chig.

Myn uchelgrair Fair fawrhydig,—ni bu
 (Nid er budd fu'r hirdrig!)
 Na llon fy nghroth loth leithig,
 8 Na llawn er a gawn o gig.

Ffynonellau

A¹—BL Add 15001, 95^v A²—BL Add 15001, 99^v B—J 111, 1358 C¹—
 LIGC 4973B, 143^r C²—LIGC 4973, 148^r D—LIGC 21287B [= Iolo Aneirin
 Williams 1], 83^r E—Llst 133, 300^v [rhif 878]

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif B, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r
 holl lawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni.
 (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 209–10.)

Teitl / Rhaglith

Jdem tudur.

Cwyn yn erbyn ymborth gwael

Ŷd sur i'w sugno, amhur [a] thebyg i drwyth
A gawn, [ac] ychydig [ohono];
A grual prin ei faeth [a] di-lun,
4 A saws a chaws a chig rhyfeddol.

Myn Mair fawr ei hamddiffyn [ac] ysblennydd, ni fu
(Nid er lles y bu'r arhosiad hir!)
Fy mol blysiog [a] gwlyb nac yn llon
8 Nac yn llawn er gwaethaf [yr hyn] o gig a gawn.

Nodiadau

18

Nid yw'r gerdd hon yn un hawdd ei dehongli o ran cynnwys na chefnidir, ond ymddengys, er hynny, mai ei thema ganolog yw effeithiau pla (ll. 11 y *fall*) ar y plwyf lle yr oedd Tudur ap Gwyn Hagr yn byw ac felly ar ei fywoliaeth. Dechreua trwy ddweud bod *Fy mynwent* (ll. 1), sef mynwent y plwyf lle y trigai (cf. ll. 5n), ond odid, wedi newid o fod yn llecyn cadwrus (ll. 4 [*g/wandir teg*] yn dir gwyllt (ll. 4 [*g/wyndwn*]), a gellir deall hyn yn gyfeiriad at un o effeithiau amlycaf pla, sef yr holl gyrff y byddai angen eu claddu a'r anhrefn a'r annibendod a ddeuai yn sgil hynny. Yna â rhagddo i wrthgyferbynnu ffyniant y plwyf gynt â'i fethiant bellach i'w gyflenwi â *decllwyth yd* (ll. 5), sef ei gynnal. Diwedda trwy ddisgrifio ei hun yn gorfod rhygnu byw yn awr ymhlith aelodau ei blwyf. Odid nad y Pla Du, a gyrhaeddodd Gymru yng nghanol y bedwaredd ganrif ar ddeg, yw'r pla y cyfeirir ato—ac y mae hyn hefyd yn help i ddyddio'r bardd. Trwy ddeall y geiriau *Fy mynwent* (ll. 2) yn llythrennol, *ei pherson* (ll. 3) yn gyfeiriad gan y bardd ato'i hun, a *decllwyth yd* (ll. 5) yn gyfeiriad at yr arfer o dalu degwm i berson plwyf,¹ gellid dadlau bod Tudur ap Gwyn Hagr, yn ogystal â bod yn fardd, yn berson plwyf, ond bernir bod hyn yn llai tebygol, ac y mae ei gerdd arall (cerdd 19) yn ei ddangos yn un o'r sefyllfaoedd hynny a oedd yn nodweddiadol o droeon y beirdd ar eu teithiau clera.² Os yw'r dehongliad a gynigir yma yn gywir, yna y mae'r gerdd yn enghraifft ddiddorol ac anghyffredin o ymateb uniongyrchol gan fardd i'r Pla Du.

Y mae'r gerdd ar ffurf englyn proest a ddilynir gan ddau englyn unodl union. Y mae pob llinell yn rheolaidd ei hyd ac wedi ei chynganeddu. Ni cheir cysylltiad ffurfiol rhwng yr englyn cyntaf a'r ail, ond cyrcha gair olaf y gerdd ddechrau'r ail englyn.

1–4 Y gystrawen yw *Neu'r aeth ... / Fy mynwent ... / Ys gwers ... / ... yn wyndwn*.

bun Gwraig neu gariad neu ferch y bardd, fe ymddengys.

¹ Ymhellach ar hyn, gw. ODCC³ 1626. Ifor Williams, 'Penityas', B viii (1935–7), 136 (ll. 12), *Ony rodes* [sef y sawl sy'n cyffesu] y *degemeu yr personyeu y dyliei eu rodi*. Ceir ymryson hefyd rhwng Mastr Harri ap Hywel ac Ieuan Tew Brydydd Hen o Gydweli ynghylch talu'r degwm, gw. GPhE cerdd 8.

² Nid yw ei enw di-teitl ychwaith yn awgrymu clerigwr, er na ddylid pwyso gormod ar y pwynt hwn.

2 Cynghanedd lusg wydro.

dirent derwen Yr oedd claddu'r meirw yn un o ffynonellau incwm pwysig yr Eglwys yn y cyfnod. Gellir cynnig mai'r rheswm nad oedd dim incwm yn dod mwyach yn yr achos hwn oedd nad oedd pobl, oherwydd effeithiau economaidd y pla, yn gallu fforddio talu am gladdu eu meirw yn y fynwent.

3 **ei** Cyfeirir at y fynwent.

5 **no'm plwyf** Cydier wrth l. 4 *Nid iachach plwyf bach o'r byd*. Cf. GDG³ 130 (48.23–4) *A gwedy'r hir edrychwyf / Dros fy mhlu ar draws fy mhlwyf*.

decllwyth yd Tebyg mai dynodi cyflawnder a helaethrwydd y mae'r rhifol *deg* yma (gw. G 307–8 am enghreifftiau ohono gyda geiriau eraill).

7–8 **Nid echwng ... neud iechyd, / Nid iachach ...** Cymerir mai at y gorffennol y cyfeirir oherwydd y cyferbynnu chwynn rhwng ffyniant y plwyf a chyni presennol y bardd.

9 **ildio** Yn GPC 2017 rhestrir yr enghraifft hon o'r bf. dan y f. *ildiaf* (o'r S.C. *yelden*), ond bernir ei fod yn fwy ystyrllon o fewn cyd-destun y gerdd o'i ddeall yn ffurf dreigledig *gildio* 'talu', gw. *ib.* 1398 d.g. *gildiaf*¹.

19

Cwyn yw'r gerdd hon yn erbyn bwyd gwael a gafodd y bardd wrth aros yn nhŷ rhywun (noddwr, ond odid). Dau englyn unodl union sydd yma wedi eu cynganeddu drwyddynt a'r llinellau yn rheolaidd eu hyd.

7 **lleithig** Rhestrir yr enghraifft hon yn betrus yn GPC 2150 d.g. *lleithig*² 'llaith, gwlyb' ynghyd ag un enghraifft arall yn unig, a honno'n ddyddiedig 1774.

Mynegai

annelwig 19.3
bun 18.1n
cyffaith 19.1
decllwyth 18.5n
derwen 18.2
dibur 19.1
diillon 18.5
dirent 18.2n
dwyn 18.11
echwng 18.7n
eildydd 18.10n
gildio 18.9
gruel 19.3
gwae 18.3
gwandir 18.4
gwyndwn 18.4
hiraethog 18.1

hirdrig 19.6
hyfryd 18.6
iach: iachaf 18.8n
iechyd 18.7n
lleithig 19.7n
mall 18.11
neud 18.7n
nid 18.7n, 8n
pallu: pallwyf 18.9
plwyf 18.5n
profi: profwyf 18.10
sugnsur 19.1
troi: try 18.5
uchelgrair 19.5
ŷd 18.5n
ymgnith 18.12

Enw person

Mair 19.5

GWAITH TUDUR DDALL

Rhagymadrodd

Hyd y gwyddys, ni sonnir am Dudur Ddall mewn unrhyw ddogfen gyfoes nac yn yr achau, a'r un gerdd o'i eiddo¹ a gadwyd yw unig sail ein gwybod-aeth amdano. Codwyd y gerdd hon i Lyfr Coch Hergest tua 1400, a chan hynny gallwn awgrymu i Dudur flodeuo rywbyrd yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, ac y mae thema ei gerdd yn gweddu i'r cyfnod hwnnw.²

Gellir darllen y gerdd fel gwyrddroad o'r confensiwn mawl i dŷ newydd.³ Yn lle bod yr adeilad newydd yn raenus a deniadol, fe'i hystaenir gan fwg am fod nam ar y simnai (llau. 2, 6), ac y mae ei phreswilydd, Hywel, yn noddwr digroeso, crintachlyd, sy'n byw mewn hofel diarffordd.

Englyn proest estynedig o chwe llinell yw'r mesur,⁴ a defnyddir y gynganedd sain yn bennaf (y mae ll. 4, lle y ceir cynghanedd groes, yn bengoll).

Y llawysgrif gynharaf sy'n cynnwys cerdd Tudur Ddall yw Llyfr Coch Hergest, a gopiwyd tua 1400. Perthyn y llawysgrifau eraill sy'n ei chynnwys i'r cyfnod o'r unfed ganrif ar bymtheg ymlaen ac fe'u rhestrir isod.

¹ Fe'i cyhoeddwyd yn Bl B XIV 154 (cerdd 72).

² Yn yr adran ar awduron Brytaneg ac adeg eu blodeuo yn D, rhoddir 1390 ar ei gyfer.

³ Gw., e.e., GLIBH cerdd 6.

⁴ Gw. J. Morris-Jones: CD 326–7.

Dychan i neuadd Hywel

4 Neuadd Hywel hygel hegl,
 Newydd-ddrwg: neud mwg a'i meigl,
 Ys dôr gaead, nid rhad rhugl,
 Os derw, ys diriaid na sigl,
 Ys oerffyrch anhygyrch hogl,
 Ys dêl drwy nen ei phen fflag!

Ffynonellau

A—BL Add 15001, 100^v B—Card 4.140, 688 C—J 111, 1358 D—LIGC 1553A, 550 E—Llst 133, 300^v [rhif 879] F—Llst 137, 350 G—Pen 111, 361

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif C, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl llawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 209–10.)

Darlleniadau'r llawysgrif

2 nyt.

Teitl / Rhaglith

Tudur dall ae cant.

Dychan i neuadd Hywel

4 Neuadd Hywel cuddiedig ei goes[au],
 [Dyma] ddrwg newydd: y mae mwg yn ei brychu,
 Caeddig ei drws ydyw, nid oes radlonrwydd rhwydd [ynddi],
 Os derw [ydyw], y mae'n anffodus na sigla,
 Llanastr o dŷ anhygyrch [a] diflas ei ffyrc ydyw,
 Deued fflam drwy frig ei phen!

Nodiadau

20

- 1 **hygel hegl** O gymryd *hegl* ‘coes’ yn gydgymeriad am Hywel, gellid awgrymu mai ystyr y cyfuniad yw ‘prin ei bresenoldeb’. Yr ergyd, felly, yw nad yw Hywel yn ymddangos yn aml i groesawu beirdd i’w dŷ. Gellid, er hynny, ddeall *hegl* i olygu ‘coes o gig’ (h.y. nad yw Hywel yn hoffi rhannu ei fwyd).
- 2 **neud** Llsgr. *nyt*, ond derbynnir diwygiad Bl B XIV 154 (cerdd 72) er mwyn y synnwyr.
- 5 **oerffyrch** Ffordd arall o ddweud ‘pryd o fwyd diflas’.
- 6 **ys** Geiryn rhagferfol yn rhagflaenu bf. yn y modd dib. i fynegi dymuniad, gw. GMW 173.

Mynegai

caead 3
drwg 4
hegl 1n
hogl 5
hygel 1n
maglu: meigl 2
nen 6n

neud 2n
newydd-ddrwg 2
oerffyrch 5n
pen 6n
rhad 3
ys 6n

Enw person

Hywel 1

Llawysgrifau

Llawysgrifau Ychwanegol yn y Llyfrgell Brydeinig

BL Add 14970: Edward Williams ‘Iolo Morganwg’, 1800–1, gw. CAMBM 1844, 48–9.

BL Add 15001: John Walters, cyn 1792, gw. *ib.* 61–2.

BL Add 15004: Evan Evans ‘Ieuan Fardd’, 18g., gw. *ib.* 63.

Llawysgrif yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd

Card 4.140: Edward Davies, 1792, gw. Graham C.G. Thomas and D. Huws, *Summary Catalogue of the Manuscripts ... commonly referred to as the “Cardiff MSS”* (Aberystwyth, 1994), 332.

Llawysgrifau yng nghasgliad Coleg Iesu, Rhydychen

J 88 [= RWM 18]: llaw anh., 18g., gw. RWM ii, 86–90.

J 111, ‘Llyfr Coch Hergest’ [= RWM 1]: Hywel Fychan (1303–5, 1358, 1362–3, 1373–4), llaw Peniarth 32 (1330, 1359–1361b, 1375–9, 1415–16), *c.* 1400, a llaw math Llaw 1 (1311), a ddyddir *c.* 1475–1500, gw. *ib.* 1–29; G. Charles-Edwards, ‘The Scribes of the Red Book of Hergest’, *Cylchgr LIGC* xxi (1979–80), 246–56.

Llawysgrifau yng nghasgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

LIGC 1553A: Thomas Evans, Hendreforfudd, 1600–16, gw. HMNLW i, 128–9.

LIGC 2002C [= Pant 33]: Evan Evans ‘Ieuan Fardd’, *c.* 1760, gw. RWM ii, 841–2.

LIGC 4973B: John Davies, Mallwyd, *c.* 1631, gw. HMNLW ii, 59.

LIGC 5474A [=Aberdâr 1]: Benjamin Simon, Abergwili, 1745–51, gw. RWM ii, 395–408, HMNLW ii, 104, GP xv.

LIGC 21287B [= Iolo Aneurin Williams 1]: Evan Evans ‘Ieuan Fardd’, 18g., gw. Rh.F. Roberts, ‘A List of Manuscripts from the Collection of Iolo Morganwg among the Family Papers Presented by Mr. Iolo Aneurin Williams and Miss H. Ursula Williams, 1953–4’ (cyfrol anghyhoeddedig, *Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 1978), 1.

Llawysgrifau yng nghasgliad Llansteffan yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

Llst 133: Samuel Williams, yn gynnar yn y 18g., gw. RWM ii, 664–94; G.H. Hughes, *Iaco ab Dewi 1648–1742* (Caerdydd, 1953), 37–40.

Llst 137: D. Parry, c. 1640, gw. RWM ii, 718–9.

Llst 145: Samuel Williams, yn gynnar yn y 18g., gw. *ib.* 721–5; G.H. Hughes, *op. cit.* 22, 53.

Llst 147: David Parry, c. 1700, gw. RWM ii, 726, GP xv.

Llawysgrifau yng nghasgliad Peniarth yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

Pen 86: Simwnt Fychan, ail hanner yr 16g., gw. RWM i, 550–6; E.J. Jones, ‘Martial’s Epigram on the Happy life: Simwnt Vychan’s Translation’, B iii (1926–7), 290.

Pen 111: John Jones, Gellilyfdy, ar ôl 1610, gw. *ib.* 664–71; Nesta Lloyd, ‘A History of Welsh Scholarship in the First Half of the Seventeenth Century, with Special Reference to the Writings of John Jones, Gellilyfdy’ (D.Phil. Oxford, 1970), 10–25.

Pen 118: Siôn Dafydd Rhys a’i gynorthwywyr, c. 1600, gw. RWM i, 718–25.

Mynegai i'r llinellau cyntaf

Td.

Arglwyddiaidd, traidd trwydded—beirdd Cymry.....	19
Bwch llwch trwch, cimwch troch cymell—gwartheg.....	49
Ceredigion walch balch bylchron	13
Crist Crair, un Mab Mair, mawr ryfeddod.....	166
Cystuddffull bawddull, baddwm—y pechod	47
Dafydd y Coed hoed hydrsant.....	51
Digabl ŵr y dwg ei blaid.....	125
Duw a'm rho dyall call rhag cellwair	170
Duw diadnair, Mair, mae'r cynghorau.....	163
Gwnaf drwy nod anghlod â'm englyn—yn farw	42
Hawddfyd i'm pôr parod foliant!.....	107
Hoywlyw ryw ras, rysedd Edlym.....	145
Mab Ieuan Llwyd, eirian llew dewredd	9
Mynog gwaredog y gwiw radau	34
Neuadd Hywel hygel hegl.....	203
Neu'r aeth, neud hiraethog bun.....	191
Rhaeadr oergri cadr ar grwcedau—bach.....	45
Rhy fychan, Grist loywlan lyw	40
Sugnsur yd dibur, tebig—i gyffaith	193
Trindawd gwawd gwalch, 'y Ngharw trafalch, 'y Nghartrefiawdr.....	30

Mynegai i'r noddwyr a'r gwrthrychau

	<i>Cerdd</i>
Crist.....	6
Dafydd ap Rhys ab Ieuan.....	7
Duw	5
Dafydd, ŵyr Meurig, a Maredudd	17
Griffri.....	16
Gruffudd ap Llywelyn ab Ieuan o Forfa Bychan.....	2
Hopgyn ap Tomas ab Einion o Ynysforan.....	3, 12, 13
Llanymddyfri a Chadwgan	11
Lleidr.....	10, 15
Maredudd.....	17
Neuadd Hywel	20
Pla	18
Rhaeadr Gwy	8
Rhydderch ab Ieuan Llwyd o Lyn Aeron.....	1
Siac ap Twm ap Cedi	9
Tomas ap Hopgyn.....	14
Y Drindod Fendigaid	4
Ymborth gwael	19

